

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 28/01/2014

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)  
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)  
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus](#)  
[Statement: Progress on Improving Public Procurement](#)

[Datganiad: Adolygiad Annibynnol o Gydnerthedd Ffermio](#)  
[Statement: Independent Review into the Resilience of Farming](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisi Trafnidiaeth](#)  
[Statement: Update on Transport Policy](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Newid y Drefn y Caiff Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) eu Trafod](#)  
[Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Social Services and Well-being \(Wales\) Bill](#)

[Adroddiad y Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#)  
[The Report of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**  
**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

**Statement by the Presiding Officer** [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The first item this afternoon will be questions to the First Minister, but before that, First Minister, I am sorry, it gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the following Bills were given Royal Assent on 27 January: the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill; the National Health Service Finance (Wales) Bill, and the Control of Horses (Wales) Bill.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma fydd cwestiynau i'r Prif Weinidog, ond cyn hynny, Brif Weinidog, mae'n ddrwg gennyf, mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod y Biliau canlynol wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr: y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), a Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

**Fformiwla Barnett**

**Barnett Formula**

13:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd trafodaethau i ddiwygio'r fformiwla Barnett?  
OAQ(4)1445(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the progress of discussions about reforming the Barnett formula?  
OAQ(4)1445(FM)

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

Rydym wedi cytuno ar broses gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd â'r nod o fynd i'r afael â bygythiad cydgyfeirio o ran ein lefelau cyllid perthynol. Fodd bynnag, diwygio Barnett yn llawn yw fy nharged hirdymor o hyd.

We have agreed a process with the UK Government that aims to address the threat of convergence in our relative funding levels. However, full Barnett reform remains my long-term goal.

13:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

Mae Plaid Cymru wedi dadlau ers dechrau'r Cynulliad wrth gwrs bod angen fformiwla decach i ariannu Cymru, ac yn ddiweddar, rydych chi, fel rydych newydd ddweud, wedi bod yn dadlau'r un peth, yn wir, yn ei wneud yn amod cyn derbyn pwerau ar dreth incwm. Gwnaeth y Blaid Lafur ddim byd pan oedd mewn Llywodraeth y tro diwethaf. A ydych mewn sefyllfa i ddweud wrthym a fydd Lafur, os bydd yn dod i rym yn San Steffan ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf, yn ymrwymo i ddiwygio Barnett yn sylfaenol, neu a ydych yn cytuno efo Owen Smith nad oes dim llawer o'i le ar y fformiwla?

Plaid Cymru has argued since the establishment of the Assembly that we need a fairer formula to fund Wales. Recently, as you have just said, you have been arguing the same case and, indeed, making it a condition before taking income-tax powers. The Labour Party did nothing when it was in Government the last time. Are you in a position to tell us whether Labour, if it does come to power in Westminster following the next general election, will commit to fundamental reform of the Barnett formula, or do you agree with Owen Smith that there is not much wrong with the formula?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn credu mai dyna beth oedd geiriau Owen Smith. Mae'r mater o gyllido teg yn rhywbeth rydym ni fel plaid yn dadlau ar hyn o bryd er mwyn dod i sefyllfa yn y maniffesto lle bydd ffordd ymlaen, ond byddai'n help, wrth gwrs, pe baech yn gallu perswadio eich chwaer blaid yn yr Alban i beidio bod yn erbyn unrhyw fath o newidiadau ynglŷn â Barnett.

I do not think that those were the words of Owen Smith. The issue of fair funding is something that we as a party are debating at present in order to get to a manifesto position where there will be a way forward. Of course, it would be a help if you could persuade your sister party in Scotland not to oppose any changes to Barnett.

13:32 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae Gerry Holtham wedi ei gwneud yn glir yn y gorffennol efallai y bydd yn rhaid addasu y ffordd y mae'r Alban yn cael ei chyllido yn gyntaf, cyn diwygio'r fformiwla yn gyfan gwbl. A ydych yn derbyn hyn, a pha drafodaethau a ydych chi wedi'u cael gyda Alex Salmond ar y mater yma?

First Minister, Gerry Holtham has made it clear in the past that perhaps we will have to change the way that Scotland is funded before reforming the formula in its entirety. Do you accept this and what discussions have you had with Alex Salmond on this issue?

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

Dim un, achos barn Alex Salmond yw na ddylai'r Alban fod yn rhan o Barnett beth bynnag achos mae e eisiau gweld yr Alban yn annibynnol, felly nid yw hynny yn rhywbeth y bydd e'n awyddus i'w ddadlau gyda fi na neb arall ar hyn o bryd. Beth sy'n bwysig yw bod y sefyllfa ynglŷn â chyllid i bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael ei datrys, unwaith y bydd y refferendwm wedi mynd drwyddo yn yr Alban a bod canlyniad yn yr Alban, achos mae'n wir i ddweud na all fformiwla Barnett barhau am ragor o flynyddoedd.

Not one, because Alex Salmond's view is that Scotland should not be part of Barnett anyway, because he seeks an independent Scotland. So, that is not something that he has been eager to debate at present with me or anyone else. What is important is that the situation in terms of funding for all parts of the UK is resolved, once the referendum has taken place in Scotland and we have a result in Scotland, because it is true to say that the Barnett formula cannot continue any longer.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

13:33 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister* [Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau techedd meddwl ym Mhowys?  
OAQ(4)1452(FM)

2. Will the First Minister make a statement regarding the provision of mental health services in Powys?  
OAQ(4)1452(FM)

- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I am aware that Powys Teaching Local Health Board works with neighbouring local health boards to deliver high-quality mental health services for its population.
- 13:33 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I meet regularly with the Montgomeryshire GP cluster group to discuss issues of mutual concern and a recurring issue that keeps emerging is the poor level of mental health services that patients in north Powys are receiving from Betsi Cadwaladr University Local Health Board. At the meeting just before Christmas, one GP gave me two examples of appalling incidents that had occurred that were very unacceptable. GPs certainly feel that patients are still being put at risk due to the referral and administration process not working, as they see it. Would you be prepared to look at this issue in greater detail and provide these GPs with a reassurance that the Government will not tolerate this level of service?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I can inform the Member that we are aware of this. The NHS delivery unit is undertaking a review, which will be completed next month. I am aware that the health board has arrangements in place to cover out-of-hours provision and is working to strengthen those arrangements. The review currently being undertaken covers a number of areas, including the service pathway, operational working methods and the controls to support effective delivery. I know that Powys teaching health board and Betsi Cadwaladr health board are working with the delivery unit to implement any actions that are required as the review progresses.
- 13:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Mae nifer yn credu, ac rwy'n digwydd cytuno â nhw, bod gofaliadau iechyd yn y canolbarth wedi gwanhau ers cau ward Afallon yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, ac nad oedd digon o baratoi wedi digwydd ar gyfer gofaliadau yn y gymuned yn siŵr hynny. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, gyda'r Gweinidog, o dan gadeiryddiaeth Marcus Longley. Rwyf newydd gael yr amcanion drafft ar gyfer yr adolygiad hwnnw, ac nid ydynt yn sôn am ofaliadau iechyd yn benodol. Rwy'n mynd i ysgrifennu yn ôl a dweud, 'Gwnewch yn siŵr bod gofaliadau iechyd meddwl yn cael ei ystyried yn hwn'. A wnewch chi gefnogi fy nghais i yn y cyd-destun hwnnw?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Rwy'n barod i dderbyn unrhyw gais sy'n dod gan yr Aelod, ac fe wnaif ystyried y cais hwnnw'n fanwl iawn.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ymwybodol bod Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol cyfagos i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd uchel ar gyfer ei boblogaeth.

Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â grŵp clwstwr meddygon teulu Sir Drefaldwyn i drafod materion o bryder i'r ddwy ochr ac un mater sy'n dal i ddod i'r amlwg dro ar ôl tro yw'r lefel gwael o wasanaethau iechyd meddwl y mae cleifion yng ngogledd Powys yn ei dderbyn gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn y cyfarfod ychydig cyn y Nadolig, rhoddodd un meddyg teulu ddwy enghraifft i mi o ddiwyddiadau echrudus a oedd wedi digwydd a oedd yn annerbyniol iawn. Mae meddygon teulu yn sicr yn teimlo bod cleifion yn dal i gael eu rhoi mewn perygl oherwydd nad yw'r broses atgyfeirio a gweinyddu ddim yn gweithio, fel y maent hwy yn ei gweld hi. A fydddech chi'n barod i edrych ar y mater hwn yn fanylach a rhoi sicrwydd i'r meddygon teulu hyn na fydd y Llywodraeth yn goddef y lefel hwn o wasanaeth?

Gallaf hysbysu'r Aelod ein bod yn ymwybodol o hyn. Mae uned gyflawni'r GIG yn cynnal adolygiad, a fydd yn cael ei gwblhau y mis nesaf. Rwy'n ymwybodol bod gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith ar gyfer darpariaeth y tu allan i oriau arferol ac mae'n gweithio i gryfhau'r trefniadau hynny. Mae'r adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys y llwybr gwasanaeth, dulliau gweithio gweithredol a dulliau rheoli i gefnogi darpariaeth effeithiol. Gwn fod bwrdd addysgu iechyd Powys a bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn gweithio gyda'r uned gyflawni i weithredu unrhyw gamau sydd eu hangen wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen.

Many believe, and I happen to agree with them, that healthcare in mid Wales has weakened since the closure of the Afallon ward in Bronglais General Hospital, and that not enough preparation was made for care in the community in the light of that. A review is currently being conducted by the Minister, chaired by Marcus Longley. I have just received the draft objectives for that review and they do not mention healthcare particularly. I will be writing back and saying, 'Do ensure that mental health services are taken into account in this'. Will you support my bid in that regard?

I am willing to accept any request from the Member, and I will consider that in great detail.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

- 13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the Leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.
- Symudwn yn awr i gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.
- 13:36 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- First Minister, education is in the spotlight again today, with the latest Estyn report. One area that is highlighted in that report is the lack of national support to develop leaders in our schools. Do you accept that you have failed to provide adequate national leadership?
- Brif Weinidog, mae addysg yn cael cryn sylw eto heddiw, oherwydd yr adroddiad Estyn diweddaraf. Un maes a amlygir yn yr adroddiad hwnnw yw'r diffyg cefnogaeth genedlaethol i ddatblygu arweinwyr yn ein hysgolion. A ydych chi'n derbyn eich bod wedi methu â darparu arweinyddiaeth genedlaethol ddigonol?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- If you look at the report itself, it is true to say that it is not the sort of report that we would all want to see, but, nevertheless, it is true to say that there are parts of the report that we can take some heart from. For example, Ann Keane, talking to BBC Wales, said that she would hope that, because of the introduction of several Welsh Government initiatives, there will be a trend of improvement in the future. We have seen that more accountability has been introduced, and, of course, she welcomed the literacy and numeracy framework. What I think has not been there as it should have been is accountability; that accountability has been strengthened, and, for example, the school improvement plans will help that.
- Os byddwch chi'n edrych ar yr adroddiad ei hun, mae'n wir i ddweud nad dyma'r math o adroddiad y byddem i gyd yn dymuno ei weld, ond, serch hynny, mae'n wir dweud bod rhannau o'r adroddiad y gallwn gael calondid ohonynt. Er enghraifft, dywedodd Ann Keane, wrth siarad â BBC Cymru, y byddai'n gobeithio, oherwydd cyflwyno nifer o fentrau Llywodraeth Cymru, y bydd tuedd o welliant yn y dyfodol. Rydym wedi gweld bod mwy o atebolrwydd wedi ei gyflwyno, ac, wrth gwrs, roedd hi'n croesawu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Yr hyn nad yw wedi bod yno fel y dylai fod yw atebolrwydd yn fy marn i; mae'r atebolrwydd hwnnw wedi cael ei gryfhau, ac, er enghraifft, bydd y cynlluniau gwella ysgol yn helpu hynny.
- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, it has been over a month now since the publication of the Programme for International Student Assessment results, and I am sure that you have taken time to reflect. You were on record acknowledging that you have taken your eye off the ball. As you seem reluctant to accept that there has been a lack of national leadership, can you tell me whether you can put your finger on exactly what has gone wrong in education in this country?
- Brif Weinidog, mae wedi bod dros fis bellach ers cyhoeddi'r Rhaglen ar gyfer canlyniadau Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol, ac rwy'n siŵr eich bod wedi cymryd amser i fyfrio. Roeddech chi ar gof a chadw yn cydnabod eich bod wedi tynnu eich llygad oddi ar y bêl. Gan eich bod yn ymddangos yn amharod i dderbyn y bu diffyg arweinyddiaeth genedlaethol, a allwch chi ddweud wrthyf a oes modd i chi roi eich bys ar yr union beth sydd wedi mynd o chwith mewn addysg yn y wlad hon?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- That is a fair question. I think that the answer is that there has been a blurring of the lines of accountability, in terms of leadership in schools and in terms of leadership in local education authorities. We as a Government, of course, have to accept that it is important that there is a clear way forward in the future, and I believe that there is. If you look at what has been announced by the previous Minister for education and the current Minister for education, you will see that there is a clear way forward in terms of schools in Wales, in order to see the improvements that we would all want to see. This has been evidenced, for example, by the closing of the gap between Wales and England with regard to GCSEs, and that is a gap that I expect to close further in the future.
- Mae hwnna'n gwestiwn teg. Rwy'n credu mai'r ateb yw y bu amwysedd o ran y llinellau o atebolrwydd, o ran arweinyddiaeth mewn ysgolion ac o ran arweinyddiaeth mewn awdurdodau addysg lleol. Rydym ni fel Llywodraeth, wrth gwrs, yn gorfod derbyn ei bod yn bwysig bod ffordd glir ymlaen yn y dyfodol, ac rwy'n credu bod. Os byddwch chi'n edrych ar yr hyn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog addysg blaenorol a'r Gweinidog addysg presennol, byddwch yn gweld bod ffordd glir ymlaen o ran ysgolion yng Nghymru, er mwyn gweld y gwelliannau y byddem i gyd yn awyddus i'w gweld. Mae hyn wedi ei amlygu, er enghraifft, drwy gau'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr o ran TGAU, ac mae hwnnw'n fwllch yr wyf yn disgwyl iddo gau ymhellach yn y dyfodol.

13:38

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You appear not to take any responsibility, First Minister, for the failings in the education system to date. I am sure that you will be aware of the scathing comments from the Labour MP for Islwyn yesterday, who said that he is frustrated that the Welsh Government is not addressing real bread-and-butter issues like education, which are concerning people day to day. Given these internal difficulties for you, First Minister, are you coming round to the view that a reduction in the number of Welsh MPs might not be a bad idea after all? [Laughter.]

Rydych yn ymddangos i beidio â chymryd unrhyw gyfrifoldeb, Brif Weinidog, am y methiannau yn y system addysg hyd yma. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r sylwadau deifiol gan yr AS Llafur dros Islwyn ddoe, a ddywedodd ei fod yn rhwystredig nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â materion bara menyn gwirioneddol fel addysg, sy'n peri pryder i bobl o ddydd i ddydd. O ystyried yr anawsterau mewnol hyn i chi, Brif Weinidog, a ydych chi'n dechrau derbyn y farn na fyddai gostyngiad yn nifer ASau Cymru yn syniad gwael wedi'r cyfan? [Chwerthin.]

13:38

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that the two things are unrelated. She does not always listen to my answers, but I did make it very clear that we as a Government do take some responsibility—of course we do; I said that in answer to her second question, which she seems not to have heard. Nevertheless, it is important that responsibility is taken by local education authorities, and, indeed, by teachers themselves, who, at the end of the day, are the ones delivering the service—this has to be a joint venture, as it were. In terms of what is said outside of this Chamber, we are very much focused, of course, on education, and that will continue. That is why we made the pledge to seek to protect schools spending, as we have done, and that is why we have invested over the last decade in more than 140 new schools or improvements to schools. I was in school in the 1980s, and in the 1980s, the Government of the day could not even build a shed.

Does dim cysylltiad rhwng y ddau beth yn fy marn i. Nid yw hi bob amser yn gwrando ar fy atebion, ond fe ddywedais yn glir iawn ein bod ni fel Llywodraeth yn cymryd peth cyfrifoldeb—wrth gwrs ein bod; dywedais hynny wrth ateb ei hail gwestiwn, mae'n ymddangos na chlywodd hi hynny. Serch hynny, mae'n bwysig bod y cyfrifoldeb yn cael ei gymryd gan awdurdodau addysg lleol, ac, yn wir, gan athrawon eu hunain, sef, yn y pen draw, y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth—mae'n rhaid i hyn fod yn fenter ar y cyd, fel petai. O ran yr hyn a ddywedir y tu allan i'r Siambr hon, rydym yn canolbwyntio yn fanwl iawn, wrth gwrs, ar addysg, a bydd hynny'n parhau. Dyna pam y gwnaethom yr addewid i geisio diogelu gwariant ysgolion, fel yr ydym wedi'i wneud, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi dros y degawd diwethaf mewn mwy na 140 o ysgolion newydd neu welliannau i ysgolion. Roeddwn i yn yr ysgol yn y 1980au, ac yn y 1980au, ni allai Llywodraeth dydd hyd yn oed yn adeiladu sied.

13:39

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn yn awr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:39

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I am sure that you will want to welcome the excellent news that was announced in terms of the growth figures for the United Kingdom today, as well as the employment figures that were announced last week, which showed that, in the last three months of last year, 280,000 jobs were made across the United Kingdom, of which 220,000 were full time and 60,000 were part time. We have spent the last two or two and half years with you and your Labour colleagues prophesying a double dip or a triple dip and claiming that the economic policies of the UK Government are wrong. I am sure that, today, you would like to use the opportunity of First Minister's questions to congratulate the Chancellor on such a record of economic stability and economic recovery.

Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn awyddus i groesawu'r newyddion rhagorol a gyhoeddwyd o ran y ffigurau twf ar gyfer y Deyrnas Unedig heddiw, yn ogystal â'r ffigurau cyflogaeth a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, a oedd yn dangos, yn nhri mis diwethaf y llynedd, bod 280,000 o swyddi wedi eu creu ar draws y Deyrnas Unedig, gyda 220,000 yn llawn amser a 60,000 yn rhan-amser. Rydym wedi treulio'r ddwy flynedd neu'r ddwy flynedd a hanner ddiwethaf gyda chi a'ch cydweithwyr Llafur yn proffwydo dirwasgiad dwbl neu ddirwasgiad triphlyg ac yn honni bod polisiau economaidd Llywodraeth y DU yn anghywir. Rwy'n siŵr, heddiw, y byddech yn hoffi defnyddio'r cyfle a roddir gan y sesiwn cwestiynau i'r Prif Weinidog i longyfarch y Canghellor ar hanes o sefydlogrwydd economaidd ac adferiad economaidd o'r fath.

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course I welcome the figures. Who could not? However, we are just back where we were some three or four years ago, so I do not think that it is a question yet of saying that this is a wonderful step forward that will be sustained, although, of course, I welcome the figures. I am sure that he will be more than happy then to congratulate the Welsh Government on the fact that the Welsh economy has done better than the UK average as a direct result of what we have done here in Wales.

Wrth gwrs fy mod i'n croesawu'r ffigurau. Pwy na allai? Fodd bynnag, nid ydym ond yn ôl lle'r oeddem rhyw dair neu bedair blynedd yn ôl, felly nid wyf yn credu ei fod yn gwestiwn eto o ddweud bod hwn yn gam gwyach ymlaen a fydd yn cael ei gynnal, er, wrth gwrs, fy mod yn croesawu'r ffigurau. Rwy'n siŵr y bydd ef yn fwy na hapus felly i longyfarch Llywodraeth Cymru ar y ffaith fod economi Cymru wedi gwneud yn well na chyfartaledd y DU o ganlyniad uniongyrchol i'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud yma yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it is always the same, is it not? You want to detract from the really good news of what is happening in the overall economy. However, sadly, Wales is lagging behind the rest of the UK in its economic performance. However, let us look at what is in your competence and what you were charged with delivering. As we heard earlier, the Estyn report today—it is a shame that the Minister for education is not with us today to hear Members' comments—is a damning indictment of 14 years of Labour failure in education. What we have is the number of secondary schools in the 'unsatisfactory' category going up from 14% to 23%. The 'excellent' schools remain a small minority. Two thirds of secondary schools and half of primary schools are in need of follow-up inspections. You started your term in the fourth Assembly as a Government that was about delivery. Will you join your Minister for education in apologising for Labour's lack of delivery in education, which is exemplified by this report today from Estyn?

Brif Weinidog, mae bob amser yr un fath, onid yw? Rydych chi eisiau tynnu oddi wrth y newyddion da iawn am yr hyn sy'n digwydd yn yr economi yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn anffodus, mae Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU o ran ei pherfformiad economaidd. Er hynny, gadewch inni edrych ar beth sydd yn eich cymhwysedd a'r hyn y rhoddwyd cyfrifoldeb i chi i'w gyflawni. Fel y clywsom yn gynharach, mae adroddiad Estyn heddiw—mae'n drueni nad oedd y Gweinidog addysg gyda ni heddiw i glywed sylwadau Aelodau—yn gyhuddiad damniol o 14 mlynedd o fethiant Llafur mewn addysg. Yr hyn sydd gennym yw nifer yr ysgolion uwchradd yn y categori 'anfodddhaol' yn cynyddu o 14% i 23%. Mae'r ysgolion 'rhagorol' yn parhau i fod yn lleiafrif bychan. Mae dwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd a hanner yr ysgolion cynradd angen arolygiadau dilynol. Dechreuasoch eich tymor yn y pedwerydd Cynulliad fel Llywodraeth a oedd yn ymwneud â chyflawni. A wnewch chi ymuno â'ch Gweinidog addysg drwy ymddiheuro am ddifffyg cyflawni Llafur mewn addysg, sy'n cael ei amlygu drwy'r adroddiad hwn heddiw gan Estyn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let us talk about the economy, shall we, and the UK unemployment average? If we look at youth unemployment for those aged between 18 and 24, we see that we are well below the UK average. If we look at the construction industry, we see that we are well above the UK employment average. If we look at the number of people in work in Wales, we see that it is at a historic high. If we look at the level of economic inactivity, we see that it is much lower, having dropped at a faster rate, than in the rest of the UK. This idea that we are at the bottom of everything is, quite simply, factually wrong. The reality is that our unemployment rate is not the highest in Britain; in fact, it has come down faster than anywhere else. The success of Jobs Growth Wales illustrates how well we have done in terms of youth unemployment. His story that, somehow, Wales is doing badly is clearly wrong. There has been a nearly 200% increase in foreign direct investment in the course of one year. All these things are conveniently forgotten.

Gadewch i ni siarad am yr economi, ie, a'r cyfartaledd diweithdra yn y DU? Os ydym yn edrych ar ddiweithdra ieuencid ar gyfer y rhai rhwng 18 a 24 oed, gwelwn ein bod yn llawer is na chyfartaledd y DU. Os byddwn yn edrych ar y diwydiant adeiladu, rydym yn gweld ein bod yn llawer uwch na chyfartaledd cyflogaeth y DU. Os byddwn yn edrych ar y nifer o bobl mewn gwaith yng Nghymru, gwelwn ei bod ar y pwynt uchaf yn hanesyddol. Os edrychwn ar y lefel o anweithgarwch economaidd, rydym yn gweld ei fod yn llawer is, ar ôl gostwng ar gyfradd gyflymach nag yng ngweddill y DU. Mae'r syniad hwn ein bod ar waelod popeth, yn syml, yn ffeithiol anghywir. Y gwirionedd yw nad yw ein cyfradd diweithdra yr uchaf ym Mhrydain, mewn gwirionedd, mae wedi gostwng yn gyflymach nag yn unrhyw le arall. Mae llwyddiant Twf Swyddi Cymru yn dangos pa mor dda yr ydym wedi llwyddo o ran diweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae ei stori ef, bod Cymru, rywsut, yn gwneud yn wael yn amlwg yn anghywir. Bu cynnydd o bron i 200% mewn buddsoddiad uniongyrchol tramor yn ystod un flwyddyn. Mae'r holl bethau hyn yn cael eu hanghofio yn gyfleus.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Let us talk about education. Yes, there are, of course, issues that need to be resolved as part of this report. We recognise that. However, his position would be stronger, I believe, if it was not for the fact that he wants to cut education spending by 12.5%. His position would be stronger in terms of accountability if he did not want to make every school in Wales a free school. His position would be better if he did not want to create a situation where schools had to commission their own transport, their own school meals, their own special services and their own human resources department, no doubt, to pay teachers, and have no accountability at all to either their local communities or any elected bodies. His position would be stronger if that were not the case. We look at what happens across the border in England where there is endless meddling. There is a serial meddler in charge of education and what appears to be a department that is keen to brief against its own inspectorate. I think that the situation is that, yes, we have much to do in Wales, that much is true, but we take no lessons from his party in England.

Gadewch i ni siarad am addysg. Oes, wrth gwrs, mae materion y mae angen eu datrys yn rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, byddai ei sefyllfa yn gryfach, yn fy marn i, heblaw am y ffaith ei fod eisiau torri 12.5% ar wariant ar addysg. Byddai ei sefyllfa yn gryfach o ran atebolrwydd pe na fyddai eisiau gwneud pob ysgol yng Nghymru yn ysgol rad. Byddai ei sefyllfa yn well pe na byddai eisiau creu sefyllfa a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid i ysgolion gomisiynu eu cludiant eu hunain, eu prydau ysgol eu hunain, eu gwasanaethau arbennig eu hunain a'u hadran adnoddau dynol ei hunain, yn ddiau, i dalu athrawon, a heb unrhyw atebolrwydd naill ai i'w cymunedau lleol nac unrhyw gyrrff etholedig. Byddai ei sefyllfa yn gryfach pe na byddai hynny'n wir. Rydym yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar draws y ffin yn Lloegr lle y ceir ymyrraeth ddiddiwedd. Mae ymyrrwr parhaus yn gyfrifol am addysg a'r hyn sy'n ymddangos i fod yn adran sy'n awyddus i frifio yn erbyn ei arolygiaeth ei hun. Rwy'n meddwl mai'r sefyllfa yw, oes, mae gennym lawer i'w wneud yng Nghymru, mae hynny'n wir, ond nid ydym yn cymryd unrhyw wersi gan ei blaid ef yn Lloegr.

13:43

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope that on Saturday the Welsh team is as good at dodging the bullet and getting over the try line as you are at avoiding questions, First Minister. If you want to look at England and at what the Minister for education has done in England: he has lifted 250,000 pupils out of poorly performing schools and, above all, he has lifted them to get better grades in the English education system. However, the point that I made to you was about the Estyn inspection report, which was about your education system and the education system that your Government is responsible for running here in Wales. The damning indictment in this report and the previous report, which came out last year, was the lack of leadership and direction that was offered to the Welsh education system. I think that it is a crying shame that you were not prepared to apologise for the mistakes that were made and map out a bright future for Welsh education. The people who are watching this meeting today will have seen the emptiness that you are offering Welsh education, First Minister.

Rwy'n gobeithio y bydd tîm Cymru ddydd Sadwrn cystal am osgoi'r fwled a chroesi'r llinell gais ag yr ydych chi am osgoi cwestiynau, Brif Weinidog. Os ydych eisiau edrych ar Loegr ac ar yr hyn y mae'r Gweinidog dros addysg wedi ei wneud yn Lloegr: mae wedi codi 250,000 o ddisgyblion allan o ysgolion sy'n perfformio'n wael ac, yn anad dim, mae wedi eu codi i gael graddau gwell yn system addysg Lloegr. Fodd bynnag, roedd y pwynt a wnes i chi yn ymwneud ag adroddiad arolygu Estyn, a oedd am eich system addysg chi a'r system addysg y mae eich Llywodraeth yn gyfrifol am ei rhedeg yma yng Nghymru. Y cyhuddiad damniol yn yr adroddiad hwn a'r adroddiad blaenorol, a ddaeth allan y llynedd, oedd y diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad a gynigid i system addysg Cymru. Rwy'n meddwl ei bod yn drueni nad oeddech yn barod i ymddiheuro am y camgymeriadau a wnaethpwyd a mapio dyfodol disglair ar gyfer addysg yng Nghymru. Bydd y bobl sy'n gwyllo'r cyfarfod hwn heddiw wedi gweld y gwacter yr ydych yn ei gynnig i addysg Cymru, Brif Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can promise the leader of the opposition that I do not expect to see any bullets fired on Saturday on the pitch. He is the master of the mixed metaphor, as we know. Last week was a prime example of that. Nevertheless, he has done it again. The Estyn report illustrates that there are areas where there needs to be improvement. However, it also illustrates areas where that improvement is coming. He mentions England. How many schools have been built in England? The first thing that the Government did there was to stop the school-building programme. That was the first thing that it did. When I was in school in the 1980s—as someone who went to a comprehensive school, and whose children are now in a comprehensive school, I can tell you that nothing was invested in schools in Wales in the 1980s. Absolutely nothing. I sat in classrooms with broken windows, and I sat in classrooms with ivy growing up the inside of the walls, because the Government that ran the country—his party at that time—spent absolutely no money on them at all. Why? It was because they did not have children in the comprehensive system. That was the reason for it.

Yes, we will learn lessons from this report. That much is true. However, we are, at least, not in a situation where money is being diverted away from building new schools in order to pay for the free schools policy. That is what has happened in England. That is where the money went. Money was taken away from the most needy to pay for the few. That is what the Government did. If we look at England, we also see a situation where we have the inspectorate and the department at war with each other. That is what we see in England. We also see a Secretary of State who cannot help but meddle on a weekly basis in the curriculum. Accountability is important. We will move forward in Wales as we see the shambles being generated in England.

Gallaf addo i arweinydd yr wrthblaid nad wyf yn disgwyl gweld unrhyw fwedi'n cael eu tanio ddydd Sadwrn ar y cae. Ef yw meistr y trosiad cymysg, fel y gwyddom. Roedd yr wythnos diwethaf yn enghraifft amlwg o hynny. Er hynny, mae wedi gwneud hynny eto. Mae adroddiad Estyn yn dangos bod meysydd lle mae angen gwelliant. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos meysydd lle mae'r gwelliant hwnnw'n dod. Mae'n sôn am Loegr. Faint o ysgolion sydd wedi eu hadeiladu yn Lloegr? Y peth cyntaf a wnaeth y Llywodraeth yno oedd atal y rhaglen adeiladu ysgolion. Dyna oedd y peth cyntaf a wnaeth. Pan oeddwn i yn yr ysgol yn y 1980au—fel rhywun a aeth i ysgol gyfun, ac y mae ei blant mewn ysgol gyfun ar hyn o bryd, gallaf ddweud wrthyhych na chafodd dim ei fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghymru yn y 1980au. Dim byd o gwbl. Eisteddais mewn ystafelloedd dosbarth gyda ffenestri wedi torri, ac eisteddais mewn ystafelloedd dosbarth gyda iorwg yn tyfu i y tu mewn i'r muriau, oherwydd nad oedd y Llywodraeth a oedd yn rhedeg y wlad—ei blaidd ef ar y pryd—yn gwario unrhyw arian arnynt o gwbl. Pam? Oherwydd nad oedd ganddynt blant yn y system gyfun. Dyna oedd y rheswm drosto.

Byddwn, fe fyddwn yn dysgu gwersi o'r adroddiad hwn. Mae hynny'n wir. Fodd bynnag, o leiaf nid ydym mewn sefyllfa lle mae arian yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd oddi wrth adeiladu ysgolion newydd er mwyn talu am y polisi ysgol rad. Dyna sydd wedi digwydd yn Lloegr. Dyna lle mae'r arian yn mynd. Mae arian yn cael ei dynnu i ffwrdd oddi wrth y mwyaf anghenus i dalu am yr ychydig. Dyna'r hyn a wnaeth y Llywodraeth. Os ydym yn edrych ar Loegr, rydym hefyd yn gweld sefyllfa lle mae gennym yr arolygiaeth a'r adran yn rhyfela yn erbyn ei gilydd. Dyna'r hyn yr ydym yn ei weld yn Lloegr. Rydym hefyd yn gweld Ysgrifennydd Gwladol na all beidio ag ymyrryd yn wythnosol yn y cwricwlwm. Mae atebolrwydd yn bwysig. Byddwn yn symud ymlaen yng Nghymru wrth inni weld y traed moch yn cael ei greu yn Lloegr.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Finally, I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, Kirsty Williams.

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, in 2011, following that year's disappointing Estyn annual report, you told us that we would have to wait for your Minister for education's speech to find out the solutions to the Welsh education problem. In 2012, following another disappointing Estyn report, you said:

'Next year, I expect to see improvement.'

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, yn 2011, yn dilyn adroddiad blynyddol siomedig Estyn y flwyddyn honno, dywedasoch wrthym y byddai'n rhaid i ni aros am araith eich Gweinidog addysg i ganfod yr atebion i broblem addysg Cymru. Yn 2012, yn dilyn adroddiad siomedig arall gan Estyn, dywedasoch:

Y flwyddyn nesaf, yr wyf yn disgwyl gweld gwelliant.



However, in 2013's Estyn annual report, the proportion of schools awarded 'good' or 'excellent' judgments was even lower than in the previous year. In its report today, Estyn reports that the number of secondary schools rated as 'unsatisfactory' has almost doubled. First Minister, after four years of asking you this question following the publication of disappointing Estyn annual reports, could you give me a straight answer today: when will we see, and when will Welsh pupils see, the improvements that your Government continually promises but does not deliver?

Fodd bynnag, yn adroddiad blynyddol Estyn 2013, mae cyfran yr ysgolion y dyfarnwyd dyfarniadau 'da' neu 'ardderchog' iddynt hyd yn oed yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn ei adroddiad heddiw, mae Estyn yn adrodd bod nifer yr ysgolion uwchradd a nodwyd fel bod ar y raddfa 'anfodddhaol' bron wedi dyblu. Brif Weinidog, ar ôl pedair blynedd o ofyn y cwestiwn hwn i chi yn dilyn cyhoeddi adroddiadau blynyddol siomedig Estyn, a wnewch chi roi ateb gonest i mi heddiw: pryd y byddwn ni'n gweld, a phryd y bydd disgyblion Cymru'n gweld, y gwelliannau y mae eich Llywodraeth yn addo'n barhaus ond nad yw'n eu cyflawni?

13:47

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I would argue that those improvements are already showing signs of being identified, although not enough as yet. First, there is the number of schools that have been built. I have been to a number of schools in the past four years that are brand-new comprehensives, which were never built for many years in the 1980s and 1990s in Wales. They were never built. So, I have seen that. I have seen good examples in Wales of schools that are doing very well. What is lacking is consistency. There is no question about that. So, what we will look to be doing, as part of the school improvement plan, is to make sure that headteachers are supported where there is a question over leadership, and that departments in schools are supported by bringing in teachers from good-performing schools in order to turn those departments around. I believe that that is the way to see improvement in the future. We are beginning to see signs of that improvement, and I illustrated that with the example that I gave earlier on, namely that the gap that is there with England in terms of GCSE attainment is narrowing.

Wel, byddwn yn dadlau bod y gwelliannau hynny eisoes yn dangos arwyddion o gael eu nodi, er nad yn ddigonol hyd yn hyn. Yn gyntaf, mae nifer yr ysgolion sydd wedi eu hadeiladu. Rwyf wedi bod i nifer o ysgolion yn y pedair blynedd diwethaf sy'n ysgolion cyfun newydd sbon, nad adeiladwyd am flynyddoedd lawer yn y 1980au a'r 1990au yng Nghymru. Ni chawsant eu hadeiladu. Felly, rwyf wedi gweld hynny. Rwyf wedi gweld enghreifftiau da yng Nghymru o ysgolion sy'n gwneud yn dda iawn. Yr hyn sydd ar goll yw cysondeb. Nid oes amheuaeth am hynny. Felly, yr hyn y byddwn yn ceisio ei wneud, yn rhan o'r cynllun gwella ysgolion, fydd gwneud yn siŵr bod penaethiaid yn cael eu cefnogi lle ceir cwestiwn ynghylch arweinyddiaeth, a bod adrannau mewn ysgolion yn cael eu cefnogi drwy ddod ag athrawon o ysgolion sy'n perfformio'n dda er mwyn gwella'r adrannau hynny. Credaf mai dyna'r ffordd i weld gwelliant yn y dyfodol. Rydym yn dechrau gweld arwyddion o'r gwelliant hwnnw, a dangosais hynny drwy'r enghraifft a roddais yn gynharach, sef bod y bwlch sy'n bodoli rhyngom ni a Lloegr o ran cyrhaeddiad TGAU yn culhau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:48

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I do not know which bit of the doubling of 'unsatisfactory' scores does not alarm you. You and your Ministers for education, past and present, continually tell us that the key policy to drive up standards is the creation of regional consortia. However, if you read the Estyn report today, it says, in relation to more than half of the local authorities that have been inspected, that regional consortia are failing to deliver an improvement in standards. You have placed everything on the creation of those consortia. When will that approach start to benefit all Welsh pupils?

Brif Weinidog, nid wyf yn gwybod pa ran o ddyblu sgoriau 'anfodddhaol' nad yw'n eich dychryn. Rydych chi a'ch Gweinidogion addysg, yn y gorffennol a'r presennol, yn dweud wrthym yn barhaus mai'r polisi allweddol i godi safonau yw creu consortia rhanbarthol. Fodd bynnag, os byddwch yn darllen adroddiad Estyn heddiw, mae'n dweud, o ran mwy na hanner yr awdurdodau lleol a arolygwyd, bod consortia rhanbarthol yn methu â chyflawni gwelliant mewn safonau. Rydych chi wedi rhoi popeth ar greu'r consortia hynny. Pryd fydd y dull hwnnw'n dechrau bod o fudd i holl ddisgyblion Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:49

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, this is tied in with the debate later on the Williams commission, and the stance that her party will take with regard to the Williams commission. The Williams commission has made very strong recommendations in relation to what the future should be in terms of public service delivery in Wales. I look forward to hearing what she will say about that, and, indeed, about education, as part of that debate; she has not mentioned that so far. Nevertheless, I reiterate the point that I made earlier, that we are seeing signs of improvement. It is far from the case that improvement is satisfactory as yet. Where there are schools that are rated as unsatisfactory, they will receive assistance to make sure that they are turned around, and the Minister for education will be making an announcement in the very near future regarding a plan on how to do that.

Wel, mae hyn ynghlwm wrth y ddadl yn nes ymlaen ar gomisiwn Williams, a'r safbwynt y bydd ei phlaid yn ei gymryd o ran comisiwn Williams. Mae comisiwn Williams wedi gwneud argymhellion cryf iawn ynglŷn â'r hyn y dylai'r dyfodol fod o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn y bydd yn ei ddweud am hynny, ac, yn wir, am addysg, yn rhan o'r ddadl honno, nid yw hi wedi sôn am hynny hyd yn hyn. Serch hynny, rwy'n ailadrodd y pwynt a wnes yn gynharach, ein bod yn gweld arwyddion o welliant. Mae'n bell o fod yn wir bod y gwelliant yn foddhaol hyd yn hyn. Pan fo ysgolion yn cael eu hystyried yn anfoddhaol, byddant yn derbyn cymorth i wneud yn siŵr eu bod yn gwella, a bydd y Gweinidog addysg yn gwneud cyhoeddiad yn y dyfodol agos iawn ynglŷn â chynllun ar sut i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not quite sure whether the First Minister understands what the regional consortia are. They are the gathering together of those local authorities to overcome the disadvantages of having small education authorities, and it is not working. I am not saying that; the inspector is saying it. The approach that you are taking is not delivering the improvements that you promised. Last week, I asked you about your decision to ditch the health targets that were contained in your programme for government. Let us have a look at the education targets in your programme for government. Attendance in primary and secondary schools is down on last year; the percentage of secondary schools inspected that were graded as 'good' or 'excellent' has flatlined at 45%, when you said that they would improve, and there are no 'excellent' standards in further education, adult or community learning, nor in local authorities. Now that it is clear that you are not meeting your education targets, do you intend to ditch those too?

Nid wyf yn hollol siŵr a yw'r Prif Weinidog yn deall beth yw'r consortia rhanbarthol. Mae'n golygu bod awdurdodau lleol yn dod at ei gilydd i oresgyn yr anfanteision o gael awdurdodau addysg bychain, ac nid yw'n gweithio. Nid fi sy'n dweud hynny; yr arolygydd sy'n dweud hynny. Nid yw'r dull gweithredu yr ydych yn ei gymryd yn cyflawni'r gwelliannau yr addawsoch. Yr wythnos diwethaf, gofynnais i chi am eich penderfyniad i gael gwared ar y targedau iechyd a oedd wedi'u cynnwys yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu. Gadewch inni edrych ar y targedau addysg yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn llai na'r llynedd; mae canran yr ysgolion uwchradd a arolygydd yw'r ffordd eu graddio fel rhai 'da' neu 'ardderchog' wedi aros yr un fath ar 45%, pan ddywedaso ch y byddent yn gwella, ac nid oes unrhyw safonau 'ardderchog' mewn addysg bellach, dysgu i oedolion nac yn y gymuned, nac mewn awdurdodau lleol. Gan ei bod yn amlwg nad ydych yn cyrraedd eich targedau addysg erbyn hyn, a ydych chi'n bwriadu cael gwared ar y rheini hefyd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. I never said that we would. What is clear, however, is that there is a need to examine the way in which education is delivered, which she seems to indicate herself—that is why I am looking forward to hearing what she has to say later on this afternoon. At the end of the day, it is not the Welsh Government that delivers. It sets the framework and provides funding, that is true. The delivery, however, is done by local education authorities and by schools and teachers. So, in terms of ensuring better delivery in the future, it is important that teachers are part of that delivery, of course, and it is important that local education authorities are part of that delivery—under the Conservatives, they would not be part of it at all and schools would do it all themselves. Then, we can see the improvement that we have begun to see, which is as yet far from what we want to see—that much is true—and see that improvement continue in the future.

Na. Wnes i erioed ddweud y byddem yn gwneud hynny. Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, yw bod angen edrych ar y ffordd y mae addysg yn cael ei darparu, y mae hi'n ymddangos ei bod yn nodi ei hun—dyna pam yr wyf yn edrych ymlaen at glywed yr hyn fydd ganddi i'w ddweud yn ddiweddarach y prynhawn yma. Yn y pen draw, nid Llywodraeth Cymru sy'n darparu. Mae'n gosod y fframwaith ac yn darparu cyllid, mae hynny'n wir. Mae'r ddarpariaeth fodd bynnag, yn cael ei chyflawni gan awdurdodau addysg lleol a chan ysgolion ac athrawon. Felly, o ran sicrhau gwell darpariaeth yn y dyfodol, mae'n bwysig bod athrawon yn rhan o'r ddarpariaeth honno, wrth gwrs, ac mae'n bwysig bod awdurdodau addysg lleol yn rhan o'r ddarpariaeth honno—dan y Ceidwadwyr, ni fyddent yn rhan o hynny o gwbl a byddai ysgolion yn gwneud popeth eu hunain. Yna, gallwn weld y gwelliant yr ydym wedi dechrau ei weld, sydd hyd yn hyn ymhell o fod yn hyn yr ydym eisiau ei weld—mae hynny'n wir—a gweld y gwelliant hwnnw yn parhau yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move back to questions on the agenda, and question 3 from William Powell.</p>	<p>Rydym yn awr yn symud yn ôl i gwestiynau ar yr agenda, a chwestiwn 3 gan William Powell.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<b>Byrddau Iechyd Lleol</b>	<b>Local Health Boards</b>	
13:52	<p><b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyletswydd Byrddau Iechyd Lleol i gyfathrebu â'r cyhoedd? OAQ(4)1451(FM)</i></p>	<p><i>3. Will the First Minister make a statement on the duty of Local Health Boards to communicate with the public? OAQ(4)1451(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>All NHS organisations in Wales have a duty to communicate and engage effectively with the public.</p>	<p>Mae gan bob sefydliad GIG yng Nghymru ddyletswydd i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I would like to thank the First Minister very much for that response. Just this lunchtime, together with Petitions Committee colleagues, I received a petition with some 11,000 signatures from Cardigan hospital. The petitioners raised severe concerns regarding the quality and transparency of communications that they have had with Hywel Dda Local Health Board. In addition to that, I have also heard that there are significant problems with the communication between the health board and Aberystwyth University, notably around mental health issues. First Minister, do you agree that it is necessary for Hywel Dda health board to raise its game in these matters and to communicate effectively with the public that it serves?</p>	<p>Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Mor ddiweddar ag amser cinio heddiw, ynghyd â chydweithwyr y Pwyllgor Deisebau, derbyniais ddeiseb â thua 11,000 o lofnodion o ysbty Aberteifi arno. Cododd y deisebwyr bryderon difrifol ynghylch ansawdd a thryloywder y cyfathrebu y maent wedi ei gael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Yn ogystal â hynny, rwyf hefyd wedi clywed bod problemau sylweddol gyda chyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd a Phrifysgol Aberystwyth, yn enwedig o ran materion iechyd meddwl. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno ei bod yn angenrheidiol i fwrdd iechyd Hywel Dda gynyddu ei ymdrechion yn y materion hyn a chyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can say to the Member that the Minister has made it clear that he expects to see more positive engagement and communication by the health board with the local population and he has asked the Welsh NHS Confederation to assist the health board and to help it to rebuild its relationship with local communities. So, we are aware of the issue and that work will be ongoing in order to rebuild the trust that should exist between the board and the community that it serves.</p>	<p>Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod y Gweinidog wedi ei gwneud yn glir ei fod yn disgwyl gweld ymgysylltu a chyfathrebu mwy cadarnhaol gan y bwrdd iechyd â'r boblogaeth leol ac mae wedi gofyn i Gonffederasiwn GIG Cymru helpu'r bwrdd iechyd a'i gynorthwyo i ailadeiladu ei berthynas â chymunedau lleol. Felly, rydym yn ymwybodol o'r mater a bydd y gwaith yn parhau er mwyn ailadeiladu'r ymddiriedaeth a ddylai fodoli rhwng y bwrdd a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, it is not just the Hywel Dda Local Health Board that has had problems with communicating with the public. That has also been the case in north Wales, where the Betsi Cadwaladr University Local Health Board announced a temporary suspension of elective, non-urgent surgery last week, but did not communicate that effectively to individual patients within a reasonable timescale. Can you tell us whether your Government will be issuing guidance to local health boards to improve the way in which they are able to communicate with patients where operations might have to be postponed or cancelled, sometimes for very necessary reasons?</p>	<p>Brif Weinidog, nid dim ond Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda sydd wedi cael problemau gyda chyfathrebu â'r cyhoedd. Mae hynny hefyd wedi bod yn wir yng ngogledd Cymru, lle cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr atal dros dro ar lawdriniaethau dewisol, heb fod yn llawdriniaeth frys yr wythnos diwethaf, ond ni wnaeth gyfathrebu hynny'n effeithiol i gleifion unigol o fewn amserlen resymol. A allwch chi ddweud wrthym a fydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau i fyrrdau iechyd lleol i wella'r ffordd y maent yn gallu cyfathrebu â chleifion lle y gallai fod yn rhaid gohirio neu ganslo llawdriniaethau, weithiau am resymau cwbl angenrheidiol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
It can be, of course, a matter of notice: sometimes, it is difficult to let people know in good time when things have to be changed at short notice, although the situation has now been reversed. I will ask the Minister for health to write to you formally on this in terms of what guidance is already available.

Gall fod, wrth gwrs, yn fater o rybudd: weithiau, mae'n anodd gadael i bobl wybod mewn da bryd pan fydd yn rhaid newid pethau ar fyr rybudd, er bod y sefyllfa wedi ei gwrthdroi erbyn hyn. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog iechyd ysgrifennu atoch yn ffurfiol ar hyn o ran pa ganllawiau sydd ar gael eisoes.

13:54 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Wel, mae'n amlwg nad yw bwrdd iechyd Hywel Dda wedi gwrandao ar yr hyn oedd gan y Gweinidog iechyd i ddweud wrtho ynglŷn â gwella cyfathrebu, achos llofnododd 11,000 o bobl ddeiseb yn erbyn cau gwelyau yn Aberteifi, a daeth llond bws o bobl Aberteifi yma i gyflwyno'r ddeiseb heddiw. Cyhoeddodd bwrdd iechyd Hywel Dda y byddai'n cau holl welyau ysbyty Aberteifi heb unrhyw fath o ymgynghori gyda'r gymuned er ei bod yn ofynnol iddo wneud hynny o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru. A wnech chi ymchwilio i'r ffaith bod bwrdd iechyd Hywel Dda wedi dewis peidio ag ymgynghori â'r gymuned leol wrth wneud newid mor arwyddocaol â thynnu pob gwely o'r ysbyty?

Well, it is clear that the Hywel Dda health board has not listened to what the Minister for health had to say to it about improving communication, because 11,000 people signed a petition against the closure of beds in Cardigan, and a bus full of people from Cardigan came here to present the petition today. The Hywel Dda health board announced the closure of all beds in Cardigan hospital without any kind of consultation with the community, although it was a requirement on it to do so under Welsh Government guidelines. Will you look into the fact that the Hywel Dda health board chose not to consult with the local community when making such a significant change as withdrawing all beds from that hospital?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Gwnaf ofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch ynglŷn â hynny, ond hoffwn ddweud bod y bwrdd iechyd wedi dweud na fydd gwelyau yn cael eu colli i'r sir. Mae'n bwysig i bwysleisio hynny. Hefyd, wrth gwrs, fel y dywedais yn gynharach, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gwella'r cyfathrebu sy'n digwydd.

I will ask the Minister to write to you about that, but I would just like to say that the health board has said that no beds will be lost to the county. It is important to emphasise that. Also, of course, as I said earlier, work is ongoing to ensure that the health board improves its communications.

## Asbestos mewn Ysgolion

## Asbestos in Schools

13:55 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am asbestos mewn ysgolion? OAQ(4)1446(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on asbestos in schools? OAQ(4)1446(FM)*

## Aled Roberts

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag asbestos mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)1457(FM)*

*10. What action is the Welsh Government taking to address asbestos in schools in Wales? OAQ(4)1457(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatad i gwestiynau 4 a 10 gael eu grwpio.

Presiding Officer, I understand that you have granted permission for questions 4 and 10 to be grouped.

Rwy'n cydnabod natur ddifrifol asbestos mewn ysgolion, yn enwedig o ran diogelwch disgyblion ac athrawon. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rheoleiddio'r sefyllfa ac yn monitro cydymffurfiaeth. O dan y drefn reoleiddio, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolygon asbestos mewn ysgolion a gweithredu system rheoli asbestos.

I recognise the serious nature of asbestos in schools, particularly the safety issue for pupils and teachers. The situation is regulated and compliance is monitored by the Health and Safety Executive. The regulation requires local authorities to undertake asbestos surveys in schools and implement an asbestos management system.

- 13:56 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Rwyf wedi gweld llawer o ohebiaeth sy'n dangos diffyg eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am reoli asbestos mewn ysgolion yng Nghymru. Mae David Laws, ar lefel San Steffan, yn dweud mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol, ac mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol. A fedrwrch roi mwy o wybodaeth inni heddiw ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol er mwyn inni ddod i'r afael â'r sefyllfa ddifrifol iawn hon mewn ysgolion yng Nghymru?
- Thank you for that response, First Minister. I have seen a great deal of correspondence that demonstrates a lack of clarity in terms of who is responsible for the management of asbestos in Welsh schools. David Laws, at a Westminster level, says that the Welsh Government is responsible, and the Welsh Government states that the Westminster Government is responsible. Can you give us more information today as to who exactly is responsible so that we can tackle this very serious situation in Welsh schools?
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'r cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; mae hynny'n hollol glir. Ynglŷn â sicrhau bod pethau'n digwydd fel y dylent, mae hynny'n gyfrifoldeb ar yr awdurdod hwnnw a hefyd ar swyddogion iechyd amgylcheddol awdurdodau lleol. Hefyd, wrth gwrs, mae peth cyfrifoldeb ar yr ysgolion, os oes eisiau cael gwared ar asbestos, i sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn iawn ac yn saff. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir fydd yn cynnwys manylion ynghylch cyfrifoldebau'r rheiny sydd â gwahanol ddyletswyddau ynglŷn â rheoli a chael gwared ar asbestos. Fodd bynnag, ynglŷn â'r cyfrifoldeb, mai ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r cyfrifoldeb, ac, wedyn, wrth gwrs, o ran sicrhau bod y cyfrifoldebau yn cael eu symud ymlaen, mae hynny'n gyfrifoldeb hefyd ar y swyddogion iechyd amgylcheddol.
- The responsibility lies with the Health and Safety Executive; that is quite clear. As regards ensuring that things happen as they should, that is the responsibility of the executive and also of the local authority environmental health officers. Also, of course, some responsibility falls on the schools themselves, if they have to dispose of asbestos, to ensure that that is done properly and safely. Guidelines will be published before long, which will include details relating to the responsibilities of those who have various duties relating to the management and disposal of asbestos. However, in terms of the responsibility, it lies with the Health and Safety Executive, and, then, of course, in terms of ensuring that the responsibilities are progressed, that is also a responsibility of the environmental health officers.
- 13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r gwrthdaro hwn rhwng iechyd a diogelwch a rheolaeth o fewn ysgolion wedi bod yn mynd ymlaen yn awr am nifer o fisoedd. Mae canllawiau newydd yn Lloegr ar fin gael eu cyhoeddi, yn dilyn adroddiad gan bwyllgor ar ganser yn San Steffan. A ydych yn gwybod pryd fydd adran addysg Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd, wrth ystyried nad yw rhai awdurdodau lleol wedi cynnal yr arolygon yr ydych wedi sôn amdanynt am ryw 10 mlynedd?
- First Minister, this conflict between health and safety and management within schools has been going on now for a number of months. New guidance is about to be published in England, following a report by a committee on cancer in Westminster. Do you know when the Welsh education department will publish new guidance, bearing in mind that some local authorities have not carried out the surveys that you mentioned for some 10 years?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Fel y dywedais, bydd y canllawiau hynny yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Rwyf wedi ei wneud yn glir pwy sy'n gyfrifol o ran sicrhau bod diogelwch yn yr ysgolion o ran y system o arolygu, a hefyd, wrth gwrs, y system o gyfrifoldebau.
- Well, as I said, those guidelines will be published imminently. I have made it clear who has the responsibility for ensuring safety in schools in terms of the monitoring of that, and also, of course, the system of responsibilities.

13:58

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, we have come a long way since the realisation that asbestos is responsible for a number of very horrible illnesses, including asbestosis and mesothelioma. We have also moved on now from the idea that it is completely safe to leave asbestos in situ, particularly in public buildings such as schools. Aled Roberts mentioned the committee in England, in the wake of which now the Department for Education has decided that it is unsafe and unsustainable to leave asbestos in buildings such as schools. I have heard what you have had to say, and I think that to a lot of people out there it would sound very much like passing the buck. I do not really care whose responsibility this is, but I think you as First Minister, and your Ministers for health and for education, have a duty to make sure that we make our schools as safe as they possibly can be. That is not happening at the moment. Please give us and parents out there a timeline by the end of which you can assure people that schools are completely safe.

Brif Weinidog, rydym wedi dod yn bell ers sylweddoli bod asbestos yn gyfrifol am nifer o afiechydon erchyll iawn, gan gynnwys asbestosis a mesothelioma. Rydym hefyd wedi symud ymlaen bellach oddi wrth y syniad ei bod yn gwbl ddiogel i adael asbestos yn ei le, yn enwedig mewn adeiladau cyhoeddus megis ysgolion. Soniodd Aled Roberts am y pwyllgor yn Lloegr, y mae'r Adran Addysg bellach, yn ei sgil, wedi penderfynu ei bod yn annïogel ac yn anghynaladwy i adael asbestos mewn adeiladau fel ysgolion. Rwyf wedi clywed yr hyn oedd gennych i'w ddweud, ac yn fy marn i, byddai'n swnio'n debyg iawn i lawer o bobl ein bod yn gosod y cyfrifoldeb ar rywun arall. Nid oes wahaniaeth gennyf pwy sy'n gyfrifol am hyn, ond credaf fod gennych chi fel Prif Weinidog, a'ch Gweinidogion iechyd ac addysg, ddyletswydd i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein hysgolion mor ddiogel ag y gallant fod. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Os gwelwch yn dda wnewch chi roi amserlen i ni a rhieni o bryd y gallwch sicrhau pobl fod ysgolion yn gwbl ddiogel.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we can give an assurance now that schools are safe, because we know that asbestos is safe if it is undisturbed. So, simply removing the asbestos, with the enormous cost that comes with that, would not make financial sense. However, there is another issue here: it is often safer to leave undamaged asbestos in situ, subject to a regular assessment, rather than create additional fibre or dust disturbance due to its removal; that has been the reality for many years, and the situation that he has described is not my understanding in terms of the guidance that is coming from the Health and Safety Executive.

Wel, gallwn roi sicrwydd yn awr bod ysgolion yn ddiogel, oherwydd gwyddom fod asbestos yn ddiogel cyn belled ag y'i gadewir yn ei le. Felly, ni fyddai cael gwared ar yr asbestos, gyda'r gost enfawr a ddaw gyda hynny, yn gwneud synnwyr yn ariannol. Fodd bynnag, mae mater arall yma: mae'n aml yn fwy diogel gadael yr asbestos nad yw wedi ei ddifrodi yn ei le, yn amodol ar asesiad rheolaidd, yn hytrach na chreu ffibr ychwanegol neu aflonyddwch llwch oherwydd ei symud; dyna fu'r gwirionedd ers blyneddau lawer, ac nid y sefyllfa y mae ef wedi'i disgrifio yw fy nealltwriaeth i o ran y canllawiau sy'n dod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I welcome the news that the Cwmcarn High School recently reopened its doors to pupils after work to remove asbestos. However, I am concerned that, although the school closed in October 2012, the work to remove the asbestos did not commence until June 2013. Does the Minister agree that the work to remove asbestos, when discovered in schools, should commence without delay to minimise the disruption to those pupils, parents and staff affected? Could he kindly tell the Chamber what the reasons for this long delay were?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r newyddion bod Ysgol Uwchradd Cwmcarn yn ddiweddar wedi ailagor ei drysau i ddisgyblion ar ôl gwaith i gael gwared ar asbestos. Fodd bynnag, rwy'n bryderus, er bod yr ysgol wedi cau ym mis Hydref 2012, na ddechreuodd y gwaith i gael gwared â'r asbestos tan fis Mehefin 2013. A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai'r gwaith i gael gwared ar asbestos, pan gaiff ei ddarganfod mewn ysgolion, gychwyn yn ddi-oed i leihau'r tarfu ar y disgyblion, y rhieni a'r staff hynny yr effeithir arnynt? A fyddai cystal â dweud wrth y Siambr beth oedd y rhesymau dros yr oedi hir hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is not our doing, of course. This is not a matter for the Welsh Government; it is a matter for the authorities on the ground. I do not know why it took that long to begin work. There may have been good reasons for it, of which we are not aware, in terms of ensuring that conditions were safe for workers to go in to remove the asbestos. However, it is not the Welsh Government's role to ensure that this work is done; it is the role of those authorities on the ground. Cwmcarn was, of course, originally a grant-maintained school.

Nid ein bai ni yw hyn, wrth gwrs. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw hyn; mae'n fater i'r awdurdodau ar lawr gwlad. Nid wyf yn gwybod pam y cymerodd mor hir cyn dechrau gweithio. Efallai fod rhesymau da dros hynny, nad ydym yn ymwybodol ohonynt, o ran sicrhau bod yr amodau yn ddiogel ar gyfer gweithwyr i fynd i mewn i gael gwared ar yr asbestos. Fodd bynnag, nid swyddogaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud; swyddogaeth yr awdurdodau hynny ar lawr gwlad yw hynny. Roedd Cwmcarn, wrth gwrs, yn wreiddiol yn ysgol a gynhelir â grant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



## Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

## Individual Patient Funding Requests

- 14:01 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol? OAQ(4)1447(FM)*
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- 14:01 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- 14:02 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
5. Will the First Minister provide an update on the review of the Individual Patient Funding Requests process?  
OAQ(4)1447(FM)
- Mae'r gwaith rhagarweiniol ar yr adolygiad bron wedi'i orffen. Mae swyddogion wedi cyfarfod â phob un o'r paneli lleol a byddant yn cyfarfod â grwpiau cleifion yfory. Bydd y sylwadau o'r cyfarfodydd hyn yn llywio gwaith y grŵp adolygu pan fydd yn cyfarfod ar 31 Ionawr.
- Diolch ichi am hynna, Brif Weinidog. Gyda chymaint o adolygiadau o gymaint o agweddau ar y gwasanaeth iechyd ar y gweill ar hyn o bryd, doeddwn i ddim wir eisiau i'r un yma fynd ar goll. Daethom â thystiolaeth ger eich bron, wrth gwrs, fod menywod â rhai mathau o ganser y fron yn debygol o fod ar eu colled o ganlyniad i'r adolygiad presennol. Fodd bynnag, os ydych yn dal â chymhelliant gwleidyddol i wrthsefyll cronfa triniaeth canser, a allwch chi ddweud wrthym pryd yn union y gallwn mewn gwirionedd gael amserlen lawn oddi wrthy, yn hytrach na dim ond y cyhoeddiad rhagarweiniol yr ydych wedi ei wneud heddiw?
- Thank you for that, First Minister. With so many reviews of so many aspects of the health service currently under way, I did not really want this one to get lost. We brought evidence before you, of course, that women with certain breast cancers are likely to be losing out as a result of the existing review. However, if you remain politically motivated to resist a cancer treatment fund, can you tell us exactly when we might actually get a full timetable from you, rather than just the preliminary announcement that you have made today?
- I have given the timetable; the group will report by the end of March 2014. It is for the Minister then to make a decision. However, yes, what we do not want is a cancer drugs fund that prevents people from getting funding, which is what is happening in England. We know that the IPFR system is far better at reviewing requests such as this successfully. The cancer drugs fund in England turns down the vast majority of requests that it gets. No, it is not politically motivated; we do not want to disadvantage people in Wales, as, I am afraid, the Tories have done to people in England.
- Rwyf wedi rhoi'r amserlen; bydd y grŵp yn adrodd erbyn diwedd mis Mawrth 2014. Mater i'r Gweinidog wedyn fydd gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, ie, yr hyn nad ydym ei eisiau yw cronfa cyffuriau canser sy'n atal pobl rhag cael arian, sef yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Rydym yn gwybod bod y system IPFR yn llawer gwell ar gyfer adolygu ceisiadau o'r fath yn llwyddiannus. Mae'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr yn gwrthod y mwyafrif helaeth o geisiadau y mae'n eu derbyn. Na, nid yw'n cael ei ysgogi'n wleidyddol; nid oes arnom eisiau anfanteisio pobl yng Nghymru, fel, yr wyf yn ofni, y mae'r Torïaid wedi ei wneud i bobl yn Lloegr.
- Brif Weinidog, gall hwn fod yn gwestiwn nad yw pobl yn dymuno ei ofyn, ond rwy'n credu ei fod yn bwysig: pan nad yw cleifion yn cael eu barnu i fod yn gymwys ar gyfer triniaethau achub bywyd ar y GIG, pa ymdrechion y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud i atal meddygon rhag codi tâl ar gleifion yn breifat ar gyfer triniaethau eithriadol o ddrud sy'n aml ddim yn gwneud llawer mwy na chodi gobeithion ffug ar gyfer adferiad neu oes estynedig?

14:03	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>There are issues there of professional ethics; there is no doubt about that. You will have heard, of course, the Minister for health, in the last week or two, talking about the need to eliminate treatment that, sometimes, serves no purpose or, sometimes, makes things worse. I think that that is an absolutely correct message to give. Any competent surgeon or doctor should be ensuring that treatment is available on the NHS. No competent or honest doctor should divert patients to private treatment that is not required.</p>	<p>Mae problemau o ran moeseg broffesiynol yn hynny o beth; nid oes amheuaeth am hynny. Byddwch wedi clywed, wrth gwrs, y Gweinidog iechyd, yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, yn siarad am yr angen i ddileu triniaeth, weithiau, nad oes unrhyw ddiben iddi neu, weithiau, sy'n gwneud pethau'n waeth. Rwy'n credu bod honno'n neges hollol gywir i'w rhoi. Dylai unrhyw lawfeddyg neu feddyg cymwys fod yn sicrhau bod triniaeth ar gael ar y GIG. Ni ddylai unrhyw feddyg cymwys neu onest ddargyfeirio cleifion at driniaeth breifat nad oes mo'i hangen.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, in addition to the very important issues raised by Suzy Davies and Lindsay Whittle, I have heard of the experiences of constituents who have applied for drugs in this particular way and have been turned down. However, because the health board does not directly inform the patient—it goes to the consultant, and, sometimes, the consultant does not pass on that message to the patient—by the time that the patient finds out that they have been turned down, the period in which they can appeal the decision has passed. I ask that, when you are reviewing the current situation, you have a look at this to ensure that patients are aware of decisions in a timely manner and are able to put an appeal in within the prescribed period.</p>	<p>Brif Weinidog, yn ogystal â'r materion pwysig iawn a godwyd gan Suzy Davies a Lindsay Whittle, rwyf wedi clywed am brofiadau etholwyr sydd wedi gwneud cais am gyffuriau yn y ffordd arbennig hon ac sydd wedi eu gwrthod. Fodd bynnag, gan nad yw'r bwrdd iechyd yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r claf—mae'n mynd at yr ymgynghorydd, ac, weithiau, nid yw'r ymgynghorydd yn trosglwyddo'r neges i'r claf—erbyn i'r claf ddarganfod ei fod wedi ei wrthod, mae'r cyfnod pryd y gallant apelio yn erbyn y penderfyniad wedi mynd heibio. Rwy'n gofyn, pan fyddwch yn adolygu'r sefyllfa bresennol, eich bod yn edrych ar hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o benderfyniadau mewn modd amserol ac yn gallu gwneud apêl o fewn y cyfnod penodedig.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:04	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Consultants should be doing that. One thing that I should emphasise is that there is a duty on consultants to ensure that the applications that are made are made properly and fully by the consultants; a letter is not good enough. I know of circumstances where a simple letter has been sent without any supporting information. That is not helping patients. It is important that consultants get this right as well.</p> <p>Nevertheless, where circumstances change, my understanding is that people are able to reapply in any event, and it certainly would not be right, of course, for people to lose the ability to go through the system as they should because the information has not been passed on to them by their own doctors; that is a duty that rests on the shoulders of consultants who make the application in the first place.</p>	<p>Dylai ymgynghorwyr fod yn gwneud hynny. Un peth y dylwn ei bwysleisio yw bod dyletswydd ar ymgynghorwyr i sicrhau bod y ceisiadau a wneir yn cael eu gwneud yn gywir ac yn llawn gan yr ymgynghorwyr; nid yw llythyr yn ddigon da. Gwn am amgylchiadau lle mae llythyr syml wedi ei anfon heb unrhyw wybodaeth ategol. Nid yw hynny'n helpu cleifion. Mae'n bwysig bod ymgynghorwyr yn cael hyn yn iawn hefyd.</p> <p>Serch hynny, pan fo amgylchiadau'n newid, fy nealltwriaeth i yw bod pobl yn gallu ailymgeisio beth bynnag, ac yn sicr ni fyddai'n iawn, wrth gwrs, i bobl golli'r gallu i fynd drwy'r system fel y dylent oherwydd nad yw'r wybodaeth wedi cael ei throsglwyddo iddynt gan eu meddygon eu hunain; dyna ddyletswydd sy'n gorwedd ar ysgwyddau ymgynghorwyr sy'n gwneud y cais yn y lle cyntaf.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Gwasanaethau Orthopedig</b>		<b>Orthopaedic Services</b>	
14:05	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau orthopedig yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1456(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the First Minister make a statement on orthopaedic services in north Wales? OAQ(4)1456(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:05	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>With £13.5 million of additional funding provided by the Welsh Government there has been a great improvement over the past three years.</p>	<p>Gyda £13.5 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru bu gwelliant mawr dros y tair blynedd diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:05 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, what you fail to mention is that many of the specialist and complex services provided by Gobowen hospital have now been repatriated to consultants in north Wales. It is fair to say that concerns have been raised with me by general practitioners, because what is happening now is that there is a three-phase triage system that means that a patient struggling with a complex revision or a specialist need for orthopaedic treatment waits several months to see a consultant who cannot actually carry out that treatment. They are then back to square one as they are referred by the consultant to Gobowen hospital. First Minister, my constituents have asked me to ask you what steps you are taking to ensure that those patients in north Wales who require the more complex and specialist orthopaedic treatment, which is only available at Gobowen hospital, can access these specialised services quickly and without unnecessary, costly and bureaucratic delay.

Brif Weinidog, yr hyn yr ydych yn methu â sôn amdano yw bod llawer o wasanaethau arbenigol a chymhleth a ddarperir gan ysbyty Gobowen bellach wedi eu dychwelyd i feddygon ymgynghorol yng ngogledd Cymru. Mae'n deg dweud bod rhai pryderon wedi eu codi gyda mi gan feddygon teulu, oherwydd yr hyn sy'n digwydd erbyn hyn yw bod system brysbennu tri cham ar waith sy'n golygu bod claf sy'n cael trafferth gyda diwygiad cymhleth neu angen arbenigol am driniaeth orthopedig yn aros sawl mis i weld ymgynghorydd nad ydynt yn gallu cynnal y driniaeth honno mewn gwirionedd. Yna maent yn gorfod dechrau o'r dechrau wrth iddynt gael eu cyfeirio gan yr ymgynghorydd i ysbyty Gobowen. Brif Weinidog, mae fy etholwyr wedi gofyn i mi ofyn i chi pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod y cleifion hynny yn y gogledd sydd angen triniaeth orthopedig fwy cymhleth ac arbenigol, sydd ddim ond ar gael yn ysbyty Gobowen, yn gallu cael y gwasanaethau arbenigol hyn yn gyflym a heb oedi diangen, costus a biwrocrataidd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The situation that the Member has described, on the face of it, seems senseless. No-one could defend it. If she could provide me with further details, I will be more than happy to investigate the situation.

Mae'r sefyllfa y mae'r Aelod wedi'i disgrifio, ar yr wyneb, yn ymddangos i fod yn ddisynnwyr. Ni allai unrhyw un ei hamddiffyn. Pe gallai hi ddarparu manylion ychwanegol i mi, byddaf yn fwy na pharod i ymchwilio i'r sefyllfa.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, ydych chi'n hyderus na fydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gorfod atal llawdriniaethau eto eleni, fel y gwnaeth yr wythnos diwethaf, a bod ganddo'r capasiti angenrheidiol i ddelio â phwysau'r gaeaf pan ddaw'r gaeaf?

First Minister, are you confident that Betsi Cadwaladr University Local Health Board will not have to delay treatments again this year, as it did last week, and that it has the necessary capacity to deal with the winter pressures when the winter arrives?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwyf yn hyderus y gall ddelio â phwysau'r gaeaf ac yn hyderus iawn y bydd yn gallu delio â damweiniau. Weithiau, wrth gwrs, mae cymaint o ofyn ar wasanaethau fel bod rhaid gohirio rhai llawdriniaethau am amser byr. Fodd bynnag, rwyf yn falch iawn o weld bod pethau wedi dychwelyd i'r drefn arferol. Mae'n bwysig dros ben bod ganddo gynlluniau i ddelio â damweiniau, a dyna yn union a wnaeth.

I am confident that it can deal with the winter pressures and I am very confident that it can deal with accidents. Sometimes, of course, there is such a great demand on services that some surgeries have to be postponed for a short period of time. However, I am pleased to see that everything has reverted to the usual practice. It is very important that it has plans to deal with accidents, and that is exactly what it did.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd

## UK Membership of the European Union

14:07 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1453(FM)*

*7. Will the First Minister outline the Welsh Government's position on UK membership of the European Union? OAQ(4)1453(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The United Kingdom's membership of the European Union is essential to the prosperity of both the UK and Wales. We know that Wales benefits in many fundamental ways, including through programmes such as the structural funds and the common agricultural policy—without which our farmers could not function or operate—and our trade and foreign investment prospects are enhanced by our membership through unfettered access to the single market.

Mae aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol i ffyniant y DU a Chymru. Rydym yn gwybod bod Cymru'n elwa mewn sawl ffordd sylfaenol, gan gynnwys drwy raglenni megis y cronfeydd strwythurol a'r polisi amaethyddol cyffredin—na allai ein ffermwyr weithio na gweithredu hebddo—ac mae ein masnach a'n rhagolygon buddsoddiad tramor yn cael eu gwella oherwydd ein haelodaeth trwy fynediad dilyffethair at y farchnad sengl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A recent study has shown that more than 120,000 jobs in Wales—4,000 of these are in my Delyn constituency—are dependent on the EU. The chief executive of Airbus, which employs 6,000 people in Flintshire, has said that Europe is key to its continued success. Will you further press the Conservative-led Westminster Government to listen to industry leaders like Airbus in the hope that it will stop behaving like UKIP plus one—a policy that will put jobs in Wales at risk?

Mae astudiaeth ddiweddar wedi dangos bod mwy na 120,000 o swyddi yng Nghymru—4,000 o'r rhain yn fy etholaeth i, sef Delyn—yn ddibynnol ar yr UE. Mae prif weithredwr Airbus, sy'n cyflogi 6,000 o bobl yn Sir y Fflint, wedi dweud bod Ewrop yn allweddol i'w lwyddiant parhaus. A wnech chi bwysu ar y Llywodraeth a arweinir gan y Ceidwadwyr yn San Steffan ymhellach i wrando ar arweinwyr diwydiant fel Airbus yn y gobaith y bydd yn rhoi'r gorau i ymddwyn fel UKIP ac un yn fwy—polisi a fydd yn rhoi swyddi yng Nghymru mewn perygl?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The approach that we take to the UK's membership of the EU is not one of blinkered nationalism, which I am afraid exists on the benches opposite—not everyone, in fairness—and certainly with regard to UKIP. The reality is that the Welsh economy would not function properly without membership of the EU. Why? It is because there are so many companies here—Airbus is one—that are only in Wales because Wales is, through its membership of the UK, a member of the EU. They would not be here otherwise. Why on earth would they bother coming to the UK when they could relocate or locate their factories within the much larger European market, which is far larger than the UK on its own? I have never understood this argument that Wales or Britain will somehow be better off outside the EU. Reducing your ability to access one of the world's largest markets, as a country with a proud history of trading, seems to me to be utterly insane.

Nid yw'r ymagwedd yr ydym yn ei chymryd at aelodaeth y DU o'r UE yn un o genedlaetholdeb gul, yr wyf yn ofni sy'n bodoli ar y meinciau gyferbyn—nid pawb, a bod yn deg—ac yn sicr o ran UKIP. Y gwirionedd yw na fyddai economi Cymru yn gweithio'n iawn heb aelodaeth o'r UE. Pam? Oherwydd bod cymaint o gwmnïau yma—mae Airbus yn un—sydd yng Nghymru yn unig oherwydd bod Cymru, trwy ei haelodaeth o'r DU, yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Ni fyddent yma fel arall. Pam ar y ddaear y byddent yn trafferthu i ddod i'r DU pan allent adleoli neu leoli eu ffatrioedd yn y farchnad Ewropeaidd llawer mwy, sy'n llawer mwy na'r DU ar ei phen ei hun? Nid wyf erioed wedi deall y ddadl hon y bydd Cymru neu Brydain rywsut yn well eu byd y tu allan i'r UE. Mae lleihau eich gallu i gael mynediad at un o farchnadoedd mwyaf y byd, fel gwlad sydd â hanes balch o fasnachu, yn ymddangos i mi i fod yn hollol wallgof.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the chief executive of Airbus has clarified his comments and made it very clear that jobs in the UK are not dependent on Britain's membership of the EU. I am very happy to pass that clarification on to the First Minister, should he require it, and, indeed, to my colleague Sandy Mewies.

Wel, mae prif weithredwr Airbus wedi egluro ei sylwadau ac wedi ei gwneud yn glir iawn nad yw swyddi yn y DU yn ddibynnol ar aelodaeth Prydain o'r UE. Rwy'n hapus iawn i drosglwyddo'r eglurhad hwnnw ymlaen i'r Prif Weinidog, pe byddai ei angen, ac, yn wir, i fy nghydweithiwr Sandy Mewies.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, is it not right that the people of Wales should be given their opportunity to vote and to have their say on the membership of the European Union? Constituents from across Wales could then express their views and decide whether or not they wish to be members of the European Union. They are perfectly able to make their own assessments as to the benefits of Wales's membership of the European Union.

Brif Weinidog, onid yw'n iawn y dylai pobl Cymru gael y cyfle i bleidleisio ac i ddweud eu dweud ar yr aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? Yna gallai etholwyr ledled Cymru fynegi eu barn a phenderfynu a ydynt yn dymuno bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Maent yn ddigon tebol i allu gwneud eu hasesiadau eu hunain o ran manteision aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd.

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do understand that the Member is in the right party. If people wish to have a referendum on Britain's membership of the European Union, they can vote for UKIP. That is the whole point. If people wish to have a referendum on Wales's membership of the UK, they can vote for Plaid Cymru. At the end of the day, that is what Plaid Cymru stands for. The country is a democracy, and if that is what people wish, they can do so. However, the reality is this: Britain, on its own, is simply not big enough to attract investment and it is absolutely dependent on its membership of the EU. Our farmers would go bust without access to the European market. There is no question about that; they would not be able to compete in the face of tariffs that would be directed against them by what would then be the European Union, and they would still have to abide by European rules. You would not stop abiding by European rules. You would end up like Norway, where you would have no control over the regulations that are created in Europe but you would still have to abide by them if you wanted to sell into the European market. The reality is that the party opposite is driven by a narrow-minded, blinkered nationalism; that is all it is. Its concern is what is good for London, not what is good for Wales.

Rwyf yn deall bod yr Aelod yn y blaidd gywir. Os yw pobl yn dymuno cael refferendwm ar aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd, gallant bleidleisio dros UKIP. Dyna'r holl bwynt. Os yw pobl yn dymuno cael refferendwm ar aelodaeth Cymru o'r DU, gallant bleidleisio i Blaid Cymru. Yn y pen draw, dyna beth y mae Plaid Cymru yn sefyll drosto. Mae'r wlad yn ddemocratiaeth, ac os mai dyna y mae pobl yn ei ddymuno, gallant wneud hynny. Fodd bynnag, y gwir amdani yw hyn: nid yw Prydain, ar ei phen ei hun, yn ddigon mawr i ddenu buddsoddiad ac mae'n hollol ddibynnol ar ei haelodaeth o'r UE. Byddai ein ffermwyr yn mynd i'r wal heb fynediad at y farchnad Ewropeaidd. Nid oes amheuaeth am hynny; ni fyddent yn gallu cystadlu yn wyneb tariffau a fyddai'n cael eu cyfeirio yn eu herbryn gan yr hyn a fyddai yr Undeb Ewropeaidd erbyn hynny, a byddai'n rhaid eu bod yn dal i gadw at rheolau Ewropeaidd. Ni fydddech yn cael rhoi'r gorau i gadw at reolau Ewropeaidd. Bydddech yn diweddu fel Norwy, lle na fydddech yn cael unrhyw reolaeth dros y rheoliadau sy'n cael eu creu yn Ewrop, ond byddai'n rhaid i chi ddal i lynu wrthynt pe bydddech eisiau gwerthu i'r farchnad Ewropeaidd. Y gwir amdani yw bod y blaidd gyferbyn yn cael ei sbarduno gan genedlaetholdeb cul, dall; dyna'r cyfan ydyw. Ei diddordeb yw beth sy'n dda i Lundain, nid yr hyn sy'n dda i Gymru.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr eich sylwadau chi am y manteision i Gymru o fod o fewn yr Undeb Ewropeaidd ac am y manteision i'r Deyrnas Unedig o fod yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, ond beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod pobl Cymru yn ymwybodol o'r manteision hynny? Pe bai refferendwm, mae posibilrwydd byddai dinasyddion y Deyrnas Unedig yn pleidleisio i dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd, a byddai goblygiadau hynny yn enfawr i Gymru, fel yr ydych wedi amlinellu. Beth fyddwch chi, fel Llywodraeth, yn ei wneud i sicrhau bod pobl Cymru yn ymwybodol o'r manteision amlwg o fod o fewn yr Undeb Ewropeaidd?

First Minister, I very much welcome your comments regarding the advantages to Wales of being within the European Union and the advantages to the United Kingdom of being a member state of the European Union, but what are you going to do to ensure that the people of Wales are aware of those advantages? If there was a referendum, there is a possibility that the citizens of the United Kingdom would vote to withdraw from the European Union, and the implications of that for Wales would be huge, as you have outlined. What will you, as a Government, do to ensure that the people of Wales are aware of the advantages of being within the European Union?

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwyf wedi bod yn uchel fy nghloch o ran sicrhau bod pobl yn deall hynny. Rwy'n credu y bydd y ddadl yn un diddorol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd yr Aelod yn gwybod fod £1.9 biliwn wedi dod o Ewrop drwy'r cronfeydd strwythurol. Ni fyddai'r arian hwnnw ar gael i Gymru heb y cronfeydd hynny, ac nid wyf yn credu am funud y byddai'r arian hwnnw'n dod yn garedig o'r Canghellor yn Llundain; fe fyddai'n cadw'r arian i'w hun. Heb aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, nid oes dyfodol i ffermio yng Nghymru—mae'n golygu taliadau y polisi amaethyddol cyffredin a modd i fynd i mewn i'r farchnad fawr, sef y farchnad Ewropeaidd, hefyd. Nid yw hynny i ddweud bod popeth am y Comisiwn a'r strwythur yn berffaith, ond, i mi, byddai tynnu mas o un o'r marchnadoedd mwyaf yn y byd yn ffôl dros ben.

I have endeavoured to ensure that people understand that. I believe that the debate will be an interesting one over the next few years. The Member will know that £1.9 billion has come from Europe through the structural funds. That funding would not be available to Wales without those funds, and I do not believe for one minute that that money would be kindly donated by the Chancellor in London; he would keep all of those funds to himself. Without membership to the European Union, there is no future for farming in Wales—it means common agricultural policy payments and the ability to access the major market, namely the European market, as well. That is not to say that everything about the Commission or its structure is perfect, but, for me, withdrawing from one of the largest markets in the world would be foolish indeed.

**Sefydliadau Rhyngwladol****International Organisations**

14:12	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu presenoldeb sefydliadau rhyngwladol yng Nghymru?</i>  OAQ(4)1454(FM)</p>	<p><i>8. What is the Welsh Government doing to increase the presence of international organisations in Wales?</i>  OAQ(4)1454(FM)</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:12	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We continue our efforts to increase the presence of international organisations in Wales, including increased inward investment from international companies.</p>	<p>Rydym yn parhau â'n hymdrechion i gynyddu presenoldeb sefydliadau rhyngwladol yng Nghymru, gan gynnwys mwy o fuddsoddiad gan gwmnïau rhyngwladol o'r tu allan.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:12	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the First Minister for that reply. Would the First Minister be able to provide an update on the joint bid with Cardiff Council to host the International Cricket Council in Cardiff?</p>	<p>Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. A fyddai'r Prif Weinidog yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cais ar y cyd â Chyngor Caerdydd i gynnal y Cyngor Criced Rhyngwladol yng Nghaerdydd?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We understand that Cardiff is on the shortlist of four. The project would be expected to create 70 jobs. We do not know yet when a decision will be made on the bids, but we have worked with the Glamorgan club and the city council and have supported the joint bid to the ICC.</p>	<p>Rydym yn deall bod Caerdydd ar y rhestr fer o bedwar. Byddai disgwyl i'r prosiect greu 70 o swyddi. Nid ydym yn gwybod hyd yn hyn pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y cynigion, ond yr ydym wedi gweithio gyda chlwb Morgannwg a chyngor y ddinas ac wedi cefnogi'r cais ar y cyd i'r ICC.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The presence of international organisations, particularly international businesses, is very welcome in Wales. While we are happy to see 67 firms come into Wales this year, that is still only 4% of the inward investment for the whole of the UK and is considerably less than the 15% that Wales enjoyed when Labour took on devolved government at the beginning of devolution. As the Welsh Government has no aftercare strategy to turn these green roots into permanent roots, will your Government be adopting the Welsh Conservatives' idea, set out in our 'Destination Cymru' document, which I am sure you have had an opportunity to see?</p>	<p>Mae presenoldeb sefydliadau rhyngwladol, yn enwedig busnesau rhyngwladol, i'w groesawu'n fawr yng Nghymru. Er ein bod yn hapus i weld 67 o gwmnïau yn dod i Gymru eleni, nid yw hynny ond 4% o'r buddsoddiad o'r tu allan ar gyfer y DU gyfan ac mae'n sylweddol llai na'r 15% yr oedd Cymru'n ei fwynhau pan ymgymerodd Llafur â Llywodraeth ddatganoledig ar ddechrau'r cyfnod datganoli. Gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw strategaeth ôl-ofal i droi'r gwreiddiau gwyrdd hyn yn wreiddiau parhaol, a fydd eich Llywodraeth yn mabwysiadu syniad y Ceidwadwyr Cymreig, a nodir yn ein dogfen 'Cyrchfan Cymru', yr wyf yn siŵr eich bod wedi cael cyfle i edrych arni?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



14:14

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We spend a lot of time selling Wales abroad and at home, getting investment into Wales, as the figures show, and bringing jobs into Wales. What the Tories want to do is set up a council. That is their answer to all of this. In terms of aftercare, does she not know the anchor companies? Clearly not, otherwise they are just trying to take one of our ideas. They hark back to the days when Wales took 15% of the investment; there was a reason for that, which is that the Welsh Development Agency sold Wales on the basis that people would accept less money than anywhere else. That is why the jobs came, and guess what, they all went—all those companies went somewhere else where it was even cheaper. Therefore, let us not pretend that it took some effort to do that; at the end of the day, it was simply a question of, 'Come to employ these people because they are willing to work on the cheap'. I am not prepared for people in Wales to work on the cheap, as the Tories wanted them to do in the 1980s and 1990s, and they destroyed our coal and steel industries. That is what they did. We are looking at good-quality jobs for the people of Wales; jobs that rely on skills and jobs that are sustainable in the future, not jobs that are here today and gone tomorrow, which is exactly the situation that the Tories created.

Rydym yn treulio llawer o amser yn gwerthu Cymru dramor a gartref, yn cael buddsoddiad i Gymru, fel y mae'r ffigurau'n dangos, a dod â swyddi i Gymru. Yr hyn y mae'r Torïaid eisïau ei wneud yw sefydlu cyngor. Dyna eu hateb i hyn i gyd. O ran ôl-ofal, onid yw hi'n gwybod am y cwmnïau angor? Nac ydyw, yn amlwg, fel arall, dim ond ceisio cymryd un o'n syniadau ni maen nhw. Maent yn rhygnu ymlaen am y dyddiau pan oedd Cymru'n cael 15% o'r buddsoddiad; roedd rheswm dros hynny, sef bod Awdurdod Datblygu Cymru yn gwerthu Cymru ar y sail y byddai pobl yn derbyn llai o arian nag mewn unrhyw le arall. Dyna pam y daeth y swyddi, a wyddoch chi beth, maen nhw i gyd wedi mynd—aeth pob un o'r cwmnïau hynny i rywle arall a oedd hyd yn oed yn rhatach. Felly, gadewch inni beidio ag esgus ei bod wedi cymryd rhywfaint o ymdrech i wneud hynny; yn y pen draw, roedd yn gwestiwn syml o, 'Dewch i gyflogi'r bobl hyn oherwydd eu bod yn fodlon gweithio'n rhad'. Nid wyf yn fodlon i bobl yng Nghymru weithio'n rhad, fel yr oedd y Torïaid eisïau iddynt ei wneud yn y 1980au a'r 1990au, ac fe ddinistriod nhw ein diwydiannau glo a dur. Dyna'r hyn a wnaethant. Rydym yn chwilio am swyddi o ansawdd da i bobl Cymru; swyddi sy'n dibynnu ar sgiliau a swyddi sy'n gynaliadwy yn y dyfodol, nid swyddi sydd yma heddiw ac wedi mynd yfory, sef yr union sefyllfa a greodd y Torïaid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am sure that you would agree that maintaining links with other Governments is also important, especially in terms of trade and wider economic co-operation at that international level. Sadly, we have seen in recent years a decline here in the presence of other Governments, especially consuls. Have you had any discussions on reversing this trend, and what are you doing to encourage the presence of other Governments here?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod cynnal cysylltiadau â Llywodraethau eraill hefyd yn bwysig, yn enwedig o ran masnach a chydweithrediad economaidd ehangach ar y lefel ryngwladol. Yn anffodus, rydym wedi gweld dirywiad yma yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran presenoldeb Llywodraethau eraill, yn enwedig is-genhadon. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau ar wrthdroi'r duedd hon, a beth ydych chi'n ei wneud i annog presenoldeb Llywodraethau eraill yma?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have had many discussions about reversing this trend. I have spoken to a number of ambassadors. We have more honorary consuls than ever before, but I would like to see full-time consuls return to Wales—the Irish consulate, for example, was closed for financial reasons. We will continue to make representations to foreign Governments to open a consulate in Cardiff. One of the problems is that there is a reciprocal agreement between different Governments, which limits the number of consulates that can be opened in any one country. For example, if we wished to have a Chinese consulate in Wales, there would have to be an agreement for an extra British consulate in China. That sometimes limits the scope that we have. However, we certainly want to see the establishment of a number of full-time consulates in Wales in the future, and I have had a number of discussions, which are ongoing, with various Governments with regard to establishing them.

Rwyf wedi cael llawer o drafodaethau am wrthdroi'r duedd hon. Rwyf wedi siarad â nifer o lysgenhadon. Mae gennym fwy o is-genhadon anrhydeddus nag erioed o'r blaen, ond hoffwn weld is-genhadon llawn amser yn dychwelyd i Gymru—cafodd swyddfa is-gennad Iwerddon, er enghraifft, ei chau am resymau ariannol. Byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraethau tramor i agor swyddfa is-gennad yng Nghaerdydd. Un o'r problemau yw bod cytundeb cyfatebol rhwng gwahanol Lywodraethau, sy'n cyfyngu ar y nifer o swyddfeydd is-genhadon y ceir eu hagog mewn unrhyw un wlad. Er enghraifft, pe byddem yn dymuno cael swyddfa is-gennad Tsieineaidd yng Nghymru, byddai rhaid cael cytundeb ar gyfer swyddfa is-gennad Brydeinig ychwanegol yn Tsieina. Mae hynny weithiau'n cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni. Fodd bynnag, rydym yn sicr eisïau gweld sefydlu nifer o swyddfeydd is-gennad llawn amser yng Nghymru yn y dyfodol, ac rwyf wedi cael nifer o drafodaethau, sy'n parhau, gyda gwahanol Lywodraethau ynglŷn â'u sefydlu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I remind Members that it would be helpful if the muttering around the sides of the Chamber could be reduced. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.'] Thank you; I am glad that you agree.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

### Streic y Glowyr

14:16 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i goffáu streic y Glowyr? OAQ(4)0104(CS)

14:16 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

A number of Wales's cultural institutions, including those directly funded by the Welsh Government, are marking the thirtieth anniversary of the miners' strike with events and programmes this year. For example, Big Pit National Coal Museum is holding a 'strike day' on Saturday, 5 April, with music, talks, films, book signings and family activities.

14:17 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you know, March sees the thirtieth anniversary of the start of the miners' strike, which had a profoundly transformative effect and impact across Wales. It is an important anniversary, as papers released under the 30-year rule suggest that the then Government was misleading with regard to the strike's causes. The anniversary provides us with the opportunity to fully understand the strike, its catalysts and its effects. Minister, how can we ensure that communities are involved in this process and that we do not neglect marginalised aspects of the history, such as the role of women?

14:17 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Christine Chapman very much for that supplementary question. It is very important, as everyone on the Labour benches and other benches in the Chamber would realise, to remember these events because of their significance and their impact on our hard-working communities. That is why it is right that we have this range of activities, and I am very pleased that Welsh Government-funded cultural institutions are playing a role. One example is the South Wales Miners' Library, which will be screening the film 'Smiling and Splendid Women', which documents the role that women played in the miners' strike, such as being on the picket lines, speaking at rallies and, of course, holding money-raising events. It is absolutely right that we remember what was a seminal event for Wales and for our Valleys communities in particular. It was about the forces of the state being turned on hard-working communities, as many of us remember. It is entirely right, in terms of the disclosures that the Member mentioned as having recently come to light, that we recognise that this was orchestrated and planned by the Government of the day, to its eternal shame.

Atgoffaf yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol pe gellid lleihau'r mwmbian o amgylch ochrau'r Siambr. [AELODAU'R CYNULLIAD: '. Clywch, clywch] Diolch i chi; rwy'n falch eich bod yn cytuno.

## Questions to the Minister for Culture and Sport

### Miners' Strike

1. What plans does the Welsh Government have to commemorate the Miners' strike? OAQ(4)0104(CS)

Mae nifer o sefydliadau diwylliannol Cymru, gan gynnwys y rhai a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn nodi pen-blwydd deg mlynedd ar hugain streic y glowyr gyda digwyddiadau a rhaglenni eleni. Er enghraifft, mae Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn cynnal 'diwrnod streic' ddydd Sadwrn, 5 Ebrill, gyda cherddoriaeth, sgysiau, ffilmiau, llofnodi llyfrau a gweithgareddau i'r teulu.

Fel y gwyddoch, ym mis Mawrth bydd deg ar hugain mlynedd ers dechrau streic y glowyr, a gafodd effaith a dylanwad hynod weddnewidiol ar draws Cymru. Mae'n ben-blwydd pwysig, gan fod papurau a ryddhawyd o dan y rheol 30 mlynedd yn awgrymu bod y Llywodraeth ar y pryd wedi'n camarwain o ran achosion y streic. Mae'r pen-blwydd yn rhoi cyfle i ddeall y streic yn llawn, yr hyn a'i hachosodd a'i heffeithiau. Weinidog, sut y gallwn ni sicrhau bod cymunedau yn rhan o'r broses hon ac nad ydym yn esgeuluso agweddau ymylol ar hanes, megis y rhan a chwaraewyd gan fenywod?

Diolch yn fawr iawn i Christine Chapman am y cwestiwn atodol. Mae'n bwysig iawn, fel y byddai pawb ar y meinciau Llafur a meinciau eraill yn y Siambr yn sylweddoli, i gofio'r digwyddiadau hyn oherwydd eu harwyddocâd a'u heffaith ar ein cymunedau sy'n gweithio'n galed. Dyna pam ei bod yn briodol bod gennym y gweithgareddau amrywiol hyn, ac rwy'n falch iawn bod sefydliadau diwylliannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn chwarae rhan. Un enghraifft yw Llyfrgell Glowyr De Cymru, a fydd yn dangos y ffilm 'Smiling and Splendid Women', sy'n dogfennu'r rhan a chwaraeodd merched yn streic y glowyr, fel bod ar y llinellau piced, siarad mewn raliâu ac, wrth gwrs, cynnal digwyddiadau codi arian. Mae'n hollol iawn ein bod yn cofio'r hyn a oedd yn ddiwyddiad arloesol i Gymru ac i'n cymunedau yn y Cymoedd yn arbennig. Yr oedd yn ymwneud â grymoedd y wladwriaeth yn cael eu troi ar gymunedau a oedd yn gweithio'n galed, fel y mae llawer ohonom yn cofio. Mae'n hollol iawn, o ran y datgeliadau a grybwyllodd yr Aelod sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, ein bod yn cydnabod bod hyn wedi'i drefnu a'i gynllunio gan Lywodraeth y dydd, er cywilydd tragwyddol iddi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would be very happy to see the bravery and community spirit of the striking miners and their families commemorated in the way that you initially spoke of in your contribution today. What I would not be happy to see is a one-sided free-for-all dominated by trade unions, whose own mistakes contributed just as much to the bitterness that is still traded on today as much as the mistakes of any politician. Therefore, how can you reassure us that any Welsh Government plans will not be hijacked and that events that led to the death of David Wilkie will be appropriately commemorated and not inappropriately celebrated?

Weinidog, byddwn yn hapus iawn i weld dewrder ac ysbryd cymunedol y glowyr a oedd ar streic a'u teuluoedd yn cael eu coffáu yn y ffordd yr oeddech yn sôn amdani ar ddechrau eich cyfraniad heddiw. Yr hyn na fyddwn yn hapus o'i weld fyddai ysgarmes un-ochrog yn cael ei dominyddu gan undebau llafur, a'u camgymeriadau eu hunain wedi cyfrannu llawn cymaint at y chwerwder a deimlir heddiw â chamgymeriadau unrhyw wleidydd. Felly, sut y gallwch chi ein sicrhau na fydd unrhyw gynlluniau Llywodraeth Cymru yn cael eu herwgipio ac y bydd digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth David Wilkie yn cael eu coffáu'n briodol ac nid eu dathlu'n amhriodol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I mentioned earlier, there will be a range of events explaining and recording the history of those events. However, I come back to what I said in response to Chris Chapman: recent disclosures and the history in general show that this was planned and orchestrated by the Government of the day against the trade unions and against our communities in Wales. Of any part of the UK, Wales should understand and realise that, and I know that many in this Chamber do, but sadly that is not the case on the Conservative benches.

Fel y soniais yn gynharach, bydd amrywiaeth o ddiwyddiadau'n egluro a chofnodi hanes y digwyddiadau hynny. Fodd bynnag, rwy'n dychwelyd at yr hyn a ddywedais mewn ymateb i Chris Chapman: mae datgeliadau diweddar a'r hanes yn gyffredinol yn dangos bod hyn wedi ei gynllunio a'i drefnu gan Lywodraeth y dydd yn erbyn yr undebau llafur ac yn erbyn ein cymunedau yng Nghymru. Yn anad unrhyw ran o'r DU, dylai Cymru ddeall a sylweddoli hynny, a gwn fod llawer yn y Siambr hon yn deall, ond yn anffodus nid yw hynny'n wir ar feinciau'r Ceidwadwyr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we would agree on these benches that we need to commemorate the miners' strike in the way in which we are talking about today. We know, for example, that the police were actively politicised during those miners' strikes, and for the Tories to say here today that the trade unionists should take equal responsibility is not something that I can agree with. I wonder, Minister, whether we could have community-based activities, because I know that, with the commemoration of the first world war this year, many people are receiving lottery funding. What I would like to see is former miners telling their stories to their communities, because people of my age, and some who are older, still do not know their own heritage with regard to the miners' strike. We should be encouraging people to understand their history so that they can go forward and take these stories to their children, and to not tell the stories of international issues that may not be as relevant to them as the miners' strike.

Weinidog, byddem yn cytuno ar y meinciau hyn bod angen i ni goffáu streic y glowyr yn y modd yr ydym yn sôn amdano heddiw. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod yr heddlu wedi'u gwleidyddoli'n weithredol yn ystod y streiciau glowyr hynny, ac ni allaf gytuno â'r Torïaid yn dweud yma heddiw y dylai'r undebwyr llafur gymryd cyfrifoldeb cyfartal. Tybed, Weinidog, a allem ni gael gweithgareddau seiliedig yn y gymuned, gan fy mod yn gwybod, gyda choffau'r rhyfel byd cyntaf y flwyddyn hon, fod llawer o bobl yn derbyn arian y loteri. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw cyn-lowyr yn adrodd eu straeon i'w cymunedau, gan fod pobl o fy oedran i, a rhai sy'n hŷn, yn dal heb fod yn gwybod eu treftadaeth eu hunain ynglŷn â streic y glowyr. Dylem fod yn annog pobl i ddeall eu hanes fel eu bod yn gallu mynd ymlaen a chyflwyno'r straeon hyn i'w plant, ac i beidio â dweud straeon am faterion rhyngwladol nad ydynt efallai mor berthnasol iddynt â streic y glowyr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much agree with the Member, and I am sure that communities will be involved in the range of activities that Welsh Government is helping to take forward, and in a range of other activities also. Of course, Big Pit is very much about miners telling the stories of the mining industry, which will very much include experiences during the strike. It is absolutely right that we should have that first-hand testament to those events. I join the Member in her comments, because part of the orchestrated attack on our communities by the Government of the day involved abuse of the policing system and the creation of a national policing effort directed against those communities.

Cytunaf yn llwyr â'r Aelod, ac rwy'n siŵr y bydd cymunedau yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i'w datblygu, ac mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill hefyd. Wrth gwrs, rhan bwysig o Big Pit yw'r glowyr yn adrodd straeon am y diwydiant mwynloddio, a fydd yn cynnwys profiadau yn ystod y streic. Mae'n hollol iawn y dylem gael eu tystiolaeth uniongyrchol o'r digwyddiadau hynny. Ymunaf â'r Aelod yn ei sylwadau, oherwydd bod rhan o'r ymosodiad a drefnwyd ar ein cymunedau gan Lywodraeth y dydd yn cynnwys cam-drin y system blismona a chreu ymdrech blismona genedlaethol wedi'i chyfeirio yn erbyn y cymunedau hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, thank you for your answer and for that recognition. Following on from that, you will remember that I held a short debate two weeks ago on trade unionism, in which I mentioned that we needed to root trade unionism in our communities and referred to the pressures on many activists with regard to casework. I was wondering whether you could look at some sort of grant funding for the annual walk that takes place from Merthyr to Aberavon to commemorate Richard Lewis—Dic Penderyn—who suffered considerably during the 1831 uprising in Merthyr. This is something that we should be commemorating on more of a national scale in Wales, and I wonder whether you will join me in agreeing that that should be recognised more.</p>	<p>Weinidog, diolch i chi am eich ateb ac am y gydnabyddiaeth. Yn dilyn ymlaen o hynny, byddwch yn cofio fy mod wedi cynnal dadl fer bythefnos yn ôl ar undebaeth lafur, pryd yr oeddwn yn sôn bod angen i ni wreiddio undebaeth lafur yn ein cymunedau a chyfeiriais at y pwysau ar lawer o weithredwyr mewn cysylltiad â gwaith achos. Roeddwn yn meddwl tybed a allech chi edrych ar ryw fath o gyllid grant ar gyfer y daith gerdded flynyddol sy'n digwydd o Ferthyr i Aberafan i goffáu Richard Lewis—Dic Penderyn—a ddiodeffodd yn sylweddol yn ystod gwrthryfel 1831 ym Merthyr. Mae hyn yn rhywbeth y dylem fod yn ei goffáu ar raddfa fwy cenedlaethol yng Nghymru, ac ys gwn i a fyddwch chi'n ymuno â mi i gytuno y dylai hynny gael ei gydnabod yn fwy.</p>
14:22	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>This question is about the miners' strike, Minister.</p>	<p>Am streic y glowyr y mae'r cwestiwn hwn yn sôn, Weinidog.</p>
14:22	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I can certainly say in general that industrial heritage and the history of the working class and trade union movement in Wales are uppermost in our interpretation plans and general cultural activity. We are strong on the general picture, but, in terms of any particular initiatives, there is a range of potential funders, such as the lottery, to which applications can be made.</p>	<p>Gallaf yn sicr ddweud yn gyffredinol bod treftadaeth ddiwydiannol a hanes y dosbarth gweithiol a'r mudiad undebau llafur yng Nghymru ar flaen ein cynlluniau dehongli a gweithgareddau diwylliannol cyffredinol. Rydym yn gryf ar y darlun cyffredinol, ond, o ran unrhyw fentrau penodol, ceir ystod o gyllidwyr posibl, megis y loteri, y gellir gwneud ceisiadau iddynt.</p>
	<b>Hyrwyddo Chwaraeon</b>	<b>Promoting Sport</b>
14:23	<b>Lynne Neagle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>2. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo chwaraeon yn Nhorfaen? OAQ(4)0115(CS)</i></p>	<p><i>2. What steps is the Minister taking to promote sport in Torfaen? OAQ(4)0115(CS)</i></p>
14:23	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Welsh Government aims to ensure that the participation rate in sport across Wales increases for all age, gender and social groups. Our work programme is being delivered by Sport Wales, which has a partnership agreement with Torfaen to promote and support grass-roots and elite-level sport in the community.</p>	<p>Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y gyfradd cyfranogiad mewn chwaraeon ar draws Cymru yn cynyddu ar gyfer pob oedran, rhyw a grwpiau cymdeithasol. Mae ein rhaglen waith yn cael ei chyflwyno gan Chwaraeon Cymru, sydd â chytundeb partneriaeth gyda Thorfaen i hyrwyddo a chefnogi chwaraeon ar lawr gwlad ac ar lefel elitaidd yn y gymuned.</p>
14:23	<b>Lynne Neagle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, with Wales's RBS 6 Nations encounter just days away, rugby fans in Torfaen and across Wales will be hoping for a swift resolution to the ongoing dispute between the Welsh Rugby Union and the regions, particularly since Leigh Halfpenny's departure to Toulon has highlighted the further haemorrhaging of Welsh talent abroad. Would you agree, Minister, that among all this elite-level to-ing and fro-ing, it is vital that we work towards developing a sustainable solution to club rugby, so that teams such as Pontypool RFC, which are the heart and soul of the game in Wales, can survive and thrive into the future?</p>	<p>Weinidog, gyda gornest RBS 6 Gwlad Cymru ddim ond ychydig ddiwrnodau i ffwrdd, bydd cefnogwyr rygbi yn Nhorfaen ac ar draws Cymru yn gobeithio am ddatrasiad buan i'r anghydfod parhaus rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau, yn arbennig gan fod ymadawiad Leigh Halfpenny i Toulon wedi amlygu ymhellach y llif o dalent sy'n gadael Cymru i fynd dramor. A fydddech chi'n cytuno, Weinidog, yn ystod yr holl fynd a dod hwn ar lefel elitaidd, ei bod yn hanfodol ein bod yn gweithio tuag at ddatblygu ateb cynaliadwy i rygbi clwb, fel bod timau fel Clwb Rygbi Pont-y-pŵl, sef calon ac enaid y gêm yng Nghymru, yn gallu goroesi a ffynnu yn y dyfodol?</p>

- 14:24 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I very much agree with Lynne Neagle. Clubs like Pontypool RFC have a very strong history—everybody will remember the Pontypool front row—but Pontypool has provided many more players to the Welsh national side and other elite teams in Wales through the age range. So, the history of Pontypool RFC is very strong, and right across Wales we have clubs who are knitted into their communities and have much to contribute at the grass-roots and elite levels. So, I very much join the Member in stressing the importance of that level of rugby, and the need to get it right at the grass-roots, club, regional and national levels.
- Cytunaf yn llwyr â Lynne Neagle. Mae gan glybiau fel Clwb Rygbi Pont-y-pŵl hanes cryf iawn—mae pawb yn cofio rheng flaen Pont-y-pŵl—ond mae Pont-y-pŵl wedi darparu llawer mwy o chwaraewyr i dîm cenedlaethol Cymru a thimau elitaidd eraill yng Nghymru trwy'r ystod oedran. Felly, mae hanes Clwb Rygbi Pont-y-pŵl yn gryf iawn, a ledled Cymru mae gennym glybiau sydd wedi eu gwau i'w cymunedau ac sydd â llawer i'w gyfrannu ar lefel llawr gwlad ac elitaidd. Felly, rwy'n ymuno'n bendant â'r Aelod o ran pwysleisio pwysigrwydd y lefel hwnnw o rygbi, a'r angen i gael pethau'n iawn ar lefel llawr gwlad, clwb, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 14:25 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Torfaen council is about to consult on the closure of at least one of the secondary schools in Cwmbran. Whatever the outcome of this consultation, there is likely to be a significant loss of playing fields. In addition to school activities, they are also used by community groups and, occasionally, by national sports teams. Will the Minister support campaigns to retain these areas as sports fields?
- Mae Cyngor Torfaen ar fin ymgynghori ar gau o leiaf un o'r ysgolion uwchradd yng Nghwmbŵran. Beth bynnag fydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae'n debygol y bydd colled sylweddol o ran caeau chwarae. Yn ogystal â gweithgareddau ysgol, maent yn cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol ac, o bryd i'w gilydd, gan dimau chwaraeon cenedlaethol. A wnaiff y Gweinidog gefnogi ymgyrchoedd cefnogi i gadw'r mannau hyn fel caeau chwaraeon?
- 14:25 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think it is very important that, in our general activity as the Welsh Government across departments, we ensure that there is adequate provision for sport, recreation and physical activity. That is an across-Welsh-Government issue and, of course, this very much involves working with partners such as our local authorities. So, we are always willing to look at specific issues, working with partners. However, I very much join the Member in general in stressing the importance of having those facilities and those opportunities available.
- Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, yn ein gweithgarwch cyffredinol fel Llywodraeth Cymru ar draws adrannau, ein bod yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. Mae hwnnw'n fater ar draws Llywodraeth Cymru, ac, wrth gwrs, mae'n ymwneud yn helaeth â gweithio gyda phartneriaid fel ein hawdurdodau lleol. Felly, rydym bob amser yn barod i edrych ar faterion penodol, gan weithio gyda phartneriaid. Fodd bynnag, rwyf yn bendant yn ymuno â'r Aelod mewn pwysleisio'n gyffredinol pa mor bwysig yw cael y cyfleusterau hynny a'r cyfleoedd hynny ar gael.
- 14:26 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, do you think that holding the winter Olympics in a country that last year made it illegal to even suggest that gay relationships are equal to heterosexual ones will in any way promote sport to young people in Torfaen?
- Weinidog, a ydych chi'n credu y bydd cynnal Gemau Olympaidd y gaeaf mewn gwlad a'i gwnaeth yn anghyfreithlon y llynedd i hyd yn oed awgrymu bod perthnasoedd hoyw yn gyfartal â rhai heterorywiol yn hyrwyddo chwaraeon i bobl ifanc yn Nhorfaen mewn unrhyw ffordd?
- 14:26 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the Member is ranging far and wide in terms of both issues and geography with that question. [Laughter.]
- Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn crwydro i bobman o ran materion a daearyddiaeth gyda'r cwestiwn yna. [Chwerthin.]
- All of us are very aware of the need to ensure that human rights are uppermost in everything that we do as Governments, and that very much includes issues around major games. However, obviously, it is not entirely a matter for Welsh Government as far as the winter Olympics in Russia are concerned—
- Mae pob un ohonom yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau bod hawliau dynol yn flaenaf ym mhopath yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth, ac mae hynny'n cynnwys materion yn ymwneud â gemau pwysig. Fodd bynnag, yn amlwg, nid yw'n llwyr yn fater i Lywodraeth Cymru cyn belled ag y mae Gemau Olympaidd y gaeaf yn Rwsia yn y cwestiwn—
- 14:26 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You can give your opinion, Minister—
- Cewch roi eich barn, Weinidog—



14:26	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	Nor Torfaen.	Na Thorfaen.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
14:26	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	Nor Torfaen. [Laughter.]	Na Thorfaen. [Chwerthin.]	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
	<b>Llyfrgelloedd Cyhoeddus</b>		<b>Public Libraries</b>	
14:26	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	<i>3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag arweinwyr llywodraeth leol ynglyn â dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus? OAQ(4)0111(CS)</i>	<i>3. What discussions has the Minister had with local government leaders regarding the future of public libraries? OAQ(4)0111(CS)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
14:26	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	Afonais lythyr at arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr yn cyhoeddi adolygiad arbenigol o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Chwefror, byddaf yn cyfarfod â swyddogion llywodraeth leol ac aelodau etholedig yn seminar Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli sydd i'w chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn llyfrgell newydd Caerffili.	I issued a letter to local authority leaders and chief executives in December announcing an expert review into public library service delivery in Wales. In February I will be meeting with local government officials and elected members at the Welsh Local Government Association's Libraries Inspire seminar at the new Caerphilly library.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
14:27	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	Diolch yn fawr iawn, Weiniadog. Rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno bod llyfrgelloedd wedi chwarae rhan bwysig iawn yn ein cymunedau dros ddegawdau a chanrifoedd erbyn hyn, a bod eu rôl wedi newid yn y sefyllfa bresennol, wrth iddynt gynnig gwasanaeth cwbl hanfodol o ran cysylltiadau. Roeddwn i ym Mhont-iets yn ddiweddar, ac, yn y fan honno, mae'r gymuned leol yn rhedeg y llyfrgell yn wirfoddol. Mae yno gyfrifiaduron, felly mae pobl yn mynd yno er mwyn ymgeisio am swyddi ac i lenwi ffurflenni. Heb y gwasanaeth hwn, ni fyddent yn gallu gwneud hynny o gwbl. A wneuch chi bwysu ar lywodraeth leol i sicrhau ei bod yn llawn sylweddoli gwerth yr adnodd hollbwysig hwn?	Thank you very much, Minister. I am sure that you would agree that libraries have played an extremely important role in our communities over the decades and centuries, and that their role has changed in the current climate as they provide a crucial service in terms of connectivity. I was in Pontyates recently, and, in that area, the local community runs the library voluntarily. There are computers available, which people use to apply for jobs and to fill in forms. Without that service, they would not be able to do that at all. Will you put pressure on local government to ensure that it fully understands the value of this crucial resource?	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
14:28	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad Biography</a>	I very much agree with Rhodri Glyn Thomas about the cross-cutting importance and value of our libraries. Knowledge is power, as it states on a library in Newport. It is about education and about the dissemination and acquisition of knowledge, but it is also a community activity and, yes, access to IT and having support in accessing IT for job applications and benefit purposes. So, the role of the libraries is very strong indeed, and that is why I am taking forward a review, which has a short-term aspect in terms of immediate local authority budget decisions, but which also looks further into the future. I very much look forward to working with local authorities on their statutory responsibilities in these areas.	Cytunaf yn llwyr â Rhodri Glyn Thomas am bwysigrwydd trawsbynciol a gwerth ein llyfrgelloedd. Mae gwybodaeth yn bŵer, fel y nodir ar lyfrgell yng Nghasnewydd. Mae'n ymwneud ag addysg ac am ledaenu a chaffael gwybodaeth, ond mae hefyd yn weithgaredd cymunedol ac, ie, mynediad at TG a chael cymorth i gael gafael ar TG ar gyfer ceisiadau am swyddi ac at ddibenion budd-daliadau. Felly, mae swyddogaeth llyfrgelloedd yn hynod o gryf, a dyna pam yr wyf yn cynnal adolygiad, sydd ag agwedd tymor byr o ran penderfyniadau cyllideb uniongyrchol yr awdurdod lleol, ond sydd hefyd yn edrych ymhellach i'r dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gydag awdurdodau lleol ar eu cyfrifoldebau statudol yn y meysydd hyn.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>



- 14:29 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the coalition austerity measures have obviously hit public services across the whole of the UK and Wales dramatically. It is sad to see the impact on library services across Wales. Will you be giving consideration to how local authorities and the Welsh Government together could support local communities in taking ownership of these important community assets?
- Weinidog, mae mesurau llymder y glymblaid yn amlwg wedi taro gwasanaethau cyhoeddus ar draws y DU a Chymru yn ddifrifol. Mae'n drist gweld yr effaith ar wasanaethau llyfrgell ar draws Cymru. A fyddwch chi'n rhoi ystyriaeth i sut y gallai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd gefnogi cymunedau lleol i gymryd perchnogaeth o'r asedau cymunedol pwysig hyn?
- 14:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that, as with all public services in these very difficult times, it is important to look at new models of delivery, and sometimes those involve more elements of community ownership than typically exist now. I think that it is very important to get the balance right. Volunteers are very important, but, of course, our library service is a professional service with professional standards. It is a balance, but I very much agree with the Member that we need to involve our communities more significantly than is typically the case now. Also, in terms of library services as a whole, we need to look at new, innovative models. Co-location, across Wales, is delivering important benefits for library users at this moment.
- Credaf, fel gyda phob gwasanaeth cyhoeddus yn y cyfnod anodd iawn hwn, ei bod yn bwysig edrych ar fodelau newydd o ddarparu, ac weithiau mae'r rheini'n cynnwys mwy o elfennau o berchnogaeth gymunedol nag sydd fel arfer yn bodoli ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i gael y cydbwysedd yn iawn. Mae gwirfoddolwyr yn bwysig iawn, ond, wrth gwrs, gwasanaeth profesiynol yw ein gwasanaeth llyfrgell â chanddo safonau profesiynol. Mae'n fater o gydbwysedd, ond rwy'n cytuno i raddau helaeth â'r Aelod bod angen i ni gynnwys ein cymunedau yn fwy sylweddol nag sy'n digwydd fel arfer ar hyn o bryd. Hefyd, o ran gwasanaethau llyfrgell yn eu cyfanrwydd, mae angen i ni edrych ar fodelau newydd, arloesol. Mae cyd-leoli, ar draws Cymru, yn dod â manteision pwysig i ddefnyddwyr llyfrgelloedd ar hyn o bryd.
- 14:30 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Many of my constituents across Aberconwy are now seeing the closure of their much-loved and valued libraries. The point that Mick Antoniw AM made is very relevant. We have community groups that are now trying to establish working groups to take forward some libraries, to avoid seeing the services disappear. However, they need training and they also need funding. What guidance are you putting out there for local authorities to help these community groups to get going, with the hope that we can retain these facilities within our communities?
- Mae llawer o fy etholwyr ledled Aberconwy bellach yn gweld y llyfrgelloedd y maent mor hoff ohonynt ac yn eu gwerthfawrogi yn cau. Mae'r pwynt a wnaeth Mick Antoniw AC yn berthnasol iawn. Mae gennym grwpiau cymunedol sydd bellach yn ceisio sefydlu gweithgorau i ddatblygu rhai llyfrgelloedd, er mwyn osgoi gweld y gwasanaethau'n diflannu. Fodd bynnag, maen nhw angen hyfforddiant ac maen nhw angen cyllid hefyd. Pa ganllawiau ydych chi'n eu rhoi i awdurdodau lleol i helpu grwpiau cymunedol i gychwyn, yn y gobaith y gallwn gadw'r cyfleusterau hyn o fewn ein cymunedau?
- 14:31 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that these will be important aspects of the review that I mentioned earlier, because it will look at all aspects of the delivery of library services at the current time and into the future.
- Rwy'n siŵr y bydd y rhain yn agweddau pwysig o'r adolygiad y soniais amdano yn gynharach, oherwydd bydd yn edrych ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau llyfrgell ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- 14:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in my region, Neath Port Talbot County Borough Council is looking to close nine libraries and, in Swansea, we narrowly averted the closure of one library in Pennard, when the council said that it would have a look at it again after strong opposition from the local community. As you have said, libraries provide a very important service; in areas such as Cymmer, where there are very little community facilities, access to broadband and other services is absolutely vital. What dialogue are you having with local authorities about ensuring that, where libraries are closing, alternative facilities are in place, and that residents are able to access these sorts of vital services?
- Weinidog, yn fy rhanbarth i, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bwriadu cau naw llyfrgell ac, yn Abertawe, cael a chael fu osgoi cau un llyfrgell ym Mhennard, pan ddywedodd y cyngor y byddai'n edrych ar y mater eto ar ôl gwrthwynebiad cryf gan y gymuned leol. Fel yr ydych wedi dweud, mae llyfrgelloedd yn darparu gwasanaeth pwysig iawn; mewn ardaloedd fel y Cymer, lle nad oes llawer o gyfleusterau cymunedol, mae mynediad i fand eang a gwasanaethau eraill yn gwbl hanfodol. Pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gydag awdurdodau lleol ynghylch sicrhau, lle mae llyfrgelloedd yn cael eu cau, bod cyfleusterau eraill ar gael yn eu lle, a bod y trigolion yn gallu cael gafael ar y mathau hyn o wasanaethau hanfodol?

14:32	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>As I mentioned earlier, library services are a statutory responsibility and we have library standards in Wales that we work with local authorities around. So, we do have important structures in place to make sure that we get the quality of service and extent of service that is necessary. However, my officials are in dialogue with local authorities across Wales at the moment and I look forward to discussing matters further at the Welsh Local Government Association seminar in the next couple of weeks.</p>	<p>Fel y soniais yn gynharach, mae gwasanaethau llyfrgell yn gyfrifoldeb statudol ac mae gennym safonau llyfrgell yng Nghymru yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn eu cylch. Felly, mae gennym strwythurau pwysig wedi'u sefydlu i wneud yn siŵr ein bod yn cael yr ansawdd a'r ehangder gwasanaeth sydd eu hangen. Fodd bynnag, mae fy swyddogion mewn trafodaethau gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ar hyn o bryd ac edrychaf ymlaen at drafod materion ymhellach yn seminar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn wythnos neu ddwy.</p>
14:32	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that answer, Minister. The Welsh public library standards are statutory guidance under the Public Libraries and Museums Act 1964, as you have said. However, it is important, is it not, that that guidance is seen as more than just a voluntary opt-in by local authorities? In one meeting in Swansea, the librarian did not think that it was statutory. Is there any way for you to ensure that your officials stress to local authorities that the guidance is statutory and that you will take action, if necessary, to make sure that those facilities are available to people within a reasonable distance?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Mae safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn ganllawiau statudol o dan y Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, fel yr ydych wedi'i ddweud. Fodd bynnag, mae'n bwysig, onid yw, bod y canllawiau yn cael ei gweld fel mwy na dim ond optio i mewn gwirfoddol gan awdurdodau lleol? Mewn un cyfarfod yn Abertawe, nid oedd y llyfrgellydd yn meddwl ei fod yn statudol. A oes unrhyw ffordd i chi sicrhau bod eich swyddogion yn pwysleisio wrth awdurdodau lleol bod y canllawiau hyn yn statudol ac y byddwch yn cymryd camau, os oes angen, i wneud yn siŵr bod y cyfleusterau hynny ar gael i bobl o fewn pellter rhesymol?</p>
14:33	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I have written to local authorities about the review that I am conducting, making it clear what the statutory responsibilities are. Those responsibilities are also stressed by my officials and I will reinforce that further at the summit to be held.</p>	<p>Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol am yr adolygiad yr wyf yn ei gynnal, gan ei gwneud yn glir beth yw'r cyfrifoldebau statudol. Mae'r cyfrifoldebau hynny hefyd yn cael eu pwysleisio gan fy swyddogion a byddaf yn atgyfnerthu hynny ymhellach yn yr uwchgynhadledd sydd i'w chynnal.</p>
	<b>Cyfleusterau Hamdden</b>	<b>Leisure Facilities</b>
14:33	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>4. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o fynediad i gyfleusterau hamdden ledled Cymru? OAQ(4)0108(CS)</i></p>	<p><i>4. What assessment has the Minister made of access to leisure facilities across Wales? OAQ(4)0108(CS)</i></p>
14:33	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Sport Wales holds regular discussions with local authorities about leisure facilities, and these form part of their partnership agreements. My officials are in close contact with local authorities and Sport Wales to continually assess proposals for provision for the next financial year.</p>	<p>Mae Chwaraeon Cymru yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag awdurdodau lleol am gyfleusterau hamdden, ac mae'r rhain yn ffurfio rhan o'u cytundebau partneriaeth. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos ag awdurdodau lleol a Chwaraeon Cymru i asesu cynigion yn barhaus ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.</p>

14:33

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is important that we recognise that local authorities need to be able to host events and leisure facilities. There is a question mark over the future of the Sun Centre at Rhyl, and the Nova centre and the indoor bowls centre in Prestatyn. These facilities have been run by an arm's-length company, which has now decided that it will close all of them. Is there anything that your officials can do to assist local authorities that may have outsourced vital facilities in the leisure industry and are now facing this issue? A vast amount of people use those facilities for the benefit of their health and wellbeing and also as part of GP referral systems. They will have no access whatsoever to leisure facilities unless they can pay for private leisure gyms, which, of course, in an area of deprivation, is not possible. What can the Welsh Government do to assist local authorities to ensure that people have equal access to leisure facilities within their boundaries?

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod angen i awdurdodau lleol allu cynnal digwyddiadau a chyfleusterau hamdden. Mae marc cwestiwn dros ddyfodol yr Heulfan yn y Rhyl, a'r ganolfan Nova a'r ganolfan bowlio dan do ym Mhrestatyn. Mae'r cyfleusterau hyn wedi cael eu rhedeg gan gwmni hyd braich, sydd bellach wedi penderfynu y bydd yn cau pob un ohonynt. A oes unrhyw beth y gall eich swyddogion ei wneud i gynorthwyo awdurdodau lleol a allai fod wedi contractio cyfleusterau hanfodol i rai o'r tu allan yn y diwydiant hamdden ac sydd bellach yn wynebu'r mater hwn? Mae llawer iawn o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau hynny er budd eu hiechyd a'u lles a hefyd fel rhan o systemau atgyfeirio meddygon teulu. Ni fydd ganddynt fynediad o gwbl at gyfleusterau hamdden oni bai eu bod yn gallu talu am gampfeydd hamdden preifat, nad yw'n bosibl, wrth gwrs, mewn ardal o amddifadedd. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at gyfleusterau hamdden o fewn eu ffiniau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have written to local authorities to stress the cross-cutting benefits of these leisure and recreational facilities, knowing that they face very difficult budgetary decisions. I think that it is absolutely right that those decisions should be taken in the knowledge of the importance of these facilities, as well as the knowledge that, once a facility is closed, it is very expensive and difficult to bring it back into operation. Therefore, I recognise the issues that the Member states. My officials, Sport Wales officials and the WLGA are in close contact with local authorities at these difficult times, and I hope that, working together, we can find a way through that does deliver for our communities.

Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol i bwysleisio manteision trawsbynciol y cyfleusterau hamdden ac adloniadol hyn, gan wybod eu bod yn wynebu penderfyniadau cyllidebol anodd iawn. Mae'n hollol iawn, yn fy marn i, y dylai'r penderfyniadau hynny gael eu cymryd gan wybod am bwysigrwydd y cyfleusterau hyn, yn ogystal â gwybod, ar ôl i gyfleuster gael ei gau, ei fod yn ddrud ac yn anodd iawn i'w gael yn ôl i yn weithredol. Felly, rwy'n cydnabod y materion y mae'r Aelod yn eu nodi. Mae fy swyddogion, swyddogion Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn cysylltiad agos ag awdurdodau lleol yn y cyfnod anodd hwn, ac rwy'n gobeithio, drwy gydweithio, y gallwn ddod o hyd i ffordd ymlaen a fydd yn cyflawni ar gyfer ein cymunedau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you announced in October that £5 million-worth of interest-free loans will be available for local authorities—I think that you made the announcement at the reopening of Risca leisure centre. I wonder whether you could update us on preparations for that scheme. Also, could you tell us how you rural-proof your policies in terms of the funding of leisure centres? It is much more expensive for local authorities that cover large, rural areas to provide those sorts of facilities; they often have to duplicate to avoid the public having to travel large distances. Can you tell us how your policies take account of those authorities that cover expansive rural areas?

Weinidog, cyhoeddwyd gennyh ym mis Hydref y bydd gwerth £5 miliwn o fenthyciadau di-log ar gael ar gyfer awdurdodau lleol—rwy'n meddwl eich bod wedi gwneud y cyhoeddiad ar adeg ail agor canolfan hamdden Rhisga. Tybed a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar baratoadau ar gyfer y cynllun hwnnw. Hefyd, a allech chi ddweud wrthym sut yr ydych yn prawfesur eich polisiau o safbwynt anghenion cefn gwlad o ran ariannu canolfannau hamdden? Mae'n llawer drytach i awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd mawr, gwledig i ddarparu'r mathau hynny o gyfleusterau; mae'n rhaid iddynt ddyblygu'n aml er mwyn i'r cyhoedd osgoi gorfod teithio pellteroedd mawr. A allwch chi ddweud wrthym sut y mae eich polisiau yn ystyried yr awdurdodau hynny sy'n cynnwys ardaloedd gwledig eang?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, the £5 million loan scheme will come into operation not in financial year 2014-15, but in the following financial year. Therefore, we are working towards that, in co-operation with key partners. Preparations are currently under way. In terms of rurality, and the issues around the provision of service, of course, those matters are addressed in the funding formula for local authorities generally. My officials and Sport Wales always have a mind to those issues of rurality, in working with local authorities around provision.

Yn gyntaf, bydd y cynllun benthyciad £5 miliwn yn dod i rym nid yn y flwyddyn ariannol 2014-15, ond yn y flwyddyn ariannol ganlynol. Felly, rydym yn gweithio tuag at hynny, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol. Mae paratoadau ar y gweill ar hyn o bryd. O ran natur wledig, a'r materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, wrth gwrs, mae'r materion hynny'n cael sylw yn y fformiwla cyllido ar gyfer awdurdodau lleol yn gyffredinol. Mae fy swyddogion i a Chwaraeon Cymru bob amser yn ystyried y materion hynny o wledigrwydd, wrth weithio gydag awdurdodau lleol ynghylch darparu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, y cyfleusterau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu defnyddio, wrth gwrs, gan awdurdodau lleol yw'r caeau chwarae. Os edrychwch chi ar yr hyn sy'n digwydd yn sir Gâr, mae cynnig yno i dreblu costau hurio caeau chwarae, sy'n golygu y byddai tîm pêl-droed pobl ifanc yn gorfod talu rhwng £4,000 a £6,000 y flwyddyn er mwyn bod yn rhan o'r gynghrair leol. Awgrymaf i chi bod hynny'n rhwystr difrifol i sicrhau lles y bobl ifanc hynny, eu bod yn cadw'n heini, a'n bod ni hefyd yn ymwneud ag iechyd yn fwy cyffredinol. A ydych yn cytuno ei bod yn hynod o fyrdymor i gynyddu costau defnyddio cyfleusterau chwarae, megis caeau chwarae, ac a fydddech yn annog cynghorau megis sir Gâr i ail-edrych ar bethau fel hyn?

Minister, the local authority facilities used by most people, of course, are playing fields. If you look at what is happening in Carmarthenshire, there is a proposal there to treble to cost of hiring playing fields, which means that a youth football team would have to pay between £4,000 and £6,000 per annum to be part of the local league. I suggest to you that that is a serious impediment to those young people's welfare, to ensuring that they keep fit and that we also deal with health issues more generally. Do you agree that increasing the cost of using sports facilities, such as playing fields, is very short-termist, and would you encourage councils such as Carmarthenshire to revisit such issues?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In general terms, across Wales, I know that there are issues in terms of increasing fees for sports facilities, including sports pitches, and I think that it is quite a varied picture. I have written to all local authorities, highlighting these issues, because, obviously, I am very concerned that an increase in costs, and, possibly at the same time, a diminution in services provided will have a negative impact on physical activity, sports and recreation. However, of course, all this takes place in the very difficult context—which I think we all here must recognise—for ourselves and for local authorities, where budgets are very strained and very difficult decisions have to be made. However, for me, with my responsibilities, of course I am stressing the importance of maintaining facilities, and not unduly increasing costs.

Yn gyffredinol, ar draws Cymru, rwy'n gwybod bod problemau o ran y ffioedd ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys meysydd chwaraeon, ac rwy'n credu ei fod yn ddarlun eithaf amrywiol. Rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol, gan dynnu sylw at y materion hyn, oherwydd, yn amlwg, rwy'n bryderus iawn y bydd cynnydd mewn costau, ac, o bosibl ar yr un pryd, y bydd lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir yn cael effaith negyddol ar weithgarwch corfforol, chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae hyn i gyd yn digwydd yn y cyddestun anodd iawn—yr wyf yn credu bod yn rhaid i ni i gyd yma ei gydnabod—i ni ein hunain ac i awdurdodau lleol, lle mae cyllidebau dan bwysau mawr ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn. Fodd bynnag, i mi, gyda fy nghyfrifoldebau i, wrth gwrs fy mod yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal cyfleusterau, a pheidio â chynyddu costau yn ormodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol a Gweithgareddau Hamdden Egniol

## Sport, Physical Activity and Active Recreation

14:38 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei strategaeth a'i bolisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden egniol yng Nghymru? OAQ(4)0112(CS)*

*5. Will the Minister make a statement on his national strategy and policy for sport, physical activity and active recreation in Wales? OAQ(4)0112(CS)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 14:39 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Roedd y strategaeth 'Dringo'n Uwch' yn nodi cyfeiriad strategol y Llywodraeth o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol, sydd â'r nod o ddenu mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden egniol. Cyflwynodd y cynllun gweithredu ar gyfer 'Creu Cymru Egniol' dargedau penodol ar y seiliedig ar y cynnydd a wnaed.
- The 'Climbing Higher' strategy set out the Government's strategic direction for sport and physical activity, which aims to increase rates of participation in sport, physical activity and active recreation. The 'Creating an Active Wales' action plan introduced specific targets that were based upon the progress that had been made.
- 14:39 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, fel y mae Simon Thomas newydd ei amlinellu, os yw'r newidiadau hyn o ran cost defnyddio caeau chwarae yng Nghaerfyrddin yn digwydd, bydd eich strategaeth chi wedi cael ei thanseilio'n gyfan gwbl yno. Bydd cynnydd o tua 500% ar draws y bwrdd gyda'r holl feysydd chwarae a'r holl fathau o chwaraeon. O ystyried bod 40% o oedolion ac 80% o blant yn aelodau o ganolfannau neu glybiau chwaraeon, a wnewch chi siarad gyda Chyngor Sir Gâr i bwysleisio beth yw'ch polisi chi a pha mor hanfodol ydyw, nid yn unig o ran chwaraeon, ond o ran iechyd, addysg a phob peth arall, a cheisio sicrhau nad yw'r polisi gwallgof hwn yn cael ei weithredu?
- Minister, as Simon Thomas has just highlighted, if these changes in the cost of using playing fields in Carmarthen are implemented, your strategy will have been completely undermined there. There will be an increase of some 500% across the board with all playing fields and with all sports. Given that 40% of adults and 80% of children are members of sporting clubs or centres, will you talk to Carmarthenshire County Council to emphasise your policy and how vital it is, not just in terms of sports but also for health, education and everything else, in order to try to ensure that this policy of utter madness is not implemented?
- 14:40 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- My officials and I are in dialogue with local authorities across Wales on these issues, as Members would expect. I have written to all local authorities and, among the matters that I have raised in that letter, is the issue of increased fees for sports and recreational facilities.
- Mae fy swyddogion a minnau yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ar y materion hyn, fel y byddai'r Aelodau yn ei ddisgwyl. Rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol ac, ymysg y materion yr wyf wedi'u codi yn y llythyr hwnnw, y mae'r mater o ffioedd uwch ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden.
- 14:40 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the commercial director of Pontypool Rugby Football Club warned last week that club rugby in Wales cannot survive in its current form. He went on to say that, in his view, the club game has deteriorated and its condition has been ignored by the Welsh Rugby Union and the regions. Does the Minister share my concern about these comments, given the importance of club rugby to the game in Wales?
- Weinidog, rhybuddiodd cyfarwyddwr masnachol Clwb Rygbi Pont-y-pwl yr wythnos diwethaf na all rygbi clwb yng Nghymru oroesi ar ei ffurf bresennol. Aeth ymlaen i ddweud, yn ei farn ef, bod y gêm clwb wedi dirywio a bod Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau wedi anwybyddu ei chyflwr. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder am y sylwadau hyn, o gofio pwysigrwydd rygbi clwb i'r gêm yng Nghymru?
- 14:41 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We are all concerned about rugby in Wales; we always are, and there is always a national conversation about rugby in Wales. I am very pleased with that, as Minister for sport, because I think that it demonstrates the passion that there is for the game in our country. So, there will be a lively debate about rugby at local, regional and national levels, and that is absolutely right. For me, as Minister, it is important to have an overview of sport, both at grass-roots and elite levels and, of course, to work with rugby at all levels to make sure that we continue to succeed into the future.
- Rydym i gyd yn pryderu am rygbi yng Nghymru, rydym bob amser yn gwneud hynny, a cheir bob amser sgwrs genedlaethol am rygbi yng Nghymru. Rwy'n falch iawn o hynny, fel Gweinidog chwaraeon, oherwydd credaf ei fod yn dangos yr angerdd sydd dros y gêm yn ein gwlad. Felly, fe fydd trafodaeth fywiog am rygbi ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae hynny'n hollol iawn. I mi, fel Gweinidog, mae'n bwysig i gael golwg gyffredinol ar chwaraeon, ar lefel llawr gwlad a lefel elitaidd ac, wrth gwrs, i weithio gyda rygbi ar bob lefel i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i lwyddo yn y dyfodol.

14:42	<b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for your reply, Minister. These concerns about the future of club rugby in Wales come at a time when the WRU and the Welsh regions are locked in a bitter row over funding. With the exodus of Welsh players to other teams outside Wales and the proposed Anglo-Welsh league, does the Minister agree with me that it is time that we held an inquiry into the future of rugby in Wales, such as the one that we held regarding football?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'r pryderon am ddyfodol rygbi clwb yng Nghymru yn dod ar adeg pan fo Undeb Rygbi Cymru a rhanbarthau Cymru yng nghanol dadl chwerw ynghylch cyllid. Gydag ecsodus o chwaraewyr Cymru i dimau eraill y tu allan i Gymru a'r gynghrair Eingl-Gymreig arfaethedig, a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi ei bod yn bryd inni gynnal ymchwiliad i ddyfodol rygbi yng Nghymru, fel yr un a gynhaliwyd gennym ynghylch pêl-droed?</p>
14:42	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I know that the relevant Assembly committee held an inquiry into football in the past and is currently considering such an inquiry as far as rugby is concerned. I think that all Members here would recognise that there are quite a number of very important issues involved. If the committee were to take forward that inquiry, obviously, it would give Members the opportunity to feed in views and to debate the conclusions.</p>	<p>Gwn fod pwyllgor perthnasol y Cynulliad wedi cynnal ymchwiliad i bêl-droed yn y gorffennol ac ar hyn o bryd yn ystyried ymchwiliad o'r fath cyn belled ag y mae rygbi yn y cwestiwn. Rwy'n credu y byddai'r holl Aelodau yma yn cydnabod bod cryn nifer o faterion pwysig iawn dan sylw. Pe byddai'r pwyllgor yn symud ymlaen â'r ymchwiliad hwnnw, yn amlwg, byddai'n rhoi cyfle i Aelodau gynnig safbwyntiau a thrafod y casgliadau.</p>
14:43	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Weinidog, mae'n amlwg bod Rali Cymru GB yn llwyddiant mawr yn y gogledd rai misoedd yn ôl. Fodd bynnag, rhan o'ch strategaeth chi yw sicrhau bod pobl anabl yn cael mynediad at yr holl weithgareddau hyn. Ysgrifennais at y Prif Weinidog ynglŷn â methiant y cwmni arbennig hwn i sicrhau mynediad i bobl anabl, ond nid wyf wedi derbyn ymateb. A wnewch chi sicrhau bod grant gan Lywodraeth Cymru'n seiliedig ar sicrhau bod pob agwedd ar eich strategaeth yn cael ei gweithredu?</p>	<p>Minister, it is clear that the Wales Rally GB was a huge success in north Wales a few months ago. However, part of your strategy includes ensuring that disabled people are able to access all these events. I wrote to the First Minister about the failure of this particular company to cater for disabled access, but I have not received a reply. Will you ensure that Welsh Government grants are given on the basis that all aspects of your strategy are implemented?</p>
14:43	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>This particular event is funded by the major events unit, which is the responsibility of the First Minister and indeed, the Minister for Economy, Science and Transport. I am pleased to look at these issues in terms of disability and access to major sporting events from the sports angle and respond to the Member in due course.</p>	<p>Mae'r digwyddiad arbennig hwn yn cael ei ariannu gan yr uned digwyddiadau mawr, sy'n gyfrifoldeb y Prif Weinidog ac yn wir, y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwy'n falch o edrych ar y materion hyn o ran anabled a mynediad at ddigwyddiadau chwaraeon mawr o safbwynt chwaraeon ac ymateb i'r Aelod maes o law.</p>
	<b>Chwaraeon ar Lawr Gwlad</b>	<b>Grass-roots Sport</b>
14:44	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>6. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad?</i> OAQ(4)0110(CS)</p> <p>[Interruption.] Bless you! [Laughter.]</p>	<p>6. <i>Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is encouraging participation in grassroots sport?</i> OAQ(4)0110(CS)</p> <p>[Torri ar draws.] Bendith arnoch chi! [Chwerthin.]</p>
14:44	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Were you blessing the Minister or someone else? [Laughter.]</p>	<p>A oeddech chi'n bendithio'r Gweinidog neu rywun arall? [Chwerthin.]</p>
14:44	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I am very grateful, Presiding Officer.</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn, Lywydd.</p>



Through Sport Wales's community sports strategy, sports governing bodies and other partners, we provide opportunities for people of all ages to participate in grass-roots sport in their communities.

Drwy'r strategaeth chwaraeon cymunedol Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu chwaraeon a phartneriaid eraill, rydym yn darparu cyfleoedd i bobl o bob oed gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad yn eu cymunedau.

14:44 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. Minister, grass-roots sports are vital to produce the next generation of elite athletes. With Welsh athletes on their way to the winter Olympics and later, the Commonwealth Games, will you join me in recognising the role of grass-roots coaching and wishing all of our athletes the best of luck in the future?

Diolch i chi am yr ateb yna. Weinidog, mae chwaraeon ar lawr gwlad yn hanfodol i gynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o athletwyr elitaidd. Gydag athletwyr Cymru ar eu ffordd i Gemau Olympaidd y gaeaf ac yn ddiweddarach, Gemau'r Gymanwlad, a wnewch chi ymuno â mi i gydnabod y gwaith hyfforddi ar lawr gwlad ac i ddymuno pob lwc i'n holl athletwyr yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly join the Member in wishing our athletes the very best in all major games, including the Winter Olympics and, of course, the Commonwealth Games in Glasgow this year. I think that it is very important that we support grass-roots sport, and, in doing that, we support elite performance as well, because there is a feeding up into elite sport from those grass-roots levels. This year, we are investing £1.2 million in grass-roots coaching in Wales, and a further £2.7 million of lottery funding goes to our elite coaches. It is very important that we support sport at all levels here in our country.

Rwy'n sicr yn ymuno â'r Aelod i ddymuno'r gorau i'n hathletwyr yn yr holl gemau mawr, gan gynnwys Gemau Olympaidd y Gaeaf ac, wrth gwrs, Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow eleni. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad, ac, wrth wneud hynny, rydym yn cefnogi perfformiad elitaidd yn ogystal, oherwydd bod y lefelau llawr gwlad yn bwydo chwaraeon elitaidd. Eleni, rydym yn buddsoddi £1.2 miliwn mewn hyfforddiant ar lawr gwlad yng Nghymru, ac mae £2.7 miliwn arall o arian y loteri yn mynd i'n hyfforddwyr elitaidd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cefnogi chwaraeon ar bob lefel yma yn ein gwlad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:45 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope that the £400,000 that the Welsh Government is investing in grass-roots rugby will not be affected by the troubles referred to by Lynne Neagle and Mohammad Asghar earlier on. However, £400,000 is rather a lot of money, and I was wondering what level of financial support is finding its way through to groups like the YMCA, Girl Guides, the Urdd and Scouts in order to support activity, particularly for women, through sports other than rugby and football.

Rwy'n gobeithio na fydd y £400,000 y mae Llywodraeth Cymru'n ei fuddsoddi mewn rygbi ar lawr gwlad yn cael ei effeithio gan y trafferthion y cyfeiriwyd atynt gan Lynne Neagle a Mohammad Asghar yn gynharach. Fodd bynnag, mae £400,000 yn gryn swm o arian, ac roeddwn yn meddwl tybed pa lefel o gymorth ariannol sy'n cyrraedd grwpiau fel y YMCA, y Geidiau, yr Urdd a'r Sgowntiaid er mwyn cefnogi gweithgareddau, yn enwedig ar gyfer menywod, trwy chwaraeon ar wahân i rygbi a phêl-droed.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:46 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We tasked Sports Wales with prioritising sport at a grass-roots level through the community strategy and also with making sure that those groups that are currently not as active as they should be in sport and recreation more generally are given priority in funding streams. Therefore, I think that we very much address the issues that the Member mentions through that Sports Wales route.

Rhodddwyd cyfrifoldeb i Chwaraeon Cymru i flaenoriaethu chwaraeon ar lefel llawr gwlad drwy'r strategaeth gymunedol a hefyd i wneud yn siŵr bod y grwpiau hynny nad ydynt mor egniol ag y dylent fod mewn chwaraeon a hamdden yn fwy cyffredinol yn cael blaenoriaeth mewn ffrydiau ariannu. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn rhoi sylw i'r materion y mae'r Aelod yn sôn amdanynt drwy'r llwybr Chwaraeon Cymru hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:46 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask you a question about grass-roots rugby also, and perhaps I should declare an interest as a committee member and juniors coach at Llangefni rugby club, home of George North, of course. However, may I ask you to expand a little bit on what you have already said, and, in particular, could you tell us what you plan to do to impress on the leaders of the game in Wales the potential effects of the current turmoil on the grass roots of the game and our ability to draw in the future George Norths who will feed our game and its future?

Hoffwn innau ofyn cwestiwn am rygbi ar lawr gwlad hefyd, ac efallai y dylwn ddatgan buddiant fel aelod o bwyllgor a hyfforddwr chwaraewyr iau yng nghlwb rygbi Llangefni, cartref George North, wrth gwrs. Fodd bynnag, a gaf fi ofyn i chi i ehangu ychydig ar yr hyn yr ydych eisoes wedi'i ddweud, ac, yn benodol, a allech chi ddweud wrthym beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i roi ar ddeall i arweinwyr y gêm yng Nghymru effeithiau posibl y cythrwfl presennol ar sylfeini'r gêm a'n gallu i ddenu George Norths y dyfodol a fydd yn bwydo ein gêm a'i dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:47 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Members will be aware that the First Minister has written to both the Welsh Rugby Union and the regional clubs and I have had communication with both as Minister for sports. Therefore, we are communicating with those bodies, and I think that that is absolutely right at the current time. However, at the same time, we are recognising that, ultimately, these are matters that must be addressed by rugby in Wales itself.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Undeb Rygbi Cymru a'r clybiau rhanbarthol ac rwyf wedi cael cyfathrebiad â'r ddau fel y Gweinidog chwaraeon. Felly, rydym yn cyfathrebu â'r cyrff hynny, ac rwy'n meddwl bod hynny'n hollol iawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ar yr un pryd, rydym yn cydnabod, yn y pen draw, bod y rhain yn faterion y mae'n rhaid i rygbi yng Nghymru ei hun fynd i'r afael â nhw.

14:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, grass-roots participation could be increased by building confidence, motivation and physical competence among our young people. Do you believe that physical literacy should be awarded the same status as literacy and numeracy? What discussions have you had with the Minister for education to ensure that every teacher is trained to deliver high-quality physical education, especially in the primary sector?

Weinidog, gellid cynyddu cyfranogiad ar lawr gwlad drwy adeiladu hyder, cymhelliant a chymhwysedd corfforol ymysg ein pobl ifanc. Ydych chi'n credu y dylid dyfarnu'r un statws i lythrennedd corfforol ag i lythrennedd a rhifedd? Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'r Gweinidog addysg i sicrhau bod pob athro yn cael ei hyfforddi i gyflwyno addysg gorfforol o ansawdd uchel, yn enwedig yn y sector cynradd?

14:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, this is very much in the territory of Tanni Grey's report on physical education in Wales. Both the Minister for education and I will be responding to that report in due course.

Wrth gwrs, dyma diriogaeth adroddiad Tanni Grey ar addysg gorfforol yng Nghymru. Bydd y Gweinidog addysg a minnau yn ymateb i'r adroddiad hwnnw maes o law.

## Perchenogaeth Cymunedol o Chwaraeon

## Community Ownership of Sport

14:48 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am annog perchenogaeth gymunedol o chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0109(CS)*

*7. Will the Minister make a statement on encouraging community ownership of sport in Wales? OAQ(4)0109(CS)*

14:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Sport plays an important role in our communities. It is important that local people or supporters are meaningfully engaged in decisions about their clubs or facilities. I want to work with key partners to support community ownership in Wales.

Mae chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn ein cymunedau. Mae'n bwysig bod pobl neu gefnogwyr lleol yn cymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau am eu clybiau neu gyfleusterau. Rwyf eisiau gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi perchnogaeth gymunedol yng Nghymru.

14:48 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased to hear that answer. As you know, Supporters Direct is a body that has been giving assistance and doing tremendous work in encouraging community ownership of sport. I am wondering whether you would be prepared to meet with Supporters Direct to explore, perhaps, how the Welsh Government could assist in its initiative with a view to setting up a Supporters Direct Cymru organisation.

Rwy'n falch iawn o glywed yr ateb yna. Fel y gwyddoch, mae Supporters Direct yn gorff sydd wedi bod yn rhoi cymorth ac yn gwneud gwaith aruthrol o ran annog perchnogaeth gymunedol o chwaraeon. Ys gwn i a fydddech yn barod i gwrrd â Supporters Direct i archwilio, efallai, sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo yn ei fenter gyda'r bwriad o sefydlu sefydliad Supporters Direct Cymru.

14:49	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I know that a number of clubs in Wales, including football clubs, are benefiting from the support and advice of Supporters Direct. I think that Merthyr Town F.C. is one example, and it is doing very well this season, thankfully, on and off the field. Supporters Direct does have a great deal to offer, and I would be very pleased to meet with the organisation to see how we can go forward together.</p>	<p>Gwn fod nifer o glybiau yng Nghymru, gan gynnwys clybiau pêl-droed, yn elwa ar gefnogaeth a chyngor Supporters Direct. Credaf fod CPD Tref Merthyr yn un enghraifft, ac mae'n gwneud yn dda iawn y tymor hwn, diolch byth, ar ac oddi ar y cae. Mae gan Supporters Direct lawer iawn i'w gynnig, a byddwn yn falch iawn o gyfarfod â'r sefydliad i weld sut y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd.</p>
14:49	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>In a community meeting that I attended on Friday in Trefeglwys in my constituency, one of the issues that were raised and talked about was the lack of sports facilities across the county and across mid Wales to meet the needs of those taking part in various sporting activities. We know, of course, that the Minister and the Government want and encourage us to be more active. What is the Government doing to enable our communities in rural Wales, such as areas like Montgomeryshire, to develop and manage their own facility assets?</p>	<p>Mewn cyfarfod cymunedol y bŵm yn ddo ddydd Gwener yn Nhrefeglwys yn fy etholaeth i, un o'r materion a godwyd ac y siaradwyd amdano oedd y diffyg cyfleusterau chwaraeon ar draws y sir ac ar draws canolbarth Cymru i fodloni anghenion y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon amrywiol . Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod y Gweinidog a'r Llywodraeth am i ni fod ac yn ein hannog i fod yn fwy egniol. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i alluogi ein cymunedau yng Nghymru wledig, megis ardaloedd fel Sir Drefaldwyn, i ddatblygu a rheoli eu hasedau cyfleusterau eu hunain?</p>
14:50	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>We work through Sport Wales and local authorities across the country to make sure that provision is in place and that necessary support is provided. There is a great deal of attention paid at the current time, partly because of budgetary difficulties, to producing new models of operation. I know that local authorities across Wales are looking at different models. We are very happy, with our partners, to provide support and advice to ensure that all possibilities are explored.</p>	<p>Rydym yn gweithio drwy Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol ar draws y wlad i sicrhau bod y ddarpariaeth ar waith a bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael ei darparu. Mae llawer iawn o sylw yn cael ei roi ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd anawsterau cyllidebol, i gynhyrchu modelau newydd o weithredu. Gwn fod awdurdodau lleol ar draws Cymru yn edrych ar wahanol fodelau. Rydym yn hapus iawn, gyda'n partneriaid, i ddarparu cefnogaeth a chyngor i sicrhau bod yr holl bosibiliadau yn cael eu harchwilio.</p>
14:50	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Weinidog, un o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd yng Nghymru lle mae perchnogaeth yn nwylo cymunedol yw pysgota. Mae clybiau pysgota lleol ar hyd a lled y wlad wedi buddsoddi yn ein hafonydd ac wedi prynu hawliau pysgota i'w hunain. Daeth pysgotwyr o bob cwr o Gymru i'r Cynulliad bythefnos yn ôl i ddatgan eu dymuniad i weld cytundebau mynediad gwirfoddol i afonydd yn hytrach na newid deddfwriaethol. A allwch chi amlinellu sut y byddwch yn pwyso a mesur y gwerth hwnnw sy'n deillio o berchnogaeth gymunedol ar ein hafonydd wrth ichi ystyried eich camau pellach ar ddeddfu yn y maes hwn?</p>	<p>Minister, one of the most popular sports in Wales where the ownership is in the hands of the community is angling. Local angling clubs throughout the country have invested in our rivers and invested in the fishing rights. Anglers from every part of Wales came to the Assembly a fortnight ago saying that they wanted voluntary agreements for access to rivers rather than legislation. Can you outline how you will evaluate the value of the community ownership of our rivers as you consider your next steps on legislation in this field?</p>
14:51	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I very much recognise the importance of angling in Wales. It has a huge number of participants, and they derive a great deal of enjoyment from the activity. It is important in many other ways. I know that there are some big community memberships of angling associations. In taking matters forward, we are always very interested to hear views, of course, and any further proposals will involve the opportunities for further feeding in of views. I note what the Member says about voluntary agreements. Members will know that the Environment and Sustainability Committee suggested that voluntary agreements were very much the way forward, but with a legislative backstop where it was not possible to reach agreement.</p>	<p>Rwy'n cydnabod pwysigrwydd pysgota yng Nghymru yn bendant iawn. Mae ganddo nifer enfawr o gyfranogwyr, ac maent yn cael llawer iawn o fwynhad o'r gweithgaredd. Mae'n bwysig mewn llawer o ffyrdd eraill. Gwn fod aelodaeth gymunedol fawr o gymdeithasau pysgota. Wrth fwrw materion yn eu blaenau, mae gennym bob amser lawer o ddiddordeb mewn clywed barn, wrth gwrs, a bydd unrhyw gynigion pellach yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cyfrannu mwy o safbwyntiau. Nodaf yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud am gytundebau gwirfoddol. Bydd yr Aeloda'u'n gwybod bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynladwyedd wedi awgrymu mai cytundebau gwirfoddol yn sicr oedd y ffordd ymlaen, ond gyda chefnogaeth deddfwriaethol lle nad oedd yn bosibl dod i gytundeb.</p>

## Parhad Cyfleusterau Hamdden

## Continuation of Leisure Facilities

- 14:52 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*8. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â pharhad cyfleusterau hamdden ledled Cymru? OAQ(4)0118(CS)*
- 14:52 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yr wyf wedi cwrdd ag aelodau cabinet o awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod darpariaeth hamdden. Hefyd, rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleusterau hamdden a'r buddiannau trawsbynciol.
- 14:53 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Diolch am yr ateb hwnnw. Rydym wedi sôn am ddiffyg ymgynghori o ran byrddau iechyd. A ydych yn fodlon bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gau Canolfan Hamdden Plas Madoc a Chanolfan Hamdden a Gweithgareddau'r Byd Dŵr yn Wrecsam ond dim ond am bythefnos cyn y Nadolig y bu iddo gynnal ymgynghoriad, ac y mae wedi gwrthod gadael i'r cyhoedd fynd i unrhyw gyfarfod lle y trafodwyd y mater hwn yn neuadd y dre?
- 14:53 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
As I stated earlier, I have written—and I am in close contact with local authorities across Wales, as are my officials and Sport Wales—to ensure that proper consultation takes place whenever major change to services is being considered. Therefore, we expect of local authorities across Wales that consultation is adequate and meaningful.
- 14:54 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, you have now heard about the issues at Plas Madoc, at the Rhyl Sun Centre and at Prestatyn's Nova Centre. There are further problems with the consultation in Wrexham. In particular, when it was first launched, the independent report that had been commissioned was not put onto the website so that members of the public could see what had been said. What are you doing to look at how people can access the health benefits of local leisure centres, effectively by tying up your grass-roots programme and your support for that? It may well be that you could link the two and give much needed support to local councils and support local leisure facilities. Not all sports will be carried on outside, will they? There are a number that are carried out inside and it is important that the grass-roots support is there for those leisure centres, and you may be able to get a double win, Minister.
- 8. What discussions has the Minister had with local authorities in relation to the continuation of leisure facilities across Wales? OAQ(4)0118(CS)*
- I have met recently with local authority cabinet members and the Welsh Local Government Association to discuss leisure service provision. I have also written to all local authorities emphasising the importance of leisure facilities and the cross-cutting benefits.
- Thank you for that response. We have mentioned a lack of consultation by health boards. Are you content that Wrexham County Borough Council is adequately consulting on the closure of Plas Madoc Leisure Centre and Waterworld Leisure and Activity Centre in Wrexham as it only held its consultation for a fortnight prior to Christmas, and has refused to allow the public to attend any meetings discussing this particular issue in the town hall?
- Fel y dywedais yn gynharach, rwyf wedi ysgrifennu—ac rwyf mewn cysylltiad agos gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru, fel y mae fy swyddogion a Chwaraeon Cymru—i sicrhau bod ymgynghori priodol yn digwydd pryd bynnag y ceir newid mawr i wasanaethau yn cael ei ystyried. Felly, rydym yn disgwyl gan awdurdodau lleol ar draws Cymru bod yr ymgynghori'n ddigonol ac yn ystyrlon.
- Weinidog, rydych wedi clywed am y materion ym Mhlas Madoc, yng Nghanolfan Haul y Rhyl ac yng Nghanolfan Nova Prestatyn. Ceir problemau pellach gyda'r ymgynghoriad yn Wrecsam. Yn benodol, pan gafodd ei lansio gyntaf, ni chafodd yr adroddiad annibynnol a gomisiynwyd ei roi ar y wefan fel y gallai aelodau o'r cyhoedd weld yr hyn a ddywedwyd. Beth ydych chi'n ei wneud i edrych ar sut y gall pobl gael mynediad at fanteision iechyd canolfannau hamdden lleol, mewn gwirionedd drwy gysylltu eich rhaglen llawr gwlad a'ch cefnogaeth ar gyfer hynny? Mae'n ddigon posibl y gallech gysylltu'r ddau a rhoi cymorth mawr ei angen i gynghorau lleol a chefnogi cyfleusterau hamdden lleol. Ni fydd pob camp yn cael eu cynnal y tu allan, na fyddant? Mae nifer sy'n cael eu cynnal y tu mewn ac mae'n bwysig bod y cymorth ar lawr gwlad ar gael ar gyfer y canolfannau hamdden hynny, ac efallai y byddwch yn gallu cael buddugoliaeth ddwbl, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:55 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that it is very important that these links are made, particularly at the current time of budgetary difficulties. Sport Wales is very keen in terms of linking up national governing bodies to make sure that people taking part in one sport also consider others and that links are made into the local authorities and the leisure centres. So, I very much agree that we need to join it all up and considerable effort is taking place to that end.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod y cysylltiadau hyn yn cael eu gwneud, yn enwedig yn y cyfnod hwn o anawsterau cyllidebol. Mae Chwaraeon Cymru yn awyddus iawn o ran cysylltu cyrff llywodraethu cenedlaethol i sicrhau bod pobl sy'n cymryd rhan mewn un gamp hefyd yn ystyried eraill a bod cysylltiadau'n cael eu gwneud i'r awdurdodau lleol a'r canolfannau hamdden. Felly, rwy'n cytuno'n fawr iawn bod angen inni gyfuno popeth ac mae ymdrech sylweddol yn cael ei gwneud i'r perwyl hwnnw.

14:55 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It has already been mentioned in the Chamber today that, last year, you announced that you would be investing £5 million as an interest-free loan scheme to local authorities to improve leisure facilities. I have to ask you: why the delay? By 2015, there will not be many leisure facilities left if the current round of cuts carries on. In view of Antoinette Sandbach's last question regarding the health benefits that leisure facilities can bring, how can we ensure that facilities will be safeguarded, let alone improved, in the local authorities with the worst levels of health? Surely this is penny wise, pound foolish.

Mae eisoes wedi ei grybwyll yn y Siambr heddiw, eich bod, y llynedd, wedi cyhoeddi y byddech yn buddsoddi £5 miliwn fel cynllun benthyciad di-log i awdurdodau lleol i wella cyfleusterau hamdden. Mae'n rhaid i mi ofyn i chi: pam yr oedi? Erbyn 2015, ni fydd llawer o gyfleusterau hamdden ar ôl os bydd y rownd gyfredol o doriadau yn parhau. O ystyried cwestiwn olaf Antoinette Sandbach ynghylch y manteision iechyd a allai ddod gyda chyfleusterau hamdden, sut y gallwn ni sicrhau y bydd y cyfleusterau yn cael eu diogelu, heb sôn am eu gwella, yn yr awdurdodau lleol â'r lefelau gwaethaf o iechyd? Ai nid gwario swllt i ennill ceiniog yw hyn.

14:56 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Again, I very much agree on the importance of these facilities and the need to retain and enhance them in terms of the health and fitness of the nation. Officials, Sport Wales and I are working with local authorities to that end. The £5 million loan scheme is for the financial year after 2014-15, which gives time for transition when authorities are looking for new models of delivery, but of course things cannot be changed overnight. You have to put the work in place in order to get to some of these new models.

Unwaith eto, rwy'n cytuno i raddau helaeth a phwysigrwydd y cyfleusterau hyn a'r angen i'w cadw a'u gwella o ran iechyd a ffitrwydd y genedl. Mae swyddogion, Chwaraeon Cymru a minnau yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'r perwyl hwnnw. Mae'r cynllun benthyciadau £5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl 2014-15, sy'n rhoi amser ar gyfer pontio pan fydd awdurdodau yn chwilio am fodolau newydd o ddarparu, ond wrth gwrs ni ellir newid pethau dros nos. Mae'n rhaid i chi wneud y gwaith er mwyn cyflawni rhai o'r modelau newydd hyn.

## Meysydd Chwaraeon Artiffisial Modern

## Modern Artificial Sports Pitches

14:56 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y meysydd chwaraeon artiffisial modern yng Nghymru, fel 3G a 4G? OAQ(4)0105(CS)*

*9. Will the Minister make a statement on the number of modern artificial sports pitches in Wales, such as 3G and 4G? OAQ(4)0105(CS)*

14:57 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Sport Wales records that there are 144 third generation pitches across Wales. They are owned or managed by various public, voluntary and private sector bodies or organisations and used for a variety of sports at elite and grass-roots level.

Mae Chwaraeon Cymru yn cofnodi bod 144 o feysydd trydedd genhedlaeth ar draws Cymru. Maent yn eiddo i neu'n cael eu rheoli gan gyrff neu sefydliadau sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat amrywiol ac fe'u defnyddir ar gyfer amrywiaeth o chwaraeon ar lefel elitaidd a llawr gwlad.

- 14:57 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, for that response. During 2014, in my constituency, a large number of rugby and football matches have been cancelled due to the state of the pitches—though thankfully not Bonymaen RFC versus Pontypool RFC last Saturday. What is the Welsh Government doing to increase the number of 3G and 4G pitches in Wales?
- Diolch i chi, Weinidog, am yr ymateb yna. Yn ystod 2014, yn fy etholaeth i, mae nifer fawr o gemau rygbi a pêl-droed wedi cael eu canslo oherwydd cyflwr y caeau—er diolch byth, dim Clwb Rygbi Bôn-y-maen yn erbyn Clwb Rygbi Pont-y-pŵl ddydd Sadwrn diwethaf. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y meysydd 3G a 4G yng Nghymru?
- 14:57 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, we are working through Sport Wales and with partners such as the Football Association of Wales, the Welsh Football Trust, the Welsh Rugby Union and Welsh Hockey. The idea is to join up effort and take an overview of where the 3G pitches currently are and where there are gaps where they could be placed most usefully. The FAW is looking at the Welsh Premier League and Welsh league clubs to roll out new 3G provision. For local authorities, I have opened a number already and I am going to Clydach Vale this Friday to do so again. There is a lot of valuable development taking place, but we need to make sure that it is strategically managed and rolled out.
- Unwaith eto, rydym yn gweithio drwy Chwaraeon Cymru a gyda phartneriaid megis Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Hoci Cymru. Y syniad yw cyfuno ymdrech a chymryd golwg gyffredinol ar lle mae'r meysydd 3G ar hyn o bryd a lle mae bylchau lle y gellid eu gosod yn fwyaf defnyddiol. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn edrych ar y clybiau Uwch Gynghrair a chynghrair Cymru i gyflwyno darpariaeth 3G newydd. Ar gyfer awdurdodau lleol, rwyf wedi agor nifer yn barod ac rwy'n mynd i Gwm Clydach ddydd Gwener i wneud hynny eto. Mae llawer o ddatblygiad gwerthfawr yn digwydd, ond mae angen i ni wneud yn siŵr ei fod yn cael ei reoli a'i gyflwyno'n strategol.
- 14:58 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the new national football centre, Dragon Park in Newport, has received financial support from the Welsh Government, which I welcome. It includes a 3G pitch, which provides an excellent, all-weather playing surface, allowing players to develop their skills all year. Given the importance of artificial pitches—you just mentioned this to Mike Hedges and I would like to ask a question in the same tone but one that has different words—to the development of sport in Wales, will the Minister advise what he is doing to support and increase the number of such surfaces around the whole of Wales?
- Weinidog, mae'r ganolfan bêl-droed genedlaethol newydd, Parc y Ddraig yng Nghasnewydd, wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, a chroesawaf hynny. Mae'n cynnwys maes 3G, sy'n darparu arwyneb chwarae pob-tywydd ardderchog, gan ganiatáu i chwaraewyr ddatblygu eu sgiliau drwy gydol y flwyddyn. O ystyried pwysigrwydd caeau artiffisial—rydych newydd sôn am hyn wrth Mike Hedges a hoffwn i ofyn cwestiwn ar yr un dôn, ond un sydd â geiriau gwahanol—i ddatblygiad chwaraeon yng Nghymru, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym am yr hyn y mae'n ei wneud i gefnogi a chynyddu nifer yr arwynebau o'r fath o amgylch Cymru gyfan?
- 14:59 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We channel our funding to sport in Wales through Sport Wales primarily. As I said earlier, Sport Wales is part of the strategic development of 3G pitches, working with the Welsh Football Trust, the Football Association of Wales, the Welsh Rugby Union and Welsh Hockey.
- Rydym yn sianelu ein cyllid i chwaraeon yng Nghymru drwy Chwaraeon Cymru yn bennaf. Fel y dywedais yn gynharach, mae Chwaraeon Cymru yn rhan o ddatblygiad strategol o feysydd 3G, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Hoci Cymru.
- 14:59 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf am ofyn ichi ddwysau eich ymdrechion yn y trafodaethau yr ydych yn eu cael â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu'r arwynebeddau artiffisial yn Uwch-gynghrair Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r meysydd chwarae yn cael eu defnyddio am awr a hanner yr wythnos. Pe tai'n cael yr arwynebedd artiffisial, byddent ar gael, mewn theorï, am 24 awr, saith diwrnod yr wythnos. Hoffwn ofyn yn benodol ichi edrych i gyfeiriad y Gweinidog iechyd, gan fod manteision iechyd yn deillio o gael y fath adnoddau, a'r Gweinidog cymunedau, ac efallai, gyda'ch gilydd, eich bod yn dod i ryw drefniant bod modd hyrwyddo hyn ymhellach.
- I want to ask you to intensify your efforts in the negotiations that you are having with the FAW, particularly in the context of developing artificial surfaces within the Welsh Premier League. At the moment, they are used for an hour and a half a week. If they did have these artificial surfaces, they would be available, in theory, 24 hours a day, seven days a week. I would also ask you specifically to look towards the Minister for health, as there are health benefits accruing from have such facilities, and the Minister for communities, and that perhaps together you come to some arrangement that this can be promoted further.



15:00	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I do think it is very important that we join up across Government, as well as with a range of key partners outside Government. I am a member, along with the Minister for health, of the physical activity executive group here within Welsh Government, along with the chief medical officer and Public Health Wales, to make sure that we do make the links between physical activity, sport and the health agenda. So, I think we are making these links, and it is also important that we also look to join up in terms of existing facilities and better use of them. A prime example of that is driving ahead with community-focused schools, where there are some very good facilities that are not always as available to the public and sports clubs as they should be.</p>	<p>Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ymuno ar draws y Llywodraeth, yn ogystal â gydag amrywiaeth o bartneriaid allweddol y tu allan i'r Llywodraeth. Rwyf yn aelod, ynghyd â'r Gweinidog Iechyd, o'r grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol yma o fewn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r prif swyddog meddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y cysylltiadau rhwng gweithgarwch corfforol, chwaraeon a'r agenda iechyd. Felly, rwy'n meddwl ein bod ni yn gwneud y cysylltiadau hyn, ac mae hefyd yn bwysig ein bod hefyd yn edrych i ymuno o ran cyfleusterau presennol a gwella defnydd ohonynt. Enghraifft amlwg o hynny yw bwrw ymlaen gydag ysgolion bro, lle mae rhai cyfleusterau da iawn nad ydynt bob amser ar gael i'r cyhoedd a chlybiau chwaraeon i'r graddau y dylent fod.</p>
	<b>Treftadaeth Grefyddol</b>	<b>Religious Heritage</b>
15:01	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo treftadaeth grefyddol Cymru? OAQ(4)0103(CS)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on promoting Welsh religious heritage? OAQ(4)0103(CS)</i></p>
15:01	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Wales has a long and rich religious heritage that dates back almost 2,000 years. The history and stories of Wales's religious past feature prominently in the pan-Wales heritage interpretation plan to help widen access to our heritage and encourage greater participation in its care.</p>	<p>Mae gan Gymru dreftadaeth grefyddol hir a chyfoethog sy'n dyddio'n ôl bron i 2,000 o flynyddoedd. Mae hanes a straeon crefyddol Cymru yn y gorffennol yn rhan amlwg o'r cynllun dehongli treftadaeth Cymru gyfan i helpu i ehangu mynediad at ein treftadaeth ac annog mwy o gyfranogiad yn ei gofal.</p>
15:01	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, this week we marked Holocaust Memorial Day, and of course there are members of the Jewish community the length and breadth of Wales. What consideration are you giving to the Jewish heritage that Wales has in terms of helping to promote that more widely, and engagement with that more widely, in communities the length and breadth of the country?</p>	<p>Weinidog, yr wythnos hon rydym yn nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust, ac wrth gwrs ceir aelodau o'r gymuned Iddewig ar hyd a lled Cymru. Pa ystyriaeth ydych chi'n ei rhoi i'r dreftadaeth Iddewig sydd gan Gymru o ran helpu i hyrwyddo hynny yn ehangach, ac ymgysylltu â hynny yn fwy eang, mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad?</p>
15:01	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, of course, all faiths in Wales are part of our efforts to promote, mark and value religious heritage in Wales, and ensure that it is part of important Government strategies, such as the tourism strategy, as well as those within my responsibility. Of course, the education department plays an important role in terms of marking these terrible historical events affecting the Jewish community, such as the Holocaust.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, mae pob ffydd yng Nghymru yn rhan o'n hymdrechion i hyrwyddo, nodi a gwerthfawrogi treftadaeth grefyddol yng Nghymru, a sicrhau ei bod yn rhan o strategaethau pwysig y Llywodraeth, megis y strategaeth dwristiaeth, yn ogystal â'r rhai o fewn fy nghyfrifoldeb i. Wrth gwrs, mae'r adran addysg yn chwarae rhan bwysig o ran nodi'r digwyddiadau hanesyddol ofnadwy hyn sy'n effeithio ar y gymuned Iddewig, fel yr Holocaust.</p>
15:02	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Rhan o'r dreftadaeth grefyddol gyfoethog hon yw ein traddodiad emynyddol a chorawl. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i hyrwyddo'r traddodiad cyfoethog hwn?</p>	<p>Part of this rich religious heritage is our choral and hymnal tradition. What plans do you have as a Government to promote this rich heritage?</p>

15:02	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, as I said, all aspects of our religious heritage in Wales are part of the Welsh Government's work. As we take forward the interpretation plan and strategy more generally we will consider all possible inclusions. What the Member has said today will, I am sure, be considered in that regard.	Wel, fel y dywedais, mae pob agwedd ar ein treftadaeth grefyddol yng Nghymru yn rhan o waith Llywodraeth Cymru. Wrth i ni ddatblygu'r cynllun dehongli a'r strategaeth yn fwy cyffredinol byddwn yn ystyried popeth y gellid ei gynnwys. Bydd yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud heddiw, rwy'n siŵr, yn cael ei ystyried yn rhan o hynny.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Minister.	Diolch i chi, Weinidog.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Datganiad a Chyhoeddiad Busnes</b>	<b>Business Statement and Announcement</b>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i> I have one change to report to this week's business—the oral statement on progress on improving public procurement has been postponed. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.	Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon—mae'r datganiad llafar ar gynnydd ar wella caffael cyhoeddus wedi ei ohirio. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ddangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.	
15:03	<b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Leader of the house, may I ask you to ask the Minister for Education and Skills to bring forward an oral statement with regard to the report published today by Estyn on school standards?	Arweinydd y tŷ, a gaf fi ofyn ichi ofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i gyflwyno datganiad llafar ar yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Estyn ar safonau ysgolion?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> There is a debate scheduled on this report on 4 March, which is in line with previous years' protocols. You will appreciate that the report was published only today, so I think it would be unreasonable to expect the Minister to make a statement at this early stage.	Mae dadl wedi'i threfnu ar yr adroddiad hwn ar 4 Mawrth, sydd yn unol â phrotocolau blynyddoedd blaenorol. Byddwch yn gwerthfawrogi mai dim ond heddiw y cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi, felly rwy'n credu y byddai'n afresymol disgwyl i'r Gweinidog wneud datganiad yn y cyfnod cynnar hwn.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I was very pleased to visit Velindre Cancer Centre yesterday with Mark Drakeford, the Minister for health, when he launched the cancer patient experience survey, done by Macmillan, which was a huge vote of confidence in our health service and in the treatment received by patients suffering from cancer. So, I wondered, Leader of the house, whether it would be possible to have either a statement or a debate so that we could look at some of the details of this report, which I am sure must have cheered up everybody in this Chamber.	Roeddwn yn falch iawn o ymweld â Chanolfan Ganser Felindre ddoe gyda Mark Drakeford, y Gweinidog iechyd, pan lansiodd yr arolwg profiad cleifion canser, a gynhaliwyd gan Macmillan, a oedd yn bleidlais enfawr o hyder yn ein gwasanaeth iechyd ac yn y driniaeth a dderbynnir gan gleifion sy'n dioddef o ganser. Felly, roeddwn yn meddwl tybed, Arweinydd y tŷ, a fyddai'n bosibl cael naill ai ddatganiad neu ddadl er mwyn i ni gael edrych ar rai o fanylion yr adroddiad hwn, sydd, rwy'n siŵr, wedi bod yn galonogol i bawb yn y Siambr hon.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:04	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes, I absolutely agree. It made for very pleasant reading, and I am sure that the Minister will be very happy to make a statement.	Ie, rwy'n cytuno'n llwyr. Roedd yn bleser ei ddarllen, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn hapus iawn i wneud datganiad.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 15:04 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I was wondering whether we could have a debate sometime soon on the future of eating disorders provision in Wales. I ask because the charity Beat Cymru will be wound up on 1 March, and the staff at the charity will be made redundant immediately. They were reliant on lottery funding, but the Minister kindly put more money into eating disorder services in Wales, and I am very concerned, as chair of the cross-party group on eating disorders, that if the youth ambassadors' work, and the support groups in our local areas, cannot be maintained because of the cuts to this charity, those who do not then have support through the health service will fall through the gap again and revert to their very serious illness of an eating disorder. So, I call for a debate on this issue and urge the Minister for health here today to listen to what I have said so that we can try to come to a solution in the best interests of Welsh people.
- Weinidog, roeddwn yn meddwl tybed a allem ni gael dadl yn fuan ar ddyfodol y ddarpariaeth ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru. Gofynnaf hyn oherwydd bydd yr elusen Beat Cymru yn dirwyn i ben ar 1 Mawrth, a bydd y staff yn yr elusen yn cael eu diswyddo ar unwaith. Roeddent yn ddibynnol ar arian y loteri, ond mae'r Gweinidog yn garedig wedi rhoi mwy o arian i mewn i wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru, ac rwy'n bryderus iawn, fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar anhwylderau bwyta, os na ellir cynnal gwaith y cenhadon ieuentid, a'r grwpiau cymorth yn ein hardaloedd lleol, oherwydd y toriadau i'r elusen hon, bydd y rhai nad ydynt wedyn yn cael cymorth drwy'r gwasanaeth iechyd yn syrthio drwy'r bwch unwaith eto ac yn mynd yn ôl at eu salwch difrifol iawn o anhwylder bwyta. Felly, rwy'n galw am ddatl ar y mater hwn ac yn annog y Gweinidog iechyd yma heddiw i wrando ar yr hyn yr wyf wedi'i ddweud fel y gallwn geisio cael ateb er lles pobl Cymru.
- 15:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. I am sure that the Minister for Health and Social Services has heard your comments. Obviously, it is for local health boards to ensure that they have the services in place for their population, including those suffering from eating disorders.
- Diolch. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi clywed eich sylwadau. Yn amlwg, mater i'r byrddau iechyd lleol yw sicrhau bod ganddynt y gwasanaethau ar waith ar gyfer eu poblogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef o anhwylderau bwyta.
- 15:05 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I also have a request for the Minister for Health and Social Services. I have had a number of constituents raise with me questions about the variability of service in terms of the quality of service provided across Wales in sexual health clinics, in particular in relation to access to clinical appointments in the first instance, and continued concern about the prescribing and support regimes for patients living with HIV and AIDS. I was wondering whether we could request a statement from the Minister, please, once he has had an opportunity to investigate those issues.
- Weinidog, mae gennyf gais hefyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf wedi cael nifer o etholwyr yn codi cwestiynau gyda mi am amrywiaeth mewn gwasanaeth o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru mewn clinigau iechyd rhywiol, yn enwedig ynglŷn â mynediad at apwyntiadau clinigol yn y lle cyntaf, a phryder parhaus am y cyfundrefnau rhagnodi a chefnogaeth i gleifion sy'n byw gyda HIV ac AIDS. Ys gwn i a gawn ni ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog, os gwelwch yn dda, ar ôl iddo gael cyfle i ymchwilio i'r materion hynny.
- 15:06 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, I am sure that the Minister has heard your comments and will certainly look into the provision of sexual health services right across Wales and report in due course.
- Unwaith eto, rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed eich sylwadau a bydd yn sicr yn edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd rhywiol ar draws Cymru ac yn adrodd maes o law.
- 15:06 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Leader of the house, is it possible to have two statements, please? The first is from the Minister for health in relation to the NHS delivery unit. I heard the First Minister talking about that unit in response to my colleague, Paul Davies, I think; he certainly talked about it during questions to the First Minister. We are aware of the First Minister's delivery unit; I have heard, for the first time, about the NHS delivery unit now. I hope that it is having more success than the First Minister's delivery unit. However, I would be most grateful to understand how it fits into the department for health, how it works with the health boards and what exact responsibilities it has in implementing day-to-day policy in the Department for Health and Social Services.
- Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Mae'r cyntaf gan y Gweinidog Iechyd ynglŷn ag uned cyflawni'r GIG. Clywais y Prif Weinidog yn sôn am yr uned honno mewn ymateb i fy nghydweithiwr, Paul Davies, rwy'n credu; yn sicr siarodd amdano yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Rydym yn ymwybodol o uned gyflawni'r Prif Weinidog; rwyf wedi clywed, am y tro cyntaf, am uned gyflenwi'r GIG bellach. Rwy'n gobeithio ei bod yn cael mwy o lwyddiant nag uned gyflawni'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar iawn i ddeall sut y mae'n cyd-fynd â'r adran iechyd, sut y mae'n gweithio gyda'r byrddau iechyd a pha gyfrifoldebau yn union sydd ganddi mewn gweithredu polisi o ddydd i ddydd yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

The second statement that I would seek is from the Minister with responsibility for planning in relation to the Williams commission. I appreciate that the report is sitting with the First Minister at the moment. There is no certainty as to whether that report will go forward or not, because, obviously, the Government has not indicated whether it is taking it forward, although the First Minister seems, from his rhetoric, minded to take it forward.

Two of the authorities that I represent in the South Wales Central region are currently discussing their local development plans and are at various stages of the LDP process. Considerable money has been spent on that process. Obviously, if that report were to be taken forward, in the instance of Cardiff and the Vale of Glamorgan, those two authorities would cease to exist and we would have one authority. I seek assurance from the Minister with responsibility for planning that he is working with local authorities to facilitate the LDP process to go forward, or, if there is doubt, to ensure that measures are put in place to safeguard planning departments from planning by appeal, because there is a real risk that the whole LDP process could fall into disarray with the proposals that are currently put forward in the Williams commission report.

15:08

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to your comments regarding the NHS delivery unit, it is my recollection that that unit has been there for about 10 years, so it is not a new phenomenon.

On your question regarding a statement from the Minister for Housing and Regeneration in relation to planning and the Williams commission, you will appreciate that, while the report obviously sits with the First Minister, and we will be having a debate this afternoon, it is actually for several Ministers—it goes right across Government—to bring forward comments and statements on the report in due course. As you can appreciate, it is a very large document; we are all currently working through it. As we go through the coming weeks, we will be reporting and bringing to the Chamber many statements regarding the commission's report.

15:09

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that the UK Government is currently developing plans to allow some of the most vulnerable refugees from Syria to come to the UK. These may include victims of torture or abandoned children who have some really considerable support needs. So, I would welcome a statement from the Government updating Members on what discussions you have had with the UK Government about the role that Wales can play, and how we can ensure that all of the complex needs of refugees are met.

Mae'r ail ddatganiad yr wyf yn gofyn amdano gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio ynglŷn â chomisiwn Williams. Rwy'n sylweddoli bod yr adroddiad yn eistedd gyda'r Prif Weinidog ar hyn o bryd. Nid oes sicrwydd ynghylch pa un a fydd yr adroddiad hwnnw'n mynd ymlaen ai peidio, oherwydd, yn amlwg, nid yw'r Llywodraeth wedi nodi a yw'n ei ddatblygu, er ei bod yn ymddangos bod y Prif Weinidog, yn ôl ei rethreg, o blaid ei ddatblygu.

Mae dau o'r awdurdodau a gynrychiolaf yn rhanbarth Canol De Cymru ar hyn o bryd yn trafod eu cynlluniau datblygu lleol ac maent ar wahanol gamau o broses y CDLI. Mae arian sylweddol wedi ei wario ar y broses honno. Yn amlwg, pe byddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei ddwyn ymlaen, yn achos Caerdydd a Bro Morgannwg, byddai'r ddau awdurdod hynny'n peidio â bodoli a byddai gennym un awdurdod. Rwy'n gofyn am sicrwydd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio ei fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i hwyluso'r broses CDLI i symud ymlaen, neu, os oes amheuaeth, i sicrhau bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu adrannau cynllunio rhag cynllunio drwy apêl, oherwydd mae perygl gwirioneddol y gallai'r broses CDLI gyfan syrthio i anhrefn gyda'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn adroddiad comisiwn Williams.

Ynglŷn â'ch sylwadau ynghylch uned gyflawni'r GIG, fy atgof yw bod yr uned wedi bod yno am tua 10 mlynedd, felly nid yw'n ffenomenon newydd.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ynglŷn â chynllunio a chomisiwn Williams, byddwch yn sylweddoli, er bod yr adroddiad yn amlwg yn eistedd gyda'r Prif Weinidog, ac y byddwn yn cael dadl y prynhawn yma, mae mewn gwirionedd yn fater i nifer o Weinidogion—mae'n mynd ar draws y Llywodraeth—gyflwyno sylwadau a datganiadau ar yr adroddiad maes o law. Fel y gallwch werthfawrogi, mae'n ddogfen fawr iawn; rydym i gyd ar hyn o bryd yn gweithio drwyddi. Wrth i ni fynd drwy'r wythnosau nesaf, byddwn yn adrodd ac yn dod â llu o ddatganiadau i'r Siambr ynglŷn ag adroddiad y comisiwn.

Deallaf fod Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau i ganiatáu i rai o'r ffoaduriaid mwyaf agored i niwed o Syria ddod i'r DU. Gallai'r rhain gynnwys dioddefwyr artaith neu blant a adawyd sydd â rhai anghenion cymorth sylweddol iawn. Felly, byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth yn diweddar i'r Aelodau ar ba drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y rhan y gall Cymru ei chwarae, a sut y gallwn sicrhau bod holl anghenion cymhleth ffoaduriaid yn cael eu bodloni.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:09 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You bring a very important point to the Chamber. I know that my colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty, visited the Welsh Refugee Council yesterday, where he was able to talk to Syrian refugees and hear their stories. There have been no specific discussions with the UK Government on the role that Wales can play. You will appreciate that immigration policy is not devolved to the Welsh Government, but we fund three organisations through the new equality and inclusion grant to support refugees and asylum seekers, including the Welsh Refugee Council. I know that the Minister yesterday undertook to do what he could to make representations to the UK Government on behalf of two families that he met yesterday. The Minister is here and has heard your question. I am sure that he will make additional representations if that is what is required.
- Rydych yn dod â phwynt pwysig iawn i'r Siambr. Gwn fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threch Tlodi, wedi ymweld â Chyngor Ffoaduriaid Cymru ddoe, lle'r oedd yn gallu siarad â ffoaduriaid o Syria a chlywed eu straeon. Ni fu unrhyw drafodaethau penodol gyda Llywodraeth y DU ar y rhan y gall Cymru ei chwarae. Byddwch yn sylweddoli nad yw polisi mewnfudo wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond rydym yn ariannu tri sefydliad drwy'r grant cydraddoldeb a chynhwysiant newydd i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Gwn fod y Gweinidog wedi ymgymryd ddoe i wneud yr hyn a allai i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar ran dau deulu y cwrdodd â nhw ddoe. Mae'r Gweinidog yma ac wedi clywed eich cwestiwn. Rwy'n siŵr y bydd yn gwneud sylwadau ychwanegol os mai dyna fydd ei angen.
- 15:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I heard what you said about the annual debate on the Estyn annual report, and you are right, of course, that we do that each year. However, may I suggest to you that, in the light of the discussion outside this place of the procedures of this place, a debate is not always the best way to hold Government Ministers to account? It would be good, I think, in the light of what Estyn had to say about some unfortunate backward trends within leadership and school standards, if the Minister were prepared to make a statement perhaps not so much on the Estyn annual report as such, but in particular about the preparedness of the regional consortia to undertake their tasks going forward. He has already told us that they have to be in place by the end of March, and that he wants to see them fully up and running and ready to undertake all of their tasks. We will not have a real chance between now and then to ask him about whether he is convinced about that and whether he needs, for example, to take further powers, as he has discussed in the past. So, I think that a statement on that issue would be extremely useful for all of us.
- Weinidog, rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedasocho am y dadl flynyddol ar adroddiad blynyddol Estyn, ac rydych yn iawn, wrth gwrs, ein bod yn gwneud hynny bob blwyddyn. Fodd bynnag, a gaf fi awgrymu wrthyhych, yng ngoleuni'r drafodaeth y tu allan i'r lle hwn o weithdrefnau'r lle hwn, nad dadl bob amser yw'r ffordd orau i ddal Gweinidogion y Llywodraeth i gyfrif? Byddai'n dda, rwy'n meddwl, yng ngoleuni'r hyn yr oedd gan Estyn i'w ddweud am rai tueddiadau anffodus tuag at yn ôl o fewn arweinyddiaeth a safonau ysgol, pe byddai'r Gweinidog yn barod i wneud datganiad, efallai nid yn gymaint ar adroddiad blynyddol Estyn fel y cyfryw, ond yn benodol am barodrwydd y consortia rhanbarthol i ymgymryd â'u tasgau wrth symud ymlaen. Mae eisoes wedi dweud wrthym bod yn rhaid iddynt fod ar waith erbyn diwedd mis Mawrth, a'i fod eisiau eu gweld yn gwbl weithredol ac yn barod i wneud eu holl dasgau. Ni fyddwn yn cael cyfle gwirioneddol rhwng nawr a bryd hynny i ofyn iddo pa un a yw'n argyhoeddedig am hynny ac a oes angen, er enghraifft, iddo gymryd mwy o bwerau, fel y mae wedi'i drafod yn y gorffennol. Felly, rwy'n credu y byddai datganiad ar y mater hwnnw yn hynod ddefnyddiol i bob un ohonom.
- 15:11 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will have a discussion with the Minister regarding that specific point. As I said, there is a debate scheduled, but I will speak to him on that and inform the Member.
- Byddaf yn cael trafodaeth gyda'r Gweinidog ynghylch y pwynt penodol hwnnw. Fel y dywedais, mae dadl wedi'i threfnu, ond byddaf yn siarad ag ef ar hynny ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau.
- 15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch i chi, Weinidog.
- 15:11 **Datganiad: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus** **Statement: Progress on Improving Y Public Procurement** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- This item has been postponed.
- Mae'r eitem hon wedi ei gohirio.

## Datganiad: Adolygiad Annibynnol o Gydnerthedd Ffermio

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

One of the consequences of climate change is that periods of severe and unpredictable weather are becoming more prevalent. In recent weeks, we have witnessed significant storm damage and flooding. Late last March, Wales experienced snowfall and low temperatures that had not occurred in a generation. That followed hard on the heels of a year of poor weather. The severe snowfall and associated cold weather created significant difficulties for a number of different business sectors, including agriculture.

I visited a number of farms affected at the time and met with farming families who were evidently in considerable distress. At that time, I also put in place a number of support measures, including derogations from carcase disposal rules, a major financial contribution to the leading farm charities, and early common agricultural policy payments to farms in affected areas. However, I was struck forcibly by two questions: first, were our collective contingency response arrangements across Wales sufficiently robust and fine-tuned to respond to a situation of that sort? Secondly, why were businesses that, on average, had enjoyed rising incomes over the preceding five years apparently so vulnerable in financial terms to external events? That is why I asked Kevin Roberts, former director general of the National Farmers' Union in England and Wales, to carry out a review into the resilience of farming in Wales.

Kevin structured his review in two phases, with his initial work focusing on my first question and the second stage looking at the wider resilience of farming in Wales, with a particular focus on our upland areas. Kevin made an interim report to me last July to enable the Welsh Government to address any urgent needs in terms of preparedness for contingent events. Kevin has now concluded the second phase of his work and I have today published his final report.

One of Kevin's key recommendations from the first phase of the review was the need to establish a contingency management plan, in addition to the Welsh Government's well-established emergency response arrangements, to help deal with isolated severe weather and other problems for farming and rural communities. A rural resilience manager has now been appointed within my department, and the implementation of Kevin's initial recommendations is well under way. This work has included the creation of a resilience network, led by officials from within my department, that can help gather rapid and accurate information on the ground in any future emerging situations—an aspect that proved particularly difficult last spring.

We have met with farming and other stakeholders to help drive this work forward. I very much welcome their support for our proposals. This is very much a shared endeavour.

## Statement: Independent Review into the Resilience of Farming

Un o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd yw bod cyfnodau o dywydd garw ac anhagwladwy'n dod yn fwy cyffredin. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld difrod sylweddol oherwydd stormydd a llifogydd. Ddiwedd mis Mawrth diwethaf, cafodd Cymru fwy o eira a thymheredd is nag a gafwyd ers cenhedlaeth. Daeth hynny'n syth ar ôl blwyddyn o dywydd gwael. Creodd yr eira difrifol a'r tywydd oer cysylltiedig gryn anawsterau i nifer o wahanol sectorau busnes, gan gynnwys amaethyddiaeth.

Bûm yn ymweld â nifer o ffermydd yr effeithiwyd arnynt ar y pryd, a chwrdd â theuluoedd ffermio a oedd yn amlwg mewn cryn dipyn o drallod. Bryd hynny, rhoddais nifer o fesurau cymorth ar waith hefyd, gan gynnwys rhanddirymadau o reolau gwaredu carcasau, cyfraniad ariannol sylweddol i'r elusennau ffermio blaenllaw, a thaliadau cynnar y polisi amaethyddol cyffredin i ffermydd mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Fodd bynnag, fe'm trawyd yn fawr gan ddau gwestiwn: yn gyntaf, a oedd ein cyd-drefniadau ymateb wrth gefn ar draws Cymru'n ddigon cadarn a manwl i ymateb i sefyllfa o'r fath? Yn ail, pam oedd busnesau a oedd, ar gyfartaledd, wedi gweld eu hincwm yn cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf fel petaent mor agored i niwed ariannol oherwydd digwyddiadau allanol? Dyna pam y gofynnais i Kevin Roberts, cyn gyfarwyddwr cyffredinol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr, gynnal adolygiad o gadernid ffermio yng Nghymru.

Trefnodd Kevin ei adolygiad mewn dau gam; roedd ei waith cychwynnol yn canolbwyntio ar fy nghwestiwn cyntaf a'r ail gam yn edrych ar gadernid ehangach ffermio yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar ein hucheldiroedd. Cyflwynodd Kevin adroddiad interim imi fis Gorffennaf diwethaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ymdrin ag unrhyw anghenion brys o ran parodrwydd at hapddigwyddiadau. Mae Kevin bellach wedi cwblhau ail gam ei waith ac rwyf heddiw wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol.

Un o argymhellion allweddol Kevin o gam cyntaf yr adolygiad oedd bod angen sefydlu cynllun rheoli wrth gefn, yn ogystal â threfniadau ymateb brys sefydledig Llywodraeth Cymru, i helpu i ymdrin â thywydd garw ynysig a phroblemau eraill i gymunedau ffermio a chymunedau gwledig. Mae rheolwr cadernid gwledig bellach wedi'i benodi yn fy adran, ac mae gwaith wedi dechrau i roi argymhellion cychwynnol Kevin ar waith. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys creu rhwydwaith cadernid, dan arweiniad swyddogion o'm hadran i, a all helpu i gasglu gwybodaeth gyflym a chywir ar lawr gwlad mewn unrhyw sefyllfaoedd a ddaw i'n hwynebu yn y dyfodol—agwedd a fu'n arbennig o anodd yn ystod y gwanwyn diwethaf.

Rydym wedi cwrdd â rhanddeiliaid ffermio a rhanddeiliaid eraill i helpu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Croesawaf yn fawr iawn eu cefnogaeth i'n cynigion. Mae hyn yn sicr yn ymdrech ar y cyd.



Presiding Officer, for the second phase of his review, Kevin Roberts has spent a great deal of time meeting with farmers, their representatives and a wide range of other partners and stakeholders across the industry to gain a full picture of the issues facing farming families and farm businesses in Wales. I would like to take this opportunity to thank Kevin for his considerable energy and commitment in preparing his report. His work has, among other things, been especially important to me in helping to inform a number of my recent CAP decisions.

The financial and other analyses that Kevin has undertaken highlight that it is our upland cattle and sheep farmers who are most susceptible to weather-related difficulties and wider volatility in the marketplace. This is not to say that the dairy or any other sector of the farming industry are immune to these problems, but, on the whole, they seem better able, and in some cases, better prepared, through efficient and effective business planning, to cope with the consequences. Kevin's report therefore identifies that it is our upland farms that need continued public support to survive and then thrive, but he strongly recommends that support from medium and long-term business development must be the way forward, rather than ongoing and declining direct subsidy. That is why he recommended a full 15% transfer, available through CAP reform, from pillar 1 direct payments to the new rural development programme. Linked to that, Kevin recommends a comprehensive and well-funded package of measures through the new RDP to help our agriculture industry to modernise, become more competitive and improve its resource efficiency. He also highlights a number of other ways in which farming, particularly in upland areas, might be maximised.

Kevin's report makes 41 recommendations in total. In particular, he highlights the need for a tiered and tailored approach to our business development services in Wales, which focus on enhancing farm technical performance in an environmentally sensitive manner. Alongside that, he proposes that there should be a substantial programme of investment in farm infrastructure. Although his initial discussions with insurers have suggested that there is little appetite to create new so-called 'catastrophe insurance products' for farmers, Kevin recommends that further work be done to pursue this concept, which seems to work effectively in other countries in the EU and elsewhere. I intend to take this matter up with Ministers for agriculture in the rest of the UK to see whether we can adopt a collective approach that will benefit all our farming communities.

Lywydd, ar gyfer ail gam ei adolygiad, mae Kevin Roberts wedi treulio llawer iawn o amser yn cwrdd â ffermwyr, eu cynrychiolwyr ac ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid eraill ar draws y diwydiant er mwyn cael darlun llawn o'r materion sy'n wynebu teuluoedd ffermio a busnesau fferm yng Nghymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Kevin am ei egni a'i ymroddiad sylweddol wrth baratoi ei adroddiad. Mae ei waith, ymhlith pethau eraill, wedi bod yn arbennig o bwysig imi o ran helpu i lywio nifer o'm penderfyniadau diweddar am y PAC.

Mae'r dadansoddiadau ariannol ac eraill y mae Kevin wedi eu gwneud yn tynnu sylw at y ffaith mai ffermwyr gwartheg a defaid yr ucheldir sydd fwyaf agored i anawsterau o ganlyniad i'r tywydd a natur anwadal ehangach y farchnad. Nid wyf yn dweud nad yw'r problemau hyn yn effeithio ar y sector laeth nac ar unrhyw sector arall yn y diwydiant ffermio, ond, ar y cyfan, mae'n ymddangos eu bod yn fwy abl, ac mewn rhai achosion, wedi ymbaratoi'n well, diolch i gynllunio busnes effeithiol ac effeithlon, i ymdopi â'r canlyniadau. Mae adroddiad Kevin felly'n nodi mai ar ffermydd yr ucheldir y mae angen cefnogaeth gyhoeddus barhaus i oroesi ac yna i ffynnu, ond mae'n argymhell yn gryf mai drwy gymorth datblygu busnes hirdymor a thymor canolig y mae'r ffordd ymlaen, yn hytrach na chymorthdaliadau uniongyrchol parhaus sy'n dirywio. Dyna pam y mae'n argymhell trosglwyddiad llawn 15%, sydd ar gael drwy ddiwygio'r PAC, o daliadau uniongyrchol colofn 1 i'r rhaglen datblygu gwledig newydd. Yn gysylltiedig â hynny, mae Kevin yn argymhell pecyn cynhwysfawr o fesurau wedi'i ariannu'n dda drwy'r cynllun datblygu gwledig newydd i helpu ein diwydiant amaethyddol i foderneiddio, i ddod yn fwy cystadleuol ac i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Mae hefyd yn tynnu sylw at nifer o ffyrdd eraill o wneud y gorau o ffermio, yn enwedig yn yr ucheldiroedd.

Mae adroddiad Kevin yn gwneud 41 o argymhellion i gyd. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at yr angen am ymagwedd haenog wedi'i theilwra tuag at ein gwasanaethau datblygu busnes yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad technegol ffermydd mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd. Ochr yn ochr â hynny, mae'n cynnig y dylid rhoi ar waith raglen sylweddol o fuddsoddi mewn seilwaith ffermydd. Er bod ei drafodaethau cychwynnol ag yswirwyr yn awgrymu nad oes llawer o awydd i greu'r hyn a elwir yn 'gynhyrchion yswiriant trychinebau' newydd i ffermwyr, mae Kevin yn argymhell y dylid gwneud gwaith pellach i fynd ar drywydd y cysyniad hwn; mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n effeithiol mewn gwledydd eraill yn yr UE ac mewn manau eraill. Rwyf yn bwriadu codi'r mater hwn â Gweinidogion amaeth yng ngweddill y DU i weld a allwn fabwysiadu ymagwedd ar y cyd a fydd o fudd i'n holl gymunedau ffermio.

Another strong message emerging from Kevin's report is the need to deliver targeted, rather than generic, support to the upland areas of Wales. This is consistent with many of the recommendations of the upland forum, which my department is currently taking forward. Kevin makes the point, as the forum has already done, that there should be no contradiction in pursuing policy goals in the uplands that generate benefit for agriculture and the environment. The two objectives are interdependent. Kevin underscores the need for actions that will achieve multiple outcomes. To help advise on this element of work going forward, I will be announcing further developments to the composition and work of the upland forum in the near future.

Kevin's report is clear that improved technical and professional performance on-farm is only part of a solution to building a resilient industry. The wider supply chain needs to play its part in meeting the challenge of developing new products and in increasing sales at home and abroad. The work of Hybu Cig Cymru is crucial in promoting our already strong brands of Welsh lamb and Welsh beef. Assembly Members will already be aware that I recently joined Hybu Cig Cymru on a number of overseas trade missions to help play my part in opening up new and emerging markets. Through new product development we must also look at ways in which we can build domestic markets and how we can increase our market share within the wider United Kingdom.

This review provides further insight into the challenges and opportunities for our agriculture industry, and I am grateful to everybody who has been involved in the process and has helped Kevin Roberts with his work. I have already addressed some of Kevin's central findings through my recent decisions on CAP reform. I also intend to accept all his other recommendations, many of which will be taken forward as part of my RDP consultation to be launched on 13 February at our annual Welsh farming conference. I urge everyone with an interest to take part in the consultation process and to help us shape a new groundbreaking rural development programme, investing in the long-term future of Welsh agriculture and our wider rural economy. I will report further to the Assembly in the autumn on actions to follow up Kevin's review. In the meantime, I commend this work to Members.

Neges gref arall sy'n deillio o adroddiad Kevin yw bod angen darparu cymorth wedi'i dargedu, yn hytrach na chymorth generig, i ardaloedd ucheldir Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â llawer o argymhellion fforwm yr ucheldir, y mae fy adran yn bwrw ymlaen ag ef ar hyn o bryd. Pwynt Kevin, a phwynt y mae'r fforwm eisoes wedi'i wneud, yw na ddylai fod dim gwrthddweud wrth fwrw ymlaen â nodau polisi yn yr ucheldiroedd sy'n creu budd i amaethyddiaeth ac i'r amgylchedd. Mae'r ddau amcan yn gyd-ddibynnol. Mae Kevin yn tanlinellu'r ffaith bod angen camau a fydd yn sicrhau mwy nag un canlyniad. I helpu i gynghori ar yr elfen hon o'r gwaith yn y dyfodol, byddaf yn cyhoeddi datblygiadau pellach i gyfansoddiad a gwaith fforwm yr ucheldir yn y dyfodol agos.

Mae adroddiad Kevin yn ei gwneud yn glir mai dim ond rhan o'r ateb yw gwell perfformiad technegol a phroffesiynol ar y fferm er mwyn adeiladu diwydiant cadarn. Mae angen i'r gadwyn gyflenwi ehangach chwarae ei rhan ac ymateb i'r her o ddatblygu cynhyrchion newydd a chynyddu gwerthiant gartref a thramor. Mae gwaith Hybu Cig Cymru yn allweddol o ran hyrwyddo brandiau cig oen Cymru a chig eidion Cymru sydd eisoes yn gryf. Bydd Aelodau'r Cynulliad eisoes yn ymwybodol fy mod yn ddiweddar wedi ymuno â Hybu Cig Cymru ar nifer o deithiau masnach tramor i gyfrannu at y gwaith o agor marchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n datblygu. Drwy ddatblygu cynhyrchion newydd, rhaid inni hefyd edrych ar ffyrdd o feithrin marchnadoedd domestig a sut y gallwn gynyddu ein cyfran o'r farchnad yn y Deyrnas Unedig yn ehangach.

Mae'r adolygiad hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth inni am yr heriau a'r cyfleoedd i'n diwydiant amaeth, ac rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses ac sydd wedi helpu Kevin Roberts â'i waith. Rwyf eisoes wedi rhoi sylw i rai o ganfyddiadau canolog Kevin yn fy mhenderfyniadau diweddar ar ddiwygio'r PAC. Rwyf hefyd yn bwriadu derbyn pob un o'i argymhellion eraill; caiff llawer o'r rheini eu datblygu fel rhan o'm hymgyngghoriad ar y cynllun datblygu gwledig a gaiff ei lansio ar 13 Chwefror yng nghynhadledd ffermio flynyddol Cymru. Rwyf yn annog pawb sydd â diddordeb i gymryd rhan yn y broses ymgynghori a'n helpu i lunio rhaglen datblygu gwledig arloesol newydd, a buddsoddi yn nyfodol hirdymor amaethyddiaeth yng Nghymru a'n heconomi wledig ehangach. Byddaf yn adrodd ymhellach i'r Cynulliad yn yr hydref am gamau yn sgil adolygiad Kevin. Yn y cyfamser, cymeradwyaf y gwaith hwn i'r Aelodau.

I, too, extend my thanks to Kevin Roberts and everyone who took part in the review. It is clear, Minister, that this is something that farmers in the uplands have been saying to you for many years, and this report substantiates what they have been telling you. I would like you to clarify, in relation to your resilience manager whom you have appointed to work in the Welsh Government, whether you have adopted the draft contingency plan that was drawn up. In particular, will you be acting promptly to ensure that any derogations or modifications to the EU regulations—or clarification, as he refers to in his report—will be sought quickly so that that is immediately in place when the next RDP comes into being? One of the biggest problems, as you will recall, was carcass disposal, last spring.

As Kevin Roberts's report recognises, hill and upland breeds play a vital role in the stratified sheep sector in Wales. He has clearly indicated that a reduction in stocking levels would negatively impact both the livestock sector and the environmental health of the uplands. He identifies de-stocking as potentially being as much of a problem in the uplands as overgrazing. You have indicated that you will accept all of his recommendations, so will you be introducing a stock-related scheme equivalent to Tir Mynydd that is linked, as it were, to numbers of sheep grazing in the uplands to ensure that there is not de-stocking? If not, how will you tackle the issue of de-stocking? Will there be some sort of areas of natural constraint scheme? How will you look at that? You have said that you will prioritise the roll-out of the advanced Glastir scheme on moorland; will that look at, for example, stocking rates, or will that address only the environmental measures that you see as equally important?

The review has called for a multifaceted uplands package, with better grassland management and uptake of better performing genetic stock. How will you deliver the management of the sustainable grazing regimes that you aim to maintain in the upland areas, and how will you encourage the uptake of better performing genetic stock? How will you ensure that moorland farmers entering the scheme will not be met with the same difficulties that farmers have previously been facing in Glastir? Will you be looking at a small grant scheme and a part-farm approach specifically designed for the uplands? Will that be available in moorlands, too?

It has been made very clear that business knowledge and diversification, particularly for upland sheep and beef farms, is crucial to ensure their long-term sustainability. However, it has also been identified in the report that many of these farms are in areas where they find diversification difficult, presumably because there are access difficulties, or they do not have access to broadband or communications. Therefore, how will you introduce measures that will help those blockages to diversification that were identified in the report?

Rwyf finau, hefyd, am ddiolch i Kevin Roberts ac i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad. Mae'n amlwg, Weinidog, fod hyn yn rhywbeth y mae ffermwyr yn yr ucheldiroedd wedi bod yn ei ddweud wrthy ch ers blynyddoedd lawer, ac mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r hyn y maent wedi bod yn ei ddweud wrthy ch. Hoffwn ichi egluro, mewn perthynas â'r rheolwr cadernid yr ydych wedi'i benodi i weithio yn Llywodraeth Cymru, a ydych wedi mabwysiadu'r cynllun wrth gefn drafft a luniwyd. Yn benodol, a fyddwch yn gweithredu'n brydlon i sicrhau bod unrhyw randdirymadau neu addasiadau i reoliadau'r UE—neu eglurhad, fel y mae'n ei alw yn ei adroddiad—yn cael eu ceisio'n gyflym fel y byddant ar waith ar unwaith pan ddaw'r cynllun datblygu gwledig nesaf i fodolaeth? Un o'r problemau mwyaf, fel y cofiwch, oedd gwaredu carcasau, y gwanwyn diwethaf.

Fel y mae adroddiad Kevin Roberts yn ei gydnabod, mae gan fridiau'r bryniau a'r ucheldir ran hanfodol i'w chwarae yn y sector defaid haenedig yng Nghymru. Mae wedi nodi'n glir y byddai lleihau lefelau stocio'n cael effaith negyddol ar y sector da byw ac ar iechyd amgylcheddol yr ucheldiroedd. Mae'n nodi y gallai lleihau lefelau stocio fod yn llawn cymaint o broblem yn yr ucheldiroedd â gorbori. Rydych wedi dweud y byddwch yn derbyn ei holl argymhellion, felly a fyddwch yn cyflwyno cynllun tebyg i Tir Mynydd ar gyfer stoc sy'n gysylltiedig, fel petai, â nifer y defaid sy'n pori ar yr ucheldiroedd er mwyn sicrhau nad yw lefelau stocio'n lleihau? Os na fyddwch, sut y byddwch yn mynd i'r afael â lleihau lefelau stocio? A fydd rhyw fath o gynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol? Sut y byddwch yn edrych ar hynny? Rydych wedi dweud y byddwch yn blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun Glastir uwch ar rostiroedd; a fydd hwnnw'n edrych ar gyfraddau stocio, er enghraifft, ynteu a fydd yn canolbwyntio'n llwyr ar y mesurau amgylcheddol sydd yr un mor bwysig ichi?

Mae'r adolygiad wedi galw am becyn ucheldiroedd amlochrog sy'n rheoli glaswelltir yn well ac yn manteisio ar stoc genetig sy'n perfformio'n well. Sut y byddwch yn rheoli'r cyfundrefnau pori cynaliadwy yr ydych am eu cynnal yn yr ucheldiroedd, a sut y byddwch yn annog defnyddio stoc genetig sy'n perfformio'n well? Sut y byddwch yn sicrhau na fydd ffermwyr rhostir sy'n ymuno â'r cynllun yn cael yr un anawsterau ag a gafodd ffermwyr Glastir yn y gorffennol? A fyddwch yn edrych ar gynllun grantiau bach ac ymagwedd rhan o'r fferm wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer yr ucheldiroedd? A fydd ar gael yn y rhostiroedd, hefyd?

Mae wedi dod yn glir iawn fod gwybodaeth busnes ac arallgyfeirio, yn enwedig ar gyfer ffermydd cig eidion a defaid yr ucheldir, yn hanfodol er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag, nodwyd hefyd yn yr adroddiad fod llawer o'r ffermydd hyn mewn ardaloedd lle mae'n anodd arallgyfeirio, yn ôl pob tebyg oherwydd anawsterau mynediad, neu oherwydd nad oes band eang neu gyfathrebu ar gael iddynt. Felly, sut y byddwch yn cyflwyno mesurau a fydd yn helpu'r rhwystrau hynny i arallgyfeirio a nodwyd yn yr adroddiad?

I notice that you have accepted all of his recommendations, so what is the point of launching your consultation if you have already said, 'I accept all of these recommendations and these are what I will be acting on'? Are you saying that you have accepted them but that you are willing to have your mind changed, or are you saying, 'I'm accepting them, but I just want to hear your views; I may not listen to them, but I would like to hear them'? I am not really very clear how you want to take that forward.

Sylwaf eich bod wedi derbyn ei holl argymhellion, felly beth yw diben lansio eich ymgynghoriad os ydych eisoes wedi dweud, 'Rwyf yn derbyn pob un o'r argymhellion hyn a byddaf yn gweithredu'n unol â hwy'? A ydych yn dweud eich bod wedi eu derbyn, ond eich bod yn barod i newid eich meddwl, ynteu a ydych yn dweud, 'Rwyf yn eu derbyn, ond rwyf am glywed eich barn; efallai na wrandawaf arni, ond byddai'n dda gennyf ei chlywed'? Nid wyf yn glir iawn sut yr ydych am fwrw ymlaen â hynny.

15:24

## **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Members are even less clear on the nature of that final question. I will be announcing next month a consultation on the RDP as a whole, and the consultation will debate and discuss how we take forward these recommendations. You will see from reading through the report that Kevin has made a number of recommendations, for example how we take forward business support and extension services. The consultation will discuss how we do that and the nature of that work. That, to me, is a very significant and substantial issue that is worthy not only of consultation, but serious debate up and down the country. I guess that the Member would probably agree with that, on reflection.

Many of her questions referred to Glastir and to the management of stocking levels and other related issues in the moorland and other parts of the country. I remind the Member that we launched a Glastir consultation last week, and many of the questions that she has asked will be answered by reading the document that was published last week. The issues that you refer to in terms of stocking levels and their flexibility were addressed directly in the document that I published last week.

In terms of the direction of travel, we have adopted a draft contingency plan and it is in place. It is being debated and discussed with stakeholders and others, and that work is being taken forward. We do not seek derogations until they are required; you would not have derogations in advance.

I was, again, confused by the question on the stock-related Tir Mynydd programme. There will be a debate on the RDP as a whole, and different schemes that might form a part of the rural development plan can be debated at that time. However, the Member seemed to be suggesting a return to headage payments, which is not something that we have in mind. I have not heard it suggested elsewhere, and that is certainly not going to be the direction of travel.

Rwyf yn meddwl bod yr Aelodau hyd yn oed yn llai clir ynglŷn â natur y cwestiwn olaf hwnnw. Y mis nesaf, byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y cynllun datblygu gwledig yn ei gyfanrwydd, a bydd yr ymgynghoriad yn dadlau ac yn trafod sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn. Fe welwch o ddarllen drwy'r adroddiad fod Kevin wedi gwneud nifer o argymhellion, er enghraifft, ynglŷn â sut y byddwn yn datblygu gwasanaethau cymorth ac estyn busnesau. Bydd yr ymgynghoriad yn trafod sut y byddwn yn gwneud hynny a natur y gwaith hwnnw. Mae hynny, i mi, yn fater arwyddocaol a sylweddol iawn sy'n deilwng nid yn unig o ymgynghoriad, ond o ddadl ddifrifol ym mhob cwr o'r wlad. Mae'n siŵr gennyf y byddai'r Aelod yn cytuno â hynny, wedi meddwl.

Roedd llawer o'i chwestiynau'n cyfeirio at Glastir ac at reoli lefelau stocio a materion cysylltiedig eraill ar rostiroedd ac mewn rhannau eraill o'r wlad. Hoffwn atgoffa'r Aelod ein bod wedi lansio ymgynghoriad ar Glastir yr wythnos diwethaf, a chaiff atebion i lawer o'r cwestiynau a ofynnodd drwy ddarllen y ddogfen a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Cafodd y materion yr ydych yn cyfeirio atynt o ran lefelau stocio a'u hyblygrwydd sylw uniongyrchol yn y ddogfen a gyhoeddais yr wythnos diwethaf.

O ran cyfeiriad teithio, rydym wedi mabwysiadu cynllun wrth gefn drafft ac mae ar waith. Mae'n destun dadlau a thrafod â rhanddeiliaid ac eraill, ac rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw. Nid ydym yn ceisio rhanddirywiadau hyd nes y bo eu hangen; ni fydddech yn cael rhanddirywiadau ymlaen llaw.

Roeddwn wedi drysu, unwaith eto, ynglŷn â'r cwestiwn am raglen Tir Mynydd sy'n gysylltiedig â stoc. Bydd dadl am y cynllun datblygu gwledig yn ei gyfanrwydd, a gellir dadlau am wahanol gynlluniau a allai fod yn rhan o'r cynllun datblygu gwledig bryd hynny. Fodd bynnag, roedd yr Aelod fel petai'n awgrymu troi'n ôl at daliadau y pen, ac nid yw hynny'n rhywbeth sydd gennym mewn golwg. Nid wyf wedi clywed awgrym o hynny yn unman arall, ac yn sicr nid dyna fydd y cyfeiriad teithio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of taking these matters forward, we are making a number of different announcements as we move through the first quarter of this year. I would ask the Member to take these different announcements as a whole, and regard them as a suite of different policy interventions to help support agriculture in Wales. We have had the announcement on pillar 1 payments of CAP. We have had the announcement on the review of Glastir. Today, we are making an announcement on the resilience review. We will be taking forward other matters over the coming weeks. I hope to publish the Malcolm Thomas report next week and I will be publishing the consultation on the rural development plan on 13 February. It would be useful if the Member were to review those documents, because I think that she will find that many of the questions that she asked were answered in those documents.

O ran bwrw ymlaen â'r materion hyn, rydym yn gwneud nifer o wahanol gyhoeddiadau wrth inni symud drwy chwarter cyntaf y flwyddyn hon. Byddwn yn gofyn i'r Aelod ystyried y gwahanol gyhoeddiadau hyn yn eu cyfanrwydd, a'u hystyried fel cyfres o wahanol ymryiadau polisi i helpu i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru. Rydym wedi cael y cyhoeddiad am daliadau PAC colofn 1. Rydym wedi cael y cyhoeddiad am adolygu Glastir. Heddiw, rydym yn gwneud cyhoeddiad am yr adolygiad o gadernid. Byddwn yn bwrw ymlaen â materion eraill dros yr wythnosau nesaf. Rwyf yn gobeithio cyhoeddi adroddiad Malcolm Thomas yr wythnos nesaf, a byddaf yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y cynllun datblygu gwledig ar 13 Chwefror. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Aelod yn edrych ar y dogfennau hynny, oherwydd credaf y bydd yn gweld bod y dogfennau'n ateb llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd ganddi.

15:27

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau hefyd yn ategu'r diolch i Kevin Roberts am ei waith; yn amlwg, mae 41 argymhelliad yn haeddu ychydig o amser i bori drwyddynt, ac i ystyried a phwyso a mesur y darlun cyfan wrth ddod â hwy i gyd at ei gilydd.

I also wish to endorse the thanks given to Kevin Roberts for his work; clearly, 41 recommendations deserve some consideration, so that we can weigh up the bigger picture as we bring all of those recommendations together.

Un o'r elfennau amlwg yn yr hyn sydd wedi cael ei amlinellu yw'r pwyslais sydd ei angen ar gynyddu cynhyrchiant wrth leihau impacts amgylcheddol. Mae'r agenda dwysáu cynaliadwy—sustainable intensification—yn agenda y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi bod yn edrych arni yn ein hymchwiliad i reoli tir yn gynaliadwy. Byddwn yn licio clywed barn y Llywodraeth ynglŷn â photensial dwysáu cynaliadwy, oherwydd mae'r ymateb a gafodd y pwyllgor gan fudd-ddeiliaid o'r sectorau amaethyddol ac amgylcheddol wedi bod yn eithaf llugoer.

One of the clear elements in what has been outlined is the emphasis required on increasing productivity while reducing environmental impacts. The sustainable intensification agenda is an agenda that the Environment and Sustainability Committee has been looking at in its inquiry into sustainable land management. I would like to hear the Government's views on the potential of sustainable intensification, given that the response that the committee received from stakeholders from the agricultural and environmental sectors has been relatively cool.

Rwy'n croesawu'n fawr y cyfeiriadau at yr angen i ddatblygu marchnadoedd da byw a lladd-dai lleol. Rwy'n meddwl bod ganddynt gyfraniad allweddol i'w wneud a'u bod yn elfennau pwysig iawn yn y gadwyn rydym am ei chryfhau. Mae capasiti'r isadeiledd ynni yn yr ucheldiroedd hefyd yn rhywbeth a godwyd yn flaenorol yn hyn o beth, ac rwy'n meddwl bod yr amser wedi dod i ni weld mwy o weithredu ar y ffrynt hwnnw.

I warmly welcome the references to the need to develop livestock markets and local abattoirs. I think that they have a key contribution to make and that they are very important elements in the chain that we want to make more robust. The capacity of the energy infrastructure in the uplands is also something that has been previously raised in this regard, and I think that the time has come for us to see more action on that front.

Mae 'mobility' o fewn y sector yn rhywbeth sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad, sef creu cyfle i ffermwyr ifanc i ddod i mewn i'r diwydiant. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny mae'n rhaid hefyd creu cyfle i rai eraill i adael. A yw'r Llywodraeth wedi cael trafodaethau yn sgîl yr adroddiad hwn, ac, os nad ydych, a fyddwch yn mynd ati i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a'r Trysorlys yn benodol, i edrych ar ba ystyriaethau y gellir eu datblygu o gwmpas y drefn drethiannol sydd, yn aml iawn, yn dal y trosglwyddiadau hynny yn ôl?

Mobility within the sector is highlighted in the report, and that means creating opportunities for young farmers to come into the industry. However, in order to do that, opportunities must be created for others to leave the industry. Has the Government had any discussions in the light of this report, and, if not, will you hold discussions with the United Kingdom Government, and the Treasury more specifically, to look at which considerations could be developed around the taxation regime that, very often, holds back those transfers?

Rydych wedi dweud yn gyson y bydd gwaith Kevin Roberts yn dylanwadu ar eich penderfyniadau pan mae'n dod i ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Byddwn yn dweud, fel rwyf wedi dweud o'r blaen, y dylai'r argymhellion hyn fod wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus yn gynt, fel eu bod wedi gallu cyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus ehangach o gwmpas CAP, yn hytrach na dim ond hysbysu eich ystyriaethau fel Llywodraeth.

You have regularly said that the work of Kevin Roberts will influence your decisions when it comes to reforming the common agricultural policy. I would say, as I have done in the past, that the recommendations should have been made public sooner, so that they could have contributed to the wider public debate around CAP, rather than simply informing your considerations as a Government.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Pan ydym yn sôn am gryfhau y gadwyn fwyd—ac rwy'n falch bod rôl Hybu Cig Cymru yn hynny o beth yn cael cydnabyddiaeth lawn—mae'n bwysig i ni beidio ag anghofio bod angen amddiffyn gwytnwch Hybu Cig Cymru hefyd. Felly, rwyf am eich holi ynglŷn â pha gynnydd sydd wedi bod o ran yr awgrym bod trafodaethau cychwynnol wedi bod yn nhermau diwygio'r lefi cig coch. A yw'r adolygiad hwn felly yn gwneud y diwygiad hwnnw yn fwy o flaenoriaeth?

Rwyf hefyd wedi codi gyda chi o'r blaen bwysigrwydd ystyriaethau ehangach wrth drafod dyfodol ffermydd a'r sector amaethyddol yng Nghymru, nid dim ond yr ystyriaethau economaidd. Rwy'n falch bod cydnabyddiaeth i hynny yn yr adroddiad hwn, lle mae Kevin Roberts yn sôn am rôl bwysig amaethyddiaeth o ran helpu i ddod â manteision cymdeithasol economaidd ehangach i gymdeithas, a mor hanfodol yw'r cymunedau amaethyddol o safbwynt lles cyffredinol ardaloedd gwledig Cymru. Wrth gwrs, mae hynny yn golygu lles cymdeithasol, diwylliannol a ieithyddol yn ogystal â nifer o ffactorau eraill. Yng ngoleuni datganiad o'r fath gan Kevin Roberts, sut fydd Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu hynny yn ei pholisïau, wrth asesu a datblygu ei pholisïau, ac wrth fesur effaith y polisïau hynny ar y manteision cymdeithasol economaidd ehangach hynny?

Yn olaf, mae Kevin Roberts yn tynnu sylw at y gwahaniaeth mawr rhwng y busnesau sy'n perfformio orau a'r rhai sydd rhywle yn y canol ymhlith ffermydd ucheldir Cymru, heb sôn, wrth gwrs, am y busnesau hynny sy'n perfformio salaf. Mae canfyddiad ymhlith ffermwyr Cymru fod y Llywodraeth yn troi cefn ar y rhai sydd, ar hyn o bryd efallai, ar waelod y gynghair effeithlonrwydd a chystadleurwydd honno. Felly, pa neges sydd gennych i'r rheini, Weinidog, yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad hwn? Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi na fydd y Llywodraeth hon yn gadael unrhyw un sydd am ddod ar y siwrne hon ar ôl?

When we talk about strengthening the food chain—and I am pleased that Hybu Cig Cymru is recognised in that regard—it is important that we do not forget that we need to protect the resilience of Hybu Cig Cymru too. Therefore, I want to ask you what progress has been made in relation to the suggestion that initial discussions on amending the red meat levy have taken place. Does this review make that change more of a priority?

I have also raised with you in the past the importance of wider considerations when it comes to discussing the future of farms and the agricultural sector in Wales, rather than the economic considerations alone. I am pleased to see that that is recognised in this report, where Kevin Roberts mentions the important role of agriculture in bringing wider socioeconomic benefits to society and how crucial the agricultural communities are in terms of the general wellbeing of rural areas in Wales. Of course, that refers to social, cultural and linguistic wellbeing as well as a number of other factors. In the light of such a statement by Kevin Roberts, may I ask how the Welsh Government will reflect that in its policies, in terms of how it assesses and develops its policies, and how it assesses the impact of those policies on the wider socioeconomic benefits?

Finally, Kevin Roberts highlights the major difference that exists between the best-performing businesses and those that are somewhat middling in terms of upland farms in Wales, never mind those farms that are the poorest performers. There is a perception among Welsh farmers that the Government is turning its back on those who may be at the bottom of the efficiency and competitiveness league. Therefore, what message do you have for those farmers, Minister, following the publication of this report? What assurance can you give that this Government will not leave behind anyone who wants to come on this journey?

15:32

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae ganddynt fy ngair i na fydd hynny'n digwydd. Byrdwn a phwrpas y dadansoddiad yr ydych chi wedi'u gweld, ac wrth dderbyn yr argymhellion y mae Kevin Roberts wedi eu gwneud, yw sicrhau bod pobl yn gallu dod ar y daith hon gyda ni. Pan gewch chi fwy o gyfle i ddadansoddi'r adroddiad, byddwch yn gweld bod Kevin yn dweud bod angen blaenoriaethu'r sectorau defaid a chig eidion yn yr ucheldiroedd gan sicrhau bod y rhai sydd angen help a chymorth yn cael hynny, ac nid dim ond rhyw fath o gymorth 'one size fits all' fel yn y gorffennol efallai, ond y math o gefnogaeth a chymorth y mae ei angen arnynt ar gyfer eu ffermydd hwy. Mae hynny yn eithaf pwysig ac yn rhan o'r adroddiad hwn, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ei bwysleisio yn ystod y cyfnod nesaf wrth inni ddod i weithredu ar yr argymhellion.

Rwy'n cytuno gyda'ch pwynt ynglŷn â phwysigrwydd cymdeithasol a ieithyddol amaethyddiaeth, ac rwy'n derbyn bod angen mesur y math o bolisïau yr ydym yn eu mabwysiadu o'r herwydd. Buaswn yn croesawu unrhyw gynigion oddi wrthyh ar sut y gallai hynny ddigwydd. Mae gennym ni syniadau yn y Llywodraeth yn amlwg, ond rwy'n derbyn bod hynny yn her i ni, a buaswn yn hapus iawn i drafod hynny ymhellach os oes gennych chi gynniig i'w wneud.

They have my word that that will not happen. The burden and purpose of the analysis that you have seen, and in accepting the recommendations made by Kevin Roberts, is to ensure that people can come on this journey with us. When you have had more of an opportunity to analyse the report, you will see that Kevin says that there is a need to prioritise the sheep and beef sectors in the uplands, by ensuring that those who require assistance receive it, and not just some kind of one-size-fits-all assistance as has been the case in the past, but the assistance and support that farmers need for their particular farms. That is an important point, which is included in this report, and it is something that I will be emphasising over the ensuing period as we come to implement the recommendations.

I agree with your point about the social and linguistic importance of agriculture, and I accept that we need to evaluate the kind of policies that we adopt as a result. I would welcome any proposals that you might have on how we could do that. We, as a Government, evidently have some ideas, but I accept that this is a challenge, and I would be very happy to discuss this further should you have any proposals to make.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Rwyf hefyd yn derbyn eich pwynt ynglŷn â dwysáu cynaliadwy, ond mae'n rhwyddach dweud na gwneud, ac yn rhwyddach dweud na disgrifio. Rwy'n credu bod pobl yn gweld hyn mewn ffordd wahanol ambell waith a bod dadansoddiadau a diffiniadau gwahanol o hynny. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn symud i ffwrdd o'r hen ddadl 'sterile' ein bod naill ai yn cynnal yr amgylchedd neu yn cynhyrchu bwyd. Mae'n rhaid symud i ffwrdd o hynny. Nid wyf yn credu bod y math hwnnw o ddadl, fel rydym wedi ei chael yn y gorffennol, wedi bod o gymorth i amaethyddiaeth nac i'r drafodaeth amgylcheddol yng Nghymru. Mae'n rhaid i amaethyddiaeth fod yn ddiwydiant cynaliadwy ar gyfer y tymor hir—yn gynaliadwy ar yr ochr gymdeithasol, yr ochr ariannol a'r ochr fusnes, ac yn gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd. Mae'n rhaid i bob un peth ddod at ei gilydd.

Byddaf yn cyhoeddi yr wythnos nesaf adroddiad gan Malcolm Thomas a fydd yn ystyried y math o drafodaethau yr ydych chi wedi awgrymu y mae eu hangen o ran 'mobility' y tu mewn i'r sector. Bydd cyfle i ni bwysleisio hynny yn nes ymlaen yn y flwyddyn, ond rwy'n derbyn y pwynt pwysig.

Yn olaf, mae Hybu Cig Cymru yn bwysig iawn i'r sector ac i'r diwydiant. Mae gen i gonsŷrn mawr am y lefi—credaf ein bod ni i gyd, ar draws y Siambr, wedi cytuno ar hynny—ac mae'n rhywbeth yr wyf i wedi bod yn ei bwysleisio yn ystod trafodaethau gyda DEFRA. Rwyf wedi cynnal sawl cyfarfod gyda DEFRA i drafod hyn, ac rwyf wrthi'n ysgrifennu at DEFRA ar hyn o bryd er mwyn cynnig ein bod yn cymryd y cyfle, wrth adolygu'r 'agriculture development board' yn nes ymlaen yn y flwyddyn, i gynnal adolygiad mwy dwfn o'r lefi a'r system lefi yn ei chyfanrwydd, ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig, er mwyn sicrhau bod gennym system lefi sy'n deg i bawb ac sy'n adlewyrchu anghenion pobl. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn adrodd yn ôl arno.

I also accept your point about sustainable intensification, but that is easier said than done, and easier said than elucidated. I believe that people see this in different ways on occasion and that there are different analyses and definitions. We must ensure that we move away from the old sterile argument that you can either sustain the environment or produce food. We have to move away from that. I do not believe that that kind of debate, which we have had in the past, has been of any assistance to agriculture or to the environmental debate in Wales. Agriculture has to be a sustainable industry for the long term—sustainable on the social side, the financial side and the business side, and sustainable in the environmental context. All those things must coalesce.

I will publish next week a report by Malcolm Thomas, which will consider the kind of discussions that you have suggested are required when it comes to mobility within the sector. There will be an opportunity for us to emphasise that later this year, but I accept that this is an important point.

Finally, Hybu Cig Cymru is exceptionally important to both the sector and the industry. I have a major concern about the levy—I believe that we all, across the Chamber, agree on this—and it is something that I have emphasised during discussions with DEFRA. I have held a number of meetings with DEFRA to discuss the matter, and I am in the process of writing to DEFRA at present to propose that we take the opportunity, as we review the agriculture development board later this year, to conduct a deeper review of the levy and of the levy system in its entirety, for each of the United Kingdom nations, in order to ensure that we have a levy system that is equitable for all and reflects people's needs. I will be reporting back on this matter.

15:36

## **William Powell** [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

I would also like to thank Kevin Roberts very much for all the effort that he has committed in producing this wide-ranging report.

Since joining the Assembly, it has consistently been a theme of mine that upland farming is vital to the future of Wales. Indeed, it is a sector that needs further support, particularly our prestigious lamb industry, if it is to survive and to flourish. Indeed, just today, in response to a question from Sandy Mewies, the First Minister was again stressing the vital importance of CAP support to the industry. Be it the unilateral decision that we had to cease upland support for farmers, or indeed the decision to cut further incomes through the step that you took on the 15% modulation, our hill farmers have been getting an increasingly poor deal from the Welsh Government, and I am particularly pleased to see that Kevin Roberts has picked this up in his report, and is looking for action.

Thank you, Minister, for your statement today.

Hoffwn innau hefyd ddiolch yn fawr iawn i Kevin Roberts am yr holl ymdrech y mae wedi'i roi i gynhyrchu'r adroddiad eang ei gwmpas hwn.

Ers ymuno â'r Cynulliad, mae wedi bod yn thema gyson gennyf fod ffermio'r ucheldir yn hanfodol i ddyfodol Cymru. Yn wir, mae'n sector ac arno angen cymorth pellach, yn enwedig ein diwydiant cig oen uchel ei fri, er mwyn iddo oroesi a ffynnu. Yn wir, dim ond heddiw, wrth ateb cwestiwn oddi wrth Sandy Mewies, pwysleisiodd y Prif Weinidog unwaith eto bwysigrwydd allweddol cymorth y PAC i'r diwydiant. O'r penderfyniad unochrog bod yn rhaid inni roi'r gorau i gynnig cymorth ucheldir i ffermwyr, i'r penderfyniad i dorri incwm ymhellach drwy'r cam a gymerwyd gennych i fodiwleiddio 15%, mae ein ffermwyr mynydd wedi bod yn cael bargaen gynyddol wael gan Lywodraeth Cymru, ac rwyf yn arbennig o falch o weld bod Kevin Roberts yn cyfeirio at hyn yn ei adroddiad, ac am weld rhywbeth yn cael ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

When talking about farming resilience, a key element is always going to be the sustainable use of our land. This report, as well as previous documents, such as the widely praised 'State of Nature' report, highlights the danger of monoculture environments developing across Wales. It is, indeed, our uplands where this danger is most acute. As such, I am glad to see that the report highlights the need for a higher level of agri-environment access for farms within the newly designated moorland areas. This is something that needs to be addressed as a matter of urgency.

In coming to questions, I am glad to see that the report also highlights the need to aid diversification across our uplands here in Wales, be they moorland or a severely disadvantaged area. The two sectors that naturally present themselves as suitable for such diversification continue to be the forestry industry, and, as we have heard previously, the energy sector, and I am pleased to see the focus that the report places on both. However, given the Welsh Government's existing energy technical advice, and the way in which it limits and concentrates development into very limited areas of Wales for that development to take place, are you willing, Minister, to engage with the First Minister, to ensure that reviews take place, in order to facilitate this kind of energy diversification?

In terms of expanding forestry, only last week, in the Environment and Sustainability Committee, in the context of the ongoing inquiry into sustainable land management, which Llyr Gruffydd referenced, we heard from forestry professionals who expressed serious concern that the Glastir woodland element was not currently addressing the needs of the industry. Given this, will you please detail what you feel could be improved within Glastir so as to further aid upland farmers, especially those on key moorland sites, to ensure that there is the potential for the development of economic forestry, so as to add greater resilience to their businesses? Also, could you develop how you see the RDP contributing in the future to issues related to the catchment management around our rivers, referencing the need for greater resilience in the face of flooding?

I was also pleased to see the references made to local abattoirs, and, indeed, the network of livestock markets. Local multiples across the supply chain make this a critical element to the sustainability of the industry. Finally, Minister, in these days when farms across Wales are undertaking scanning operations to see the lambing rate that is to be anticipated in the spring, what can the Welsh Government do to aid research in terms of genetics and so on to increase fertility rates but also, crucially, to make the range of cheap breeds more applicable and appropriate to the upland setting that is so challenging for the future of the industry?

Wrth sôn am gadernid ffermio, bydd defnyddio ein tir mewn modd cynaliadwy bob amser yn elfen allweddol. Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â dogfennau blaenorol, megis yr adroddiad 'Sefyllfa byd natur' a gafodd ganmoliaeth eang, yn tynnu sylw at berygl datblygu amgylcheddau ungnwd ledled Cymru. Yn wir, ar ein hucheldiroedd y mae'r perygl hwn fwyaf. Felly, rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am fwy o fynediad amaeth-amgylcheddol i ffermydd yn y rhostiroedd sydd newydd eu dynodi. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder.

Wrth ddod at gwestiynau, rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gynorthwyo arallgyfeirio ar draws ein hucheldiroedd yma yng Nghymru, boed yn rhostir neu'n ardal dan anfantais fawr. Y ddau sector sy'n dal i fod yn amlwg addas ar gyfer arallgyfeirio o'r fath yw'r diwydiant coedwigaeth, ac, fel y clywsom eisoes, y sector ynni, ac rwyf yn falch o weld y sylw y mae'r adroddiad yn ei roi i'r ddau. Fodd bynnag, ac ystyried cyngor technegol presennol Llywodraeth Cymru ar ynni, a'r ffordd y mae'n cyfyngu ac yn crynhoi datblygu mewn ardaloedd cyfyngedig iawn o Gymru lle gall y datblygu hwnnw ddigwydd, a ydych yn fodlon, Weinidog, ymgysylltu â'r Prif Weinidog, i sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal, er mwyn hwyluso'r math hwn o arallgyfeirio ynni?

O ran ehangu coedwigaeth, yr wythnos diwethaf, yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, yng nghydestun yr ymchwiliad sy'n parhau i reoli tir yn gynaliadwy, y cyfeiriodd Llyr Gruffydd ato, clywsom gan weithwyr proffesiynol ym maes coedwigaeth a leisiodd bryder difrifol nad oedd elfen coetir Glastir ar hyn o bryd yn diwallu anghenion y diwydiant. Ac ystyried hyn, a fydddech cystal â rhoi manylion yr hyn yr ydych yn teimlo y gellid ei wella o fewn Glastir er mwyn rhoi mwy o gymorth i ffermwyr yr ucheldir, yn enwedig y rhai ar safleoedd rhostir allweddol, er mwyn sicrhau bod potensial i ddatblygu coedwigaeth economaidd, er mwyn ychwanegu mwy o gadernid i'w busnesau? Hefyd, a wnewch chi ymhelaethu ar sut y gwelwch y cynllun datblygu gwledig yn cyfrannu yn y dyfodol at faterion yn ymwneud â rheoli dalgylchoedd o amgylch ein hafonydd, gan gyfeirio at yr angen am fwy o gadernid yn wyneb llifogydd?

Roeddwn hefyd yn falch o weld y cyfeiriadau at ladd-dai lleol, ac, yn wir, at y rhwydwaith o farchnadoedd da byw. Mae lluosyddion lleol ar draws y gadwyn gyflenwi'n golygu bod hon yn elfen sy'n hanfodol i gynaliadwyedd y diwydiant. Yn olaf, Weinidog, yn y dyddiau hyn pan fo ffermydd ledled Cymru'n cynnal prosesau sganio i weld y gyfradd wyna sydd i'w disgwyl yn y gwanwyn, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo ymchwil ym maes geneteg ac ati i gynyddu cyfraddau ffrwythlondeb ond hefyd, yn allweddol, i sicrhau bod yr ystod o fridiau rhad yn fwy perthnasol a phriodol i leoliad yr ucheldir sydd mor heriol i ddyfodol y diwydiant?

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the final point, we have already started conversations with the National Sheep Association about how we can look towards developing support for the improvement of genetics and the health and management of different flocks. We know that there are significant and substantial differentials in flock management, particularly in the upland sheep sector. We know that that is one issue that will have a significant impact on overall farm incomes. I take issue with the Liberal Democrats on what they said about unilateral decisions to remove support from various farmers. I was in the last Assembly and I remember there being cross-party support for those matters. In fact, I remember that Mick Bates, who chaired the Sustainability Committee at the time, actually led some of those debates under the former Minister. Of course, she will remember how she came in front of the committee to receive a very warm welcome from all sides of the committee on some of those matters. So, it might be worth while for the Member, as well as reading his questions, to read the transcript on which those questions are based.

I will also say that to suggest that the farming community gets a poor deal from Welsh Government is to either misunderstand or, frankly, not read the documentation I published this morning. You will see that there is probably the most substantial business and sector development programme being put in place to support the sector. It is not a matter of simply saying that we can increase a subsidy here and increase a subsidy there. When you actually look at and understand the numbers and data I am publishing, you will appreciate that a subsidy level is simply not sustainable in order to ensure that the future of upland agriculture, and upland sheep in particular, is one that we would be able to guarantee. I did ask the Liberal Democrats for support when I was arguing on some of the financial issues over the past two years on the reform of the common agricultural policy, and all I received was a deafening silence.

Ar y pwynt olaf, rydym eisoes wedi dechrau sgysiau â'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol ynghylch sut y gallwn geisio datblygu cymorth i wella geneteg ac iechyd a rheoli diadellau gwahanol. Gwyddom fod gwahaniaethau sylweddol ac arwyddocaol rhwng dulliau rheoli diadellau, yn enwedig yn sector defaid yr ucheldir. Gwyddom fod hwnnw'n un mater a fydd yn effeithio'n sylweddol ar incwm ffermydd yn gyffredinol. Rwyf yn anghytuno â'r hyn a ddywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol am benderfyniadau unochrog i gael gwared ar gefnogaeth i amrywiol ffermwyr. Roeddwn yn y Cynulliad diwethaf, a chofiaf fod cefnogaeth drawsbleidiol i'r materion hynny. Yn wir, cofiaf i Mick Bates, cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar y pryd, arwain rhai o'r dadleuon hynny o dan y cyn Weinidog. Wrth gwrs, bydd hi'n cofio iddi ddod gerbron y pwyllgor a chael croeso cynnes iawn gan bob ochr i'r pwyllgor ar rai o'r materion hynny. Felly, efallai y byddai'n syniad da i'r Aelod, yn ogystal â darllen ei gwestiynau, ddarllen y trawsgrifiad y mae'r cwestiynau hynny'n seiliedig arno.

Dywedaf hefyd fod awgrymu bod y gymuned ffermio'n cael bargaen wael gan Lywodraeth Cymru'n profi eich bod naill ai wedi camddeall y dogfennau a gyhoeddais y bore yma neu, a dweud y gwir, nad ydych wedi'u darllen. Fe welwch fod rhaglen datblygu busnes a'r sector, sef y rhaglen fwyaf sylweddol o'i bath yn ôl pob tebyg, yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi'r sector. Nid dim ond mater o ddweud y gallwn gynyddu cymhorthdal fan hyn a chynyddu cymhorthdal fan draw yw hyn. Pan fyddwch yn edrych mewn gwirionedd ar y rhifau a'r data yr wyf yn eu cyhoeddi, ac yn eu deall, byddwch yn sylweddoli bod lefel o gymhorthdal yn gwbl anghynnaladwy i sicrhau bod dyfodol amaethyddiaeth yr ucheldir, a defaid yr ucheldir yn arbennig, yn un y gallem ei warantu. Gofynnais i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gymorth pan oeddwn yn dadlau am rai o'r materion ariannol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ran diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin, a'r cwbl a gefais oedd tawelwch byddarol.

15:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have heard from the spokesperson from each party. We are already over the time that the Business Committee allocated, so I ask the next speakers to just ask questions.

Rydym wedi clywed oddi wrth lefarwyr pob un o'r pleidiau. Rydym eisoes wedi mynd dros yr amser a ddyranwyd gan y Pwyllgor Busnes, felly gofynnaf i'r siaradwyr nesaf ofyn cwestiynau'n unig.

15:43 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The recommendation I am particularly interested in, which I am pleased that Kevin Roberts included, is on energy self-sufficiency. Even in upland areas, this is far more complex than just putting a photovoltaic panel on an outbuilding. Technologies such as biomass and micro-hydro need to be further examined, I would suggest, and promoted. Perhaps Community Energy Wales could have a role to play in supporting Farming Connect in mentoring and sharing best practice here if it was put on a more official footing and had adequate resources for that. I would appreciate the Minister's comments on that.

Mae'r argymhelliad y mae gennyf ddi-ddordeb arbennig ynddo—ac rwyf yn falch bod Kevin Roberts wedi'i gynnwys—yn ymwneud â hunangynhaliadaeth ynni. Hyd yn oed yn yr ucheldiroedd, mae hyn yn fwy cymhleth o lawer na dim ond gosod panel ffotofoltaidd ar adeilad allanol. Byddwn yn awgrymu bod angen ystyried ymhellach dechnolegau megis biomas a micro-hydro, a'u hyrwyddo. Efallai y gallai fod rhan i Ynni Cymunedol Cymru yn y broses o gynorthwyo Cyswllt Ffermio o ran mentora a rhannu arfer gorau yma pe câi statws mwy swyddogol a digon o adnoddau i wneud hynny. Byddai'n dda gennyf glywed sylwadau'r Gweinidog am hynny.

15:43

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to look at how we can develop those ambitions. In many parts of rural Wales, of course, the network and infrastructure do not exist in order to provide significant inputs to the grid that would generate significant profits. However, certainly in terms of reducing input costs on farm energy production, it is something that I hope will become the norm rather than the exception, and certainly a significant part, or a part I should say, of the new rural development plan will be seeking to address those matters. If the Member has any suggestions to make I would be very happy to hear them.

Hoffwn edrych ar sut y gallwn ddatblygu'r uchelgeisiau hynny. Mewn llawer rhan o Gymru wledig, wrth gwrs, nid yw'r rhwydwaith a'r seilwaith yn bodoli i ddarparu mewnbwn sylweddol i'r grid a fyddai'n cynhyrchu elw sylweddol. Fodd bynnag, yn sicr o ran lleihau costau mewnbwn cynhyrchu ynni ar ffermydd, mae'n rhywbeth a fydd, rwyf yn gobeithio, yn dod yn norm yn hytrach nag yn eithriad, ac yn sicr bydd rhan sylweddol, neu ran, dylwn ddweud, o'r cynllun datblygu gwledig newydd yn ceisio ymdrin â'r materion hynny. Os oes gan yr Aelod unrhyw awgrymiadau i'w gwneud, byddwn yn falch iawn o'u clywed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn pa flaenoriaeth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei rhoi i'r adran ar daliadau am wasanaethau ecosystemau sydd yn yr adroddiad? Yn benodol, a ydyw'n bwriadu cynnal trafodaethau yn fuan ynglŷn â'r adran ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, lle mae'r adroddiad yn pwysleisio'r diffyg seilwaith i gysylltu amaethwyr gyda'r grid fel y gallant greu ynni cynaliadwy o wahanol ffynonellau, gan gynnwys tyrbinau gwynt a thrydan hydro, er mwyn iddynt allu cynnal incwm a thalu am eu gweithgaredd amaethyddol?

May I ask what priority the Minister intends to give to the section on payments for ecosystems services contained within the report? Specifically, does he intend to hold any negotiations soon on the section on energy efficiency and renewable energy, where the report emphasises the lack of infrastructure to link farmers to the grid so that they can create sustainable energy from various sources, including wind turbines and hydro-generation, so that they can maintain an income and pay for their agricultural activities?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:45

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n credu taw dyna'r her a wynebwn. Rwy'n hapus iawn i barhau ac i gynnal y fath o drafodaethau mae'r Aelod yn awgrymu. Rydym i gyd yn deall nad yw'r 'infrastructure' yn ddigonol ar hyn o bryd ym mhob rhan o Gymru, ac mae etholaeth yr Aelod yn enghraifft berffaith o le â'r capasiti a'r angen i ddatblygu ynni cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r 'infrastructure' yno i gynnal hynny.

I think that that is the challenge we face. I am happy to continue and to hold the kind of discussions that the Member suggests. We all understand that the infrastructure is currently not adequate in all parts of Wales, and the Member's constituency is a perfect example of a place with the capacity and the need to develop sustainable energy. However, the infrastructure is not there to sustain that.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n dychwelyd at brosiect Ynni'r Fro, sydd wedi bod yn llywyddiannus o ran profi sut y gall y Llywodraeth gefnogi cymunedau, ffermydd a busnesau i fuddsoddi mewn ynni cynaliadwy. Rwyf eisiau gweld mwy o hynny yn y cynllun datblygu gwledig nesaf, ac rwyf eisiau gweld pwyslais ar hynny, fel ein bod yn gallu cyrraedd nid yn unig targedau o ran sicrhau dyfodol busnesau fferm, ond hefyd targedau o ran newid yn yr hinsawdd.

I return to the Ynni'r Fro project, which has been successful in terms of proving how the Government can support communities, farms and businesses to invest in sustainable energy. I want to see more of that in the next rural development plan, and I want to see an emphasis on that, so that we achieve not only the targets for the future of farm businesses but also climate change targets.

15:46

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the Minister's statement last week regarding the 15% diversion from pillar 1 to pillar 2, and his intention to use that money to make farm businesses more sustainable and profitable, could the Minister outline his ideas, please, for how investment and lessons for farmers in improving the genetic capability of their livestock, for instance, in the Elan valley, or in the hills above Abergwesyn, will make up the difference in the shortfall of income that he has taken away?

Ac ystyried datganiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf ynghylch dargyfeirio 15% o golofn 1 i golofn 2, a'i fwrriad i ddefnyddio'r arian i wneud busnesau fferm yn fwy cynaliadwy a phroffidiol, a wnaiff y Gweinidog amlinellu ei syniadau am sut y bydd buddsoddi a gwersi i ffermwyr ar wella gallu genetig eu da byw, er enghraifft, yng nghwm Elan, neu ar y bryniau uwchben Abergwesyn, yn gwneud iawn am y diffyg yn yr incwm y mae wedi'i gymryd oddi arnynt?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:46

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If the Member understands fully the current CAP system, she will know that there are considerable variations not only between Wales and England and other administrations, but between individual farmers in what they receive in terms of their subsidies. In terms of the overall broad analysis of the move from a historic-based payment—where the maximum payment per hectare is over £400 and the minimum is £6—to a system that is more transparent and fair, the overall impact will be better for the more extensive hill and sheep farmers than it will be on other businesses. We understand that and we acknowledge that.

However, in terms of where we are going, if the Member understands and reads the data that I have published today, she will see—

Os yw'r Aelod yn deall yn llawn y system PAC gyfredol, bydd yn gwybod bod amrywiadau sylweddol nid yn unig rhwng Cymru a Lloegr a gweinyddiaethau eraill, ond rhwng ffermwyr unigol o ran y cymorthdaliadau y maent yn eu cael. O ran y dadansoddiad eang cyffredinol o'r symud o daliadau hanesyddol—lle mae'r taliad uchaf am bob hectar yn fwy na £400 a'r isafswm yn £6—i system sy'n fwy tryloyw a theg, bydd yr effaith gyffredinol yn well i'r ffermwyr mynydd a defaid sy'n ffermio'n llai dwys nag i fusnesau eraill. Rydym yn deall hynny ac yn cydnabod hynny.

Fodd bynnag, o ran lle'r ydym yn mynd, os bydd yr Aelod yn deall ac yn darllen y data yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw, bydd yn gweld—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:47

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have it here.

Maent gennyf yma.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:47

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Take some time to read it.

She will see that the difference between the best-performing businesses in those areas and the average is absolutely immense. It will not be covered either by a 15% pillar 1 contribution or the totality of that contribution, in some places. The only way in which we will be able to guarantee the future sustainability of this sector is to develop a financial model that is viable in the future, when further cuts are made to the CAP budget. She supports a Government, of course, that sought 'significant reductions' in CAP 1 budgets. I fought that for two years and she said nothing at all.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:48.*

Cymerwch amser i'w darllen.

Bydd yn gweld bod y gwahaniaeth rhwng y busnesau sy'n perfformio orau yn y meysydd hynny a'r cyfartaledd yn wirioneddol enfawr. Ni fydd cyfraniad 15% colofn 1, na'r cyfan o'r cyfraniad hwnnw, mewn rhai mannau, yn gwneud iawn am y gwahaniaeth. Yr unig ffordd y gallwn sicrhau cynaliadwyedd y sector hwn yn y dyfodol yw datblygu model ariannol sy'n ddichonadwy yn y dyfodol, pan wneir toriadau pellach i gyllideb y PAC. Mae hi'n cefnogi Llywodraeth, wrth gwrs, a geisiodd 'ostyngiadau sylweddol' i gyllidebau PAC 1. Brwydrais yn erbyn hynny am ddwy flynedd ac ni ddywedodd hi ddim byd o gwbl.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:48.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:48

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement this afternoon. I appreciate it. I worry a little about the lack of focus on the lowlands, because I appreciate the terrible—[Interruption.] It is a serious fact, because the serious weather that we had last year was in the uplands, but if you go back to 1978, 1982 or other episodes of serious weather, the lowlands and the dairy industry, in particular, were severely affected—for many weeks, they were unable to get product out.

However, my question to you today is: will the Government be match funding the 15% modulation taken out of pillar 1 and put into pillar 2? I understand that, in a conference on Thursday, you confirmed that the Government was match funding that money. I would be grateful if you would confirm that here in the Chamber.

Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Rwyf yn ei werthfawrogi. Rwyf yn poeni ychydig am y diffyg pwyslais ar yr iseldiroedd, gan fy mod yn deall mor ofnadwy—[Torri ar draws.] Mae'n ffaith ddifrifol, oherwydd roedd y tywydd difrifol a gawsom y llynedd yn yr ucheldiroedd, ond os ewch yn ôl i 1978, 1982 neu gyfnodau eraill o dywydd difrifol, bu effaith ddifrifol ar yr iseldiroedd a'r diwydiant llaeth, yn arbennig—nid oeddent yn gallu cael eu cynnyrch allan am wythnosau lawer.

Fodd bynnag, dyma fy nghwestiwn ichi heddiw: a fydd y Llywodraeth yn darparu arian cyfatebol i'r modiwlleiddio 15% a gymerir allan o golofn 1 i'w roi yng ngholofn 2? Rwyf ar ddeall eich bod, mewn cynhadledd ddydd Iau, wedi cadarnhau bod y Llywodraeth yn darparu arian cyfatebol i'r arian hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau hynny yma yn y Siambr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Your friends and neighbours who attended the meeting on Thursday will have heard me say that we will be clearly match funding the rural development plan as a whole, and that we will be match funding it at above the legal minimum. I have not yet concluded conversations with the Minister for Finance, who will have heard your question. When I have done so, I will make a further announcement on that. We intend to conclude those conversations by the time that the rural development plan consultation is launched next month.

Bydd eich ffrindiau a'ch cymdognion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ddydd Iau wedi fy nghlywed yn dweud y byddwn yn darparu arian cyfatebol i'r cynllun datblygu gwledig yn ei gyfanrwydd, ac y byddwn yn darparu mwy o arian cyfatebol na'r lleiafswm cyfreithiol. Nid wyf eto wedi cwblhau sgysiau â'r Gweinidog Cyllid; bydd wedi clywed eich cwestiwn. Pan fyddaf wedi gwneud hynny, gwnaf gyhoeddiad pellach am hynny. Rydym yn bwriadu cwblhau'r sgysiau hynny erbyn adeg lansio'r ymgynghoriad ar y cynllun datblygu gwledig y mis nesaf.

I will say to the Member—I know that he has a particular interest in the lowlands of Wales and farming in the lowlands—that we are seeking to develop a balanced approach, recognising where the greatest problems and difficulties actually lie. That means taking a targeted approach to using public investment to support the industry as a whole.

Dywedaf wrth yr Aelod—gwn fod ganddo ddi-ddordeb arbennig yn iseldiroedd Cymru ac mewn ffermio yn yr iseldiroedd—ein bod yn ceisio datblygu ymagwedd gytbwys, gan gydnabod ymhle y mae'r problemau a'r anawsterau mwyaf mewn gwirionedd. Mae hynny'n golygu defnyddio buddsoddi cyhoeddus mewn dull wedi'i dargedu i gefnogi'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.

15:49

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:50

**Datganiad: Y Wybodaeth  
Ddiweddaraf am Bolisi  
Trafnidiaeth**

**Statement: Update on Transport  
Policy**

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Minister for Economy, Science and Transport*

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The*

This statement provides an update to Members on recent developments in relation to transport. We all recognise the importance of bus services to communities and the challenges for service provision, particularly in rural areas. I am clear that this is an area where the Welsh Government should take a greater lead, and this is reflected in my decision last autumn to step in to ensure continuity of service for communities in west Wales when a major bus operator pulled out. The regional bus strategies that were consulted on last year provided a starting point to make progress, but it is clear that we have more to do to ensure that bus services are sustainable in the context of challenging budgets.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y datblygiadau diweddar ym maes trafnidiaeth. Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau i gymunedau a'r heriau o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rwyf yn glir bod hwn yn faes lle dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i arwain, ac adlewyrchir hynny yn fy mhenderfyniad yr hydref diwethaf i gamu i mewn i sicrhau parhad gwasanaeth i gymunedau yn y gorllewin pan fu i un o'r prif gwmnïau bysiau dynnu allan. Mae'r strategaethau bysiau rhanbarthol yr ymgynghorwyd arnynt y llynedd yn fan cychwyn o ran gwneud cynnydd, ond mae'n amlwg bod gennym fwy i'w wneud i sicrhau bod gwasanaethau bysiau'n gynaliadwy yng nghyd-destun cyllidebau heriol.

I have announced interim changes to bus funding for the next financial year and I will be using this period to refresh our policy in relation to bus services and develop a new approach to funding. To support this work, I am establishing a group to advise me. It will comprise of representatives from bus operators, local authorities and other interests, and I have asked Dr Victoria Winckler, director of the Bevan Foundation, who recently undertook a review of TrawsCymru services, to participate. In advising on the development of a sustainable, long-term approach to bus policy, the group will be asked to look at service provision as a whole. I want to draw on good practice across the UK to inform our thinking. For example, in the south-west of England, they have focused on systematically integrating general bus services with services that enable access to education and to health to generate efficiencies.

Rwyf wedi cyhoeddi newidiadau dros dro i gyllid bysiau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a byddaf yn defnyddio'r cyfnod hwn i adnewyddu ein polisi ynglŷn â gwasanaethau bysiau ac i ddatblygu dull newydd o gyllido. I ategu'r gwaith hwn, rwyf yn sefydlu grŵp i'm cynghori. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr cwmnïau bysiau, awdurdodau lleol a buddiannau eraill, ac rwyf wedi gofyn i Dr Victoria Winckler, cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, a gynhaliodd adolygiad yn ddiweddar o wasanaethau TrawsCymru, gymryd rhan. Wrth gynghori ar ddatblygu ymagwedd gynaliadwy, hirdymor at bolisiau bysiau, bydd gofyn i'r grŵp edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau yn ei chyfanrwydd. Rwyf am alw ar arfer da o bob rhan o'r DU i lywio ein ffordd o feddwl. Er enghraifft, yn ne-orllewin Lloegr, maent wedi canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau bysiau cyffredinol yn systematig â gwasanaethau sy'n hybu mynediad at addysg ac iechyd i greu arbedion.



To make improvements, it is clear to me that we need to be absolutely explicit about our objectives for bus services. A priority must be to maximise the number of fare-paying passengers and the coverage of the commercial network. The new group will advise on the practical steps that can be taken to attract and retain fare-paying passengers and to remove barriers, enabling services to run efficiently. I am keen to move quickly to secure real, practical improvements on the ground for those communities that rely on bus services or suffer due to a lack of provision. I have been working with local authorities in Ceredigion and the Vale of Glamorgan to trial a new integrated solution to the provision of bus services.

There is also a role for community transport in delivering some services, and this has emerged as a priority from the work that I commissioned jointly with the Minister for Health and Social Services. Progressing this will be part of the remit of my new group.

The process of agreeing arrangements for reimbursement of the concessionary fare scheme in the future is nearing completion, and I will update Members when the process has concluded. At the same time, the smart ticketing back-office system for the concessionary bus scheme is being re-rendered and that will help to reduce administration costs. I am also looking at a range of options for harnessing the benefits of smartcard technology for transport.

My department is also working with a number of bus operators to explore the potential to introduce pilot young persons' concessionary fare initiatives. I hope to be able to make an announcement on this very shortly.

My previous written statement set out the changes that I am making to the arrangements for grant funding for local transport projects and road safety activity. Local authorities will receive funding directly from the Welsh Government, rather than working through an additional layer of bureaucracy with the regional transport consortia. My statement also confirmed that I intend to develop a new national transport plan that will also reflect regional priorities. The city region boards will advise me on priorities for inclusion in this new transport plan from their areas and develop their role in co-ordinating transport delivery.

The metro is a key focus, obviously, for the south-east Wales city region board and there is already good progress on this complex, probably £2 billion transformational project. Following the report from Mark Barry, I have appointed a metro implementation group to make detailed recommendations on the implementation plan by the summer, and progress has already been made, with an initial investment of £77 million in transport improvements.

Er mwyn gwneud gwelliannau, mae'n amlwg i mi fod angen inni fod yn hollol glir am ein hamcanion ar gyfer gwasanaethau bysiau. Rhaid i gynyddu nifer y teithwyr sy'n talu ac ehangu'r rhwydwaith masnachol fod yn flaenoriaeth. Bydd y grŵp newydd yn cynghori ar y camau ymarferol y gellir eu cymryd i ddenu a chadw teithwyr sy'n talu ac i gael gwared ar rwystrau, a galluogi gwasanaethau i redeg yn effeithlon. Rwyf yn awyddus i symud yn gyflym i sicrhau gwelliannau ymarferol go iawn ar lawr gwlad i'r cymunedau hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau bysiau neu sy'n dioddef oherwydd diffyg darpariaeth. Rwyf wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Ngheredigion a Bro Morgannwg i dreialu ffordd integredig newydd o ddarparu gwasanaethau bysiau.

Mae gan drafnidiaeth gymunedol hefyd ran i'w chwarae o ran darparu rhai gwasanaethau, ac mae hyn wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth yn sgil y gwaith a gomisiynais ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd bwrw ymlaen â hyn yn rhan o gylch gwaith fy ngrŵp newydd.

Mae'r broses o gytuno ar drefniadau ad-dalu'r cynllun tocynnau rhatach yn y dyfodol yn tynnu tua'r terfyn, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan fydd y broses wedi dod i ben. Ar yr un pryd, mae system tocynnau clyfar cefn swyddfa'r cynllun bysiau rhatach yn cael ei haildendro a bydd hynny'n helpu i leihau costau gweinyddu. Rwyf hefyd yn edrych ar ystod o opsiynau i harneisio manteision technoleg cardiau clyfar ar gyfer trafnidiaeth.

Mae fy adran hefyd yn gweithio gyda nifer o gwmnïau bysiau i archwilio'r potensial i gyflwyno cynlluniau peilot teithio'n rhatach i bobl ifanc. Rwyf yn gobeithio gallu gwneud cyhoeddiad am hyn yn fuan iawn.

Roedd fy natganiad ysgrifenedig blaenorol yn nodi'r newidiadau yr wyf yn eu gwneud i drefniadau arian grant i brosiectau trafnidiaeth lleol a gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd. Bydd awdurdodau lleol yn cael cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na gweithio drwy haen ychwanegol o fiwrocratiaeth gyda'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Roedd fy natganiad hefyd yn cadarnhau fy mod yn bwriadu datblygu cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd a fydd hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol. Bydd byrddau'r dinas-ranbarthau'n fy nghyngori am y blaenoriaethau i'w cynnwys yn y cynllun trafnidiaeth newydd hwn o'u hardaloedd hwy ac yn datblygu eu swyddogaeth o ran cyd-drefnu darpariaeth trafnidiaeth.

Mae'r metro yn ffocws allweddol, wrth gwrs, i fwrdd dinas-ranbarth y de-ddwyrain ac mae cynnydd da eisoes wedi'i wneud ar y prosiect trawsnewidiol cymhleth hwn, sy'n debygol o gostio tua £2 biliwn. Yn sgil adroddiad Mark Barry, rwyf wedi penodi grŵp gweithredu'r metro i wneud argymhellion manwl am y cynllun gweithredu erbyn yr haf, ac mae cynnydd eisoes wedi'i wneud—gwnaethpwyd buddsoddiad cychwynnol o £77 miliwn mewn gwelliannau i drafnidiaeth.

I have established the Cambrian railways implementation group to report on the implementation of improvements on the Cambrian rail line by 1 February 2014. The group's work is being informed by a report produced by the Aberystwyth to Shrewsbury railway liaison committee. I have also asked the Heart of Wales line forum to submit further advice on a review of the costs and benefits of the additional services timetable and proposals for resources to progress community rail development and longer-term service and local management aspirations.

Electrification of the Great Western main line and the Valleys line is progressing. We are engaging with the supply chain to ensure that Welsh businesses are in a position to benefit from the substantial investments being made in rail infrastructure and rolling stock across the UK over the next 10 years. Last week, Bombardier Transportation UK Ltd, Hitachi Rail Europe and Alstom Transport hosted a rail industry supply chain event in Cardiff in conjunction with the Welsh Government. The event at Cardiff City stadium was targeted at companies already active in the rail industry, as well as businesses in other sectors, to raise awareness of the diversification opportunities.

The ministerial taskforce on north Wales transport, chaired by Lesley Griffiths, Minister for Local Government and Government Business, is making good progress. In its first two meetings, the taskforce has focused on building the case for north Wales rail electrification and on identifying broader transport priorities for the region. Following discussion in the taskforce, I have written to the Secretary of State for Transport, asking him to ensure that the north Wales main line should form an intrinsic part of any further assessment of the case for electrification.

Work is well under way on all of the pinch point schemes. Subject to agreement with the stakeholders, we are on programme to complete the schemes by the spring of 2015, as planned. For example, good progress has been made on the junction 33 M4 westbound dedicated sliproad, with work starting on the site next month.

Rwyf wedi sefydlu grŵp gweithredu rheilffyrdd y Cambrian i adrodd ar roi gwelliannau ar waith i reilffordd y Cambrian erbyn 1 Chwefror 2014. Mae adroddiad a gynhyrchwyd gan bwyllgor cyswllt rheilffordd Aberystwyth i'r Amwythig yn llywio gwaith y grŵp. Rwyf hefyd wedi gofyn i fforwm rheilffordd Calon Cymru gyflwyno cyngor pellach ar adolygiad o gostau a manteision yr amserlen gwasanaethau ychwanegol a chynigion ar gyfer adnoddau i hybu datblygiad rheilffyrdd cymunedol a dyheadau o ran gwasanaethau mwy hirdymor a rheoli lleol.

Mae'r gwaith o drydaneiddio prif reilffordd y Great Western a rheilffordd y Cymoedd yn mynd rhagddo. Rydym yn ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi i sicrhau bod busnesau Cymru mewn sefyllfa i elwa o'r buddsoddiadau sylweddol sy'n cael eu gwneud yn seilwaith y rheilffyrdd ac mewn cerbydau ledled y DU dros y 10 mlynedd nesaf. Yr wythnos diwethaf, cynhaliodd Bombardier Transportation UK Ltd, Hitachi Rail Europe ac Alstom Transport ddiwyddiad cadwyn gyflenwi'r diwydiant rheilffyrdd yng Nghaerdydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiad yn stadiwm Dinas Caerdydd wedi'i dargedu at gwmnïau sydd eisoes yn weithgar yn y diwydiant rheilffyrdd, yn ogystal â busnesau mewn sectorau eraill, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i arallgyfeirio.

Mae'r tasglu gweinidogol ar drafnidiaeth yn y gogledd, dan gadeiryddiaeth Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yn gwneud cynnydd da. Yn ei ddau gyfarfod cyntaf, mae'r tasglu wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r achos dros drydaneiddio rheilffordd y gogledd ac ar nodi blaenoriaethau trafnidiaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Yn dilyn trafodaeth yn y tasglu, rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i ofyn iddo sicrhau bod prif reilffordd y gogledd yn rhan annatod o unrhyw asesiad pellach o'r achos dros drydaneiddio.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr holl gynlluniau manau cyfyng. Yn amodol ar gytuno â'r rhanddeiliaid, rydym yn disgwyl cwblhau'r cynlluniau erbyn gwanwyn 2015, fel y bwriadwyd. Er enghraifft, mae cynnydd da wedi ei wneud ar ffordd ymadael bwrpasol cyffordd 33 yr M4 tua'r gorllewin, a bydd gwaith yn dechrau ar y safle y mis nesaf.

15:55

## Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, I thank you for your statement. The shadow Minister for transport is unable to be with us in the Chamber today, so I have a few points and a few questions to ask you in his place. As I said, I warmly welcome the broad update on a wide range of transport issues that you provided the Chamber with today.

Weinidog, diolch am eich datganiad. Ni all Gweinidog trafnidiaeth yr wrthblaid fod gyda ni yn y Siambr heddiw, felly mae gennyf rai pwyntiau a rhai cwestiynau i'w gofyn ichi yn ei le. Fel y dywedais, rwyf yn croesawu'n fawr y wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol ar amrywiaeth eang o faterion trafnidiaeth yr ydych wedi'i rhoi i'r Siambr heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Minister, the statement refers to the development of a new national transport plan and says that the city region boards will advise on priorities for inclusion in this plan. Could you explain whom you will be consulting with on this plan in areas that are not represented by city regions? That is my first question to you. Secondly, city regions are becoming less and less separable from other transport issues, certainly in south-east Wales. This is all tied in with the metro, and you have mentioned the electrification of the main line and the Valleys line. Could you provide us with a timeframe within which you anticipate these projects will be completed? Could you also update me on what discussions you have had with the departments responsible for delivery in Westminster?

You talk about working with Ceredigion and the Vale of Glamorgan to trial new integrated solutions to the provision of bus services. These are areas that have been hit, as we know, by cuts. Will you provide more detail on these trials, and could you provide an indication as to when these trials will start and how long they will run for? I would also be grateful for more details to be provided on the range of options that are being looked into for harnessing the benefits of smartcard technology, which I know you mentioned briefly, for transport. I note the fact that the smart ticketing back-office system for the concessionary bus scheme is being retendered. Could you provide us with details on how long this tendering process will run for and on when a final decision will be taken?

I will put my other hat on, as Chair of the Enterprise and Business Committee. You will remember the committee's look at the whole issue of integrated transport within Wales. Some of the witnesses in that inquiry said that it was a 'devilishly complicated thing to achieve'. We looked at the whole issue of smartcards and integrated ticketing. How do you see us going with that? They are not always the same types of scheme, and I know that some people would like to see an Oyster-type scheme, like the one operating in London. However, we realised that there were huge difficulties with achieving that. Do you think that that is achievable in the medium term?

Also, the committee recently looked at the Arriva franchise, which is up for renegotiation in 2018, 2019 and 2020. Are we on time for that? There have been concerns about the Government's progress and response to this. We need to ensure that progress is made as soon as possible, so that if electrification of the Valleys line is going to happen within the timescale that we would like to see, the companies are able to get electrified rolling stock. There is no point at all in proceeding with electrification of the metro system if we are not going to have the right rolling stock for 20 years or more. That will involve a certain cascading of rolling stock. In light of the committee's recommendations, do you intend us to have a wider cascaded rolling-stock scheme, which would be very difficult to achieve and is something that I do not think has been done in the same way elsewhere in the UK? If Wales could go down that route, it might have benefits, though I appreciate that there are problems.

Weinidog, mae'r datganiad yn cyfeirio at y gwaith o ddatblygu cynllun trafniadaeth cenedlaethol newydd ac yn dweud y bydd byrddau'r dinas-ranbarthau'n cyngori ar flaenoriaethau i'w cynnwys yn y cynllun hwn. A wnewch chi esbonio â phwy y byddwch yn ymgynghori ar y cynllun hwn mewn ardaloedd nad oes dinas-ranbarthau'n eu cynrychioli? Dyna fy nghwestiwn cyntaf i chi. Yn ail, mae'n mynd yn fwyfwy anodd gwahanu'r dinas-ranbarthau oddi wrth faterion trafniadaeth eraill, yn sicr yn y de-ddwyrain. Mae hyn i gyd ynghlwm wrth y metro, ac rydych wedi crybwyll trydaneiddio'r brif reilffordd a rheilffordd y Cymoedd. A wnewch chi roi amserlen inni ar gyfer pryd yr ydych yn rhagweld y caiff y prosiectau hyn eu cwblhau? A wnewch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r adrannau sy'n gyfrifol am gyflawni yn San Steffan?

Rydych yn sôn am gydweithio â Cheredigion a Bro Morgannwg i dreialu atebion integredig newydd i ddarparu gwasanaethau bysiau. Mae'r rhain yn ardaloedd y mae toriadau, fel y gwyddom, wedi'u taro. A wnewch chi roi mwy o fanylion am y treialon hyn, ac a wnewch chi roi syniad ynghylch pryd y bydd y treialon hyn yn dechrau ac am ba hyd y cânt eu cynnal? Byddwn hefyd yn ddiolchgar o gael mwy o fanylion am yr ystod o opsiynau sy'n cael eu hystyried i harneisio manteision technoleg cardiau clyfar, y soniasoch amdanynt yn fyr, ar gyfer trafniadaeth. Nodaf fod system tocynnau clyfar cefn swyddfa'r cynllun bysiau rhatach yn cael ei haildendro. A wnewch chi roi manylion inni am ba hyd y caiff y broses dendro hon ei chynnal a phryd y caiff penderfyniad terfynol ei wneud?

Yn awr, gwisgaf fy het arall, fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes. Byddwch yn cofio bod y pwyllgor wedi edrych ar holl fater trafniadaeth integredig yng Nghymru. Dywedodd rhai o'r tystion yn yr ymchwiliad hwnnw ei fod yn beth cythreulig o gymhleth i'w gyflawni. Buom yn edrych ar holl fater cardiau clyfar a thocynnau integredig. Sut ydych chi'n ein gweld yn mynd yn hynny o beth? Nid yr un math o gynllun ydynt bob amser, a gwn y byddai rhai pobl yn hoff o weld cynllun tebyg i Oyster, sef yr un sy'n gweithredu yn Llundain. Fodd bynnag, sylweddolasm o y byddai'n aruthrol o anodd cyflawni hynny. A ydych yn credu y gellir cyflawni hynny yn y tymor canolig?

Hefyd, yn ddiweddar edrychodd y pwyllgor ar fasnachfaint Arriva, a fydd yn destun negodi o'r newydd yn 2018, 2019 a 2020. A ydym yn debygol o gadw at yr amserlen ar gyfer hynny? Bu pryderon am gynnydd ac ymateb y Llywodraeth i hyn. Mae angen inni sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau y gall y cwmnïau gael cerbydau trydan os caiff rheilffordd y Cymoedd ei thrydaneiddio o fewn yr amserlen yr hoffem ei gweld. Nid oes dim diben bwrw ymlaen â thrydaneiddio'r system fetro os bydd hi'n 20 mlynedd neu fwy cyn inni gael y cerbydau iawn. Bydd hynny'n cynnwys rhywfaint o raeardru cerbydau. Yng ngoleuni argymhellion y pwyllgor, a yw'n fwriad gennych y bydd gennym gynllun rhaeadru cerbydau ehangach, a fyddai'n anodd iawn ei gyflawni ac yn rhywbeth nad wyf yn credu sydd wedi ei wneud yn yr un modd mewn manau eraill yn y DU? Pe gallai Cymru ddilyn y trywydd hwnnw, gallem elwa o hynny, er fy mod yn cydnabod bod problemau.

Finally, you mentioned the M4. I think that I am right in saying that this issue is out for consultation at the moment. Within that consultation, there have been a number of responses. In looking at the press, I know that there have been some in favour of the Government's route, but the blue route, as preferred by Professor Stuart Cole, has been gaining some traction as well. Could you update us on when you will be making a final decision on the M4 and relieving some of the misery of commuters on that stretch of road?

Yn olaf, soniasoch am yr M4. Credaf fy mod yn iawn i ddweud bod y mater hwn yn destun ymgynghori ar hyn o bryd. O fewn yr ymgynghoriad hwnnw, bu nifer o ymatebion. O edrych ar y wasg, gwn y bu rhai o blaid llwybr y Llywodraeth, ond mae'r llwybr glas, sef hoff ddewis yr Athro Stuart Cole, wedi bod yn ennill rhywfaint o gefnogaeth hefyd. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pryd y byddwch yn gwneud penderfyniad terfynol am yr M4 a lleddfu rhywfaint ar drallod cymudwyr ar y darn hwnnw o'r ffordd?

16:00

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for your comments. If I may go in reverse order, with regard to the M4, the consultation has finished and we are currently looking at the responses. I hope very much that I will be able to publish the consultation responses shortly, then it is a process involving a timetable noting what we will look to do. I will update Members when I am able to do so. Over and above what might happen on the M4, there are issues relating to the Brynglas tunnels and those particular areas. I hope to make a statement to the Assembly on that matter shortly, updating Members on maintenance and other issues that might help in the short term.

Diolch yn fawr iawn am eich sylwadau. Os caf fynd tuag yn ôl, o ran yr M4, mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben ac rydym wrthi'n edrych ar yr ymatebion. Gobeithiaf yn fawr iawn y gallaf gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn hir; yna mae'n broses sy'n cynnwys amserlen yn nodi'r hyn y byddwn yn ceisio ei wneud. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan allaf gwneud hynny. Ar ben yr hyn a allai ddigwydd ar yr M4, mae materion yn ymwneud â thwneli Bryn-glas a'r ardaloedd penodol hynny. Rwyf yn gobeithio gwneud datganiad i'r Cynulliad am y mater hwnnw cyn bo hir, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith cynnal a chadw a materion eraill a allai fod o gymorth yn y tymor byr.

In terms of the Arriva franchise, the recommendations made by the Enterprise and Business Committee following its inquiry will be considered specifically when we look at the specification for the new franchise and its development. There is an issue in that an improved devolution settlement with respect to rail services is also an objective for us, as the Welsh Government, to ensure that we have the resources to deal with those particular issues. In very real terms, you are absolutely right about the issue of smartcards and the complex nature of the issues surrounding them. You made a good point about the Oyster card as well and whether that is something that could be looked at. Perhaps if there was a metro it might be possible, and there are lots of issues around that. If it would be helpful to Members, I am more than happy to make a specific statement on the issue of smartcards and where we are in terms of the retendering. I know that there is considerable interest around the Chamber in this issue, so we could return to it.

O ran masnachfaint Arriva, ystyrir yn benodol yr argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Menter a Busnes yn dilyn ei ymchwiliad pan edrychwn ar fanyleb y fasnachfaint newydd a'i datblygiad. Un mater dan sylw yw bod setliad datganoli gwell o ran gwasanaethau rheilffordd hefyd yn amcan i ni, yn Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod gennym yr adnoddau i ddelio â'r materion penodol hynny. Mewn termau real iawn, rydych yn llygad eich lle ynghylch cardiau clyfar a natur gymhleth y materion sy'n gysylltiedig â hwy. Gwnaethoch bwynt da am y cerdyn Oyster hefyd ac a yw hynny'n rhywbeth y gellid ei ystyried. Efallai y gallai fod yn bosibl pe bai gennym y metro, ac mae llawer o faterion yn gysylltiedig â hynny. Os byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau, rwyf yn fwy na bodlon gwneud datganiad penodol am gardiau clyfar a lle'r ydym arni o ran yr aildendro. Gwn fod cryn ddiddordeb o gwmpas y Siambr yn y mater hwn, felly gallem ddychwelyd ato.

In terms of Ceredigion and the Vale of Glamorgan, once details are available—although the Vale of Glamorgan and Ceredigion have some good ideas and the Vale is doing some stuff already—I would be delighted to share that work with you. We want to see how it runs in both those areas to see if we could extend that best practice elsewhere. This is increasingly going to become an issue, because when we see local authorities looking at reducing their budgets for subsidies, where is that going to hit? For example, I have had representations concerning Wrexham and the impact on bus services there. We will have to look very carefully at what good practice can emerge and how we deal with these issues in central and local government.

O ran Ceredigion a Bro Morgannwg, cyn gynted ag y bydd manylion ar gael—er bod gan Fro Morgannwg a Cheredigion rai syniadau da a bod y Fro'n gwneud rhai pethau eisoes—byddwn yn falch iawn o rannu'r gwaith hwnnw â chi. Rydym am weld sut y mae pethau'n mynd rhagddynt yn y ddwy ardal hynny i weld a allem ymestyn yr arfer gorau hwnnw i fannau eraill. Mae hyn yn mynd i fod yn broblem gynyddol, oherwydd pan welwn awdurdodau lleol yn ystyried lleihau eu cyllidebau ar gyfer cymorthdaliadau, pwy fydd yn teimlo'r ergyd? Er enghraifft, rwyf wedi cael sylwadau am Wrecsam a'r effaith ar wasanaethau bysiau yno. Bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus iawn ar arferion da a all ddod i'r amlwg ac ar y ffordd yr ydym yn ymdrin â'r materion hyn mewn llywodraeth ganolog a lleol.

In terms of the metro, I have indicated previously on the time framework that we are looking for work on the analysis by the summer. I shall have a clear picture on timescales before the Easter recess, which I will be more than happy to share with the Chamber. The city region boards will give me advice on the national transport plan because they exist, as it were. I also have the group that is chaired by Lesley Griffiths in north Wales that can help me, but I have direct discussions with the others involved, outside those groupings, regarding how they might wish to input into this discussion. It is important for us to recognise that there are a lot of issues emerging in relation to transport, but with reduced budgets we have to make sure that our money is harnessed in the correct way. That is why I say that bus services are so important. There is no point in us running services that people are not using. It is very important that we recognise what people require services for: is it to get them to work? Is it to get them to a certain point where they can access other transport? That is the type of work that we will be doing over the next few months.

O ran y metro, rwyf wedi nodi eisoes ynghylch y fframwaith amser ein bod yn gobeithio cael gwaith ar y dadansoddiad erbyn yr haf. Bydd gennyf ddarlun clir o'r amserlenni cyn toriad y Pasg, a byddaf yn fwy na pharod i'w rannu â'r Siambr. Bydd byrddau'r dinas-ranbarthau'n rhoi cyngor imi am y cynllun trafndiaeth cenedlaethol oherwydd eu bod yn bodoli, fel petai. Mae gennyf hefyd y grŵp y mae Lesley Griffiths yn ei gadeirio yn y gogledd a all fy helpu, ond rwyf yn cael trafodaethau uniongyrchol â'r bobl eraill sy'n gysylltiedig, y tu allan i'r grwpiau hynny, ynghylch sut y gallent fod am gyfrannu at y drafodaeth hon. Mae'n bwysig inni gydnabod bod llawer o faterion yn dod i'r amlwg o ran trafndiaeth, ond gyda chyllidebau llai mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod ein harian yn cael ei harneisio yn y ffordd iawn. Dyna pam yr wyf yn dweud bod gwasanaethau bysiau mor bwysig. Nid oes diben inni gynnal gwasanaethau nad yw pobl yn eu defnyddio. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod pam y mae angen gwasanaethau ar bobl: ai i fynd â hwy i'r gwaith? Ai i fynd â hwy i fan penodol lle gallant ddefnyddio mathau eraill o drafndiaeth? Dyna'r math o waith y byddwn yn ei wneud dros yr ychydig fisoedd nesaf.

16:03

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu'n fawr datganiad pellach y Gweinidog a'r symudiad sy'n mynd â ni yn nes, gobeithio, at drafndiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru. Hoffwn ei llongyfarch hefyd ar sefydlu grŵp i'w chynghori ymhellach ac, yn arbennig, i adeiladu drwy gydweithrediad rhwng y gweithredwyr bysiau—cwmnïau megis Lloyds Coaches a GHA sydd wedi cymryd drosodd y llwybr X94 sy'n bwysig iawn i ni ar draws y gogledd—llywodraeth leol ac eraill. Mae'n bwysig datblygu gwasanaeth integredig cynaliadwy rhwng bysiau a threnau. Pa mor gyflym y mae'r Gweinidog yn gobeithio gweithredu'r cynllun peilot ar gyfer taliadau gostyngol i bobl ifanc, gan fod hwnnw'n arbennig o bwysig i bobl ifanc sy'n teithio i'w gwaith neu i gael addysg bellach ac uwch a hyfforddiant? Sut y mae hi'n bwriadu symud ymlaen gyda'i bwriad i dalu'n uniongyrchol i lywodraeth leol yn hytrach na defnyddio'r consortia trafndiaeth? Pa mor fuan y bydd hi'n gallu gosod allan y blaenoriaethau rhanbarthol yn ei chynllun trafndiaeth cenedlaethol?

I warmly welcome the Minister's further statement and the movement that takes us closer, I hope, to integrated public transport in Wales. May I congratulate her also on the establishment of a group to advise her further and, particularly, to build through collaboration between bus operators—companies such as Lloyds Coaches and GHA, which have taken over the X94 route, which is very important to us across north Wales—local government and other partners? It is important to develop a sustainable integrated service between buses and trains. How swiftly does the Minister hope to implement the pilot scheme for concessionary rates for young people, because that is particularly important for young people travelling to their place of work or to further or higher education or training? How does she intend to progress with her intention to pay local government directly rather than using the regional transport consortia? How soon will she be able to set out the regional priorities in her national transport plan?

Yna, mae gen i gwestiwn neu ddau ynglŷn â'r tasglu yn y gogledd, o dan gadeiryddiaeth ei chyd-Weinidog Lesley Griffiths. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod y gwaith hwnnw wedi dechrau, yn enwedig y bwriadau ynglŷn â gosod trydaneiddio ar draws y gogledd yn flaenoriaeth, a gofyn am gefnogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol Trafndiaeth yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau hynny.

Then, I have just a few questions on the north Wales taskforce, chaired by her fellow Minister Lesley Griffiths. I warmly welcome the fact that that work has commenced, particularly the intentions in relation to the electrification of the north Wales main line as a priority, and asking for the support of the Secretary of State for Transport within the UK Government to ensure that that happens.

A wnaiff hefyd godi gobeithion y rhai ohonom sy'n dymuno byw yn ddigon hir i allu teithio o dan drydan o'r gogledd i'r de? Felly, y mae angen edrych ar yr holl gwestiwn o linell y Mers, oherwydd nonsens yw dweud nad yw'n briodol i'r llinell hon gael ei thrydaneiddio fel prif lwybr cenedlaethol Cymru am ei bod yn digwydd bod ar y Mers am nifer fawr o filltiroedd, oherwydd y llinell hon yw'r cyswllt trafndiaeth, ac y mae potensial ar gyfer nwyddau, rhwng de a gogledd. Rwy'n gobeithio y bydd yn parhau i dalu sylw i'r llwybr hwnnw, gan fod rhai ohonom yn ei ddefnyddio o leiaf ddwywaith yr wythnos.

Will she also raise the hopes of those of us who hope to live long enough to be able to travel on an electrified route from north to south Wales? We therefore need to look at the whole issue of the Marches line, because it is a nonsense to say that it is not appropriate for this line to be electrified as a main national route within Wales because it happens to be on the Marches for a number of miles, because this line is the transport link, and a potential freight link, between north and south. I hope that she will continue to consider that route, because many of us use it at least twice a week.

Thank you very much for your comments. I do regard some of the issues around electrification as being key, not just in the south, but in the north. Your point is well-made about the links between north and south Wales. In terms of the issues around the taskforce and electrification, it has been concentrating on the electrification case and I have been in correspondence with the UK Government. I have a meeting, actually, I think next month. One of the issues that will be key to me is how we develop this. We have to get our business case in quickly, and that is the indication that I have had from the Department for Transport: we have to get all our ducks in a row, and we really need to get everything in place to make sure that we can make progress on it. That is for the good of Wales, and it is important to have those links across the border into England. We must not miss out on any electrification projects.

There are a number of other issues that obviously arise in terms of transport and the ministerial taskforce in north Wales. It is obviously very concerned about some of the issues around buses, delivery of roads, maintenance of the A55, and enhancements within that area.

In terms of the regional transport consortia, I am moving to arrangements where capital funding will be allocated on a competitive basis directly to local authorities, and this for me, I think, will ensure better value for money. I am also determined that I will no longer provide revenue support for the transport consortia. However, if local authorities wish to maintain their organisational structures, that is a matter for them. Obviously, I am mindful of the implications for staff, and I have been discussing some of these issues with local authority leaders yesterday, so you can be reassured on that.

In terms of concessionary fares for young people, this is a matter that we are developing with bus operators, and I very much hope that we will have a positive announcement in the next few weeks, which I think will be good news. It is important for us to recognise that that is a group that really needs help and assistance, particularly in terms of finding employment. When you look at the cost of transport for them as a proportion of what they might earn, because they are not even eligible for the minimum wage in a lot of areas, it will be very good to be able to do something very proactive on that level.

I am also keen, as you are, to see more work being done on the links between bus and rail in areas, and if you can get people by bus to a rail point, how they can then get in. In terms of the bus operators, we tend to talk about the large bus operators, but there are very successful small bus operators all across Wales that have done their best in terms of delivery of service, have excellent local arrangements, and have a good understanding of what is required within the local economy and in terms of natural transport links. We will be continuing to work very proactively with them as well, as we review whatever we can do in terms of maintaining as many bus services that are viable as possible.

Diolch yn fawr iawn am eich sylwadau. Rwyf yn credu bod rhai o'r materion sy'n ymwneud â thrydaneiddio'n allweddol, nid yn unig yn y de, ond yn y gogledd. Gwnaethoch bwynt da am y cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. O ran y materion sy'n ymwneud â'r tasglu a thrydaneiddio, mae wedi bod yn canolbwyntio ar drydaneiddio ac rwyf wedi bod yn gohebu â Llywodraeth y DU. Mae gennyf gyfarfod, mewn gwirionedd, y mis nesaf rwyf yn meddwl. Un o'r materion a fydd yn allweddol imi yw sut yr ydym yn datblygu hyn. Mae'n rhaid inni gyflwyno ein hachos busnes yn gyflym, a dyna'r awgrym yr wyf wedi'i gael gan yr Adran Drafnidiaeth: rhaid i'n holl hwyaid ni fod mewn rhes, ac mae gwir angen inni roi popeth yn ei le i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd yn hyn o beth. Mae hynny er lles Cymru, ac mae'n bwysig cael y cysylltiadau hynny ar draws y ffin i mewn i Loegr. Rhaid inni beidio â bod ar ein colled yn unrhyw brosiectau trydaneiddio.

Mae nifer o faterion eraill sy'n amlwg yn codi o ran trafnidiaeth a'r tasglu gweinidogol yn y gogledd. Mae'n amlwg yn bryderus iawn am rai o'r materion yn ymwneud â bysiau, darparu ffyrdd, cynnal a chadw'r A55, a gwelliannau yn yr ardal honno.

O ran y consortia trafnidiaeth rhanbarthol, rwyf yn troi at drefniadau lle caiff arian cyfalaf ei ddyrannu ar sail gystadleuol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, a bydd hyn i mi, rwyf yn meddwl, yn sicrhau gwell gwerth am arian. Rwyf hefyd yn benderfynol o roi'r gorau i ddarparu cymorth refeniw i'r consortia trafnidiaeth. Fodd bynnag, os yw awdurdodau lleol yn dymuno cadw eu strwythurau trefniadol, mater iddynt hwy yw hynny. Yn amlwg, rwyf yn ymwybodol o'r goblygiadau i staff, a bùm yn trafod rhai o'r materion hyn ag arweinwyr awdurdodau lleol ddoe, felly gallwch fod yn dawel eich meddyliau am hynny.

O ran tocynnau rhatach i bobl ifanc, mae hwn yn fater yr ydym yn ei ddatblygu gyda chwmnïau bysiau, ac rwyf yn gobeithio'n fawr y cawn gyhoeddiad cadarnhaol yn ystod yr wythnosau nesaf; rwyf yn meddwl y bydd yn newyddion da. Mae'n bwysig inni gydnabod bod angen help a chymorth gwirioneddol ar y grŵp hwn, yn enwedig o ran dod o hyd i swyddi. Pan edrychwch ar gost trafnidiaeth iddynt fel cyfran o'r hyn y gallent fod yn ei ennill, am nad ydynt hyd yn oed yn gymwys i gael yr isafswm cyflog mewn llawer o feysydd, bydd yn braf iawn gallu gwneud rhywbeth rhagweithiol iawn yn hynny o beth.

Rwyf hefyd, fel chithau, yn awyddus i weld mwy o waith yn cael ei wneud ar y cysylltiadau rhwng bysiau a threnau mewn ardaloedd, ac os gallwch fynd â phobl ar fws at reilffordd, sut y gallant wedyn fynd i mewn. O ran y cwmnïau bysiau, rydym yn tueddu i siarad am y cwmnïau bysiau mawr, ond mae cwmnïau bysiau bach llwyddiannus iawn ym mhob rhan o Gymru sydd wedi gwneud eu gorau o ran darparu gwasanaeth, a chanddynt drefniadau lleol ardderchog, a dealltwriaeth dda o'r hyn sydd ei angen o fewn yr economi leol ac o ran cysylltiadau trafnidiaeth naturiol. Byddwn yn parhau i weithio'n rhagweithiol iawn gyda hwy hefyd, wrth inni adolygu'r hyn y gallwn ei wneud i gynnal cynifer o wasanaethau bysiau dichonadwy ag y bo modd.



16:08 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister, for that update on transport policy. I particularly welcome the initiative on buses. I had a few questions about how the national transport plan will ensure that walking and cycling play an important part in transport policy. How will we ensure that local authorities will bid for transport capital infrastructure projects that will encourage walking and cycling? Now that we have the Active Travel (Wales) Act 2013, how will we ensure that it makes an impact and becomes an integral part of the national transport plan?

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am y wybodaeth ddiweddaraf honno am y polisi trafndiaeth. Croesawaf y fenter bysiau yn enwedig. Roedd gennyf rai cwestiynau ynghylch sut y bydd y cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn sicrhau bod cerdded a beicio'n rhan bwysig o bolisi trafndiaeth. Sut y byddwn yn sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn ymgeisio am brosiectau seilwaith cyfalaf trafndiaeth a fydd yn annog cerdded a beicio? Nawr bod gennym Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sut y byddwn yn sicrhau ei bod yn cael effaith ac yn dod yn rhan annatod o'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:09 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague John Griffiths is taking forward the Active Travel (Wales) Act, and all the issues surrounding that. I know that he has had a good response across Wales to the proposals that we are taking forward to ensure that people are active in terms of their travel with cycling and walking. One of the key issues for me is road safety for the parties involved, whether they are walkers or cyclists. In terms of road safety, I have been particularly concerned about Safe Routes to School. We have looked at what is required now in terms of Safe Routes to School to put at its heart the safety of the child going to school. The same thing applies in terms of cyclists. I see this as being very much integrated into proposals and developments with the national transport plan. I have to say that I am, perhaps, going to have to consider further guidance when I am delivering new roads about what is actually required in terms of better standards in those areas.

Mae fy nghydweithiwr John Griffiths yn bwrw ymlaen â Deddf Teithio Llesol (Cymru), a'r holl faterion sy'n gysylltiedig â hi. Gwn ei fod wedi cael ymateb da ledled Cymru i'r cynigion yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy i sicrhau bod pobl yn mynd ati i deithio drwy feicio a cherdded. Un o'r materion allweddol i mi yw diogelwch ar y ffyrdd i'r rhai dan sylw, boed yn gerddwyr neu'n feicwyr. O ran diogelwch ar y ffyrdd, rwyf wedi bod yn edrych yn arbennig ar Lwybrau Diogel i'r Ysgol. Rydym wedi edrych ar yr hyn sy'n ofynnol yn awr o ran Lwybrau Diogel i'r Ysgol i sicrhau bod diogelwch y plentyn sy'n mynd i'r ysgol yn ganolog iddynt. Mae'r un peth yn berthnasol i feicwyr. Rwyf yn gweld hyn yn dod yn rhan annatod o gynigion a datblygiadau'n ymwneud â'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Rhaid imi ddweud y bydd yn rhaid imi, efallai, ystyried cyfarwyddyd pellach wrth gyflwyno ffyrdd newydd ynghylch yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd o ran safonau gwell yn y meysydd hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:10 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement today, Minister, and also for the written statement of 20 January. I am very glad to welcome the new bus advisory group. I wonder whether the Minister would agree to write to Members with the membership of that group and its terms of reference in due course. However, perhaps before that, could you give us an indication of whether this is a long-term advisory group or whether it is task and finish in nature and intended to input into the development of the bus strategy as discussed? I would also be interested to know how the work of this group will relate to the work of the users' advisory panel announced in that 20 January statement.

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog, a hefyd am y datganiad ysgrifenedig ar 20 Ionawr. Rwyf yn falch iawn o groesawu'r grŵp cynghori newydd ar fysiau. Tybed a wnaiff y Gweinidog gytuno i ysgrifennu at yr Aelodau i nodi aelodaeth y grŵp a'i gylch gorchwyl maes o law? Fodd bynnag, efallai cyn hynny, a allech roi syniad inni a yw hwn yn grŵp cynghori hirdymor ynteu ai grŵp gorchwyl a gorffen ydyw o ran ei natur ac a oes bwriad iddo gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth bysiau fel y trafodwyd? Byddai gennyf ddiddordeb hefyd mewn cael gwybod sut y bydd gwaith y grŵp hwn yn ymwneud â gwaith y panel cynghori defnyddwyr a gyhoeddwyd yn y datganiad hwnnw ar 20 Ionawr.

Minister, I am delighted that the Vale of Glamorgan and Ceredigion are to pilot new approaches in bus transport. You are well aware, I know, of the difficulties that constituents in my own region have had to face in this area. Of course, we would be interested in more detail, so we thank you for the promise to give that. Also, the metro concept is very exciting and is changing and developing over a period of time. We would, around the Chamber, I am sure, welcome detailed statements on this as it progresses.

Weinidog, rwyf wrth fy modd o glywed y bydd Bro Morgannwg a Cheredigion yn treialu ymagweddau newydd ym maes trafndiaeth bysiau. Gwn eich bod yn gwybod yn iawn am yr anawsterau y mae etholwyr yn fy rhanbarth i wedi gorfod eu hwynebu yn y maes hwn. Wrth gwrs, byddai'n dda gennym gael mwy o fanylder, felly diolch ichi am yr addewid i roi hynny. Hefyd, mae cysyniad y metro'n un cyffrous iawn ac mae'n newid ac yn datblygu dros gyfnod. Byddem, o gwmpas y Siambur, rwyf yn siŵr, yn croesawu datganiadau manwl am hyn wrth iddo fynd rhagddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of ticketing, I think that it is a very important issue, and while we are disappointed by the slow progress of the all-Wales Oyster card due to the technical difficulties, I am very glad that work is continuing. While I would note that there are infrastructure troubles when it comes to implementing something like this on the trains in Wales because of the stations, there are fewer problems when it comes to implementing it on buses; in fact, Cardiff Bus operates a system not dissimilar to this already. I wonder whether you can give us an indication of when you feel that that might be possible to implement on an all-Wales basis for buses.

In terms of costs, I am delighted also to hear of progress on a young persons' concessionary fares scheme, which is very important. However, the cost of transport is also a major issue for part-time workers in Wales, and I wonder what discussions you have had with bus and train operators on the possibility of introducing part-time season tickets to help lower the cost of transport for part-time workers, or, if that is not possible, perhaps a carnet system of ticketing, which will allow people to save money if they are travelling regularly but not necessarily every day.

We are delighted by the progress on the electrification of the Great Western main line and the Valleys lines. It is a huge opportunity for Wales, and it brings us within those magic two hours of London, one of the world's great megacities, which obviously has economic potential for us. I welcome your engagement with train builders in your recent Cardiff event. I wonder whether the Minister can confirm, then, whether that means that the Welsh Government is intending to purchase, or is certainly actively investigating purchasing, new rolling stock. While I note that two of these companies build infrastructure, one of them does not: it only builds rolling stock.

We welcome the work of the ministerial taskforce on north Wales transport, and the focus on electrification in north Wales, which is something for which this party has been calling for some time. We think that there is an opportunity here to strengthen that business case for the north Wales line by talking about the link with high speed 2 and, of course, the important connectivity of the line to London. However, key to that is the dualling of the Wrexham to Gresford two-mile stretch, to make that case and improve the possibility for increasing the frequency of services; I hope that you will have a look at that.

Finally, both statements refer to regional planning. Can you confirm whether the regional consortia are now effectively abolished, given the withdrawal of both their responsibilities and the funding to them? If not, can you confirm what powers and funding they retain? In terms of regional priorities being set by city region boards, while I understand the economic reasons for that in areas where there are city regions, it does not mean to say that there are, necessarily, bodies in other parts of Wales that do not have city regions that are making the case for the priorities for rural Wales. I wonder whether you can tell us how regional planning will be accomplished in rural Wales with neither consortia nor city region boards to do that.

O ran tocynnau, rwyf yn meddwl ei fod yn fater pwysig iawn, ac er ein bod wedi ein siomi â chynnydd araf y cerdyn Oyster Cymru gyfan oherwydd yr anawsterau technegol, rwyf yn falch iawn fod y gwaith yn parhau. Er bod trafferthion o ran seilwaith yn gysylltiedig â gweithredu rhywbeth fel hyn ar y trenau yng Nghymru oherwydd y gorsafoedd, mae llai o broblemau o ran ei weithredu ar y bysiau; yn wir, mae Bws Caerdydd eisoes yn gweithredu system nad yw'n annhebyg i hyn. Tybed a allwch roi rhyw syniad inni pryd yr ydych yn teimlo y gallai fod yn bosibl rhoi hyn ar waith ar fysiau ledled Cymru?

O ran costau, rwyf wrth fy modd hefyd o glywed am y cynnydd o ran cynllun tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc; mae hynny'n bwysig iawn. Fodd bynnag, mae cost trafnidiaeth yn fater pwysig hefyd i weithwyr rhan-amser yng Nghymru, a tybed pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â chwmnïau bysiau a threnau ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno tocynnau tymor rhan-amser i helpu i leihau costau teithio i weithwyr rhan-amser, neu, os nad yw hynny'n bosibl, efallai system drwydded ar gyfer tocynnau, a fydd yn caniatáu i bobl arbed arian os ydynt yn teithio'n rheolaidd, ond nid o reidrwydd bob dydd.

Rydym yn falch iawn â'r cynnydd ar drydaneiddio prif reilffordd y Great Western a llinellau'r Cymoedd. Mae'n gyfle aruthrol i Gymru, ac yn dod â ni o fewn y ddwy awr hud i Lundain, un o brifddinasoedd mawr y byd, sy'n amlwg yn creu potensial economaidd inni. Rwyf yn croesawu eich ymgysylltiad ag adeiladwyr trenau yn eich digwyddiad diweddar yng Nghaerdydd. Tybed a all y Gweinidog gadarnhau, felly, a yw hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu prynu cerbydau newydd, neu'n sicr wrthi'n ymchwilio i'w prynu? Er fy mod yn nodi bod dau o'r cwmnïau hyn yn adeiladu seilwaith, nid yw un ohonynt yn gwneud hynny: adeiladu cerbydau'n unig y mae.

Rydym yn croesawu gwaith y tasglu gweinidogol ar drafnidiaeth y gogledd, a'r pwyslais ar drydaneiddio yn y gogledd, sy'n rhywbeth y mae'r blaid hon wedi bod yn galw amdano ers peth amser. Rydym yn credu bod cyfle yma i gryfhau'r achos busnes hwnnw ar gyfer rheilffordd y gogledd drwy sôn am y cysylltiad â chyflymder uchel 2 ac, wrth gwrs, y cysylltedd pwysig rhwng y rheilffordd a Llundain. Fodd bynnag, un peth sy'n allweddol i hynny yw deuli'r ddwy filltir o Wrecsam i Resffordd, er mwyn gwneud yr achos hwnnw a gwella'r posibilrwydd o ran cynnig gwasanaethau'n fwy aml; rwyf yn gobethio y byddwch yn edrych ar hynny.

Yn olaf, mae'r naill ddatganiad a'r llall yn cyfeirio at gynllunio rhanbarthol. A allwch gadarnhau a yw'r consortia rhanbarthol bellach wedi'u diddymu i bob diben, ac ystyried bod eu cyfrifoldebau a'u cyllid wedi'u tynnu'n ôl? Os na allwch wneud hynny, a allwch gadarnhau pa bwerau a chyllid y maent yn eu cadw? O ran pennu blaenoriaethau rhanbarthol gan fyrdau'r dinas-ranbarthau'n, er fy mod yn deall y rhesymau economaidd dros hynny mewn ardaloedd lle ceir dinas-ranbarthau, nid yw hynny'n golygu, o reidrwydd, bod cyrff mewn rhannau eraill o Gymru heb ddinas-ranbarthau'n cyflwyno'r achos o blaid blaenoriaethau Cymru wledig. Tybed a allwch ddweud wrthym sut y caiff cynllunio rhanbarthol ei gyflawni yng Nghymru wledig heb gonsortia na byrdau dinas-ranbarthau i wneud hynny?

If I can deal with the last point first—thank you for those many and varied points—the regional transport consortia are joint committees of local authorities. My decision to change the funding arrangement does not preclude local authorities from continuing to work together on a regional basis and to share expertise and resources. I would hope that local authorities would continue to collaborate via their officers et cetera to bring forward some of these particular issues. I discussed these issues fully with local authorities yesterday. They raised various points with me and I will have to consider further how I have this ongoing dialogue. In terms of the city regions, it is relatively easy, and it is relatively easy now with the taskforce in north Wales, in terms of that issue, but I am mindful of other areas in Wales that are not included in this, such as Ceredigion and Powys. I am meeting Ceredigion council to talk about some of these issues on Friday.

Turning to some of the other issues that you raised with me, interestingly, about rolling stock and everything, yes, it was a nice collection of companies to discuss various issues with and to see how companies could become involved in the production of other things. I am interested, actually, in the issues around rolling stock. I have made no firm decisions as yet, but I think that it is always well worth exploring all of these matters. The important thing is that a lot of companies came to that event, they made good contacts with these larger companies, and I think that a lot of business is going to be done as a result. When you think of the rail industry, all of the skills that we have in the automotive and aerospace sectors actually fit very neatly into all of the skills that are required within that industrial sector as well. The electrification thing is good, because it is what I regard as the magic to enable anybody from London to come to south Wales in two hours, which is also very important.

I think that you raised a very interesting point, which I am not aware has ever been considered—it certainly has not been raised with me—about part-time workers and season tickets. This is certainly an equality issue, given the number of women who work part time, and I would be more than happy to see whether anything has been raised historically and to focus on some of the work around that particular area. You are quite right that it is not just about young people, but about other disadvantaged groups, and rail fares for a part-time worker could be a huge amount in terms of the transport costs to allow people to have an element of employment.

In terms of the metro, I would be more than happy, as we make progress, to give Members an update with Mark Barry and the group. I can arrange that, if Members would like that, for them to see what progress has been made, where it is and what has been discussed. I think that it would be quite good to have a question-and-answer session on these issues, because I know that there is such an excellent and broad spread of support across the Chamber for the metro concept and its development.

Os caf ymddrin â'r pwynt olaf yn gyntaf—diolch ichi am y pwyntiau niferus ac amrywiol hynny—cydbwyllgorau'r awdurdodau lleol yw'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Nid yw fy mhenderfyniad i newid y trefniant ariannu'n atal awdurdodau lleol rhag parhau i gydweithio'n rhanbarthol a rhannu arbenigedd ac adnoddau. Byddwn yn gobeithio y byddai awdurdodau lleol yn parhau i gydweithio drwy eu swyddogion ac ati i ddwyn rhai o'r materion penodol hyn ymlaen. Bûm yn trafod y materion hyn yn llawn ag awdurdodau lleol ddoe. Codosant nifer o bwyntiau gyda mi a bydd yn rhaid imi ystyried ymhellach sut i gynnal y ddeialog barhaus honno. O ran y dinas-ranbarthau, mae'n gymharol hawdd, ac mae'n gymharol hawdd yn awr gyda'r tasglu yn y gogledd, o ran y mater hwnnw, ond rwyf yn ymwybodol o ardaloedd eraill yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn hyn, megis Ceredigion a Phowys. Byddaf yn cwrdd â Chyngor Ceredigion i siarad am rai o'r materion hyn ddydd Gwener.

A throi at rai o'r materion eraill a godasoch gyda mi, yn ddi-ddorol, ynghylch cerbydau a phopeth, oedd, roedd yn gasgliad da o gwmnïau i drafod gwahanol faterion â hwy ac i weld sut y gallai cwmnïau gymryd rhan yn y broses o gynhyrchu pethau eraill. Mae gennyf ddi-ddordeb, a dweud y gwir, yn y materion sy'n ymwneud â cherbydau. Nid wyf wedi gwneud dim penderfyniadau pendant eto, ond rwyf yn meddwl ei bod bob amser yn werth archwilio pob un o'r materion hyn. Y peth pwysig yw bod llawer o gwmnïau wedi dod i'r digwyddiad hwnnw, eu bod wedi creu cysylltiadau da â'r cwmnïau mwy hyn, a chredaf y caiff llawer o fusnes ei wneud yn sgil hynny. Pan feddylwch am y diwydiant rheilffyrdd, mae'r holl sgiliau sydd gennym yn y sectorau modur ac awyrodod mewn gwirionedd yn cydfynd yn dda iawn â'r holl sgiliau sydd eu hangen yn y sector diwydiannol hwnnw hefyd. Mae trydaneiddio'n beth da, oherwydd dyna sy'n rhoi'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn hud i alluogi unrhyw un o Lundain i ddod i dde Cymru mewn dwy awr, sydd hefyd yn bwysig iawn.

Rwyf yn meddwl eich bod wedi codi pwynt diddorol iawn, ac nid wyf yn ymwybodol ei fod erioed wedi cael ei ystyried—yn sicr nid yw wedi cael ei godi gyda mi—am weithwyr rhan-amser a thocynnau tymor. Mae hwn yn sicr yn fater sy'n ymwneud â chydaddoldeb, ac ystyried nifer y menywod sy'n gweithio'n rhan-amser, a byddwn yn fwy na pharod i weld a oes unrhyw beth wedi cael ei godi'n hanesyddol ac i ganolbwyntio ar rywfaent o'r gwaith yn y maes arbennig hwnnw. Rydych yn llygad eich lle nad dim ond pobl ifanc y dylem eu hystyried, ond grwpiau eraill sydd dan anfantais, a gallai tocynnau trên i weithiwr rhan-amser fod yn swm enfawr o ran y costau trafnidiaeth i alluogi pobl i gael rhyw fath o swydd.

O ran y metro, byddwn yn fwy na pharod, wrth inni symud yn ein blaenau, i Mark Barry a'r grŵp roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Gallaf drefnu, pe byddai'r Aelodau yn hoffi hynny, iddynt gael gweld pa gynnydd sydd wedi'i wneud, ble y mae a beth sydd wedi ei drafod. Rwyf yn meddwl y byddai'n dda o beth cael sesiwn holi ac ateb am y materion hyn, oherwydd gwn fod cefnogaeth mor ardderchog ac eang ar draws y Siambr i gysyniad y metro a'i ddatblygiad.

In terms of my bus advisory group, it is a short-term group at the moment, in terms of helping with strategy. I would be more than happy to set out details of the group's membership, its current remit and everything for Members and to indicate to you how it relates to the users' panel.

In terms of the Vale and Ceredigion, I think that there is an awful lot of useful work that we can do in those areas. I also advise Members that Stuart Cole's report has now been completed, and I will be making it available for Members, together with my response to his recommendations, very shortly.

O ran fy ngrŵp cynghori ar fysiau, grŵp tymor byr ydyw ar hyn o bryd, o ran helpu â'r strategaeth. Byddwn yn fwy na pharod i nodi manylion aelodaeth y grŵp, ei gylch gwaith ar hyn o bryd a phopeth i'r Aelodau ac i ddangos ichi beth yw'r berthynas rhyngddo a'r panel defnyddwyr.

O ran y Fro a Cheredigion, rwyf yn meddwl bod llawer iawn o waith defnyddiol y gallwn ei wneud yn y meysydd hynny. Rhoddaf wybod i'r Aelodau hefyd fod adroddiad Stuart Cole bellach wedi'i gwblhau, a byddaf yn sicrhau ei fod ar gael i'r Aelodau, ynghyd â'm hymateb i'w argymhellion, yn fuan iawn.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have three Members left to speak, but I do warn them that we are in 'Just a Minute' territory now. [Laughter.] I call Russell George.

Mae gennyf dri Aelod yn weddill i siarad, ond rwyf yn eu rhybuddio ein bod ar dir 'Just a Minute' nawr. [Chwerthin.] Galwaf ar Russell George.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:17 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement. I am pleased by your recognition of the importance of bus services, particularly in rural areas such as the one that I represent. I have a big postbag on this issue, particularly from elderly people who see the bus routes as a lifeline. So, there is a particular issue there.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn falch eich bod wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel yr un yr wyf fi'n ei chynrychioli. Mae gennyf fag post mawr ar y mater hwn, yn enwedig gan bobl oedrannus sy'n gweld y llwybrau bysiau fel rhaff achub. Felly, mae mater penodol yno.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

May I just ask that, when you are seeking to set up this group, you will have good representation from rural areas, and from local authorities representing rural areas in particular? I think that that is important.

A gaf fi ofyn, pan fyddwch yn ceisio sefydlu'r grŵp hwn, ichi sicrhau cynrychiolaeth dda o ardaloedd gwledig, ac o awdurdodau lleol sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig yn arbennig? Rwyf yn meddwl bod hynny'n bwysig.

I am pleased with the ongoing work on the Cambrian line and on the Aberystwyth to Shrewsbury line. Steve Kaye, who is the chair of the Powys Federation of Small Businesses, has raised a relevant issue, I think, which is that the line could act as a carrier service between the towns along the route. Shrewsbury acts, of course, as the main depot for the Royal Mail, so I would appreciate your comments on that and also on whether you would agree to discuss that particular aspect with your officials.

Rwyf yn falch â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar linell y Cambrian ac ar y rheilffordd o Aberystwyth i'r Amwythig. Mae Steve Kaye, cadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bach Powys, wedi codi mater perthnasol, yn fy marn i, sef y gallai'r llinell fod yn wasanaeth cludo rhwng y trefi ar hyd y llwybr. Mae'r Amwythig, wrth gwrs, yn brif ddepo i'r Post Brenhinol, felly byddai'n dda gennyf glywed eich sylwadau am hynny ac ynghylch a fydddech yn cytuno i drafod yr agwedd benodol honno â'ch swyddogion.

16:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am more than happy to take up everything that has come from the FSB in Powys about these issues. I think that that is very good. We are progressing very well with the work on the Cambrian line and discussions on the Cambrian hourly service. I think that it is very important that we look very proactively at what we can do within the limits of the resources that are available.

Rwyf yn fwy na pharod i dderbyn popeth sydd wedi dod o Ffederasiwn y Busnesau Bach ym Mhowys ynghylch y materion hyn. Rwyf yn meddwl bod hynny'n dda iawn. Rydym yn symud ymlaen yn dda iawn â'r gwaith ar reilffordd y Cambrian a'r trafodaethau am y gwasanaeth bob awr ar y Cambrian. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych yn rhagweithiol iawn ar yr hyn y gallwn ei wneud o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:19 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was very grateful for the update on the rail situation in north Wales. One thing that you did not mention, or provide an update on, was the potential for a direct rail link to Liverpool. As you know, Liverpool is an extremely important commercial centre for the people of north Wales, and the north Wales tourism industry relies significantly on people visiting from Liverpool and the wider Merseyside area. So, I wonder what discussions you and your officials may have been having with the Department for Transport in the UK regarding the re-establishment of that direct link along the Halton curve.

Weinidog, roeddwn yn ddiolchgar iawn am y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r trenau yn y gogledd. Un peth na soniasoch amdano, na rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf amdano, oedd y posibilrwydd o gael cyswllt rheilffordd uniongyrchol â Lerpwl. Fel y gwyddoch, mae Lerpwl yn ganolfan fasnachol eithriadol o bwysig i bobl y gogledd, ac mae diwydiant twristiaeth y gogledd yn dibynnu'n fawr ar bobl sy'n ymweld o Lerpwl ac o ardal ehangach Glannau Merswy. Felly, tybed pa drafodaethau y gallech chi a'ch swyddogion fod wedi eu cael â'r Adran Drafnidiaeth yn y DU ynglŷn ag adfer y cysylltiad uniongyrchol hwnnw ar hyd trofa Halton.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is entirely appropriate—and Lesley Griffiths is in the Chamber—that that issue, and the issue that was raised about dualling and links by Eluned Parrott earlier, are matters that the taskforce in north Wales can consider. That has been helpful in looking at the integrated approach.

Mae'n gwbl briodol—ac mae Lesley Griffiths yn y Siambr—fod y mater hwnnw, a'r mater a godwyd yn gynharach gan Eluned Parrott am ddeuoli a chysylltiadau, yn faterion y gall y tasglu yng ngogledd Cymru eu hystyried. Mae hynny wedi bod o gymorth wrth edrych ar y dull integredig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:20 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have made it clear that you intend to continue developing a new national transport plan that also reflects regional priorities. As you are fully aware, I have been campaigning to dual the A40 in Pembrokeshire for many years, as I believe it would be of huge economic benefit to the people whom I represent. In October last year you said that you were very interested in the prospect of dualling the A40 in Pembrokeshire, given that it is part of the trans-European network. Can you confirm for the record today that dualling the A40 is now certainly a Welsh-Government objective in the long term and that this will be included in the national transport plan in the future?

Weinidog, rydych wedi ei gwneud yn glir eich bod yn bwriadu parhau i ddatblygu cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd sydd hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol. Fel y gwyddoch yn iawn, rwyf wedi bod yn ymgyrchu i ddeuoli'r A40 yn sir Benfro ers blynnydoedd lawer, gan fy mod yn credu y byddai o fudd economaidd aruthrol i'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli. Ym mis Hydref y llynedd, dywedasoch fod gennych ddiddordeb mawr yn y posibilrwydd o ddeuoli'r A40 yn sir Benfro, ac ystyried ei fod yn rhan o'r rhwydwaith traws-Ewropeaidd. A allwch gadarnhau ar gofnod heddiw fod deuoli'r A40 bellach yn bendant yn un o amcanion hirdymor Llywodraeth Cymru ac y caiff hyn ei gynnwys yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are, obviously, currently carrying out work, and the national transport plan will be about not just the priorities for transport but the affordability of what we can deliver in terms of that plan. I think that I will be clearer on the priorities when I know what the cash is and how I will then have to stage the priorities. I think it would be disingenuous of me to say over and above that this would be an ambition for us in the Government, but it will be dependent upon the resource that is available.

Wrth gwrs, rydym yn gwneud gwaith ar hyn o bryd, a bydd y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn ymwneud nid yn unig â'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth, ond â fforddiadwyedd yr hyn y gallwn ei gyflawni o ran y cynllun hwnnw. Rwyf yn meddwl y byddaf yn gliriach am y blaenoriaethau pan fyddaf yn gwybod faint o arian sydd ar gael a sut y bydd yn rhaid imi drefnu'r blaenoriaethau. Credaf y byddai'n ffuantus imi fynd ymhellach na hynny a dweud y byddai hyn yn uchelgais i ni yn y Llywodraeth, ond bydd yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## **Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Newid y Drefn y Caiff Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) eu Trafod**

Cynnig NDM5414 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

## **Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Bill**

Motion NDM5414 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

a) adrannau 2-76

b) atodlen 1

c) adrannau 77-133

d) atodlen 2

e) adrannau 134-169

f) atodlen 3

g) adrannau 170-183

h) adran 1

i) Teitl Hir

Agrees to dispose of sections and schedules to the Social Services and Well-being (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) sections 2-76

b) schedule 1

c) section 77-133

d) schedule 2

e) sections 134-169

f) schedule 3

g) sections 170-183

h) section 1

i) Long title

16:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I move the motion. Cynigiaf y cynnig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I do not have any speakers. Nid oes gennyf ddim siaradwyr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig felly wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Adroddiad y Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones, a gwelliant 6 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5412 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

## The Report of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones, and amendment 6 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5412 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery.

16:22 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



We know that public services face unprecedented challenges, with a perfect storm of downward pressure on funding and increased demand on services. These pressures are not sustainable, and something has to change. That is why the commission that is now known—by its shorthand, I suppose—as the Williams commission was set up. What then did we ask the commission to do? Quite simply, we asked it to produce an honest, independent and robust report on how our services are governed and delivered now, and how that needs to change in order to meet the needs and aspirations of people today, and to provide a sustainable basis for the future.

The report is comprehensive and detailed. Some of it makes uncomfortable reading for local government, for us, and for other public services here in Wales. There may be things in the report with which we do not agree, but we will respond positively and we will seize this opportunity to make a real change to how our services are delivered.

What, then, does the report tell us? It tells us that performance is far too patchy. The variation in performance between authorities is described as 'wide and often inexplicable'. It cannot be right that one council can take more than a year longer to complete a disabled facilities grant scheme than another or that more than one in four looked-after children in one local authority had three or more placements last year, while in another the figure is less than one in 25. There are problems with scrutiny and governance, which are not effectively supporting and driving improvement, and the commission finds that basic standards and principles of governance are not being applied consistently and effectively. Scrutiny needs more status, and its capacity to drive change needs to be enhanced. There are wide variations in efficiency. If all authorities were to reduce their waste-handling costs to the level achieved by Swansea, the saving would be around £24 million per year. If all authorities were to reduce their corporate costs to the level achieved by Rhondda Cynon Taf, the saving would be around £38 million per year.

We do not accept that there is widespread deterioration in local public services, because the report highlights the consistently strong performance from fire and rescue services in Wales, but some services are not where we want them to be, and demand is only likely to increase in the coming years. We want to see better governance and better delivery of services despite these challenges. Resources are scarce, and they will remain scarce as the UK Government continues to reduce public expenditure. We cannot afford to wait to act until a more favourable financial climate returns.

Rydym yn gwybod bod gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau digyffelyb, gyda storm berffaith o bwysau ar i lawr ar gyllid a galw cynyddol am wasanaethau. Nid yw'r pwysau hwn yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid i rywbeth newid. Dyna pam y sefydlwyd y comisiwn a adnabyddir bellach—gan ei enw cryno, mae'n debyg—fel comisiwn Williams. Beth felly wnaethom ni ofyn i'r comisiwn ei wneud? Yn syml, gofynwyd iddo lunio adroddiad gonest, annibynnol a chadarn ar sut mae ein gwasanaethau'n cael eu llywodraethu a'u darparu nawr, a sut y mae angen i hynny newid er mwyn diwallu anghenion a dyheadau pobl heddiw, a darparu sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Mae rhannau ohono'n anghyfforddus i lywodraeth leol, inni, ac i wasanaethau cyhoeddus eraill yma yng Nghymru. Efallai y bydd pethau yn yr adroddiad nad ydym yn cytuno â nhw, ond byddwn yn ymateb yn gadarnhaol a byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn i wneud newidiadau gwirioneddol i'r ffordd y darperir ein gwasanaethau.

Beth, felly, mae'r adroddiad yn ei ddweud wrthym? Mae'n dweud wrthym fod perfformiad yn llawer rhy anghyson. Mae'r amrywiad mewn perfformiad rhwng awdurdodau yn cael ei ddisgrifio'n 'fawr ac, yn aml, anesboniadwy'. Ni all fod yn iawn bod un cyngor yn gallu cymryd mwy na blwyddyn yn hwy i gwblhau cynllun grant cyfleusterau i'r anabl nag un arall, na bod mwy nag un o bob pedwar o blant sy'n derbyn gofal mewn un awdurdod lleol wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod y ffigur yn llai nag un o bob 25 mewn un arall. Ceir problemau gyda chraffu a llywodraethu, nad ydynt yn cefnogi a sbarduno gwelliant yn effeithiol, ac mae'r comisiwn yn canfod nad yw safonau ac egwyddorion llywodraethu sylfaenol yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn effeithiol. Mae angen rhoi mwy o statws i graffu, ac mae angen gwella ei allu i sbarduno newid. Ceir amrywiadau eang o ran effeithlonrwydd. Pe bai pob awdurdod yn gostwng ei gostau trin gwastraff i'r lefel a sicrhawyd gan Abertawe, gellid arbed tua £24 miliwn y flwyddyn. Pe bai pob awdurdod yn lleihau ei gostau corfforaethol i'r lefel a sicrhawyd gan Rhondda Cynon Taf, gellid arbed tua £38 miliwn y flwyddyn.

Nid ydym yn derbyn bod gwasanaethau cyhoeddus lleol yn dirywio'n eang, oherwydd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at berfformiad cyson gryf gan wasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ond nid yw rhai gwasanaethau yn y sefyllfa yr hoffem iddynt fod ynddi, a dim ond cynyddu y mae'r galw'n debygol o'i wneud yn y blynyddoedd nesaf. Rydym eisiau gweld gwell trefniadau llywodraethu a gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n well er gwaethaf yr heriau hyn. Mae adnoddau'n brin, a byddant yn parhau i fod yn brin tra bod Llywodraeth y DU yn parhau i leihau gwariant cyhoeddus. Ni allwn fforddio aros nes i'r hinsawdd ariannol fwy ffafriol ddychwelyd cyn gweithredu.

The commission's findings cannot be considered in isolation of the wider financial position. We are clear that this is not just about pounds and pence, but about improved performance, better governance and stronger local delivery, as well as making better use of limited resources. Efficiency and value for money are important, but they are not the yardstick by which alone we will measure success; we also need to think about the cost of doing nothing, because inaction would be very costly.

Let me be clear: this report was never just about mergers in local government, although that is, of course, where the focus of the discussion has centred in the past week. I am clear, and the commission is clear, that reorganisation is not a magic bullet; we cannot just reorganise or merge and then sit back and wait for things to improve. We need better governance, better leadership, more effective scrutiny, and a proper relationship between those who provide a service and those who rely on it. We particularly need to see better scrutiny of senior officers in some authorities.

Many of us will remember the last reorganisation. It is inevitable that people will fall back on previous experiences, but what takes place this time will be very different. The commissioner recommends merging existing authorities, not splitting authorities or, indeed, redrawing boundaries. We need to think carefully about how that transformation is supported, but we will not be replicating structures that were designed for a different time and a different task, unless they help us to deliver.

We will be working on our response to the commission in the coming months, but other work does not stop. We will continue to develop and implement reforms to improve public services. We expect all of those responsible for delivering devolved services to continue to improve their delivery, and that authorities will continue to work together to improve performance. Collaboration will remain vital, no matter how boundaries are drawn. Vulnerable people require public service partners to collaborate, integrate and work together to design and deliver services around the needs of individuals, families and communities. We know that collaboration makes a difference—the national procurement service being one example.

Let me talk about the timing. It is quite clear from the wording in the report that the report's recommendations will need to be taken forward swiftly. As far as my party is concerned, we will be consulting between now and the end of March. We will then arrive at a formal party position and we intend then to move forward based on that position. We need to get it right, of course. We have the powers to make the legislation needed to implement changes, but, inevitably, developing that legislation will take time.

Ni ellir ystyried canfyddiadau'r comisiwn ar wahân i'r sefyllfa ariannol ehangach. Rydym yn eglur nad yw hyn yn ymwneud â phunnoedd a cheiniogau yn unig. Mae'n ymwneud â gwell perfformiad, trefniadau llywodraethu gwell a darpariaeth leol gryfach, yn ogystal â gwneud defnydd gwell o adnoddau cyfyngedig. Mae effeithlonrwydd a gwerth am arian yn bwysig, ond nid dyma'r unig ffon fesur y byddwn yn ei defnyddio i fesur llwyddiant; mae angen inni feddwl hefyd am gost gwneud dim byd, gan y byddai peidio â gweithredu yn gostus iawn.

Gadewch i mi fod yn eglur: nid oedd yr adroddiad hwn erioed yn ymwneud ag uno awdurdodau lleol yn unig, er mai dyna, wrth gwrs, lle mae'r drafodaeth wedi canolbwyntio yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Rwy'n nodi'n eglur, ac mae'r comisiwn yn nodi'n eglur, nad yw ad-drefnu yn fwlled hud; ni allwn ad-drefnu neu uno yn unig ac yna eistedd yn ôl ac aros i bethau wella. Mae angen gwell trefniadau llywodraethu arnom, gwell arweiniad, gwaith craffu mwy effeithiol a pherthynas briodol rhwng y rhai sy'n darparu gwasanaeth a'r rhai sy'n dibynnu arno. Yn benodol, mae angen i ni weld craffu gwell ar uwch swyddogion mewn rhai awdurdodau.

Bydd llawer ohonom yn cofio'r ad-drefnu diwethaf. Mae'n anochel y bydd pobl yn cofio profiadau blaenorol, ond bydd yr hyn sy'n digwydd y tro hwn yn wahanol iawn. Mae'r comisiynydd yn argymhell uno awdurdodau sy'n bodoli eisoes, nid hollti awdurdodau nac, yn wir, ail-lunio ffiniau. Mae angen inni ystyried yn ofalus sut i gefnogi'r gweddnewidiad hwnnw, ond ni fyddwn yn aildefnyddio strwythurau a gynlluniwyd ar gyfer gwahanol amser a gwahanol dasg, oni bai eu bod yn ein helpu i gyflawni.

Byddwn yn gweithio ar ein hymateb i'r comisiwn yn y misoedd nesaf, ond nid yw'r gwaith arall yn dod i ben. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu diwygiadau i wella gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau datganoledig barhau i wella eu darpariaeth, ac yn disgwyl i awdurdodau barhau i weithio gyda'i gilydd i wella perfformiad. Bydd cydweithredu yn parhau i fod yn hanfodol, waeth sut y caiff ffiniau eu llunio. Mae pobl sy'n agored i niwed angen i bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus gydweithio, integreiddio a gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau ar sail anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Rydym yn gwybod bod cydweithredu'n gwneud gwahaniaeth—ac mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn un enghraifft.

Gadewch imi sôn am yr amseru. Mae'n eithaf clir o'r geiriad yn yr adroddiad y bydd angen bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad yn gyflym. O safbwynt fy mhlaid i, byddwn yn ymgynghori rhwng nawr a diwedd mis Mawrth. Yna byddwn yn penderfynu ar safbwynt ffurfiol y blaid ac rydym yn bwriadu symud ymlaen wedyn ar sail y safbwynt hwnnw. Mae angen inni gael pethau'n iawn, wrth gwrs. Mae'r pwerau gennym i lunio'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i wneud newidiadau, ond, yn anochel, bydd yn cymryd amser i ddatblygu'r ddeddfwriaeth honno.

16:27 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask the First Minister for clarity on the timetable. You talked about the consultation with your own party, and, of course, we are doing likewise. Does that mean that a Government position needs to wait for a Labour Party in Wales position?

Hoffwn ofyn i'r Prif Weinidog am eglurder o ran yr amserlen. Fe wnaethoch sôn am yr ymgynghoriad gyda'ch plaid eich hun, ac, wrth gwrs, rydym ni'n gwneud yr un fath. A yw hynny'n golygu bod yn rhaid i safbwynt y Llywodraeth aros am safbwynt y Blaid Lafur yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:27 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Like all parties, we will be consulting with our members. There will be a Government position by March. After that, we will look to move forward with legislation. I do not want to hang around on this issue, but, as I am sure Members will appreciate, there is a need to take soundings in terms of ensuring that party members are fully aware of what the proposals are. However, this is not a process that can take months. This is a process that needs to be done properly, of course, but it has to be done in a timely manner.

Fel pob plaid, byddwn yn ymgynghori gyda'n haelodau. Bydd gan y Llywodraeth safbwynt erbyn mis Mawrth. Ar ôl hynny, byddwn yn bwriadu symud ymlaen â deddfwriaeth. Nid wyf eisiau llaesu dwylo ar y mater hwn, ond rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi bod angen clywed barn pobl er mwyn sicrhau bod aelodau'r plaid yn gwbl ymwybodol o beth yw'r cynigion. Fodd bynnag, nid yw hon yn broses a all gymryd misoedd. Mae angen gwneud y broses hon yn iawn, wrth gwrs, ond mae'n rhaid ei chyflawni'n brydlon.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I invite other parties, of course, to put forward their views on this matter. I would like to work towards consensus, where it is achievable. It is preferable that these changes should go through on the basis of as much cross-party support as possible. That, of course, will need discussion between the parties, and there can be no timetable imposed on that. I think that it was misunderstood, at one point, that somehow the Williams commission was suggesting that we should be in a position to agree and legislate on everything by Easter. Clearly, that is not going to be the case. However, it does show, of course, that there is a need to move forward with change sooner rather than later.

Rwy'n gwahodd pleidiau eraill, wrth gwrs, i gynnig eu sylwadau ar y mater hwn. Hoffwn weithio tuag at gonsensus, lle mae modd gwneud hynny. Byddai'n well cyflawni'r newidiadau hyn ar sail cymaint o gefnogaeth drawsbleidiol â phosibl. Bydd hynny, wrth gwrs, yn golygu trafodaeth rhwng y pleidiau, ac ni ellir pennu amserlen ar gyfer hynny. Rwy'n credu y cafwyd camddealltwriaeth, ar un adeg, bod comisiwn Williams rhywsut yn awgrymu y dylem fod mewn sefyllfa i gytuno a deddfu ar bopeth erbyn y Pasg. Yn amlwg, nid felly y bydd hi. Fodd bynnag, mae'n dangos, wrth gwrs, bod angen symud ymlaen a newid cyn gynted â phosibl.

Turning to the amendments, we will support amendment 1. We want to put in place a time frame. That time frame in terms of the delivery of potential legislation will need to be in place by the end of March or beginning of April. That is something that will be done, hopefully, in consultation with other parties. In terms of amendment 2, we will support that. We will have to oppose amendment 3, because much has already been taken forward to integrate. Annex G of the full report, for example, from the commission presents a comprehensive analysis of health and social care integration, with a clear rationale for the commission's conclusions on this matter. So, the issue was fully considered, although, of course, the commission did not come to the conclusion that there should be a full process of integration of health and social care under the aegis of one body. In terms of amendment 4, we will support that. Inevitably, if there are to be fewer authorities, there will be fewer councillors. In time, consideration will have to be given to what the cap is in terms of the number of councillors per authority.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliant 1. Rydym yn awyddus i gyflwyno amserlen. Bydd angen sefydlu'r amserlen honno ar gyfer cyflwyno darpar ddeddfwriaeth erbyn diwedd mis Mawrth neu ddechrau mis Ebrill. Mae hynny'n rhywbeth a wneir mewn ymgynghoriad â phleidiau eraill gobeithio. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2. Bydd yn rhaid inni wrthwynebu gwelliant 3, gan fod llawer wedi ei wneud eisoes i integreiddio. Mae Atodiad E adroddiad llawn y comisiwn, er enghraifft, yn cyflwyno dadansoddiad cynhwysfawr o integreiddiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda rhesymeg eglur dros gasgliadau'r comisiwn ar y mater hwn. Ystyriwyd y mater yn llawn felly, er na ddaeth y comisiwn i'r casgliad, wrth gwrs, y dylid cael proses lawn o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol dan nawdd un corff. Byddwn yn cefnogi gwelliant 4. Yn anochel, os bydd llai o awdurdodau, bydd llai o gynghorwyr. Ymhen amser, bydd angen rhoi ystyriaeth i uchafswm nifer y cynghorwyr fesul awdurdod.

In terms of amendments 5 and 6, we cannot support these amendments. The commission's report is about delivering better service for the citizen, not electoral arrangements. Leaving aside the views of the different parties on the single transferrable vote, for example, this is not the right vehicle, I believe, for examining this issue, now and in the future. What is important is that we have a robust system of public service delivery in Wales, one that, at the end of the day, delivers consistent services for the citizen. That is the major issue identified in the commission's report, namely the inconsistency of what happens across Wales. More needs to be done to ensure that that inconsistency disappears. That means looking very carefully at the nature of local government organisation in Wales—that is true—looking at how public services can work together and making sure that we have a structure for the delivery of public services that will stand the test of time for many years to come.

O ran gwelliannau 5 a 6, ni allwn gefnogi'r gwelliannau hyn. Diben adroddiad y comisiwn yw darparu gwell gwasanaeth i'r dinesydd, nid trefniadau etholiadol. Gan roi safbwyntiau'r gwahanol bleidiau i'r naill ochr ynglŷn â'r bleidlais drosglwyddadwy sengl, er enghraifft, nid dyma'r cyfrwng cywir, yn fy marn i, i archwilio'r mater hwn, nawr ac yn y dyfodol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gennym system gadarn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, un sydd, yn y pen draw, yn darparu gwasanaethau cyson i'r dinesydd. Dyna'r prif fater a nodir yn adroddiad y comisiwn, sef anghysondeb yr hyn sy'n digwydd ledled Cymru. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod yr anghysondeb hwnnw'n diflannu. Mae hynny'n golygu edrych yn ofalus iawn ar natur trefniadaeth llywodraeth leol yng Nghymru—mae hynny'n wir—ystyried sut y gall gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd a gwneud yn siŵr bod gennym strwythur effeithiol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus am flynyddoedd lawer i ddod.

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

I have selected the six amendments to the motion and I call on Janet Finch-Saunders to move amendment 1, tabled in the name of William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu ar ddechrau'r cynnig ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert at start of motion and renumber accordingly:*

*1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi amserlen ar gyfer ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a*

*1. Calls upon the Welsh Government to indicate a timeframe to respond to the recommendations in the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery, and*

*2. Os bwriedir gweithredu'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiffinio'r canlynol:*

*2. If minded to implement the recommendations in the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery, calls on the Welsh Government to define:*

*a) swyddogaeth a strwythur unrhyw ardaloedd awdurdodau lleol newydd;*

*a) the function and structure of any new local authority areas;*

*b) system dryloyw ar gyfer monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth o wasanaethau yn yr ardaloedd hynny;*

*b) a transparent system of monitoring and evaluating service delivery in those areas;*

*c) y nifer o etholwyr a ragwelir ar gyfer pob cynghorydd yn yr ardaloedd hynny.*

*c) the anticipated number of electors per councillor in those areas.*

16:31

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move amendments 1, 2 and 3—[Interruption.] Sorry, amendments 1.1, 1.2(a), (b) and (c)—[Interruption.] Amendment 1—

Cynigiau welliannau 1, 2 a 3—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, gwelliannau 1.1, 1.2 (a), (b) ac (c)—[Torri ar draws.] Gwelliant 1—

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is amendment 1 and it has subsections in it.

Gwelliant 1 yw hwn, ac mae'n cynnwys isadrannau.

16:31

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Okay. I move amendment 1.

lawn. Cynigiau welliant 1.

Amendment 1 calls on the Welsh Government to indicate a time frame to respond to the recommendations in the report of the commission on public service governance and delivery. If you are minded to implement the recommendations, we call on you to define the function and structure of any new local authority areas, and a transparent system of monitoring and evaluating service delivery in those areas.

We support amendment 2, tabled by Elin Jones, and the report's findings of the need to reduce complexity in public services and that any changes to public service delivery should improve outcomes for our citizens.

However, First Minister, I am somewhat disappointed to learn today that, while this report was only out last week and we were calling for you to provide some very strong leadership on this, you are now saying that you expect all the mergers to be in place for Easter. However, until you have had those discussions—[Interruption.] You have said that all mergers were to be in place—[Interruption.]—or agreed by Easter. What you did not tell us last week was that this is all dependent on your own party discussions. However, in the media you have made great statements about how this very much needs cross-party support.

The Williams commission, although welcomed as a means to look strategically across all public service delivery, poses as many questions as it does recommendations. The lack of reference of a cost-benefit analysis within the original remit of the commission is somewhat baffling and raises further concern. Local authorities the length and breadth of Wales are looking to you, First Minister, to show strong leadership. The question remains as to how we got where we are, and where we are now in terms of empowering those charged with administering their duties in delivering essential and vital services in a transparent, accountable and democratic manner.

It is rather interesting, is it not, that 12 of the key recommendations focus on the need to up the game in terms of the current workings within our public service delivery? This begs the question as to whether there is strong leadership within the Welsh Government and whether it is fully accountable to the people of Wales.

You have often stated that local government is unsustainable. So, we ask this now: where is your clear direction of travel? Why do we have to wait until you have had those discussions within your own party? The people of Wales deserve better.

*Y Prif Weinidog a gododd—*

16:34

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Many within local authorities, including front-line workers, senior management—[Interruption.] I did not see you, First Minister.

Mae gwelliant 1 yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi amserlen i ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Os ydych chi'n bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith, rydym yn galw arnoch i ddiffinio swyddogaeth a strwythur unrhyw ardaloedd awdurdod lleol newydd, a sefydlu system dryloyw o fonitro a gwerthuso darpariaeth y gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny.

Rydym ni'n cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd gan Elin Jones, a chanfyddiadau'r adroddiad ynglŷn â'r angen i leihau cymhlethdod mewn gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn gwella canlyniadau i'n dinasyddion.

Fodd bynnag, Brif Weinidog, er mai dim ond yr wythnos diwethaf y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn a'n bod yn galw arnoch i ddarparu arweiniad cryf iawn yn hyn o beth, rwyf braidd yn siomedig o glywed heddiw eich bod bellach yn disgwyl i'r holl achosion o uno gael eu cyflawni erbyn y Pasg. Fodd bynnag, tan y byddwch chi wedi cael y trafodaethau hynny—[Torri ar draws.] Rydych chi wedi dweud y dylai'r holl achosion o uno fod wedi digwydd—[Torri ar draws.]—neu fod wedi eu cytuno erbyn y Pasg. Ni wnaethoch ddweud wrthym yr wythnos diwethaf, ar y llaw arall, bod hyn oll yn dibynnu ar drafodaethau eich plaid eich hun. Fodd bynnag, rydych chi wedi gwneud datganiadau mawr yn y cyfryngau ynglŷn â sut y mae wir angen cefnogaeth drawsbleidiol.

Er bod croeso i'r comisiwn Williams fel ffordd o edrych yn strategol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, mae'n nodi cymaint o gwestiynau ag o argymhellion. Mae'r diffyg cyfeiriad at ddadansoddiad cost a budd yng nghylch gorchwyl gwreiddiol y comisiwn yn drysu rhywun braidd ac yn codi pryder pellach. Mae awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru disgwyl i chi, Brif Weinidog, ddangos arweinyddiaeth gref. Erys y cwestiwn ynghylch sut rydym ni wedi cyrraedd y sefyllfa yr ydym ni ynnddi, a'n sefyllfa nawr o ran grymuso'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a hollbwysig mewn ffordd dryloyw, atebol a democrataidd.

Mae'n eithaf diddorol, onid yw, bod 12 o'r argymhellion allweddol yn canolbwyntio ar yr angen i wella'r ffordd y caiff ein gwasanaethau cyhoeddus eu darparu ar hyn o bryd? Mae hyn yn codi'r cwestiwn a oes arweinyddiaeth gref o fewn Llywodraeth Cymru ac a yw'n gwbl atebol i bobl Cymru.

Rydych chi wedi dweud yn aml bod llywodraeth leol yn anghynaladwy. Felly, rydym ni'n gofyn hyn nawr: ble mae eich cyfeiriad eglur? Pam mae'n rhaid i ni aros tan eich bod wedi cael y trafodaethau hynny o fewn eich plaid eich hun? Mae pobl Cymru yn haeddu gwell.

*The First Minister rose—*

Mae llawer o fewn awdurdodau lleol, gan gynnwys gweithwyr rheng flaen, uwch reolwyr— [Torri ar draws.] Ni welais i chi, Brif Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:34	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Are you giving way?</p>	<p>A ydych chi'n ildio?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes.</p>	<p>Ydw.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am very grateful that she raises the point about leadership. What is her party's view on that?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn ei bod yn codi'r pwynt am arweinyddiaeth. Beth yw barn ei phlaid hi am hynny?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>This is a report commissioned by you. The ball is very much firmly in your court, First Minister.</p> <p>Our front-line workers, senior management, executive and backbench members are now left in limbo, unable to plan on a short, medium or long-term basis. Many employees in local authorities have actually gone through a very painful and lengthy job evaluation process. Only yesterday, we highlighted the same concerns that the Wales Audit Office did about the lack of planning for the short term and mid term in financing in local authorities. We have witnessed many scandals across—. There have been spurious pension payments, behind-closed-doors increases and costly compromise agreements, not to mention the sad number of local authorities in special measures. It is four years until these mergers take place, but what mergers are these? All mergers are to be agreed in principle by Easter.</p> <p>First Minister, you need to come out now and state your clear way forward. Will your proposals to merge two or three authorities—. You know, we have so many issues that would address it. Software: across the piece now, there have been problems with data sharing and problems like that. You owe it now to your staff or senior officers, elected members, service providers and, most importantly, our service users and taxpayers to step up to the mark. The spotlight for public service delivery responsibility is now upon you. It is time to step forward, step out of the shadows and speak up.</p>	<p>Adroddiad a gomisiynwyd gennych chi yw hwn. Chi ddylai symud nesaf, Brif Weinidog.</p> <p>Mae ein gweithwyr rheng flaen, ein huwch reolwyr, aelodau'r weithrediaeth a'r meinciau cefn yn cael eu gadael yn nhir neb bellach, yn methu â chynllunio ar gyfer y tymor byr, tymor canolig na'r hirdymor. Mae llawer o weithwyr cyflogedig mewn awdurdodau lleol wedi bod trwy broses boenus a hirfaith o werthuso swyddi. Dim ond ddoe, tynnwyd sylw gennym ni a Swyddfa Archwilio Cymru at yr un pryderon am y diffyg cynllunio ar gyfer y bydymor a'r tymor canolig o ran ariannu mewn awdurdodau lleol. Rydym ni wedi gweld llawer o sgandalau ar draws—. Gwelwyd taliadau pensiwn annilys, cynyddu cyflogau yn y dirgel a chytundebau cyfaddawd costus, heb sôn am y nifer trist o awdurdodau lleol sy'n destun mesurau arbennig. Mae'n bedair blynedd tan yr achosion hyn o uno, ond pa awdurdodau fydd yn uno? Mae pob achos o uno i fod i gael ei gytuno mewn egwyddor erbyn y Pasg.</p> <p>Brif Weinidog, mae angen i chi sefyll ar eich traed nawr a nodi yn eglur beth fydd eich ffordd ymlaen. A fydd eich cynigion i uno dau neu dri awdurdod—. Mae gennym gynifer o faterion a fyddai'n mynd i'r afael ag ef. Meddalwedd: yn gyffredinol erbyn hyn, bu problemau gyda rhannu data a phroblemau fel hynny. Mae'n gyfrifoldeb arnoch nawr ar ran eich staff neu uwch swyddogion, aelodau etholedig, darparwyr gwasanaeth ac, yn bwysicaf oll, ein defnyddwyr gwasanaeth a'n trethdalwyr i gamu ymlaen. Mae'r sylw o ran cyfrifoldeb am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus arnoch chi bellach. Mae'n amser camu ymlaen, camu allan o'r cysgodion a mynegi eich barn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:36	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Galwaf ar Leanne Wood i gynnis gwelliannau 2, 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.</p> <p><i>Gwelliant 2—Elin Jones</i></p> <p><i>Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</i></p> <p><i>Yn croesawu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad y Comisiwn am yr angen i leihau cymhlethdod mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn cadarnhau y dylai unrhyw newidiadau o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus wella canlyniadau ar gyfer ein dinasyddion.</i></p> <p><i>Gwelliant 3—Elin Jones</i></p>	<p>I call on Leanne Wood to move amendments 2, 3, 4 and 5 tabled in the name of Elin Jones.</p> <p><i>Amendment 2—Elin Jones</i></p> <p><i>Add as new point at end of motion:</i></p> <p><i>Welcomes the evidence presented in the Commission report on the need to reduce complexity in public services and affirms that any changes to public service delivery should improve outcomes for our citizens.</i></p> <p><i>Amendment 3—Elin Jones</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi argymhelliad yr adroddiad i gychwyn y broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn gresynu na roddwyd ystyriaeth lawn i uno'r wasanaethau hyn.*

Gwelliant 4—Elin Jones

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn credu, os cytunir ar ostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol, yna y dylai gostyngiad ddiwydd hefyd yng nghyfanswm nifer y cynghorwyr.*

Gwelliant 5—Elin Jones

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi nad oedd diwygio'r drefn bleidleisio ar gyfer etholiadau cynghorau yn rhan o gylch gorchwyl Comisiwn Williams ond yn credu mai gweithredu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy fyddai'r dull mwyaf priodol o ethol nifer llai o gynghorwyr.*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the report's recommendation to begin the process of integrating health and social care, and regrets that the merger of these services was not considered fully.*

Amendment 4—Elin Jones

*Add as new point at end of motion:*

*Believes that if a reduction in the number of local authorities is agreed, then a reduction in the overall number of councillors should take place.*

Amendment 5—Elin Jones

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that voting reform for council elections was not part of the Williams Commission's remit but believes that the implementation of STV would be the most appropriate method of electing a reduced number of councillors.*

16:37

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones.

It was inevitable that the publication of this report would be met with a debate about lines on maps. However, this commission was tasked with examining public service delivery, and I welcome the work that the commission has done in this respect. I want to say from the outset that I am disappointed that the commission's terms of reference were constrained from the very beginning. The commission should have had greater freedom, particularly in the area of health. However, although the commission's hands were tied, the Government's hands are not, and the integration of health and social care remains a live issue.

Now, it could be argued that it is somewhat odd to hold a debate on this matter now. An alternative approach might have been to work with opposition leaders to see whether a joint motion could have been agreed, which would have sent a clear signal on the part of the Government. This was a Government commission, and we still await a full Government response. I, therefore, want to use my contribution to this debate to ask some questions that I would like the Government to address this afternoon.

Cynigiad welliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.

Roedd yn anochel y byddai cyhoeddi'r adroddiad hwn yn arwain at ddadl am linellau ar fapiau. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r comisiwn hwn archwilio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, ac rwy'n croesawu'r gwaith y mae'r comisiwn wedi ei wneud yn hyn o beth. Hoffwn ddweud o'r cychwyn fy mod yn siomedig bod cylch gorchwyl y comisiwn wedi ei gyfyngu o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r comisiwn fod wedi cael mwy o ryddid, yn enwedig ym maes iechyd. Fodd bynnag, er bod dwylo'r comisiwn wedi eu clymu, nid yw hynny'n wir am ddwylo'r Llywodraeth, ac mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn dal yn bwnc llosg.

Nawr, gellid dadlau ei bod braidd yn rhyfedd cynnal dadl ar y mater hwn nawr. Efallai y gellid bod wedi gweithio gydag arweinwyr y gwrthbleidiau i weld a ellid cytuno ar gynnis ar y cyd, a fyddai wedi anfon arwydd eglur ar ran y Llywodraeth. Comisiwn y Llywodraeth oedd hwn, ac rydym ni'n dal i ddisgwyl am ymateb llawn gan y Llywodraeth. Hoffwn ddefnyddio fy nghyfraniad at y ddadl hon felly i ofyn rhai cwestiynau yr hoffwn i'r Llywodraeth fynd i'r afael â nhw brynhawn heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First, what is the Welsh Government's preferred timetable, bearing in mind that the implementation of most of the Williams recommendations do not rely on the issue of local government mergers? I think that we all agree that one of the most startling findings of the report was the wide variation in service provision. One example is that of the difference between Conwy and Newport in times for transfers of patients. Was the Welsh Government aware of the scale of the variations or was this news to the First Minister? I was struck by the apparent poverty of aspiration that Williams describes. Being at the Welsh average appears to be the height of ambition for many leaders in the public sector. Is average acceptable to the Government? It should not be. It was noticeable that there was no mention of the word 'excellence' in the First Minister's opening remarks. Surely, we should be aiming for at least good, but preferably excellent, public services.

As for the Welsh Government's programme, Williams had this to say:

'The Welsh Government's Programme for Government... must constitute the apex of this framework. At present it does not do so well enough...it contains almost 250 indicators. While some of these are genuine outcome measures...many others are measures of output, process or input relating to local authorities, the NHS, other service-providers or the Welsh Government itself.'

Some might say that this sums up the Welsh Government in a nutshell. Is the First Minister prepared to look again at his programme for government, and will he agree to publish a new version that reflects the Williams commission's recommendations in this area?

Any reform must, at its heart, aim to improve services for the people of Wales. We need to be talking about what they are talking about, and people must be at the centre of this. The last round of local government reorganisation was built on wholesale horse-trading. This has been an unmitigated failure. It must not be repeated again this time. The Government must get this right.

Yn gyntaf, beth yw amserlen ddelfrydol Llywodraeth Cymru, gan gofio nad oes angen uno awdurdodau lleol er mwyn rhoi'r rhan fwyaf o argymhellion Williams ar waith? Credaf ein bod i gyd yn cytuno mai un o ganfyddiadau mwyaf syfrdanol yr adroddiad oedd yr amrywiaeth eang yn y gwasanaethau. Un enghraifft yw'r gwahaniaeth rhwng Conwy a Chasnewydd o ran amseroedd ar gyfer trosglwyddo cleifion. A oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faint yr amrywiadau neu a oedd hyn yn newyddion i'r Prif Weinidog? Cefais fy nharo gan y diffyg uchelgais ymddangosiadol y mae Williams yn ei ddisgrifio. Mae'n ymddangos mai uchelgais pennaf llawer o arweinwyr yn y sector cyhoeddus yw bod yr un fath â chyfartaledd Cymru. A yw cyfartalog yn dderbyniol gan y Llywodraeth? Ni ddylai fod. Roedd yn amlwg nad oedd unrhyw sôn am y gair 'rhagoriaeth' yn sylwadau agoriadol y Prif Weinidog. Oni ddylem fod yn anelu am wasanaethau cyhoeddus da o leiaf, neu'n well fyth rhai rhagorol?

O ran rhaglen Llywodraeth Cymru, dywedodd Williams hyn:

'Rhaid sicrhau mai Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ... sydd ar frig y fframwaith hwn. Ar hyn o bryd nid yw'n gwneud hynny'n ddigon da ... mae'n cynnwys bron 250 o ddangosyddion. Tra bod rhai o'r rhain yn fesurau canlyniadau gwirioneddol ... mae llawer o'r lleill yn fesurau o allbynnau, prosesau neu fewnbynnau sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol, y GIG, darparwyr gwasanaethau eraill neu Lywodraeth Cymru ei hun.'

Efallai y bydd rhai yn dweud bod hyn yn grynodeb perffaith o Lywodraeth Cymru. A yw'r Prif Weinidog yn barod i edrych eto ar ei raglen lywodraethu, ac a wnaiff gytuno i gyhoeddi fersiwn newydd sy'n adlewyrchu argymhellion comisiwn Williams yn y maes hwn?

Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau, yn eu hanfod, geisio gwella gwasanaethau i bobl Cymru. Mae angen inni fod yn siarad am yr hyn y maen nhw'n siarad amdano, a rhaid i bobl fod yn ganolog i hyn. Roedd y rownd ddiwethaf o ad-drefnu llywodraeth leol yn seiliedig ar fargeinio ar raddfa eang. Mae wedi bod yn fethiant llwyr. Ni ddylid ei ailadrodd eto y tro hwn. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud hyn yn iawn.

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad oedd diwygio'r drefn bleidleisio yn rhan o gylch gorchwyl Comisiwn Williams ac yn credu y dylai unrhyw ad-drefnu ar lywodraeth leol gynyddu atebolrwydd drwy gyflwyno Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy ar gyfer etholiadau cynghorau, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn Sunderland, ac fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

I call on Peter Black to move amendment 6 tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that voting reform was not part of the Williams Commission's remit and believes that any reorganisation of local government should increase accountability through the introduction of STV for council elections, as recommended by the Sunderland Commission, and as currently happens in Scotland and Northern Ireland.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move amendment 6 in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliant 6 yn enw Aled Roberts.

For me, the biggest surprise following the publication of the report was how quickly the First Minister and other Members of the Labour frontbench moved to try to get a cross-party consensus on this. What we have in front of us, in my view, is a Labour Government commission, and a Labour Government report that is owned exclusively by Labour Ministers. I am pleased that the First Minister made it clear today that that is the case, and if he needs to talk to other parties, there needs to be some concessions to our views about how this should be taken forward.

I mi, y syndod mwyaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad oedd pa mor gyflym y symudodd y Prif Weinidog ac Aelodau eraill mainc flaen y blaid Lafur i geisio cael consensws trawsbleidiol ar hyn. Yr hyn sydd gennym o'n blaenau, yn fy marn i, yw comisiwn Llywodraeth Lafur, ac adroddiad Llywodraeth Lafur sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Llafur. Rwy'n falch bod y Prif Weinidog wedi nodi'n eglur heddiw mai dyna'r sefyllfa, a bod angen rhai consesiynau i'n safbwyntiau ynglŷn â sut y dylid bwrw ymlaen â hyn, os bydd angen iddo siarad â phleidiau eraill.

I very much regret the implication that this report has to be accepted wholesale, and has to be swallowed by us as it is written. We need to have some discussions about what is being put in place in terms of boundaries, voting systems and a whole range of issues about how public services will be delivered if there is to be a cross-party consensus on this particular matter.

Rwy'n gresynu'n fawr iawn yr awgrym bod yn rhaid derbyn yr adroddiad hwn yn ei grynsyth, a bod yn rhaid i ni ei gymryd fel ag y mae. Mae angen inni gael rhywfaint o drafodaethau ar yr hyn sy'n cael ei roi ar waith o ran ffiniau, systemau pleidleisio ac amrywiaeth eang o faterion ynghylch sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu os ydym am gael consensws trawsbleidiol ar y mater penodol hwn.

There was no consultation on the terms of references commission, or on its membership. There was a crude attempt at cross-party representation without inviting the parties to nominate, which meant that not only was there no Liberal Democrat member, but there was no Liberal Democrat representation, or, indeed, that of Plaid Cymru or the Conservatives on this commission either.

Nid oedd unrhyw ymgynghoriad ar gylch gorchwyl y comisiwn, nac ar ei aelodaeth. Bu ymgais anffodhaol i sicrhau cynrychiolaeth drawsbleidiol heb wahodd y pleidiau i enwebu. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr un aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond nad oedd cynrychiolaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol, nac, yn wir, gan Blaid Cymru na'r Ceidwadwyr ychwaith, ar y comisiwn hwn.

In terms of the commission's report, as has been said, I think, by Leanne Wood, the terms of reference were flawed. It did not look at health; you cannot address public services in this country without addressing health. It did not look at the voting system. I know that the First Minister said that this is about delivery, but it seems to me that service delivery is also about public accountability. If you do not have accountable local government, you are not going to have efficient and effective delivery of services to local people. You will certainly not have service delivery in terms of what people want out of their local councils, and you will continue to have the democratic deficit that has existed in Wales for some considerable time.

O ran adroddiad y comisiwn, fel y dywedodd Leanne Wood, rwy'n credu, roedd y cylch gorchwyl yn ddiffygiol. Nid ystyriodd iechyd; ni allwch fynd i'r afael â gwasanaethau cyhoeddus yn y wlad hon heb fynd i'r afael ag iechyd. Nid ystyriodd y system bleidleisio. Gwn fod y Prif Weinidog wedi dweud bod hyn yn ymwneud â darparu, ond mae'n ymddangos i mi bod darparu gwasanaethau yn ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus hefyd. Os nad oes gennych lywodraeth leol atebol, ni fydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac effeithiol i bobl leol. Yn sicr, ni fydd gennych ddarpariaeth o wasanaethau sy'n cyfateb i'r hyn y mae pobl ei eisiau gan eu cynghorau lleol, a bydd y diffyg democrataidd, sydd wedi bodoli yng Nghymru ers cryn amser, yn parhau.

The report itself, in my view, is an over-long bureaucratic nightmare written in consultant speak. The reliance on current boundaries as building blocks is flawed and has no regard to natural communities. That is a problem that has to be addressed as part of talks about how we take this report forward. I think that the decision to leave national parks alone was a bizarre decision and one that should be addressed in terms of how we can make those national parks more accountable and effective.

Mae'r adroddiad ei hun, yn fy marn i, yn hunllef fiwrocraidd sy'n rhy hir ac wedi ei ysgrifennu yn iaith yr ymgynghorydd. Mae'r ddibyniaeth ar y ffiniau presennol fel blociau adeiladu yn ddiffygiol ac nid ydynt yn ystyried cymunedau naturiol. Mae hynny'n broblem y mae'n rhaid rhoi sylw iddi wrth drafod sut yr ydym yn bwrw ymlaen â'r adroddiad hwn. Rwyf yn meddwl bod y penderfyniad i adael llonydd i'r parciau cenedlaethol yn benderfyniad rhyfeddol ac yn un y dylid mynd i'r afael ag ef o ran sut y gallwn wneud y parciau cenedlaethol hynny'n fwy atebol ac effeithiol.

All of the indications are that if this report is carried out as it is currently written we will be creating huge Labour-dominated monoliths delivering services more remotely, and we will still be beset with the problems that we currently experience with collaboration and partnerships, particularly in terms of health. It seems to me that we cannot implement this report too quickly. We have to do this right and we have to make sure that this is implemented correctly. This is the third reorganisation of local government in 40 years. We cannot be here again—or our successors cannot be here again—in 20 years' time debating this again and talking about how local government boundaries were wrong the last time it was done. We need to make sure that this reorganisation is one that will last a considerable amount of time and one that will deliver better services across the whole range of public services, including health. That does not just involve coterminousness of boundaries; it involves a proper allocation of responsibilities to the relevant bodies, so that we make sure that we make the best use of the budgets that are available to those bodies and that they are delivering in the best possible way, without the sort of duplication that we are getting now, for local people.

Therefore, it seems to me that what we are faced with here today is, effectively, a *fait accompli*. I am not prepared to accept that *fait accompli* and the Liberal Democrats are not prepared to accept that *fait accompli* either. If the First Minister and the Labour Party, after it has been consulted and has discussed this within their ranks, are prepared to come to talk to us about what we really want out of this, we will talk to them. However, if you are not prepared to talk about the sorts of things that I discussed today, I think that this is going to stay your report and your implementation, and I am afraid that we are going to be back here in 20 years' time, doing this all over again.

16:45

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Although I see from the Plaid and Lib Dem amendments that they are using this debate as a vehicle for electoral tinkering that is the equivalent of watching paint dry, I do welcome this opportunity to contribute today, because whatever your take on the Williams commission and its recommendations, I think that we should all take heart from the fact that we are finally having a holistic debate about the future of public services in Wales. While I broadly accept the rationale that some kind of change is needed now, I cannot help but feel that we would have been much better off grasping this particular nettle much earlier in the lifetime of this Assembly. In places like Torfaen and in town halls and civic centres up and down the country, a radical reshaping of local services is already under way, like it or not, with councils making deeply painful decisions about services that people depend on because of the brutal cuts that we have been handed down from Westminster since 2010.

Mae popeth yn awgrymu y byddwn yn creu monolithau mawr wedi eu dominyddu gan y blaid Lafur, os gweithredir ar yr adroddiad hwn fel y mae wedi ei ysgrifennu ar hyn o bryd, a'r rheiny'n darparu gwasanaethau o fwy o bellter, ac y byddwn yn dal i wynebu'r holl broblemau sydd gennym ar hyn o bryd o ran cydweithredu a phartneriaethau, yn enwedig yng nghyswllt iechyd. Mae'n ymddangos i mi na allwn roi'r adroddiad hwn ar waith yn rhy gyflym. Mae'n rhaid inni wneud hyn yn iawn ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ei fod yn cael ei roi ar waith yn gywir. Dyma'r trydydd gwaith i lywodraeth leol gael ei ad-drefnu mewn 40 mlynedd. Ni allwn fod yn y sefyllfa hon unwaith eto—neu ni all ein holynwyr fod yn y sefyllfa hon unwaith eto—ymhen 20 mlynedd yn trafod hyn eto ac yn dweud sut roedd ffiniau llywodraeth leol yn anghywir y tro diwethaf. Mae angen inni wneud yn siŵr bod yr ad-drefnu hwn yn parhau gryn amser ac yn darparu gwasanaethau gwell ar draws pob math o wasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys iechyd. Nid yw hynny'n ymwneud yn unig â ffiniau sy'n cydreddeg; mae'n golygu neilltuo cyfrifoldebau'n briodol i'r cyrff perthnasol, fel ein bod yn gwneud yn siŵr y gwneir y defnydd gorau o'r cyllidebau sydd ar gael i'r cyrff hynny a'u bod yn darparu yn y ffordd orau bosibl, heb y dyblygu a welwn nawr, i bobl leol.

Felly, mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sydd gennym heddiw yw *fait accompli*, i bob pwrpas. Nid wyf yn barod i dderbyn y *fait accompli* hwnnw ac nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn barod i dderbyn y *fait accompli* hwnnw ychwaith. Os yw'r Prif Weinidog a'r Blaid Lafur, ar ôl ymgynghori ac ar ôl iddynt drafod hyn ymlith ei gilydd, yn barod i ddod i siarad â ni am yr hyn yr hoffem ei gyflawni mewn gwirionedd, byddwn yn siarad â nhw. Fodd bynnag, os nad ydych yn barod i siarad am y mathau o bethau a drafodais i heddiw, rwy'n meddwl bod hyn yn mynd i ohirio eich adroddiad a'ch proses weithredu, ac rwy'n ofni y byddwn yn ôl yma ymhen 20 mlynedd, yn gwneud hyn i gyd eto.

Rwy'n gweld o welliannau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol eu bod yn defnyddio'r ddadl hon fel cyfrwng ar gyfer chwarae â'r drefn etholiadol ac mae hynny'n debyg i wyllo paent yn sychu. Er hynny, rwy'n croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu heddiw, oherwydd fy mod yn credu y dylai pob un ohonom gael ein calonogi gan y ffaith ein bod o'r diwedd yn cael dadl gyfannol am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, beth bynnag yw eich barn am gomisiwn Williams a'i argymhellion. Er fy mod yn derbyn yn fras y rhesymeg bod angen rhyw fath o newid nawr, ni allaf ond teimlo y byddai wedi bod yn llawer gwell inni fynd i'r afael â'r mater anodd hwn yn llawer cynharach yn ystod oes y Cynulliad hwn. Pa un a ydych chi o blaid hynny ai peidio, mae gwasanaethau lleol eisoes wrthi'n cael eu had-drefnu mewn modd radical mewn mannau fel Torfaen ac mewn neuaddau trefi a chanolfannau dinesig ar hyd a lled y wlad, ac mae cynghorau'n gwneud penderfyniadau hynod boenus ynglŷn â'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt, oherwydd y toriadau creulon a drosglwyddwyd i lawr o San Steffan ers 2010.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, I do recognise those key challenges facing public services described in the report. Yes, public services are too complex and too fragmented. Yes, there are issues about scale, capacity and ability to deliver, and, yes, there is a clear need for better leadership, improved governance, scrutiny and accountability, as well as that less tangible but, nonetheless, critically important cultural shift that must take place in the years ahead. However, for me, the overriding question that remains unanswered is whether reducing the number of local authorities, particularly at this time, is the panacea for delivering that kind of change, especially when, on reading this report, it often feels like the commission started from the point of saying, 'We need to cut the number of councils' and then worked backwards, rather than keeping all options on the table and actually working out which model for our public services will most likely achieve our aims and ambitions for Wales in the future.

Take education, for example, which is surely the policy area where there is the most obvious gap between good policy here and its implementation out there on the ground. If the new systems already put in place to deliver improvement are the right ones—and I have no reason to doubt that they are—is there not an obvious danger that embarking on a long, complex and potentially very fraught process of local government reorganisation will derail that journey of improvement before the changes that we have put in place to try to fix the problems have even had a chance to bed in? Are we not also, at the same time as, quite rightly, bemoaning the current convoluted nature of public services, running the risk of adding to that complexity when we have a network of regional educational consortia operating within different geographical boundaries to those proposed for merged councils? Meanwhile, the fact that Ceredigion is currently our best performing local authority in terms of education and, yet, is also one of the smallest, should be enough in itself to strike a note of caution among those who dogmatically insist that bigger is, by default, always better.

For me, it is also really important, in light of the massive financial challenges that we face, that we listen carefully to the voices who have expressed concern over the likely cost of reorganisation, rather than simply shouting them down as harbingers of doom or roadblocks to change. At the end of the day, whether the true cost is £100 million, as Williams claims, or if the final figure is closer to the £200 million estimate that we have heard from the WLGA, we are talking about really significant amounts of money that we will not then be able to spend in other areas. While I recognise that, sometimes, you need to invest to save in the future, it is a pretty hard sell to the elderly person whose meals on wheels have been stopped, or to the community whose library has been closed, or to the residents who have had their street lights switched off. Indeed, I think that those people have every right to ask really searching questions against that kind of background.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod yr heriau allweddol hynny sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus ac a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Ydynt, mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhy gymhleth ac yn rhy dameidiog. Oes, mae problemau'n ymwneud â maint, capasiti a'r gallu i ddarparu, ac, oes, mae'n amlwg bod angen gwell arweinyddiaeth, gwell trefniadau llywodraethu a chraffu, a gwell atebolrwydd, yn ogystal â'r newid diwylliannol mwy haniaethol, ond, serch hynny, hanfodol bwysig, y mae'n rhaid iddo ddiwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, i mi, y cwestiwn pwysicaf sy'n parhau i fod heb ei ateb yw ai lleihau nifer yr awdurdodau lleol, yn enwedig ar hyn o bryd, yw'r ateb i bob problem o ran cyflawni'r math hwnnw o newid, yn enwedig a hithau'n aml yn teimlo, ar ôl darllen yr adroddiad hwn, fel pe bai'r comisiwn wedi dechrau trwy ddweud, 'Mae angen inni leihau nifer y cynghorau' ac yna gweithio yn ôl, yn hytrach na chadw'r holl opsiynau yn agored a phenderfynu pa fodel ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus sydd fwyaf tebygol o gyflawni ein hamcanion a'n huchelgeisiau ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

Cymerwch addysg, er enghraifft, sef y maes polisi lle ceir y bwlch mwyaf amlwg rhwng polisi da yma a'i weithrediad allan yna ar lawr gwlad, does bosibl. Os mai'r systemau newydd sydd eisoes ar waith i sicrhau gwelliant yw'r rhai cywir—ac nid oes gennyf reswm i amau hynny—onid oes perygl amlwg y bydd proses hir, gymhleth a gofidus o bosibl o ad-drefnu llywodraeth leol yn atal y daith honno tuag at welliant cyn bod y newidiadau yr ydym ni wedi eu rhoi ar waith i geisio datrys y problemau hyd yn oed wedi cael cyfle i ymwreiddio? Onid ydym ni hefyd yn cwyno am natur astrus bresennol y gwasanaethau cyhoeddus, a hynny'n gwbl briodol, ond ar yr un pryd mewn perygl o ychwanegu at y cymhlethdod hwnnw pan fo gennym rwydwaith o gonsortia addysg rhanbarthol yn gweithredu o fewn gwahanol ffiniau daearyddol i'r rhai a gynigir ar ôl uno'r cynghorau? Yn y cyfamser, dylai'r ffaith mai Ceredigion yw'r awdurdod lleol sy'n gwneud orau o ran addysg ar hyn o bryd, er ei fod hefyd yn un o'r rhai lleiaf, fod yn ddigon ynddo'i hun i daro nodyn o rybudd ymhlith y rhai sy'n mynnu'n ddogmatig bod mwy, yn awtomatig, bob amser yn well.

I mi, mae hefyd yn bwysig iawn, o ystyried yr heriau ariannol enfawr sy'n ein hwynebu, ein bod yn gwrando'n ofalus ar y lleisiau sydd wedi mynegi pryder ynghylch cost debygol yr ad-drefnu, yn hytrach na'u diystyru fel cenhadon gwae neu rwystrau i newid. Yn y pen draw, pa un a yw'r gost wirioneddol yn £100 miliwn, fel y mae Williams yn ei honni, neu os yw'r ffigur terfynol yn agosach at yr amcangyfrif o £200 miliwn yr ydym wedi ei glywed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym ni'n sôn am symiau sylweddol iawn o arian na fyddwn yn gallu ei wario mewn meysydd eraill wedyn. Er fy mod yn cydnabod bod angen buddsoddi, weithiau, er mwyn arbed yn y dyfodol, mae'n beth anodd iawn i'w esbonio i'r unigolyn hyn y daethpwyd â'i bryd ar glud i ben, neu i'r gymuned y caewyd ei llyfrgell, neu i'r trigolion y diffoddwyd eu goleuadau stryd. Yn wir, rwy'n meddwl bod gan y bobl hynny bob hawl i ofyn cwestiynau treiddgar iawn o ystyried y math hwnnw o gefndir.

While I accept the change is probably inevitable, and that there is a political momentum building that is becoming unstoppable, above all, today, I would like to reiterate my view that, having spent 15 years talking about anything but local government reorganisation in this Assembly, we now seem intent on rushing headlong into this process in a bid to meet an arbitrary Easter deadline for which there appears to be no rational explanation. Surely, if we have learned anything in this decade and a half of devolution, it is that we are better off taking our time and getting things right the first time, rather than making bad decisions on the hoof or for the sake of political convenience—decisions that we are forced to unpick later because things have gone badly wrong.

Rwy'n derbyn bod newid yn anochel yn ôl pob tebyg, a bod momentwm gwleidyddol yn datblygu y bydd yn amhosibl ei atal. Er hynny, yn anad dim, heddiw, hoffwn ailadrodd fy marn ein bod yn ôl pob golwg yn benderfynol o rithro i mewn i'r broses hon cyn gynted â phosibl, ar ôl treulio 15 mlynedd yn siarad am unrhyw beth ond ad-drefnu llywodraeth leol yn y Cynulliad hwn, mewn ymgais i fodloni dyddiad cau mympwyol y Pasg nad yw'n ymddangos bod unrhyw esboniad rhesymegol drosto. Does bosibl, os ydym ni wedi dysgu unrhyw beth yn y degawd a hanner hwn o ddatganoli, ein bod wedi dysgu y byddai'n well i ni gymryd ein hamser a chael pethau'n iawn y tro cyntaf, yn hytrach na gwneud penderfyniadau gwael ar frys neu er hwylustod gwleidyddol—penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu dadwneud yn ddiweddarach oherwydd bod pethau wedi mynd yn ddifrifol o chwith.

16:50

## **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would just like to make a short contribution on recommendation 178, which is the proposed merger of Powys County Council with Powys Teaching Local Health Board. I am not entirely against this proposal, but there are a number of significant barriers that I believe will make this proposal difficult to achieve. As the report rightly points out, Powys is among the most sparsely populated areas of the UK and, therefore, represents distinctive and unique challenges to public service delivery. There is a different model for delivering health services in the county. Those in the west rely very heavily on health services provided by Hywel Dda LHB and those in the east rely heavily on the services provided by two NHS trusts. Unless we have our own district general hospital, that is not going to change.

There are also other critical partnerships that emerge. For example, in the commissioning process for mental health services, the health board relies on Betsi for that provision, as I mentioned in questions earlier. In terms of education, Simon Thomas rightly pointed out last week that the local authority entered into a partnership last year with Ceredigion, which is already yielding positive benefits and improved performance levels across the county. Therefore, it is safe to say that, because of its unique position, Powys has had to work regionally and beyond organisational boundaries and borders to achieve service delivery objectives. That is something that public service providers in Powys are used to.

Hoffwn wneud cyfraniad byr yn unig ar argymhelliad 178, sef y cynnig i uno Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys. Nid wyf yn gwrthwynebu'r cynnig hwn yn llwyr, ond ceir nifer o rwystrau sylweddol a fydd, yn fy marn i, yn gwneud y cynnig hwn yn anodd ei gyflawni. Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi'n gywir, mae Powys ymhlith yr ardaloedd â'r poblogaethau mwyaf gwasgaredig yn y DU ac, felly, mae'n wynebu heriau arbennig ac unigryw o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ceir gwahanol fodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yn y sir. Mae'r rhai yn y gorllewin yn dibynnu'n fawr iawn ar wasanaethau iechyd a ddarperir gan BILI Hywel Dda ac mae'r rhai yn y dwyrain yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaethau a ddarperir gan ddwy ymddiriedolaeth GIG. Nid yw hynny'n mynd i newid oni bai fod gennym ein hysbyty cyffredinol dosbarth ein hun.

Ceir partneriaethau allweddol eraill sy'n dod i'r amlwg hefyd. Er enghraifft, yn y broses gomisiynu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, mae'r bwrdd iechyd yn dibynnu ar Betsi am y ddarpariaeth honno, fel y soniais yn y cwestiynau yn gynharach. O ran addysg, nododd Simon Thomas yn gywir yr wythnos diwethaf fod yr awdurdod lleol wedi sefydlu partneriaeth gyda Cheredigion y llynedd, a honno eisoes yn cyflawni manteision cadarnhaol a lefelau perfformiad gwell ar draws y sir. Felly, mae'n ddiogel dweud bod Powys, oherwydd ei leoliad unigryw, wedi gorfod gweithio'n rhanbarthol a'r tu hwnt i ffiniau sefydliadol a daearyddol er mwyn cyflawni amcanion o ran darparu gwasanaethau. Mae hynny'n rhywbeth y mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ym Mhowys wedi arfer ag ef.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Are those collaborations perfect? Not by any means. However, as to whether further improvements are going to be forthcoming via a merger, I am not so sure. As I stated in questions to the Minister just last week, the merger idea has been examined as recently as 2010. A report that was produced and published by KPMG placed three options on the table: first, a full merger; secondly, two organisations remain, but with shared structures and functions; and thirdly, two organisations remain, with continued joint working. I know that, at the time, there was huge appetite among staff in all disciplines and across both organisations for more integrated working. There was also a realisation that many of the benefits, like aggregated cost savings and closer working between health and social care, could all be achieved through an integration process that did not involve a full merger. The rationale behind that thinking was due to several fundamental weaknesses that were identified at the same time. These were that primary legislation was required for this to happen; that there was no clear solution to reconcile the financial positions of both organisations, and in particular the issue of historical debt; that there was no redundancy policy within the Welsh NHS; that there was a governance gulf between the two organisations; that there was a significant lack of capacity between the two organisations to achieve a merger, which is particularly relevant; and that there was public concern about the democratic accountability. Williams states in his report that he feels that all of these challenges can be overcome, but I am not so sure. Yes, legislative barriers can be overcome with the full law-making powers now resting in this place. However, there are other challenges, particularly the historical debt, that have worsened since 2010.

Therefore, in his response, I would like the First Minister, if possible, to address three particular points that I will end on. First, when the merger plans were shelved, both bodies resolved to work in principle towards a merger, subject to a strong business plan and positive feedback. Has that process continued in the background? What efforts have been made by senior staff and Welsh Government to resolve the barriers identified in the original report, and what difficulties still exist? Secondly, what measures were pursued to deal with the LHB's deficit and the issues surrounding governance that were identified in the original report? Thirdly, and this is a point that goes across the recommendations, what happens to the wider funding formula for local government? Is the Welsh Government going to recognise and address the current underfunding of Powys before such a merger goes ahead? If so, what would that funding model look like?

16:55

## Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

Despite the size and range of the report, I suppose it is inevitable that attention so far has focused essentially on pages 92 to 102 and annex H—not in this Chamber, I mean, but outside the Chamber, where people have been discussing the different proposals for the merging of local authorities and different configurations of boundaries. I want to make a few brief comments today about where I think the report has got a number of things right, and there are a couple of areas where I think that there are issues that need to be more broadly explored, as the Government considers its own approach to these issues.

A yw'r trefniadau cydweithredu hynny'n berffaith? Dim o bell ffordd. Fodd bynnag, nid wyf mor siŵr a fydd gwelliannau pellach yn dod yn sgil uno. Fel y dywedais yn y cwestiynau i'r Gweinidog yr wythnos diwethaf, archwiliwyd y syniad o uno mor ddiweddar â 2010. Paratowyd a chyhoeddwyd adroddiad gan KPMG, gan gyflwyno tri opsiwn: yn gyntaf, uno llawn; yn ail, cadw dau sefydliad, ond gan rannu strwythurau a swyddogaethau; ac yn drydydd, cadw dau sefydliad, gan barhau i weithio ar y cyd. Gwn, ar y pryd, fod awydd enfawr ymhlith aelodau staff ym mhob disgyblaeth ac ar draws y ddau sefydliad i weithio mewn ffordd fwy integredig. Sylweddolwyd hefyd y gellid sicrhau llawer o'r manteision, fel arbed costau agrededig a gweithio agosach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, trwy broses integreiddio nad oedd yn golygu uno llawn. Roedd y rhesymeg y tu ôl i'r syniad hwnnw yn deillio o nifer o wendidau sylfaenol a nodwyd ar yr un pryd. Y rhain oedd bod angen deddfwriaeth sylfaenol i hyn ddigwydd; nad oedd unrhyw ateb eglur i gysoni sefyllfaoedd ariannol y ddau sefydliad, ac yn benodol y ddyled hanesyddol; nad oedd polisi ar ddileu swyddi o fewn y GIG yng Nghymru; bod bwlbwch llywodraethu rhwng y ddau sefydliad; bod diffyg gallu arwyddocaol rhwng y ddau sefydliad i uno, sy'n arbennig o berthnasol; a bod pryder cyhoeddus ynglŷn â'r atebolrwydd democrataidd. Mae Williams yn nodi yn ei adroddiad ei fod yn teimlo y gellid goresgyn pob un o'r heriau hyn, ond nid wyf i mor siŵr. Oes, mae modd goresgyn rhwystrau deddfwriaethol oherwydd y pwerau deddfu llawn sydd a'r gael i'r lle hwn bellach. Fodd bynnag, ceir heriau eraill, yn enwedig y ddyled hanesyddol, sydd wedi gwaethygu ers 2010.

Felly, yn ei ymateb, hoffwn i'r Prif Weinidog, os oes modd, fynd i'r afael â thri phwynt penodol y byddaf yn cloi â nhw. Yn gyntaf, pan roddwyd y cynlluniau i uno o'r neilltu, penderfynodd y ddau gorff weithio tuag at uno mewn egwyddor, yn amodol ar gynllun busnes cryf ac adborth cadarnhaol. A yw'r broses honno wedi parhau yn y cefndir? Pa ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud gan aelodau staff uwch a Llywodraeth Cymru i oresgyn y rhwystrau a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol, a pha anawsterau sy'n dal i fodoli? Yn ail, pa gamau a gymerwyd i ymdrin â diffyg y BILL a'r problemau'n ymwneud â llywodraethu a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol? Yn drydydd, ac mae hwn yn bwynt sy'n mynd ar draws yr argymhellion, beth sy'n digwydd i'r fformiwla ariannu ehangach ar gyfer llywodraeth leol? A yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gydnabod y ffaith bod Powys yn cael ei danariannu ar hyn o bryd, a mynd i'r afael â hynny, cyn i uno o'r fath fynd rhagddo? Os felly, sut fath o fodel ariannu fyddai hwnnw?

Er gwaethaf maint ac ystod yr adroddiad, mae'n anochel mae'n debyg bod y sylw hyd yn hyn wedi canolbwyntio i bob pwrpas ar dudalennau 92 i 102 ac atodiad F—nid yn Siambr hon, hynny yw, ond y tu allan i'r Siambr, lle mae pobl wedi bod yn trafod y gwahanol gynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol a gwahanol opsiynau ar gyfer y ffiniau. Hoffwn wneud rhai sylwadau cryno heddiw ynglŷn â lle mae'r adroddiad, yn fy marn i, wedi cael nifer o bethau'n iawn. Ceir un neu ddau o feysydd hefyd lle y mae angen archwilio rhai materion yn ehangach, yn fy marn i, wrth i'r Llywodraeth ystyried ei hagwedd ei hun at y materion hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Broadly, I am sympathetic to what the commission report says around issues of governance, leadership and culture in the delivery of public services. I think that it has rightly analysed the failures of collaboration in public services, which have been explored recently by the Communities, Equalities and Local Government Committee as well. It makes very tellingly the point about the link between scale and performance, particularly in education. The Estyn evidence that it quotes is very clear and very firm. The commission also rightly addresses the big challenges facing local government at the present time—challenges of demography and an ageing population, challenges of austerity and the impact on public finances, and the challenge of rising expectations from the public regarding the quality of services that they want to see.

I very much agree with the need for a smaller number of stronger councils. Let no-one be in any doubt about that. Where I think the commission's report is somewhat weaker is in the area of democracy. It does not give us an analysis of the appropriate role of local government or the appropriate relationship between local and central government. These are real issues, and they are confronted in every party all the time as to where those boundaries should lie and how delivery at a local level is held to account by central government, which is setting objectives. The issue of the functions of local government is also an area that is not addressed effectively within the Williams commission report. Answering these issues will be critical to building a consensus for reform across Wales. I am certain that if you talk to the public, they are not wedded to existing local authority boundaries: they can see the case for change and they are impatient for change. We need to answer some of those questions if we are going to take forward a consensus across Wales.

It is not a good time to be a councillor in any political party—either in Wales, England or anywhere else—at the present time. We know that councillors are having to deliver probably some of the most devastating cuts that they have ever had to do. They are not the reasons why anyone went into local politics, regardless of whether they are in a political party or independent. One of the questions that we have to answer is why go into local government. What is the role of local government? If you are going to develop a reform programme for reorganisation, you have to have a clear vision for local government going forward. I also think that it is right to say that we do not want, in the context of debate over local government reorganisation, to see those initiatives that have been already been taken to drive up performance—for example, the field of education and some of the recommendations being implemented now in the wake of the Hill review—being undermined by stasis within local government as people obsess about their future rather than about the very necessary changes that they have to deliver in improving performance in delivery.

Yn gyffredinol, rwy'n cydymdeimlo â'r hyn y mae adroddiad y comisiwn yn ei ddweud ynghylch materion llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n meddwl ei fod wedi dadansoddi'n gywir y methiannau o safbwynt cydweithrediad mewn gwasanaethau cyhoeddus—methiannau a archwiliwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol hefyd yn ddiweddar. Mae'n gwneud y pwynt yn drawiadol iawn am y cysylltiad rhwng maint a pherfformiad, yn enwedig mewn addysg. Mae'r dystiolaeth a ddyfynnir gan Estyn yn eglur iawn ac yn gadarn iawn. Mae'r comisiwn hefyd yn mynd i'r afael yn briodol â'r heriau mawr sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd—heriau demograffeg a phoblogaeth sy'n heneiddio, heriau polisiâu darbodus a'r effaith ar gyllid cyhoeddus, a her disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd ynghylch ansawdd y gwasanaethau y maent eisiau eu gweld.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r angen am lai o gynghorau cryfach. Peidied neb ag amau hynny o gwbl. Rwy'n credu bod adroddiad y comisiwn rhywfaint yn wannach ym maes democratiaeth. Nid yw'n rhoi dadansoddiad inni o swyddogaeth briodol llywodraeth leol na'r berthynas briodol rhwng llywodraeth leol a chanolog. Mae'r rhain yn faterion go iawn, ac fe'u hwynebir ym mhob plaid drwy'r amser o ran ble y dylai'r ffiniau hynny fod a sut y gall llywodraeth ganolog, sy'n pennu'r amcanion, ddwyn y ddarpariaeth ar lefel leol i gyfrif. Nid yw adroddiad comisiwn Williams yn mynd i'r afael yn effeithiol ychwaith â swyddogaethau llywodraeth leol. Bydd yn hollbwysig ateb y materion hyn er mwyn datblygu consensws ar gyfer y diwygiadau ledled Cymru. Os siaradwch chi â'r cyhoedd, rwy'n sicr nad ydynt yn gaeth i ffiniau presennol awdurdodau lleol: gallant weld yr achos o blaid newid ac maent yn awyddus i weld newid. Mae angen inni ateb rhai o'r cwestiynau hynny er mwyn gallu datblygu consensws ledled Cymru.

Nid yw'n amser da i fod yn gynghorydd mewn unrhyw blaid wleidyddol—yng Nghymru, yn Lloegr nac yn unrhyw le arall—ar hyn o bryd. Rydym yn gwybod bod cynghorwyr yn gorfod cyflwyno rhai o'r toriadau mwyaf dinistriol y bu'n rhaid iddynt eu gwneud erioed, yn ôl pob tebyg. Nid dyna'r rhesymau pam yr aeth unrhyw un i faes gwleidyddiaeth leol, waeth a ydynt mewn plaid wleidyddol neu'n annibynnol. Un o'r cwestiynau y mae'n rhaid inni ei ateb yw pam mynd i faes llywodraeth leol. Beth yw swyddogaeth llywodraeth leol? Os ydych chi'n mynd i ddatblygu rhaglen ddiwygio ar gyfer ad-drefnu, mae'n rhaid i chi gael gweledigaeth eglur ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn iawn dweud nad ydym, yng nghyd-destun y ddatl ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol, eisiau gweld y mentrau hynny a fabwysiadwyd eisoes i wella perfformiad—er enghraifft, ym maes addysg a rhai o'r argymhellion sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd yn sgil adolygiad Hill—yn cael eu tansilio gan syrthni o fewn llywodraeth leol wrth i bobl fagu obsesiwn am eu dyfodol yn hytrach na meddwl am y newidiadau angenrheidiol iawn y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni er mwyn gwella perfformiad.

I also think that we will need to look at the future of service delivery. Some services are going to have to be delivered in different ways. There is a jargon term 'co-production', which I really do not like. I prefer an older political language of popular control and democratic participation. However, the reality is that we are seeing people looking at new ways of delivering nursery provision and library provision in communities and new ways of delivering leisure provision. The likelihood is that we will need more of that in the future. We need that understanding that new ways of doing things will matter.

So, I want to see change and I want to see a smaller number of stronger councils, but I also want to see the building of a consensus across Wales to deliver that.

17:00

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Mae'n rhaid imi ddweud bod datganiad y Prif Weinidog y prynhawn yma yn ymddangos yn gwbl wrthgyferbyniol i'r hyn y mae wedi bod yn ei ddweud hyd yn hyn, sef bod rhaid ymateb yn bendant i adroddiad comisiwn Williams. Mae'n dweud wrthym y prynhawn yma nad yw mewn sefyllfa i ddweud beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru hyd nes bod ymgynghoriad wedi'i gynnal o fewn y Blaid Lafur yng Nghymru. O wrando ar gyfraniad Lynne Neagle, Brif Weinidog, mae gennych job o waith i'w gwneud i argyhoeddi eich plaid eich hun ar y mater hwn. Ni fydd gan Lywodraeth Cymru safbwynt hyd nes bod yr ymgynghoriad hwnnw wedi digwydd o fewn y Blaid Lafur.

Mae hyn yn fy atgoffa o'r cyfnod cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cawsom broses ddigon tebyg o drafodaeth fewnl yn y Blaid Lafur a chreu setliad cyfansoddiadol ar sail yr hyn a oedd yn dderbyniol i'r Blaid Lafur, ar sail yr hyn y gellid ei wthio trwy'r Blaid Lafur ac Aelodau Seneddol o Gymru. Rydym i gyd yn gwybod bod y setliad cyfansoddiadol hwnnw yn gwbl ddiffygiol. Rydym wedi treulio degawd a mwy yn ceisio creu sefyllfa gyfansoddiadol yng Nghymru lle mae modd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru weithredu yn effeithiol ar ran pobl Cymru. Os mai dyna'r sefyllfa y byddwn yn ei chael oddi wrth y Llywodraeth Lafur hon mewn ymateb i gomisiwn Williams, nid oes gobaith gennym i fynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau sylfaenol y mae Williams yn eu codi.

Y ffaith amdani yw bod yr ad-drefnu diwethaf mewn llywodraeth leol wedi digwydd cyn datganoli. Erbyn hyn mae gennym Gynulliad Cenedlaethol ac mae gennym Lywodraeth Cymru. Felly, mae rhai gwasanaethau y gellir eu darparu a'u cyflenwi yn genedlaethol ac mae rhai gwasanaethau y gellir eu darparu yn rhanbarthol. Dysgwyd y wers honno gyda'r byrddau iechyd—yr un math o Lywodraeth Lafur yn y lle cyntaf yn sefydlu 22 o fyrddau iechyd cyn sylweddoli eu bod yn rhy fach i gomisiynu ac i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Felly, lleihawyd nifer y byrddau iechyd. Mae rhai gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn rhanbarthol, ac mae rhai gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn lleol. Y cwestiwn sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, a'r cwestiwn y mae'n amlwg nad yw'n barod i'w wynebu ar hyn o bryd, yw: sut y gellir darparu'r gwasanaethau hynny yn fwy effeithiol?

Rwyf hefyd yn meddwl y bydd angen inni edrych ar ddyfodol darpariaeth gwasanaethau. Bydd yn rhaid darparu rhai gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd. Ceir term jargon 'cyd-gynhyrchu', nad wyf yn ei hoffi o gwbl. Mae'n well gennyf i iaith wleidyddol hyn rheolaeth boblogaidd a chyfranogiad democrataidd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ein bod yn gweld pobl yn ystyried ffyrdd newydd o gynnal darpariaeth feithrin a darpariaeth llyfrgelloedd mewn cymunedau a ffyrdd newydd o gynnal darpariaeth hamdden. Mae'n debygol y bydd angen mwy o hynny arnom yn y dyfodol. Mae angen y ddealltwriaeth honno arnom y bydd ffyrdd newydd o wneud pethau yn bwysig.

Felly, rwyf eisiau gweld newid ac rwyf eisiau gweld nifer lai o gynghorau cryfach, ond rwyf hefyd eisiau gweld consensws yn cael ei ddatblygu ledled Cymru i gyflawni hynny.

I must say that the First Minister's statement this afternoon seems completely contradictory to what he has been saying thus far, which is that we have to respond clearly to the Williams commission report. He is telling us this afternoon that he is not in a position to give us the Welsh Government's standpoint until there has been a consultation within the Labour Party in Wales. Having listened to Lynne Neagle's contribution, First Minister, you have a job of work to do to persuade your own party on this matter. The Welsh Government will not have a standpoint on this until there has been that consultation within the Labour Party.

This reminds me of the period before the establishment of the National Assembly for Wales. We had a similar process of internal discussion within the Labour Party and created a constitutional settlement on the basis of what was acceptable to the Labour Party, on the basis of what could be pushed through the Labour Party and Welsh MPs. We all know that that constitutional settlement was completely deficient. We have spent 10 years and more trying to create a constitutional position in Wales under which the National Assembly for Wales and the Welsh Government can work effectively for the people of Wales. If that is what we will get from this Labour Government in response to the Williams commission, we have no hope of being able to tackle these fundamental questions that Williams raises.

The fact of the matter is that the last local government reorganisation happened before devolution. We now have a National Assembly and we have a Welsh Government. Therefore, there are some services that can be provided and delivered nationally and there are some services that can be delivered regionally. We learned that lesson with the health boards—a similar Labour Government first of all established 22 health boards before realising that they were too small to commission and deliver effectively. Therefore, the number was reduced. There are services that will be delivered regionally, and there are services that will be delivered locally. The question for the Welsh Government, which it is obviously not ready to answer yet, is: how can those services be delivered more effectively?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae adroddiad Williams yn ddigon clir na ellir gwneud hynny gyda 22 o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Beth sydd gennym yng Nghymru yw patrwm lle mae bron pob awdurdod yn gwneud rhywbeth yn dda, ond maent hefyd yn darparu yn wael ar lefelau eraill, a hynny oherwydd nad yw'r arbenigedd ganddynt ym mhob maes i ddarparu eu gwasanaethau yn effeithiol.

Byddai'n gamgymeriad hefyd i gredu bod adroddiad Williams yn bodoli mewn rhyw wagle, a bod rhaid edrych ar y dystiolaeth i Williams yn unig. Y bore yma, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad cynhwysfawr yn sôn am yr angen i awdurdodau lleol ymateb i'r heriau ariannol sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Huw Vaughan Thomas, yn dweud bod pethau da yn digwydd ond ei fod yn gweld yn glir iawn bod yr awdurdodau hyn dan bwysau enfawr. Mae'n dweud bod y craciau'n ymddangos yn barod. Mae tystiolaeth yn y fan honno hefyd bod rhaid cael newid.

Yr hyn sydd ei angen ar hyn o bryd yw arweiniad clir a chadarn gan Lywodraeth Cymru. Chi gomisiynodd yr adroddiad hwn, Prif Weinidog, gan roi amodau ar yr hyn roedd y comisiwn yn gallu edrych arno. Yn awr, rydych yn troi atom y prynhawn hwn ac yn dweud na allwch ddweud beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru hyd nes eich bod wedi cael ymgynghoriad o fewn y Blaid Lafur. Nid yw hynny'n ddigon da oddi wrth y Llywodraeth hon, nac oddi wrthoch chi fel Prif Weinidog. Sut rydych yn disgwyl cynnal trafodaethau gyda phleidiau eraill pan nad ydych yn barod i ddweud wrthym beth yw eich safbwynt chi? Hyd nes eich bod yn dweud beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru, nid oes pwrpas inni gael trafodaethau, oherwydd nid ydym yn ymateb i unrhyw beth.

The Williams report is clear that that cannot be done with 22 local authorities providing services in different ways. What we have in Wales is a pattern of nearly every authority doing something well, but also doing not so well in other areas, as a result of not having the expertise to deliver services effectively in every area.

It would be a mistake as well to believe that the Williams report exists in some sort of vacuum, and that we can only look at evidence presented to Williams. This morning, the Wales Audit Office published a comprehensive report talking about the need for local authorities to respond to the financial challenges that they currently face. The Auditor General for Wales, Huw Vaughan Thomas, is telling us that good things are happening but that he very clearly sees that these authorities are under immense pressure. He says that the cracks are starting to appear. There is evidence there too that change is required.

What is needed now is clear and strong leadership from the Welsh Government. You commissioned this report, First Minister, setting out conditions on what the commission could look at. Now, you are turning to us this afternoon and saying that you cannot give us the Welsh Government's view on this until you have had a consultation within the Labour Party. That is not good enough from this Government, and is not good enough from you as First Minister. How do you expect to hold discussions with other parties when you are not prepared to give us your view? Until you tell us what the Welsh Government's view is, there is no point in us having discussions, because we are not responding to anything.

17:05

## Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Like the Member for Rhondda, I very much support the view that we need a smaller number of councils but that we need strong councils. However, I think that that then also raises the question that we need clarity in terms of the role of the Assembly in setting the policy framework and then the role of the new councils. So, we have to be clear about what precisely we want them to do. I think that we also have to take on board, and look at, the whole issue of the proper decentralisation of power to those new councils, with, perhaps, less micromanagement of activities that take place within them.

I have a certain amount of caution over the issue of the boundaries, because I think that there are opportunities that arise out of this report and out of reorganisation: for example, particularly affecting my constituency, whether there is a logic to putting together two of the poorest authorities in one area and conjoining them, as opposed to looking at the potential for broadening out the socio-economic basis of local authorities. It may be that it is not practical to do so, or there may be problems in doing it, but I think that it is something that we have to consider as part of the debate.

Fel yr Aelod dros y Rhondda, rwy'n cefnogi'n llwyr y farn bod angen llai o gynghorau arnom ond bod angen cynghorau cryf. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod hynny hefyd wedyn yn codi'r cwestiwn bod arnom angen i swyddogaeth y Cynulliad fod yn eglur, o ran pennu'r fframwaith polisi ac yna swyddogaeth y cynghorau newydd. Felly, mae'n rhaid inni fod yn eglur ynghylch beth yn union yr ydym ni eisiau iddynt ei wneud. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni hefyd ystyried, a chadw mewn cof, holl fater datganoli pŵer yn briodol i'r cynghorau newydd hynny, ac, o bosibl, llai o ficoreoli ar y gweithgareddau a gynhelir y tu mewn iddynt.

Rwy'n wyliadwrus i ryw raddau ynghylch mater y ffiniau, oherwydd fy mod yn credu bod cyfleoedd yn deillio o'r adroddiad hwn ac o'r ad-drefnu: er enghraifft, yn effeithio ar fy etholaeth i yn arbennig, a yw'n rhesymegol rhoi dau o'r awdurdodau tlotaf mewn un ardal at ei gilydd a'u huno, yn hytrach nag ystyried y potensial ar gyfer ehangu sail economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol. Efallai na fydd yn ymarferol gwneud hynny, neu efallai y bydd problemau ynghlwm wrth wneud hynny, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei ystyried yn rhan o'r drafodaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think that there is another area in terms of local democracy that is considered by the report that requires further discussion: the role of community councils. The role that they play is very diverse across Wales. There may be a broader democratic role that they could play, and I think that some consideration needs to be given to that, as well.

One of the concerns that I have is over the timescale of the debate, because it has to be one that achieves consensus—this is setting the democratic norms for the next couple of decades, really—is the recommendation over early adopters, which seems to suggest that steps can be taken ahead of time. My real concern is that there may be a sort of piecemeal approach in some areas to moving forward, and there may be incentives that are not really clarified. That would undermine the consultation and the process of building a consensus around these proposals.

However, that having been said, this is an important report and it is one of the most important debates that we are going to have during the term of this Assembly. It is vitally important that we get it right.

Credaf fod maes arall o ran democratiaeth leol y mae'r adroddiad yn ei ystyried ac y mae angen ei drafod ymhellach: swyddogaeth cyngorau cymuned. Mae eu swyddogaeth nhw'n amrywiol iawn ledled Cymru. Efallai y gallent gyflawni swyddogaeth ddemocrataidd ehangach, ac rwy'n credu bod angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hynny hefyd.

Un o'r pryderon sydd gennyf yw amserlen y ddadl, gan fod yn rhaid iddi fod yn un sy'n sicrhau consensws—mae hyn yn pennu'r normau democrataidd ar gyfer yr ychydig ddegawdau nesaf, mewn gwirionedd—a'r argymhelliad yn ymwneud â mabwysiadwyr cynnar. Mae'n ymddangos bod hwnnw'n awgrymu y gellir cymryd ymlaen llaw. Fy mhryder gwirioneddol yw y gallai pethau symud ymlaen mewn dull tameidiog mewn rhai ardaloedd, ac y gallai fod cymhellion nad ydynt wedi eu hegluro mewn gwirionedd. Byddai hynny'n tansellio'r ymgynghoriad a'r broses o ddatblygu consensws ynglŷn â'r cynigion hyn.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae hwn yn adroddiad pwysig ac mae'n un o'r dadleuon pwysigaf yr ydym ni'n mynd i'w chael yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cael pethau'n iawn.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the First Minister to reply to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that it is worth emphasising, first of all, that today's motion is a noting motion. Peter Black seemed to have the view that this was, somehow, an attempt to force opposition parties to back what was said in the Williams commission's report; that is not what this motion is about. I thought, in my naivety, that it might be an idea for Members to be able to debate this issue earlier on. I wonder why I bothered to do that now, but there it is; there has been an initial debate, whatever happens.

What is the Government's view? I will explain it to Rhodri Glyn Thomas quite simply: there are too many councils. There need to be fewer councils. I note what is in the commission's report and that must be the starting point. That is not to say that Members should feel that they should accept each and every recommendation that the commission comes up with; of course, that is not the case, but that has to be the starting point for any discussions.

It is preposterous that there are 22 trading standards departments. There are 22 social services departments that have struggled for 18 years to recruit people and to provide the right level of mentoring for new people who join those departments. We have 22 local education authorities, six of which are in special measures. I have to say that, with one or two of them, it is difficult to see how they will ever come out of special measures. That is not a sustainable situation. One local authority collapsed: Ynys Môn. That must give us cause for concern.

Rwy'n meddwl ei bod yn werth pwysleisio, yn gyntaf oll, mai cynnig i nodi yw cynnig heddiw. Mae'n ymddangos bod Peter Black o'r farn bod hon, rywsut, yn ymdrech i orfodi'r gwrthbleidiau i gefnogi'r hyn a ddywedwyd yn adroddiad comisiwn Williams; nid dyna yw diben y cynnig hwn. Roeddwn i'n meddwl, yn fy niniweidrwydd, efallai y byddai'n syniad i'r Aelodau allu trafod y mater hwn yn gynnar. Nid wyf yn siŵr erbyn hyn pam gwnes i drafferthu, ond dyna ni; rydym ni wedi cael dadl gychwynnol, beth bynnag fydd yn digwydd.

Beth yw barn y Llywodraeth? Byddaf yn ei esbonio i Rhodri Glyn Thomas yn eithaf syml: mae gormod o gynghorau. Mae angen cael llai o gynghorau. Rwy'n nodi'r hyn sydd yn adroddiad y comisiwn ac mae'n rhaid mai dyna'r man cychwyn. Nid yw hynny'n golygu y dylai'r Aelodau deimlo y dylent dderbyn pob un argymhelliad y mae'r comisiwn yn ei gynnis; nid felly mae hi, wrth gwrs, ond mae'n rhaid mai dyna'r man cychwyn ar gyfer unrhyw drafodaethau.

Mae'n afresymol bod 22 o adrannau safonau masnach. Ceir 22 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'i chael yn anodd recriwtio pobl a darparu mentora ar y lefel gywir i bobl newydd sy'n ymuno â'r adrannau hynny ers 18 mlynedd. Mae gennym 22 o awdurdodau addysg lleol, ac mae chwech ohonynt mewn mesurau arbennig. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod yn anodd gweld sut y bydd un neu ddau ohonynt fyth yn dod allan o fesurau arbennig. Nid yw honno'n sefyllfa gynaliadwy. Methodd un awdurdod lleol yn llwyr: Ynys Môn. Mae'n rhaid bod hynny'n achos pryder inni.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We have 25 local planning authorities. That is a severe drawback when it comes to trying to attract investment to Wales. The number of times that I have heard investors complain about the number of authorities that they have to deal with is remarkable. It is also the case that, while they are able to deal with ordinary planning applications, dealing with a large planning application is very difficult for them. They are not able to give pre-application advice, as the English authorities can, because they just do not have the capacity to do so. That cannot possibly continue in future; there must be fewer local authorities as a result. The only other alternative that I can see is that we keep the same number of local authorities but take some of their powers. We cannot carry on as we are; there is no question about that.

I would prefer to have local authorities that are strong, to have fewer of them and, indeed, to consider what powers could be devolved down to local authorities. I spend a lot of my time arguing for powers to be devolved from London to here. I am fully aware of the fact that the same argument applies to devolving powers to local authorities, as long as they are able to deal with those powers. I do not believe that they are able to do so in their present structure, but they might be able to in a future structure. That is something that we should consider, of course, as Members.

17:10 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfraniad hwnnw gan y Prif Weinidog—mae'n drueni na ddywedodd hynny ar ddechrau'r drafodaeth; byddai'r drafodaeth wedi elwa cryn dipyn o hynny. Mae'n sôn am niferoedd, gan ddweud bod llawer gormod. Rwy'n gobeithio, Brif Weinidog, nad ymgynghoriad o fewn y Blaid Lafur ynglŷn â faint yn union o awdurdodau lleol a fydd a pha awdurdodau lleol a fydd yn ymuno â'i gilydd er mwyn plesio'r Blaid Lafur fydd eich ymgynghoriad chi.

17:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na. Ni ddylai hynny ddigwydd. Mae'n rhaid i mi ddweud y hoffwn weld y sefydliad y mae Williams wedi ei nodi yn destun y drafodaeth.

Leanne Wood made the point that there should not be wholesale horse-trading—absolutely right. The last thing that we need is to spend months deciding what the boundaries should be, which ward should go where and what might be of advantage to our different parties. That is not what the people of Wales want. I entirely agree with her; there should not be wholesale horse-trading. The problem is that you then get Peter Black saying that there should be, in effect, lots of discussions about boundaries and about where communities should go. We have to have a consistent approach here. My opinion is that we have a proposal on the table—

*Peter Black a gododd—*

Mae gennym 25 o awdurdodau cynllunio lleol. Mae honno'n anfantais ddifrifol wrth geisio denu buddsoddiad i Gymru. Mae'n rhyfeddol cynifer o weithiau yr wyf wedi clywed buddsoddwyr yn cwyno am nifer yr awdurdodau y mae'n rhaid iddynt ymdrin â nhw. Mae hefyd yn wir eu bod yn gallu ymdopi â cheisiadau cynllunio arferol, ond ei bod yn anodd iawn iddynt ymdrin â chais cynllunio mawr. Nid ydynt yn gallu rhoi cyngor cyn cyflwyno cais, fel y gall yr awdurdodau yn Lloegr, gan nad yw'r adnoddau ganddynt i wneud hynny. Nid oes modd i hynny barhau yn y dyfodol; mae'n rhaid cael llai o awdurdodau lleol o ganlyniad. Yr unig ddeuwis arall y gallaf ei weld yw ein bod yn cadw'r un nifer o awdurdodau lleol ond yn cymryd rhai o'u pwerau oddi arnynt. Ni allwn barhau â'r sefyllfa bresennol; nid oes amheuaeth am hynny.

Byddai'n well gennyf i gael awdurdodau lleol sy'n gryf, cael llai ohonynt ac, yn wir, ystyried pa bwerau y gellid eu datganoli i lawr i awdurdodau lleol. Rwy'n treulio llawer o fy amser yn dadlau dros ddatganoli pwerau yma o Lundain. Rwy'n gwbl ymwybodol o'r ffaith bod yr un ddatl yn berthnasol i ddatganoli pwerau i awdurdodau lleol, cyn belled â'u bod yn gallu ymdopi â'r pwerau hynny. Nid wyf yn credu y gallant wneud hynny â'u strwythur presennol, ond efallai y byddant yn gallu â strwythur gwahanol yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y dylem ei ystyried, wrth gwrs, fel Aelodau.

I am grateful for that contribution from the First Minister—it is a pity that he did not say that at the beginning of the debate; the debate would have been better if he had. He talks about numbers, and says that there are too many. I hope, First Minister, that your consultation is not going to be an internal, Labour Party consultation on exactly how many local authorities we will have and which local authorities will merge, in order to placate the Labour Party.

No. That should not happen. I must say that I would like to see what has been recommended by Williams being the focus of the debate.

Gwnaeth Leanne Wood y pwynt na ddylai fod bargeinio ar raddfa eang—mae hi yn llygad ei lle. Y peth olaf sydd ei angen arnom yw treulio misoedd yn penderfynu beth ddylai'r ffiniau fod, pa ward ddylai fynd ble a beth allai fod o fantais i'n gwahanol bleidiau. Nid dyna y mae pobl Cymru ei eisiau. Rwy'n cytuno'n llwyr â hi; ni ddylai fod bargeinio caled. Y broblem yw eich bod wedyn yn cael Peter Black yn dweud y dylid, i bob pwrpas, cynnal llawer o drafodaethau ynghylch ffiniau ac ynghylch ble y dylai cymunedau fynd. Mae'n rhaid i ni gael ymdriniaeth gyson yma. Fy marn i yw bod gennym gynnig o'n blaenau—

*Peter Black rose—*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



17:11

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In a second. It is not entirely complete, because we know that there is an open question with regard to the old west Glamorgan authority plus Bridgend and, indeed, further west that would need to be resolved. Nevertheless, that must be the starting point for any discussion. The difficulty is that, once you start looking at different boundaries, which authority merges with which authority and where communities should go, the whole thing starts to unravel. It is not a situation where you can just tinker around the edges, that is part of the difficulty.

Mewn eiliad. Nid yw'n gwbl gyflawn, gan y gwyddom fod yna gwestiwn agored y byddai angen ei ateb o ran hen awdurdod gorllewin Morgannwg yn ogystal â Phen-y-bont ar Ogwr ac, yn wir, ymhellach i'r gorllewin. Serch hynny, mae'n rhaid mai dyna'r man cychwyn ar gyfer unrhyw drafodaeth. Yr anhawster yw bod yr holl beth yn dechrau datod, os byddwch yn dechrau edrych ar wahanol ffiniau, pa awdurdod sy'n uno â pha awdurdod a lle y dylai cymunedau fynd. Nid yw'n sefyllfa lle y gallwch wneud mân newidiadau o gwmpas yr ymylon, mae hynny'n rhan o'r anhawster.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:12

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not arguing for horse-trading. I am arguing that we should try to get this right. That means that we have to make sure that these local authorities reflect natural communities. I do not believe that the proposals, as they are set out at the moment, do that.

Nid wyf yn dadlau dros fargeinio. Rwy'n dadlau y dylem geisio gwneud pethau'n iawn. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod yr awdurdodau lleol hyn yn adlewyrchu cymunedau naturiol. Nid wyf yn credu bod y cynigion, fel y maent wedi eu cyflwyno ar hyn o bryd, yn gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:12

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is clearly an opinion that you have and is something that can be discussed, but I come back to the point that I made: once you start unravelling one or two, you pretty much start to unravel the lot. That has to be looked at with care. It does not mean that it should not be looked at at all—clearly not—but it has to be looked at with care; there is no question about that in my mind.

Mae honno'n amlwg yn farn sydd gennych chi ac yn rhywbeth y gellir ei drafod, ond rwy'n dychwelyd at fy mhwynt cynharach: os byddwch yn dechrau datod un neu ddau, byddwch yn dechrau'n datod y cwbl fwy neu lai. Mae'n rhaid ystyried hynny'n ofalus. Nid yw'n golygu na ddylid ystyried y pwynt o gwbl—yn amlwg—ond mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus; nid oes amheuaeth o gwbl am hynny yn fy meddwl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of what Leanne Wood said about excellent public services, I did not say it specifically but it is what we all aspire to, surely. I join with her in supporting that. Peter, in his speech, talked about how we should look at the allocation of responsibilities—absolutely right. That is absolutely true. I come back to the point that I made earlier about how important it is to look at what goes where and at what powers might go to local authorities that might be able to deal with those powers.

O ran yr hyn a ddywedodd Leanne Wood am wasanaethau cyhoeddus rhagorol, ni ddywedais i hynny'n benodol ond dyna yw uchelgais pob un ohonom, debyg iawn. Rwy'n ymuno â hi i gefnogi hynny. Siaradodd Peter, yn ei araith, am sut y dylem ystyried y broses o neilltuo cyfrifoldebau—cwbl gywir. Mae hynny'n hollol wir. Dychwelaf at fy mhwynt cynharach ynglŷn â pha mor bwysig yw edrych ar yr hyn sy'n mynd i ble ac ar ba bwerau a allai fynd i awdurdodau lleol a allai ymdopi â'r pwerau hynny.

We are also in a situation, as we know, of many local authorities spending an arm and a leg on employing senior officers, mainly because they are fishing in a small pond of senior officers. That means that we have seen incredible salary inflation for senior officers. Again, that is something that we need to consider in the future.

Rydym ni hefyd mewn sefyllfa, fel y gwyddom, lle y mae llawer o awdurdodau lleol yn gwario ffortiwn ar gyflogi uwch swyddogion, yn bennaf oherwydd eu bod yn pysgota mewn pwll bychan o uwch swyddogion. Mae hynny'n golygu ein bod wedi gweld chwyddiant cyflogau anhygoel ar gyfer uwch swyddogion. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni ei ystyried yn y dyfodol.

Russell George talked about the merger of Powys County Council and the local health board. I think that that can be dealt with. The commission said that that is something that could be dealt with. Yes, the deficit would need to be dealt with; that is right. In terms of how it would work, the commission has said that it would work well. Powys is the smallest authority in terms of population, as we know. There is scope for Powys being more innovative in the way that services are delivered within Powys.

Soniodd Russell George am uno Cyngor Sir Powys a'r bwrdd iechyd lleol. Rwy'n meddwl y gellir ymdrin â hynny. Dywedodd y comisiwn fod hynny'n rhywbeth y gellid ymdrin ag ef. Mae'n wir y byddai angen ymdrin â'r diffyg. O ran sut y byddai'n gweithio, mae'r comisiwn wedi dweud y byddai'n gweithio'n dda. Powys yw'r awdurdod lleiaf o ran poblogaeth, fel y gwyddom. Mae lle i Bowys fod yn fwy arloesol yn y ffordd y darperir gwasanaethau o fewn Powys.

The one thing that I would emphasise to Members is this: I see nothing wrong in consulting with my party. You have my view. The view that I will be putting to my party is that we have a report, we need to move forward and we need to make sure that local government and all public services are able to deliver excellent public service in the future.

I am coming to an end, Dirprwy Lywydd, but one thing that I would remind Members of is that this report is now on the table. The longer it takes to get to a resolution, the more difficult it will be for local authorities to recruit. It will be very difficult for local authorities to recruit senior officers, particularly, if they think that there is a limited lifespan to the job that they are being offered. It is not the case that there are many years that we can take to look at this issue. That will not work. An appropriate amount of time, of course; discussions between parties, of course; but there is no doubt, Dirprwy Lywydd, that, looking at the commission's report—it is a very strong report—there needs to be change. Now, of course, the debate will begin in terms of what that change should look like.

Yr un peth y byddwn i'n ei bwysleisio i'r Aelodau yw hyn: nid wyf yn gweld dim o'i le mewn ymgynghori â'm plaid. Rydych chi wedi clywed fy marn i. Y farn y byddaf i'n ei chyflwyno i'm plaid yw bod gennym adroddiad, bod angen inni symud ymlaen a bod angen inni wneud yn siŵr bod llywodraeth leol a phob gwasanaeth cyhoeddus yn gallu darparu gwasanaeth cyhoeddus rhagorol yn y dyfodol.

Rwy'n dirwyn i ben, Ddirprwy Lywydd, ond un peth y byddwn yn atgoffa'r Aelodau ohono yw bod yr adroddiad hwn wedi ei gyflwyno bellach. Po hiraf y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad, y mwyaf anodd y bydd hi i awdurdodau lleol recriwtio. Bydd yn anodd iawn i awdurdodau lleol recriwtio uwch swyddogion, yn enwedig, os byddant yn credu mai oes gyfyngedig sydd i'r swydd a gynigir. Nid yw'n wir bod blynyddoedd lawer ar gael inni i ystyried y mater hwn. Ni fydd hynny'n gweithio. Cyfnod priodol o amser, wrth gwrs; trafodaethau rhwng pleidiau, wrth gwrs; ond nid oes amheuaeth, Ddirprwy Lywydd, o edrych ar adroddiad y comisiwn—mae'n adroddiad cryf iawn—bod angen i bethau newid. Nawr, wrth gwrs, bydd y ddadl yn dechrau o ran sut y dylai pethau newid.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbynir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

The question is that amendment 1 be agreed to. Is there any objection? No. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbynir gwelliant 2.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? There is no objection. Therefore, amendment 2 is agreed.

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf pob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

The question is that amendment 3 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore, I will defer all further voting on this item until voting time.

*Voting deferred until voting time.*

17:15

## Cyfnod Pleidleisio

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the rest of the voting on this motion, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are; ring the bell.

*Canwyd y gloch i alw'r Aelodau i'r Siambr.*

## Voting Time

Mae amser pleidleisio yn dilyn nawr. Cyn imi gynnal gweddill y pleidleisio ar y cynnig hwn, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Oes; canwch y gloch.

*The bell was rung was rung to call Members to the Chamber.*

Y Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The five minutes are now up.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5412.](#)

Trefn. Mae'r pum munud ar ben.

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5412.](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 1.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 1.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5412.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5412.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.

Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5412.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5412.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 15, Against 37, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5412.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5412.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 36, Abstain 0.

Cynnig NDM5412 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5412 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi amserlen ar gyfer ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a

1. Calls upon the Welsh Government to indicate a timeframe to respond to the recommendations in the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery, and

2. Os bwriedir gweithredu'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiffinio'r canlynol:

2. If minded to implement the recommendations in the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery, calls on the Welsh Government to define:

a) swyddogaeth a strwythur unrhyw ardaloedd awdurdodau lleol newydd;

a) the function and structure of any new local authority areas;

b) system dryloyw ar gyfer monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth o wasanaethau yn yr ardaloedd hynny;

b) a transparent system of monitoring and evaluating service delivery in those areas;

c) y nifer o etholwyr a ragwelir ar gyfer pob cynghorydd yn yr ardaloedd hynny.

c) the anticipated number of electors per councillor in those areas.

3. Yn nodi Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

3. Notes the Report of the Commission on Public Service Governance and Delivery.

4. Yn croesawu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad y Comisiwn am yr angen i leihau cymhlethdod mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn cadarnhau y dylai unrhyw newidiadau o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus wella canlyniadau ar gyfer ein dinasyddion.

4. Welcomes the evidence presented in the Commission report on the need to reduce complexity in public services and affirms that any changes to public service delivery should improve outcomes for our citizens.

5. Yn credu, os cytunir ar ostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol, yna y dylai gostyngiad ddigwydd hefyd yng nghyfanswm nifer y cynghorwyr.

5. Believes that if a reduction in the number of local authorities is agreed, then a reduction in the overall number of councillors should take place.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5412 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5412 as amended.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5412 fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion NDM5412 as amended agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

17:23

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:23.*

*The meeting ended at 17:23.*